

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 07/05/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)  
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)  
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Dyraniadau Cyfalaf](#)  
[Statement: Capital Allocations](#)

[Datganiad: Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol](#)  
[Statement: National Procurement Service](#)

[Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus](#)  
[Public Service Reform](#)

[Adolygiad yr Athro McClelland o Wasanaethau Ambiwylans Cymru](#)  
[The Professor McClelland Review of Welsh Ambulance Services](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd*  
*(Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer*  
*(Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Clystyrau Newydd Cymunedau yn Gyntaf

### Communities First Clusters

13:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am glystyrau newydd Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(4)1034(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on the new Communities First clusters? OAQ(4)1034(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

All 52 Communities First clusters are now approved and the majority are already up and running, with the remainder now taking shape. They are working to ensure that their delivery plans and community improvement plans make a real impact on tackling poverty.

Mae pob un o'r 52 clwstwr Cymunedau yn Gyntaf wedi'u cymeradwyo bellach, ac mae'r mwyafrif wedi cychwyn eu gwaith eisoes, a'r gweddill yn ymfurfio ar hyn o bryd. Maen nhw'n gweithio i sicrhau bod eu cynlluniau cyflawni a'u cynlluniau gwella cymunedau yn cael effaith wirioneddol ar fynd i'r afael â thlodi.

13:31 **Mike Hedges** [Bywgraffiad Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

I welcome the setting up of clusters, which show the importance of Communities First in areas of deprivation and shows Welsh Labour's commitment to protect our most vulnerable communities. Will the First Minister support extending Communities First activity into smaller contiguous areas to Communities First clusters? These areas have equal problems but do not show up because affluent areas are part of their lower super output area. They are, however, part of the same Communities First areas.

Rwy'n croesawu sefydlu clystyrau, sy'n dangos pwysigrwydd Cymunedau yn Gyntaf mewn ardaloedd o amddifadedd ac yn dangos ymrwymiad Llafur Cymru i amddiffyn ein cymunedau mwyaf agored i niwed. A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi ymestyn gweithgarwch Cymunedau yn Gyntaf i ardaloedd llai sy'n cyffinio â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf? Mae gan yr ardaloedd hyn yr un faint o broblemau ond nid ydynt yn dod i'r amlwg gan fod ardaloedd cefnog yn rhan o'u hardal cynnyrch ehangach haen is. Maen nhw, er hynny, yn rhan o'r un ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
The programme has a strong emphasis on helping the most deprived and vulnerable people in Wales rather than focusing on physical boundaries. The cluster areas are designed to take into account the specific needs of individual communities and to be flexible with their boundaries, and therein lies the possibility of trying to extend their activities in terms of their flexibility.
- Mae'r rhaglen yn rhoi pwyslais cryf ar helpu'r bobl fwyaf difreintiedig ac agored i niwed yng Nghymru yn hytrach na chanolbwyntio ar ffiniau ffisegol. Mae ardaloedd y clystyrau wedi'u cynllunio i gymryd anghenion penodol cymunedau unigol i ystyriaeth ac i fod yn hyblyg gyda'u ffiniau, a dyna lle ceir y posibilrwydd o geisio ymestyn eu gweithgareddau o ran eu hyblygrwydd.
- 13:32 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
How do you respond to concerns that, having rejected the call by the Wales Council for Voluntary Action for a greater community-owned dimension and moving away from Government dependency, and instead giving responsibility for safeguarding the community-focused nature of the programme to lead delivery bodies for each Communities First cluster, this does not ensure that the community is, by right, involved in the decisions that affect it, without that community-owned dimension?
- Sut ydych chi'n ymateb i bryderon, ar ôl gwrthod y galw gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am fwy o ddimensiwn o berchnogaeth gan y gymuned a symud oddi wrth ddibyniaeth ar y Llywodraeth, a rhoi cyfrifoldeb, yn hytrach, am ddiogelu natur gymunedol y rhaglen i gyrrff cyflawni arweiniol ar gyfer pob clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, nad yw hyn yn sicrhau bod y gymuned, drwy hawl, yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arni, heb y dimensiwn hwnnw o berchnogaeth gan y gymuned?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
That is not the experience of Communities First in years gone by. It is a community-focused programme, of course, with the strategic outcomes of healthy communities, learning communities and prosperous communities. It is important then that there is a lead delivery body to provide leadership, and that is what those bodies will do.
- Nid dyna'r profiad a gafwyd o Gymunedau yn Gyntaf yn y blynyddoedd a fu. Mae'n rhaglen sy'n canolbwyntio ar y gymuned, wrth gwrs, â'r canlyniadau strategol o gymunedau iach, cymunedau sy'n dysgu a chymunedau sy'n ffynnu. Mae'n bwysig felly bod corff cyflawni arweiniol i ddarparu arweinyddiaeth, a dyna beth fydd y cyrff hynny yn ei wneud.
- 13:33 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau cydraddoldeb gwasanaethau rhwng holl feysydd blaenorol Cymunedau'n Gyntaf o fewn y clystyrau newydd? Aeth un o'm haelodau staff i glwstwr yng Nghastell-nedd i drafod yr hyn a fydd yn digwydd, ac roedd consŷrn yno y byddai'r ardaloedd ar gyrion y clwstwr yn cael eu hanwybyddu, neu ddim yn cael yr un faint o gefnogaeth ag yr oeddent yn arfer ei gael o dan yr hen system. A oes gennych chi farn am hynny?
- How will the Welsh Government ensure equality of service between all the former Communities First areas within the new clusters? One of my staff members visited a cluster in Neath to discuss what will happen, and there was concern there that areas on the periphery of the cluster would be ignored, or would not get the same level of support as under the old system. Do you have a view on that?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Nid oes angen i hynny ddigwydd, ond, o ran yr ardaloedd eu hunain, mae'n bwysig dros ben eu bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fod yn llwyddiannus. Nid yw hynny'n golygu na ddylai cymunedau eraill gael unrhyw ystyriaeth o gwbl gan Lywodraeth, ac mae'n bwysig dros ben bod Cymunedau'n Gyntaf yn gallu canolbwyntio ar y cymunedau sydd angen yr help mwyaf.
- There is no need for that to happen, but, in terms of the areas themselves, it is very important that they get the support that they need to be successful. That does not mean that other communities should receive no Government consideration at all, and it is vital that Communities First is able to focus on the communities in most need.
- 13:33 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
I also welcome, with regard to tackling poverty, the Communities First trust fund, where £3,000-projects will be provided for specific objectives within Communities First areas. Is the First Minister able to give any indication as to when the trust fund will start operation?
- Rwyf hefyd yn croesawu, o ran mynd i'r afael â thlodi, cronfa ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf, lle bydd prosiectau £3,000 yn cael eu darparu ar gyfer amcanion penodol mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. A all y Prif Weinidog roi unrhyw arwydd o bryd fydd y gronfa ymddiriedolaeth yn dechrau gweithredu?

13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The Minister for Local Government and Communities announced on 1 February that the trust fund will be replaced by a new tackling poverty small grants fund. That is being taken forward at present and I will write to the Member in terms of the more detailed timetable.</p>	<p>Cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 1 Chwefror y bydd y gronfa ymddiriedolaeth yn cael ei disodli gan gronfa grantiau bach trechu tldi newydd. Mae hynny'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod am yr amserlen fwy manwl.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Cyfyngiadau Cyflymder yng Nghyffiniau Ysgolion</b></p>		<p><b>Speed Limits in the Vicinity of Schools</b></p>	
13:34	<p><b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i leihau cyfyngiadau cyflymder yng nghyffiniau ysgolion? OAQ(4)1045(FM)</i></p>	<p><i>2. Will the First Minister outline what plans the Welsh Government has to reduce speed limits in the vicinity of schools? OAQ(4)1045(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We support the introduction of lower speed limits in the vicinity of schools, where this is appropriate. Most schools are on local roads, where speed limits are the responsibility of the local authority.</p>	<p>Rydym yn cefnogi cyflwyno cyfyngiadau cyflymder is yng nghyffiniau ysgolion, lle mae hyn yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion ar ffyrdd lleol, lle mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol am derfynau cyflymder.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Nick Ramsay</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Will you consider giving your support to the pupils of Wyedean School in my area, who recently presented a petition to the Assembly's Petitions Committee calling for the speed limit on the A48 bridge, which crosses the Wye in Chepstow, to be reduced from 50 mph to 30 mph. This is a main route to their school, and the road currently also severs the centre of Chepstow from its railway station and houses. I am sure that you appreciate that it is notoriously difficult to get speed limits changed. Would you therefore give your backing to this, because the sooner the speed limit is reduced, the sooner we will ensure that lives are not lost in the future?</p>	<p>A wnewch chi ystyried rhoi eich cefnogaeth i ddisgyblion Ysgol Wyedean yn fy ardal i, a gyflwynodd ddeiseb i Bwyllgor Deisebau'r Cynulliad yn ddiweddar yn galw i'r terfyn cyflymder ar bont yr A48, sy'n croesi Afon Gwy yng Nghas-gwent, i gael ei ostwng o 50 milltir yr awr i 30 milltir yr awr. Mae hwn yn un o'r prif lwybrau i'w hysgol, ac mae'r ffordd hefyd yn gwahanu canol Cas-gwent oddi wrth ei gorsaf reilffordd a'i thai ar hyn o bryd. Rwy'n siŵr eich bod yn gwerthfawrogi ei bod yn ddjarhebol anodd i sicrhau newid i derfynau cyflymder. A fydddech chi'n barod i gefnogi hyn felly, oherwydd cynta'n byd y bydd y terfyn cyflymder yn cael ei ostwng, cynta'n byd y byddwn yn sicrhau nad yw bywydau'n cael eu colli yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I understand the depth of feeling. If I remember rightly, the Wye bridge forms part of the border, and so there is joint responsibility for the bridge itself. However, we are conducting a speed limit review of all our trunk roads, and completion of the A48 review is due by the end of June.</p>	<p>Rwy'n deall y teimladau cryf. Os rwy'n cofio'n iawn, mae pont Gwy yn rhan o'r ffin, ac felly mae cyfrifoldeb ar y cyd am y bont ei hun. Fodd bynnag, rydym yn cynnal adolygiad o derfynau cyflymder ar ein holl gefnffyrdd, a disgwylir i'r adolygiad o'r A48 gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mehefin.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Simon Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Brif Weinidog, yn ddiweddar bûm yn cynorthwyo rhieni a'r gymuned o gwmpas Ysgol Gynradd Pentip yn Llanelli a oedd yn pryderu am ddiogelwch ar y ffyrdd o gwmpas yr ysgol honno. Mae eu hymgyrch wedi bod yn weddol lwyddiannus, ac mae'r achos wedi symud i fyny rhestr blaenoriaethau'r cyngor sir. Fodd bynnag, oni ddylai fod rhagdybiaeth o blaid diogelwch o gwmpas ein hysgolion? Pam mae'n rhaid i rieni wastad frwydro dros ddiogelwch? Oni ddylai hynny ddigwydd?</p>	<p>First Minister, I have recently been helping parents and the community around Pentip primary school in Llanelli who were concerned about road safety in the vicinity of the school. Their campaign has been fairly successful, and the case has moved up the list of county council priorities. However, should there not be a presumption in favour of safety around our schools? Why do parents always have to fight for safety? Should that not just happen?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:36	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn gwybod yn union beth yw'r sefyllfa o gwmpas pob ysgol yn eu hardal, er mwyn gweld a oes rhaid arafu traffig o gwmpas yr ysgol. Felly, mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn sicrhau eu bod yn gwneud y gwaith hwn, er mwyn iddynt wybod ym mhle y dylent sicrhau bod ceir yn mynd yn fwy araf.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>It is important that local authorities ensure that they know exactly what the situation is around all their schools, so that they know whether or not they need to restrict the speed of traffic around those schools. Therefore, it is vital that local authorities ensure that they do that work, so that they know where they need to restrict the speed of traffic.</p>
<p><b>Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau</b></p>	<p><b>Questions Without Notice from the Party Leaders</b></p>	
13:36	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move to questions without notice from the party leaders. The first question this afternoon is from the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Symudwn nawr at gwestiynau heb rybudd gan arweinwyr y pleidiau. Daw'r cwestiwn cyntaf y prynhawn yma gan arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.</p>
13:36	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition</i></p> <p>Thank you, Presiding Officer. First Minister, why did the Welsh Government that you were leading in the third Assembly terminate the contract with the London Women's Clinic in Swansea?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, pam y terfynwyd y contract gyda Chlinig Menywod Llundain yn Abertawe gan Lywodraeth Cymru yr oeddech chi'n ei harwain yn y trydydd Cynulliad?</p>
13:37	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The third Assembly? We are going back some time now. This question has been rehearsed many times in the Assembly. It is in order to ensure that we have a service in place in Wales. The licensing process is taking place at present, and we expect that the new unit will be up and running as soon as possible.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Y trydydd Cynulliad? Rydym yn mynd yn ôl gryn amser nawr. Mae'r cwestiwn wedi cael ei ailadrodd droeon yn y Cynulliad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gennym wasanaeth ar waith yng Nghymru. Mae'r broses drwyddedu yn cael ei chyflawni ar hyn o bryd, ac rydym yn disgwyl y bydd yr uned newydd ar agor cyn gynted â phosibl.</p>
13:37	<p><b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, First Minister. I am glad that you recognise that it was such a considerable time ago. Over that time, a 7,500% increase has occurred in the waiting times for IVF treatment in Wales, because of the decision that you took, which was based on ideological grounds, because you did not want the independent sector to provide those services. How can it be fair to people who want the greatest gift in life, namely to be able to have children, to have that gift taken away from them because of the ideological decision that you took? It is clear that there were no other reasons why that contract was ripped up. Furthermore, every commitment that your Government has given to date, including the last one that the previous Minister for Health and Social Services gave that the service would be up and running in Neath Port Talbot Hospital on 1 April this year, has not been achieved. In fact, that commitment was 12 months late itself. Do you not recognise that you have failed to deliver for people who hold that gift so precious, and when will you start to address the failure in IVF services in Wales?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p> <p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n falch eich bod yn cydnabod ei fod cymaint o amser yn ôl. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bu cynnydd o 7,500% i'r amseroedd aros ar gyfer triniaeth IVF yng Nghymru, oherwydd y penderfyniad a wnaethoch chi, a oedd yn seiliedig ar ideoleg, gan nad oeddech yn dymuno i'r sector annibynnol ddarparu'r gwasanaethau hynny. Sut y gall hi fod yn deg i bobl sy'n dymuno cael y rhodd mwyaf mewn bywyd, sef y gallu i gael plant, gollir rhodd hwnnw oherwydd y penderfyniad ideolegol a wnaethpwyd gennych? Mae'n amlwg nad oedd unrhyw resymau eraill pam y cafodd y contract ei ddiddymu. Hefyd, ni fodlonwyd yr un un o'r ymrwymadau y mae eich Llywodraeth wedi eu gwneud hyd yn hyn, gan gynnwys yr un diwethaf a wnaed gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol y byddai'r gwasanaeth yn weithredol yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar 1 Ebrill eleni. Yn wir, roedd yr ymrwymiad hwnnw flwyddyn yn hwyr ei hun. Onid ydych chi'n cydnabod eich bod wedi methu â chyflawni ar ran pobl y mae'r rhodd hwnnw mor werthfawr iddynt, a phryd wneud chi ddechrau mynd i'r afael â'r methiant mewn gwasanaethau IVF yng Nghymru?</p>

- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- As I said to the leader of the opposition, the unit will be in place as soon as possible; the licensing process is coming to an end. In the meantime, it has been possible for people to obtain services elsewhere, particularly in Bristol. However, we now look forward to the service being concentrated in Neath Port Talbot, to provide better outcomes as well as better value for money.
- Fel y dywedais wrth arweinydd yr wrthblaid, bydd yr uned yn cael ei hagor cyn gynted â phosibl; mae'r broses drwyddedu yn dod i ben. Yn y cyfamser, mae wedi bod yn bosibl i bobl gael gwasanaethau mewn mannau eraill, yn enwedig ym Mryste. Fodd bynnag, edrychwn ymlaen nawr at ganolbwytio'r gwasanaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot, er mwyn darparu canlyniadau gwell yn ogystal â gwell gwerth am arian.
- 13:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- That is an appalling answer, First Minister. To date, it has cost the Welsh health service in excess of £1 million to try to replicate the service at Neath Port Talbot Hospital, which is still not open, some 12 months after the date that you promised. Furthermore, because of the massive increase in waiting times, many families who have a very short window of opportunity to access IVF services have most probably missed that opportunity because of the delays. How can you stand there and defend the decision that your Government took in the third Assembly—and has allowed to continue in this fourth Assembly—when you promised at the start of this fourth Assembly that your Government would be about delivering for the people of Wales? Is it not clear that you have failed to deliver for people in IVF circumstances in Wales, and, above all, that you have put huge pressure on clinicians who are trying to deliver this service in south Wales? Will you commit today to ensuring that all the resources of Government are put to addressing the shortfall in this service, so that people can access IVF services in a timely manner, and actually start to address the huge waiting times that have built up because of your decisions?
- Dyna ateb ofnadwy, Brif Weinidog. Hyd yn hyn, mae wedi costio mwy na £1 filiwn i wasanaeth iechyd Cymru geisio cynnig gwasanaeth yr un fath â'r un yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, sy'n parhau i fod heb ei agor, tua blwyddyn ar ôl y dyddiad a addawyd gennyh. Hefyd, oherwydd y cynnydd enfawr i amseroedd aros, mae'n debyg bod llawer o deuluoedd sydd â chyfnod byr iawn o gyfle i gael mynediad at wasanaethau IVF wedi colli'r cyfle hwnnw oherwydd yr oedi. Sut gallwch chi sefyll yn y fan yna ac amddiffyn y penderfyniad a wnaed gan eich Llywodraeth yn y trydydd Cynulliad—ac y caniatawyd iddo barhau yn y pedwerydd Cynulliad hwn—pryd y gwnaethoch addewid ar ddechrau'r pedwerydd Cynulliad y byddai eich Llywodraeth yn cyflawni ar ran pobl Cymru? Onid yw'n eglur eich bod wedi methu â chyflawni ar ran pobl sydd mewn amgylchiadau IVF yng Nghymru, ac, yn anad dim, eich bod wedi rhoi pwysau enfawr ar glinigwyr sy'n ceisio darparu'r gwasanaeth hwn yn ne Cymru? A wnewch chi ymrwymo heddiw i sicrhau y rhoddir holl adnoddau'r Llywodraeth i fynd i'r afael â'r diffyg yn y gwasanaeth hwn, fel y gall pobl gael mynediad at wasanaethau IVF yn brydlon, a dechrau mynd i'r afael mewn gwirionedd â'r amseroedd aros hirfaith sydd wedi datblygu oherwydd eich penderfyniadau?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*
- If the leader of the opposition has any evidence that people have missed out on services—or have missed a window—then I would be pleased to see that evidence; there is no suggestion that that has happened. He also suggests that, somehow, people have not had access to a service, when they have. That service has been available in Bristol. We now look forward to setting up a value-for-money, good service provided by the NHS in Neath Port Talbot, and that is something that I am sure the people of Wales will welcome.
- Os oes gan arweinydd yr wrthblaid unrhyw dystiolaeth bod pobl wedi methu â chael gwasanaethau—neu sydd wedi colli cyfleoedd—yna byddwn yn falch o weld y dystiolaeth honno; nid oes awgrym bod hynny wedi digwydd. Mae hefyd yn awgrymu nad yw pobl, rywsut, wedi cael mynediad at wasanaeth, pan eu bod wedi cael hynny. Mae'r gwasanaeth hwnnw wedi bod ar gael ym Mryste. Edrychwn ymlaen nawr at sefydlu gwasanaeth da, sy'n cynnig gwerth am arian, a ddarperir gan y GIG yng Nghastell-nedd Port Talbot, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n siŵr y bydd pobl Cymru yn ei groesawu.
- 13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.
- Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.
- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*
- Thank you, Presiding Officer. First Minister, today the Estyn chief inspector has said that she is frustrated at the pace of change in our schools. Do you share that frustration?
- Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae prif arolygydd Estyn wedi dweud heddiw ei bod yn teimlo'n rhwystredig am gyflymder y newid yn ein hysgolion. A ydych chi'n rhannu'r rwystredigaeth honno?

13:40	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes, that is shared by the Minister for Education and Skills, who has made his view very clear in terms of how he wants to take forward issues of literacy and numeracy.</p>	<p>Ydw, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn rhannu hynny, ac mae wedi gwneud ei farn yn eglur iawn o ran sut y mae'n dymuno bwrw ymlaen â phroblemau yn ymwneud â llythrennedd a rhifedd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:40	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, First Minister, but literacy and numeracy remain major issues for the Welsh education system, as stated by the chief inspector today. She is concerned that her inspectors are not picking up the systematic improvements that she would like to see. If this fourth Assembly is all about delivery, when will our children in our schools see some?</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog, ond mae llythrennedd a rhifedd yn dal i fod yn broblemau mawr i system addysg Cymru, fel y nodwyd gan y prif arolygydd heddiw. Mae'n poeni nad yw ei harolygwyr yn sylwi ar y gwelliannau systematig y byddai'n hoffi eu gweld. Os mai nod y pedwerydd Cynulliad hwn yw cyflawni, pryd y bydd fydd ein plant yn ein hysgolion yn gweld hynny?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:41	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I do not think that inactivity is an allegation that can be fairly targeted at the Minister for education. He has put in place a number of plans to deal with literacy and numeracy. He has made absolutely clear what he feels needs to be done in terms of taking education forward in Wales and of improving literacy and numeracy. That is something that this Government is committed to.</p>	<p>Nid wyf yn credu bod anweithgarwch yn honiad y gellir ei dargedu'n deg at y Gweinidog addysg. Mae wedi sefydlu nifer o gynlluniau i fynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd. Mae wedi ei gwneud yn gwbl eglur yr hyn y mae o'r farn sydd angen ei wneud o ran datblygu addysg yng Nghymru, ac o ran gwella llythrennedd a rhifedd. Mae hynny'n rhywbeth y mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo iddo.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:41	<p><b>Kirsty Williams</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Inactivity, no; results, maybe. Your party, First Minister has been in charge of Wales's education system for 14 years. You and your Minister for education have been in post for four years. It is now approaching three years since the appalling Programme for International Student Assessment results, which prompted that 20-point plan that was meant to turn things around. In that statement to the Chamber, your Minister for education said that he was setting some clear targets with the aim of improving results in the next PISA assessment in 2012. Is it still your expectation that, when those results are published later this year, results will have improved? If they do not, what will you do about it?</p>	<p>Anweithgarwch, na; canlyniadau, efallai. Mae eich plaid chi, Brif Weinidog wedi bod yn gyfrifol am system addysg Cymru ers 14 mlynedd. Rydych chi a'ch Gweinidog addysg wedi bod yn eich swyddi ers pedair blynedd. Mae bron yn dair blynedd bellach ers canlyniadau gwarthus y Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol, a arweiniodd at y cynllun 20 pwynt hwnnw a oedd i fod i newid y sefyllfa. Yn y datganiad hwnnw i'r Siambr, dywedodd eich Gweinidog addysg ei fod yn gosod rhai targedau eglur gyda'r nod o wella canlyniadau yn yr asesiad PISA nesaf yn 2012. A ydych chi'n dal i ddisgwyl, pan gaiff y canlyniadau hynny eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni, y bydd canlyniadau wedi gwella? Os na fyddant wedi gwella, beth fyddwch chi'n ei wneud am y peth?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p>We expect to see improvement in the results of any tests that are taking place and taken forward. The reading tests, if I remember rightly, start this week. That shows the commitment of this Government to ensure that our literacy and numeracy levels are there with the best in Europe. Many plans have been taken forward in order to improve literacy and numeracy in Wales, and the Minister for education has, indeed, done that.</p>	<p>Rydym yn disgwyl gweld gwelliant i ganlyniadau unrhyw brofion sy'n cael eu cynnal a'u datblygu. Mae'r profion darllen, os rwy'n cofio'n iawn, yn dechrau yr wythnos hon. Mae hynny'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth hon i sicrhau bod ein lefelau llythrennedd a rhifedd ymhlith y gorau yn Ewrop. Datblygwyd llawer o gynlluniau er mwyn gwella llythrennedd a rhifedd yng Nghymru, ac, yn wir, mae'r Gweinidog addysg wedi gwneud hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:42	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Symudwn yn awr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



- 13:42 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*  
Diolch, Llywydd. Back in January 2012, it was announced that 20% of children start secondary school with a reading age below nine and a half years, which is generally considered to be the level of functional literacy. First Minister, you told this Chamber that you were confident that the figures will be improved on in years to come. However, Ann Keane says in the 'Western Mail' this morning that her inspectors are not picking up the systematic improvements that are required for the dramatic changes that our education system needs, as has just been pointed out. First Minister, activity does not equal results. Can you please explain to us why the chief inspector of schools thinks that parents will have to wait before changes begin to surface?
- Diolch, Lywydd. Yn ôl ym mis Ionawr 2012, cyhoeddwyd bod 20% o blant yn dechrau'r ysgol uwchradd ag oed darllen sy'n is na naw mlwydd a hanner, sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol fel y lefel llythrennedd gweithredol. Brif Weinidog, hysbyswyd y Siambr hon gennych eich bod yn hyderus y bydd y ffigurau yn gwella yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae Ann Keane yn dweud yn y 'Western Mail' y bore yma nad yw ei harolygwyr yn gweld y gwelliannau systematig sy'n ofynnol i sicrhau'r newidiadau dramatig sydd eu hangen ar ein system addysg, fel sydd newydd gael ei nodi. Brif Weinidog, nid yw gweithgarwch yn golygu canlyniadau. A allwch chi egluro i ni os gwelwch yn dda pam mae'r prif arolygydd ysgolion yn credu y bydd yn rhaid i rieni aros cyn y bydd newidiadau'n dechrau dod i'r amlwg?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
She should be supporting the position of the Minister for education, who has made it clear that there needs to be change, and change for the better, which is why the literacy and numeracy tests are being introduced.
- Dylai hi fod yn cefnogi safbwynt y Gweinidog addysg, sydd wedi ei gwneud yn eglur bod angen newid, a newid er gwell, a dyna pam mae'r profion llythrennedd a rhifedd yn cael eu cyflwyno.
- 13:43 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
The implementation of your improvement programmes has been heavily criticised. The national support programme has not yet begun and the national literacy and numeracy framework programme will not be statutory until September. Plaid Cymru believes that there is a lot more that could be done to improve our education system, such as early intervention with families, better training for teachers and making sure that our young boys are not failed in the way that they have been to date. It looks as though your Minister for education has become obsessed by structure and change within the education system at the expense of delivery. First Minister, when will the national literacy and numeracy framework begin to deliver?
- Mae gweithrediad eich rhaglenni gwella wedi ei feirniadu'n llym. Nid yw'r rhaglen gymorth genedlaethol wedi cychwyn eto ac ni fydd y rhaglen fframwaith llythrennedd a rhifedd genedlaethol yn statudol tan fis Medi. Mae Plaid Cymru yn credu bod llawer mwy y gellid ei wneud i wella ein system addysg, fel ymyrraeth gynnar gyda theuluoedd, gwell hyfforddiant ar gyfer athrawon a sicrhau nad yw ein bechgyn ifanc yn cael eu siomi yn y ffordd y maen nhw wedi eu siomi hyd yn hyn. Mae'n edrych yn debyg bod eich Gweinidog addysg ag obsesiwn am strwythur a newid o fewn y system addysg ar draul cyflawni. Brif Weinidog, pryd fydd y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol yn dechrau cyflawni?
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
We expect it to begin to deliver as it has begun to do. We expect to see results improve in the very near future. As for early intervention, that clearly is being done. When we look, for example, at the foundation phase, we see that the way in which that was introduced has helped so many children in key stage 1. We expect these things to deliver in order to ensure that our education system is up there with the best in Europe. The leader of Plaid Cymru says that she has policies to improve things, but she has not explained them. Certainly, as far as we are concerned, our record speaks for itself.
- Rydym yn disgwyl iddo ddechrau cyflawni fel y mae wedi dechrau ei wneud. Rydym yn disgwyl gweld canlyniadau'n gwella yn y dyfodol agos iawn. O ran ymyrraeth gynnar, mae hynny'n amlwg yn digwydd. Pan edrychwn ni, er enghraifft, ar y cyfnod sylfaen, rydym yn gweld bod y ffordd y cyflwynwyd hwnnw wedi helpu cymaint o blant yng nghyfnod allweddol 1. Rydym yn disgwyl i'r pethau hyn gyflawni er mwyn sicrhau bod ein system addysg ymhlith goreuon Ewrop. Mae arweinydd Plaid Cymru yn dweud bod ganddi bolisiau i wella pethau, ond nid yw wedi eu hesbonio. Yn sicr, o'n safbwynt ni, mae ein hanes blaenorol yn dystiolaeth o'n llwyddiant.
- 13:45 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
First Minister, you are the Government. You have just said that that process has just begun, and then you said that you expect things to improve in future. We would be grateful if you could clarify exactly what the position is.
- Brif Weinidog, chi yw'r Llywodraeth. Rydych chi newydd ddweud bod y broses newydd ddechrau, ac yna dywedasoch eich bod yn disgwyl i bethau wella yn y dyfodol. Byddem yn ddiolchgar pe gallech egluro yn union beth yw'r sefyllfa.

Last week, Plaid Cymru held a debate about accountability in the NHS. Whenever you are asked questions about the NHS, you tell us that it is the responsibility of the local health board. In just the same way, when you are asked questions about education, more often than not, you tell us that it is the responsibility of local education authorities. After 14 years of a Labour Minister for education, why has not one local education authority been judged as being excellent and you have six in special measures?

Yr wythnos diwethaf, cynhaliodd Plaid Cymru drafodaeth am atebolrwydd yn y GIG. Pryd bynnag y gofynnir cwestiynau i chi am y GIG, rydych chi'n dweud wrthym mai'r bwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol amdano. Yn union yr un ffordd, pan ofynnir cwestiynau i chi am addysg, yn amlach na pheidio, rydych yn dweud wrthym mai'r awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol. Ar ôl 14 mlynedd o Weinidog addysg Llafur, pam nad oes yr un awdurdod addysg lleol wedi cael ei ddyfarnu'n rhagorol a bod gennych chi chwech yn y categori mesurau arbennig?

13:45

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are in Government; you were in Government—you were there for four years. To try to suggest that you were not involved in any way with past Governments is unbelievable. There is an element of amnesia here that I am surprised that even Plaid Cymru has demonstrated. The reality is that, when it comes to education, we have the policies in place to improve literacy and numeracy in Wales. I do not remember Plaid Cymru in Government arguing anything different to what was being done by Labour Ministers for education. We have selective amnesia on the Plaid Cymru benches, which the leader of Plaid Cymru typifies.

Rydym ni yn y Llywodraeth; roeddech chi yn y Llywodraeth—roeddech chi yno am bedair blynedd. Mae ceisio awgrymu nad oeddech chi'n unrhyw ran o Lywodraethau yn y gorffennol yn anghredadwy. Mae elfen o golli cof yma sy'n syndod i mi hyd yn oed pan mai Plaid Cymru sy'n ei arddangos. Y gwir amdani yw, wrth ystyried addysg, mae'r polisiau gennym ar waith i wella llythrennedd a rhifedd yng Nghymru. Nid wyf yn cofio Plaid Cymru mewn Llywodraeth yn dadlau dros unrhyw beth gwahanol i'r hyn a oedd yn cael ei wneud gan Weinidogion addysg Llafur. Ceir colli cof detholus ar feinciau Plaid Cymru, ac mae arweinydd Plaid Cymru yn nodweddiadol o hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

## Diwydiant Adeiladu

## Construction Industry

13:46

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r diwydiant adeiladu yng Nghymru? OAQ(4)1048(FM)*

*3. What is the Welsh Government doing to support the construction industry in Wales? OAQ(4)1048(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to supporting the construction sector. Working with the sector panel and others, we are delivering a range of support packages to assist and grow the sector.

Rydym wedi ymrwmo i gefnogi'r sector adeiladu. Gan weithio gyda'r panel sector ac eraill, rydym yn darparu amrywiaeth o becynnau cymorth i gynorthwyo a thyfu'r sector.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that answer, First Minister. I welcome the latest funding boost for affordable housing in Wales. Above all, the construction industry needs work. Thank goodness that this Government understands that breathing life into the economy is more productive than suffocating it with delusional austerity. Take, for instance, Carmarthenshire County Council's approach to building 39 new bungalows for older people—the first such development since the 1980s. I understand that there are already plans for more. Do you agree that projects like the one in Carmarthenshire, which employ local contractors, are what the construction industry needs at this particular time? Will you encourage other local authorities to follow Carmarthenshire's lead?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwy'n croesawu'r hwb ariannol diweddaraf i dai fforddiadwy yng Nghymru. Yn anad dim, mae angen gwaith ar y diwydiant adeiladu. Diolch byth bod y Llywodraeth hon yn deall bod anadlu bywyd i mewn i'r economi yn fwy cynhyrchiol na'i fygu gyda darbodaeth gamarweiniol. Cymerwch, er enghraifft, agwedd Cyngor Sir Caerfyrddin at adeiladu 39 byngalo newydd ar gyfer pobl hŷn—y datblygiad cyntaf o'i fath ers y 1980au. Rwyf ar ddeall bod eisoes gynlluniau ar gyfer mwy ohonynt ar y gweill. A ydych chi'n cytuno mai prosiectau fel yr un yn Sir Gaerfyrddin, sy'n cyflogi contractwyr lleol, yw'r hyn sydd ei angen ar y diwydiant adeiladu ar hyn o bryd? A wnewch chi annog awdurdodau lleol eraill i ddilyn esiampl Sir Gaerfyrddin?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



- 13:47 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
I very much welcome what Carmarthenshire County Council, with its Labour leader, is doing in building up to 39 new bungalows for older people and using local contractors to do so. The bungalows are developed to achieve level 4 of the code for sustainable homes; they will also meet the Carmarthenshire homes standard. This is a good example of a local authority delivering homes under Labour leadership for the people of Carmarthenshire.  
Rwy'n croesawu'n fawr iawn yr hyn y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin, gyda'i arweinydd Llafur, yn ei wneud i adeiladu hyd at 39 byngalo newydd ar gyfer pobl hŷn a defnyddio contractwyr lleol i wneud hynny. Mae'r byngalos wedi'u datblygu i fodloni lefel 4 y cod ar gyfer cartrefi cynaliadwy; byddant hefyd yn bodloni safon cartrefi Sir Gaerfyrddin. Mae hon yn enghraifft dda o awdurdod lleol yn darparu cartrefi dan arweinyddiaeth Lafur i bobl Sir Gaerfyrddin.
- 13:48 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
It is clear that the industry still requires stimulus and support to ensure further expansion over the next few years. That is why it is, of course, surprising that you scrapped the NewBuy Cymru scheme. Given that the UK Government's scheme does not start until next year, what discussions have you had with representatives of the Home Builders Federation to ensure that a quick interim solution is in place to boost prospects for the construction sector?  
Mae'n amlwg fod y diwydiant yn dal i fod angen ysgogiad a chefnogaeth i sicrhau ehangu pellach yn ystod y blynyddoedd nesaf. Dyna pam y mae'n syndod, wrth gwrs, eich bod wedi diddymu cynllun NewBuy Cymru. O ystyried nad yw cynllun Llywodraeth y DU yn dechrau tan y flwyddyn nesaf, pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda chynrychiolwyr y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi i sicrhau bod ateb dros dro cyffym ar waith i roi hwb i ragolygon y sector adeiladu?
- 13:48 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
There was a meeting with the Home Builders Federation last Thursday. The Minister for Housing and Regeneration is now working with the bodies involved to examine a new scheme that could be put in place with the support of the Home Builders Federation and the Council of Mortgage Lenders.  
Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi ddydd Iau diwethaf. Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn gweithio gyda'r cyrff dan sylw bellach i archwilio cynllun newydd y gellid ei sefydlu gyda chymorth y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi a Chyngor y Benthycwyr Morgeisi.
- 13:48 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Mae pob cytundeb adeiladu o sylwedd yn mynd i gwmnïau sy'n rheoli'r prosiectau, ac wedyn mae'r cwmnïau hynny'n is-gontractio, ac mae'r cwmnïau hynny'n aml yn is-gontractio y tu hwnt i hynny. Yn aml iawn, mae cwmnïau lleol a chwmnïau llai ar ddiwedd y gadwyn, ac yn dioddef oherwydd hynny. A wnewch, fel Llywodraeth, sicrhau bod y cytundeb gwreiddiol yn gwarchod hawliau a chyfleoedd cwmnïau lleol a chwmnïau llai?  
All significant building contracts go to companies that manage the projects, which then subcontract the work, and those companies often subcontract the work again. Very often, local and smaller companies are at the end of the chain, and suffer as a consequence. Will you, as a Government, ensure that original contracts safeguard the rights and opportunities of local and small businesses?
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
Mae hynny'n bwysig, wrth gwrs. Mae sir Gâr wedi dangos y ffordd o ran defnyddio cwmni lleol er mwyn adeiladu'r tai newydd hyn. Mae'n bwysig dros ben bod awdurdodau lleol yn deall beth yw eu dyletswyddau ynglŷn â sicrhau bod busnesau lleol yn cael eu defnyddio er mwyn adeiladu tai newydd.  
That is, of course, important. Carmarthenshire has led the way in terms of using a local company to build these new houses. It is vital that local authorities understand their responsibilities with regard to ensuring that local businesses are used to build new houses.

13:49

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, as Russell George has made clear, the NewBuy Cymru scheme is quite important for the construction industry and in terms of helping people to get onto the housing ladder. From the briefing that various spokespeople had a week ago, it seems that it is difficult to put together an interim scheme and that you have to revitalise the existing scheme as it stands. As part of the discussions that you have had, are financial institutions now more interested in coming back into this scheme? I do not think that it has ever been the case that housebuilders were not interested, but the financial institutions are a part of this.

Brif Weinidog, fel y mae Russell George wedi ei wneud yn eglur, mae cynllun NewBuy Cymru yn eithaf pwysig i'r diwydiant adeiladu ac o ran helpu pobl i gael troed ar yr ysgol dai. O'r briffio a dderbyniwyd gan lefarwyr amrywiol wythnos yn ôl, mae'n ymddangos ei bod yn anodd llunio cynllun dros dro a bod yn rhaid i chi adfywio'r cynllun presennol fel ag y mae. Yn rhan o'r trafodaethau yr ydych chi wedi eu cael, a oes gan sefydliadau ariannol fwy o ddiddordeb erbyn hyn mewn dychwelyd at y cynllun hwn? Nid wyf yn credu y bu erioed yn wir nad oedd gan adeiladwyr tai ddiddordeb, ond mae'r sefydliadau ariannol yn rhan o hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:50

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is part of the problem, of course. When the new UK scheme was introduced, the lenders became unenthusiastic, and the Home Builders Federation became highly sceptical. I do not think that that is a permanent solution. We are working with it on a new scheme that will work effectively and get the support of both lenders and homebuilders. That is certainly the Minister's intention.

Mae hyn yn rhan o'r broblem, wrth gwrs. Pan gyflwynwyd cynllun newydd y DU, colodd y benthycwyr eu brwdfrydedd, gyda'r canlyniad fod y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn amheus iawn. Nid wyf yn credu bod hynny'n ateb parhaol. Rydym yn gweithio gyda hwy ar gynllun newydd a fydd yn gweithio'n effeithiol ac yn cael cefnogaeth benthycwyr ac adeiladwyr tai. Dyna fwriad y Gweinidog yn sicr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:50

**Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, we know that one of the outstanding challenges and problems facing the construction sector is the outstanding and continuing matter of blacklisting. I am sure that you are aware of the recent report by the Scottish Affairs Committee into this matter, and that there are already hundreds of Welsh workers whom we know were on the consulting association's blacklist. First Minister, do you support calls for a wider public inquiry into this matter in the construction sector, and do you believe that the law should be changed so that members who are on that blacklist are positively told by the information commissioner, when he is aware that the blacklist exists, that they are on that list and that it may have affected their employment prospects in the past as well as for the future?

Brif Weinidog, rydym yn gwybod mai un o'r heriau a'r problemau sy'n dal i wynebu'r sector adeiladu yw rhestrau gwahardd, sy'n dal i fod heb eu datrys ac sy'n parhau. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o'r adroddiad diweddar gan Bwyllgor Materion yr Alban ar y mater hwn, a bod cannoedd o weithwyr yng Nghymru yr ydym eisoes yn gwybod eu bod ar restr wahardd y gymdeithas ymgynghori. Brif Weinidog, a ydych chi'n cefnogi galwadau am ymchwiliad cyhoeddus ehangach i'r mater hwn yn y sector adeiladu, ac a ydych chi'n credu y dylai'r gyfraith gael ei newid fel bod aelodau sydd ar y rhestr wahardd honno'n cael eu hysbysu'n gadarnhaol gan y comisiynydd gwybodaeth, pan fydd yn ymwybodol bod y rhestr wahardd yn bodoli, eu bod ar y rhestr honno ac y gallai hynny fod wedi effeithio ar eu rhagolygon cyflogaeth yn y gorffennol yn ogystal ag ar gyfer y dyfodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:51

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, I do. It is important that people are aware of what is done about them by outside organisations so that they have a chance to challenge any blacklisting that may have occurred and that we see that blacklisting is done openly, rather than secretly. We condemn blacklisting and, where it happens, if it happens, it should be done in an open manner so that people have the chance of a fair reply. At the moment, they do not.

Ydw, mi ydwyf. Mae'n bwysig bod pobl yn ymwybodol o'r hyn a wneir ynglŷn â nhw gan sefydliadau allanol er mwyn iddyn nhw gael cyfle i herio unrhyw achos o gael eu cynnwys ar restr wahardd a'n bod yn gweld bod cynnwys pobl ar restr wahardd yn cael ei wneud yn agored, yn hytrach nag yn gyfrinachol. Rydym yn condemnio rhestrau gwahardd a, phan ei fod yn digwydd, os bydd yn digwydd, dylai gael ei wneud mewn modd agored fel bod pobl yn cael cyfle teg i ateb. Nid yw'r cyfle hwnnw ar gael iddynt ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

**Gwasanaethau Cludo Teithwyr ar y Rheilffyrdd**

**Rail Passenger Services**

13:51	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wella gwasanaethau cludo teithwyr ar y rheilffyrdd ledled Cymru? OAQ(4)1044(FM)</i>	<i>4. Will the First Minister make a statement on improving rail passenger services across Wales? OAQ(4)1044(FM)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
13:51	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We look, of course, to improve services across Wales. We have recently seen the redoubling of the railway line between Gowerton and Loughor.	Ein nod, wrth gwrs, yw gwella gwasanaethau ledled Cymru. Rydym wedi gweld ailddyblu'r rheilffordd rhwng Tre-gŵyr a Chasllwchr yn ddiweddar.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
13:51	<b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> With regard to the quality of services that the passenger experiences, the quality of the rolling stock is obviously very important. With the electrification of the Valleys lines forthcoming, can you tell us what steps you have taken to ensure that the best quality of rolling stock has been made available? Have you investigated the option of acting as a guarantor to ensure that new rolling stock can be bought to serve that route?	O ran ansawdd y gwasanaethau y mae teithwyr yn eu profi, mae ansawdd y cerbydau yn amlwg yn bwysig iawn. Gan fod rheilffyrdd y Cymoedd ar fin cael eu trydaneiddio, a allwch chi ddweud wrthym ba gamau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau bod yr ansawdd gorau posibl o gerbydau ar gael? A ydych chi wedi ymchwilio i'r opsiwn o weithredu fel gwarantwr i sicrhau y gall y cerbydau newydd gael eu prynu i wasanaethu'r rheilffordd honno?	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
13:52	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> No, we cannot act as a guarantor for something that is not within our budget responsibilities. That is for the UK Government. The Member is arguing that, if the UK Government sends us ancient rolling stock, somehow, we should pay for it. That clearly is not right. However, we are aware of the situation. The last thing that we would want to see is old rolling stock being shipped down to Wales because it is convenient to do so. It is important that, as the south Wales metro is put in place, there is rolling stock of sufficient quality and newness in order to ensure that people have confidence in it.	Na, ni allwn weithredu fel gwarantwr ar gyfer rhywbeth nad yw'n rhan o'n cyfrifoldebau cyllidebol. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw hynny. Mae'r Aelod yn dadlau, pe bai Llywodraeth y DU yn anfon hen gerbydau atom ni, rywsut, y dylem ni dalu amdanynt. Mae'n amlwg nad yw hynny'n iawn. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o'r sefyllfa. Y peth olaf y byddem ni'n dymuno ei weld fyddai hen gerbydau yn cael eu cludo i lawr i Gymru oherwydd bod gwneud hynny'n gyfleus. Mae'n bwysig, wrth sefydlu metro de Cymru, bod cerbydau o ansawdd priodol sy'n ddigon newydd i sicrhau bod gan bobl ffydd ynddynt.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
13:52	<b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> First Minister, I recently met David Beer from Passenger Focus, and I was dismayed to learn that the travellers who use the Valleys lines rail services register lower satisfaction ratings than those who use other rail networks across Wales. What measures can the Welsh Government take to change this?	Brif Weinidog, cefais gyfarfod yn ddiweddar â David Beer o Passenger Focus, ac roeddwn yn siomedig i ddarganfod bod y teithwyr sy'n defnyddio gwasanaethau rheilffordd y Cymoedd yn nodi cyfraddau boddhad is na'r rhai sy'n defnyddio rhwydweithiau rheilffyrdd eraill ledled Cymru. Pa fesurau all Llywodraeth Cymru eu cymryd i newid hyn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>
13:53	<b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> We can take measures in terms of our own investment. We see the new platforms at Pontypridd, Barry and Caerphilly; the new station at Energlyn; and the station improvements in Cardiff Central and Cardiff Queen Street. They are funded, of course, by the Welsh Government. However, we also need to see the investment brought forward as quickly as possible by the UK Government into the south Wales metro so that we can have a commuter train system for the twenty-first century.	Gallwn gymryd camau o ran ein buddsoddiad ein hunain. Rydym yn gweld y platfformau newydd ym Mhontypridd, y Barri a Chaerffili; yr orsaf newydd yn Energlyn; a'r gwelliannau i orsafoedd Caerdydd Canolog a Heol y Frenhines Caerdydd. Maen nhw'n cael eu hariannu, wrth gwrs, gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae angen hefyd i ni weld y buddsoddiad yn cael ei gyflwyno cyn gynted â phosibl gan Lywodraeth y DU ar gyfer metro de Cymru fel y gallwn gael system trenau i gymudwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.	Senedd.tv <a href="#">Fideo Video</a>

- 13:53 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, you have anticipated my question; there must be a spy in the camp. Given the £40 million investment in the line from Swansea to Llanelli, with the dualling of the line at Loughor bridge, what steps are being taken by the Government to ensure that full advantage is being taken by the operators and that they make additional stops at the established railway stations, and also in relation to freight?
- Brif Weinidog, rydych chi wedi rhagweld fy nghwestiwn, mae'n rhaid bod ysbwr ar waith. O ystyried y buddsoddiad o £40 miliwn yn y rheilffordd rhwng Abertawe a Llanelli, a deuoli'r rheilffordd ym mhont Casllwchwr, pa gamau sy'n cael eu cymryd gan y Llywodraeth i sicrhau bod y gweithredwyr yn manteisio i'r eithaf a'u bod yn stopio'n amlach yn y gorsafoedd rheilffordd sefydledig, a hefyd yng nghyswllt cludo nwyddau?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The fact that the stations are there will mean that the operators will use those stations. As somebody who uses the trains very frequently, I can see the demand that exists for them. I did notice that the Member's leader was on a train going to his party conference. The very fact that it was seen as newsworthy that the leader of the opposition was on a train struck me as being very strange. However, we have to be mindful of the passengers who are on that train, because we know that they had to suffer him making station announcements. We have to feel sorry for them, because they would have listened to the station announcement, heard his voice and would have known for sure that they were going in the wrong direction. [Laughter.] That is the problem that they would have faced. However, I am sure that the fact that the leader of the opposition was on a train is something that he would see as newsworthy, but some of us use the trains far more frequently.
- Bydd y ffaith bod y gorsafoedd yno yn golygu y bydd y gweithredwyr yn defnyddio'r gorsafoedd hynny. Fel rhywun sy'n defnyddio'r trenau yn aml iawn, gallaf weld y galw sy'n bodoli amdanynt. Sylwais fod arweinydd yr Aelod yn mynd ar drên i gynhadledd ei blaid. Roedd yr union ffaith fod gweld arweinydd yr wrthblaid ar drên yn stori newyddion yn rhyfedd iawn i mi. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ystyried y teithwyr a oedd ar y trên hwnnw, gan ein bod yn gwybod y bu'n rhaid iddynt ei ddiodef yn cyhoeddi'r gorsafoedd. Mae'n rhaid i ni deimlo trueni drostynt, oherwydd y byddent wedi gwrandao ar gyhoeddiad yr orsaf, clywed ei lais a gwybod yn sicr eu bod yn mynd i'r cyfeiriad anghywir. [Chwerthin.] Dyna'r broblem y bydden nhw wedi bod yn ei hwynebu. Fodd bynnag, rwy'n siŵr fod y ffaith fod arweinydd yr wrthblaid ar drên yn rhywbeth y byddai'n ei ystyried yn werth sylw yn y newyddion, ond mae rhai ohonom ni'n defnyddio'r trenau yn llawer mwy aml.
- 13:55 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae tystiolaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gomisiwn Silk yn awgrymu, o leiaf, bod posibilrwydd o ddatganoli rhai pwerau ar fasnachfreintio, er enghraifft, i Lywodraeth Cymru. A yw'n fwiad gan Lywodraeth Cymru i wneud datganiad manwl ar bolisi rheilffordd, a phryd mae hynny'n mynd i ddigwydd?
- United Kingdom Government evidence to the Silk commission suggests, at least, that there is a possibility that powers on franchising, for example, will be devolved to the Welsh Government. Does the Welsh Government intend to make a detailed statement on rail policy, and when is that going to happen?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'n dibynnu ar yr arian ac, wrth gwrs, y gyllideb. Rydym yn fodlon edrych ar y pwerau dros reilffyrdd os daw'r arian. Y broblem yw, os daw pŵer newydd i'r Cynulliad, bod profiad yn dangos nad yw'r arian yn dilyn. Gwelsom hynny gyda budd-daliadau'r dreth gyngor. Mae'r masnachfreintio yn rhywbeth rydym am ei weld a'i reoli yng Nghymru. Serch hynny, o ran gweithredu ar y rheilffordd ei hunan, byddai'n rhaid cael setliad ariannol teg er mwyn sicrhau bod hynny'n digwydd.
- It depends on the money and, of course, the budget. We are happy to look at rail powers if the money comes too. The problem is that experience shows that, if new powers come to the Assembly, the money does not follow. We saw that with council tax benefits. Franchising is something that we want to see being managed in Wales. However, in terms of taking action on railways, we would have to secure a fair funding settlement in order to do that.
- Araith y Frenhines** **Queen's Speech**
- 13:56 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 5. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran cynnwys araith y Frenhines? OAQ(4)1046(FM)*
- 5. What discussions has the First Minister had with the UK Government in relation to the content of the Queen's speech? OAQ(4)1046(FM)*

- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Rydym yn trafod sawl peth gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â Biliau newydd a allai fod â goblygiadau i Gymru. Rydym yn aros am gadarnhad o raglen deddfwriaethol y DU yn Araith y Frenhines yfory.
- We have regular discussions with the UK Government about possible Bills that may have implications for Wales. We await confirmation of the UK legislative programme in tomorrow's Queen's Speech.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:56 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 Yn eich llythyr at George Osborne gwnaethoch yn glir eich bod yn gweld gweithredu buan ar ran gyntaf gwaith comisiwn Silk yn rhywbeth hanfodol i gadw'r undeb rhag wynebu pleidlais ar annibyniaeth yn yr Alban. Oni bai y bydd amlinelliad yn Araith y Frenhines o sut y bydd cam 1 comisiwn Silk yn cael ei weithredu, beth wnewch chi?
- In your letter to George Osborne you made it clear that you see early action on the first part of the Silk commission's work as being vital in ensuring that the union does not face a vote on Scottish independence. If there is no detail in the Queen's Speech on how Silk part 1 will be implemented, what will you do?
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:56 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Prif Weinidog / The First Minister*  
 Byddaf yn ei gefnogi. Rwy'n cefnogi casgliadau rhan 1 comisiwn Silk. O ran benthyca, nid oes angen deddfwriaeth yn fy marn i. Mae'r pwerau hynny gennym. Beth sydd ei eisiau yw llythyr oddi wrth y Trysorlys. O ran pwerau trethu, credwn y gallent fod yn rhan o fesur cyllid yn San Steffan. Beth sy'n bwysig, yn fwy na dim byd arall, yw bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud y casgliadau ymlaen yn gyfan gwbl.
- I will support it. I support the conclusions of Silk part 1. On borrowing powers, there is no need for legislation, in my view. We have those powers. What we need is a letter from the Treasury. On taxation powers, we believe that they could form part of funding legislation coming from Westminster. The most important thing is that the United Kingdom Government moves the recommendations forward in their entirety.
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 13:57 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
 You referred to my train journey, First Minister. All the passengers arrived on time. No doubt if they had relied on you to deliver that train it would still be at the station waiting to move off. I will get back to the question. It has been mooted from the Cabinet Office that there could be a civil service Bill in the Queen's Speech tomorrow. I do not know if that is the case or not; it is just press speculation. Have you had any discussions with the Westminster Government, given the close relationship between the civil service in Wales and Whitehall? Given your experience in Government, do you believe that any changes need to be made to the structure of the civil service to make Government more efficient and able to deliver better services across Wales?
- Gwnaethoch gyfeiriad at fy siwrnai trên, Brif Weinidog. Cyrhaeddodd pob un o'r teithwyr yn brydlon. Pe bydden nhw wedi dibynnu arnoch chi i ddarparu'r trên hwnnw, nid oes amheuaeth y byddai'n dal i fod yn yr orsaf yn aros i gychwyn. Hoffwn ddychwelyd at y cwestiwn. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi crybwyll y gallai fod Bil gwasanaeth sifil yn Araith y Frenhines yfory. Nid wyf yn gwybod os yw hynny'n wir ai peidio; dim ond y wasg yn dyfalu yw hyn. A ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth San Steffan, o ystyried y berthynas agos rhwng y gwasanaeth sifil yng Nghymru ac yn Whitehall? O ystyried eich profiad yn y Llywodraeth, a ydych chi'n credu bod angen gwneud newidiadau i strwythur y gwasanaeth sifil i wneud y Llywodraeth yn fwy effeithlon ac er mwyn gallu darparu gwasanaethau gwell ledled Cymru?
- Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:58

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He makes the point about the train, of course. One thing that I would not have tried to do was drive the train, which is something he apparently did—as if driving the train through Bridgend and Swansea is something that could be picked up on the go like that. That was quite an assumption on his part. Turning to the civil service Bill, we have had discussions with the UK Government many times in the past about the civil service. We take the view that there should be greater devolution of the senior civil service, particularly. There needs to be more formal devolution in the appointment of the permanent secretary. We hope that any civil service Bill will reflect devolved reality rather than the situation at the moment, where, certainly in theory, if not in practice, the appointment of the most senior civil servant in Wales can be made by the Prime Minister without any input from the First Minister; I hasten to add that that was not the case last time around. Nevertheless, in theory it remains, and it should be removed.

Mae'n gwneud y pwynt am y trêrn, wrth gwrs. Un peth na fyddwn i wedi ceisio ei wneud fyddai gyrru'r trêrn, sy'n rhywbeth y gwnaeth ef mae'n debyg—fel pe bai gyrru'r trêrn trwy Ben-y-bont ar Ogwr ac Abertawe yn rhywbeth y gellid ei ddysgu mewn chwinciad. Roedd hynny'n gryn ragdybiaeth ar ei ran. Gan droi at y Bil gwasanaeth sifil, rydym ni wedi cael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU am y gwasanaeth sifil droeon yn y gorffennol. Rydym o'r farn y dylid datganoli'r gwasanaeth sifil uwch ymhellach, yn arbennig. Mae angen datganoli mwy ffurfiol wrth benodi ysgrifennydd parhaol. Rydym yn gobeithio y bydd unrhyw Fil gwasanaeth sifil yn adlewyrchu gwirionedd datganoli, yn hytrach na'r sefyllfa ar hyn o bryd, lle, yn sicr mewn theori, os nad yn ymarferol, y gall y Prif Weinidog benodi'r gwas sifil uchaf yng Nghymru heb unrhyw fewnbwn gan y Brif Weinidog Cymru; pysuraf i ychwanegu mai nad dyna ddigwyddodd y tro diwethaf. Serch hynny, mae'n parhau mewn theori, a dylai gael ei ddileu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:59

**Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n debygol y bydd Bil Llywodraeth Cymru unwaith eto yn nhymor nesaf y Senedd, i ddiwygio'r dull o sicrhau ethol Aelodau'r Cynulliad ar y rhestr ac mewn etholaethau. Onid yw'n hen bryd, Brif Weinidog, ein bod yn cael trydedd Deddf Llywodraeth Cymru sy'n datganoli'r drefn etholiadol i'r lle hwn ac yn caniatáu i ni gael ethol 80 o Aelodau drwy'r system drosglwyddadwy mewn etholaethau aml-aelod, fel sydd wedi gweithio mor ardderchog yn ddiweddar yn Ynys Môn?

It is likely that there will be another Government of Wales Act in the next Parliament, to reform the way in which Assembly Members can be elected on the list and in constituencies. Is it not time, First Minister, for us to have a third Government of Wales Act, devolving the electoral process to this place, allowing us to be able to elect 80 Members via the transferrable vote system in multi-member constituencies, as was implemented so wonderfully in Ynys Môn recently?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

13:59

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

O ran y system etholiadol, ar hyn o bryd nid yw'n glir os yw'r grym gan y Cynulliad i newid trefn etholiadol llywodraeth leol. Nid yw'n glir yn y ddeddf ei hun. Nid yw hynny'n iawn. Er hyn, mewn egwyddor, mae'n bwysig bod gennym y pŵer yn y lle hwn i sicrhau taw ni sy'n rheoli'r system etholiadol yng Nghymru. Rwy'n credu bod cytundeb, fwy neu lai, dros y Siambr ynglŷn â hynny. Pan ddaeth hyn o flaen y Cynulliad, pan wnaethom ni ddatlau'r holl beth, yr oedd awgrym y byddai'n rhaid cael 66% o Aelodau i bleidleisio o blaid unrhyw newid yn y system. Rwy'n cefnogi hynny'n fawr; mae'n glo eithaf synhwyrol. Fodd bynnag, mae'n egwyddor bwysig taw ni yng Nghymru sy'n rheoli'r system etholiadol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

In terms of the electoral system, it is not currently clear whether or not the Assembly has the power to change the local government electoral system. That is not right. However, in principle, it is important that we in this place have the power to ensure that we control the electoral system in Wales. I think that there is agreement on that, more or less, across the Chamber. When this came before the Assembly, when we debated the whole issue, there was a suggestion it would require 66% of Members to vote in favour of any change in the system. I support that; it is quite a sensible lock. However, it is an important principle that we in Wales should be controlling the electoral system for the National Assembly for Wales.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

## Gwella Cysylltiadau Trafnidiaeth

## Improving Transport Links

14:00

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella cysylltiadau trafndiaeth rhwng gorllewin Cymru a rhannau eraill o'r wlad? OAQ(4)1033(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve transport links between west Wales and other parts of the country? OAQ(4)1033(FM)*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



14:00	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae sawl buddsoddiad wedi cymryd lle yn y seilwaith rhwng y gorllewin a gweddill Cymru. Fel y soniais yn gynharach, mae'r llinell reilffordd wedi ei ailddyblu rhwng Tre-gŵyr a Llchwyr. Hefyd, mae'r ffaith bod gorsaf Abergwaun ac Wdigi wedi ailagor hefyd yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at y gorllewin.</p>	<p>A number of investments have taken place in the infrastructure between west Wales and other parts of the country. As I mentioned earlier, the railway line between Gowerton and Loughor has been redoubled. Also, the fact that the Fishguard and Goodwick station has reopened shows the commitment of the Welsh Government to the west.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:01	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Bydd y Prif Weinidog yn ymwybodol fy mod, dros y blynyddoedd, wedi ymgyrchu i droi'r A40 yn sir Benfro yn ffordd ddeuol. Byddai hyn yn gwella'r economi lleol ac yn gwella safonau i bobl leol ac ymwelwyr i drafaelio. Dywedodd eich Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg mewn ymateb i'm dadl fer yr wythnos diwethaf ei fod yn cydnabod y gallai bod amser pan ellid troi'r A40 yn ffordd ddeuol. Yn yr amgylchiadau, a allwch felly gadarnhau na fydd eich Llywodraeth yn diystyru troi'r A40 yn sir Benfro yn ffordd ddeuol yn y dyfodol?</p>	<p>The First Minister will be aware that, over the years, I have campaigned to make the A40 in Pembrokeshire a dual carriageway. This would improve the local economy and improve standards for local people and visitors to travel. Your Deputy Minister for Skills and Technology said in response to my short debate last week that he recognised that there could be a time when the A40 could be made into a dual carriageway. In the circumstances, can you therefore confirm that your Government will not dismiss making the A40 in Pembrokeshire a dual carriageway in the future?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:02	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid ydym yn osgoi hynny o ran egwyddor, ond rydym yn gwybod beth yw'r sefyllfa ariannol ar hyn o bryd. Wedi dweud hynny, mae gwelliannau yn cymryd lle ar hyn o bryd rhwng Llanddewi Felfre a Phenblewin, a bydd y rhaglen i wella'r A40 yn parhau yn y dyfodol wrth ystyried y sefyllfa ariannol.</p>	<p>We are not avoiding that as a principle, but we know what the financial situation is at present. Having said that, improvements are happening at the moment between Llanddewi Velfrey and Penblewin, and the programme to improve the A40 will continue in the future bearing in mind the financial position.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:02	<p><b>Elin Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Brif Weinidog, un o'r ffyrdd pwysicaf yn y gorllewin yw'r cysylltiad rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin drwy Landysul, sy'n bwysig o ran yr economi a thwristiaeth. Mae gwelliannau sylweddol wedi digwydd ar y darn o'r ffordd sydd yng Ngheredigion dros y blynyddoedd diwethaf, ond nid oes newidiadau a gwelliannau wedi digwydd ar ochr sir Gâr o'r cysylltiad hwnnw. Pa rôl a ydych chi'n ei gweld i'ch Llywodraeth chi, gan fod hon yn ffordd genedlaethol bwysig, o ran rhoi pwysau ar gyngor fel Cyngor Sir Caerfyrddin i roi blaenoriaeth i'r ffordd hon, sydd yn bwysig nid yn unig i sir Gâr ond i'r gorllewin yn ehangach?</p>	<p>First Minister, one of the most important routes in west Wales is the link between Aberystwyth and Carmarthen through Llandysul; it is important economically and in terms of tourism. Significant improvements have been made to the section of the road that is in Ceredigion in recent years, but there have been no changes or improvements on the Carmarthenshire side. What role do you see for your Government, as this is a nationally important route, in terms of putting pressure on a council such as Carmarthenshire County Council to prioritise this road, which is important not only to Carmarthenshire, but west Wales in general?</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo Video</a></p>
14:03	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>  <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'r heol rhwng Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan wedi ei gwella ar ôl creu ffordd osgoi Caerfyrddin, oherwydd roedd problemau mawr o'r blaen gan fod pobl yn gorfod mynd drwy Spilman Street yng Nghaerfyrddin er mwyn mynd i Llanbedr. Mae ffordd osgoi sylweddol gan Landysul, ac mae'r ffordd wedi ei gwella rhwng Llandysul a Synod Inn. Felly, mae gwelliannau wedi cymryd lle ar yr heol ac, o ran sir Gâr, mae gwelliannau wedi bod yn ardal Caerfyrddin er mwyn helpu pobl i fynd lawr i sir Benfro a lan i Geredigion.</p>	<p>The road between Carmarthen and Lampeter has improved with the creation of the Carmarthen bypass, because it used to be a big problem when everybody had to go down Spilman Street in Carmarthen to get to Lampeter. Llandysul has a significant bypass, and the road has been improved between Llandysul and Synod Inn. Therefore, improvements have taken place on that road and, as regards Carmarthenshire, there have been improvements in the Carmarthen area to assist people with travelling down to Pembrokeshire and up to Ceredigion.</p>	<p>Senedd.tv  <a href="#">Fideo Video</a></p>

14:03	<p><b>William Powell</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>In recent weeks, Carmarthenshire County Council has committed to carrying out a feasibility study of the possibility of reopening St Clears railway station, which would aid commuters into Carmarthen, reduce pressure on road traffic and improve the wider county's sustainability. Should that feasibility come through with a positive recommendation, will the First Minister commit to working with his colleague, the Minister for Economy, Science and Transport, to deliver such a scheme?</p>	<p>Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i gynnal astudiaeth o ddichonoldeb ar y posibilrwydd o ailagor gorsaf reilffordd Sandôr, a fyddai'n helpu cymudwyr i fynd i Gaerfyrddin, yn lleihau'r pwysau ar y traffig ar y ffyrdd a gwella cynaliadwyedd y sir ehangach. Pe byddai'r astudiaeth o ddichonoldeb honno'n gwneud argymhelliad cadarnhaol, a wnaiff y Prif Weinidog ymrwymo i weithio gyda'i gydweithiwr, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, i gyflwyno cynllun o'r fath?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:04	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Let us see what the outcome is, but I have to caution that capital budgets are being destroyed and revenue budgets are being hammered over the next few years, so the Government cannot give a commitment to any such scheme, knowing the financial pressures that are being imposed on us by the UK Government.</p>	<p>Gadewch i ni weld beth fydd y canlyniad, ond mae'n rhaid i mi rybuddio bod cyllidebau cyfalaf yn cael eu dinistrio a chyllidebau refeniw yn cael eu taro'n galed dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, felly ni all y Llywodraeth ymrwymo i unrhyw gynllun o'r fath, o wybod y pwysau ariannol sy'n cael ei roi arnom gan Lywodraeth y DU.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Gofal Iechyd i Blant</b>		<b>Healthcare for Children</b>	
14:04	<p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gofal iechyd i blant yn Nwyrain De Cymru?</i> OAQ(4)1043(FM)</p>	<p><i>7. Will the First Minister make a statement on provision of healthcare for children in South Wales East?</i> OAQ(4)1043(FM)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:04	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Children's health services are an integral part of our plans and priorities set out in our programme for government and 'Together for Health'.</p>	<p>Mae gwasanaethau iechyd plant yn rhan annatod o'n cynlluniau a'n blaenoriaethau a nodir yn ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a 'Law yn Llaw at Iechyd'.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:04	<p><b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am grateful to the First Minister for the reply. He will know that there have been longstanding worries about the sustainability of obstetrics, paediatrics and neonatal services at the Royal Gwent Hospital and Nevill Hall Hospital, and these are becoming more acute, primarily due to staffing difficulties. What plans does the First Minister have to attract staff with the relevant skillset to improve these fragile services?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb. Bydd yn gwybod y bu pryderon hir sefydlog ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau obstetreg, pediatreg a newyddenedigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Nevill Hall, ac mae'r rhain yn mynd yn fwy difrifol, yn bennaf oherwydd anawsterau staffio. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ddenu aelodau staff sydd â'r sgiliau perthnasol i wella'r gwasanaethau bregus hyn?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:05	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The neonatal network is actively monitoring performance against neonatal standards in south Wales. There has been an improvement in cot acuity with the reallocation of cots between units. For example, last February, the intensive care cot at Nevill Hall Hospital was re-designated for high-dependency care to allow greater flexibility between units in the south-east Wales community. However, there is still a significant demand on these services and the 2013 neonatal capacity review recommends service change to ensure the sustainability of service and to meet the very high standards. These are matters for the local health boards to take forward as part of the work on the programme board.</p>	<p>Mae'r rhwydwaith newyddenedigol yn monitro perfformiad yn ymarferol yn erbyn safonau newyddenedigol yn ne Cymru. Bu gwelliant o ran y cotiau sydd ar gael drwy ailddyrrannu cotiau rhwng unedau. Er enghraifft, Chwefror diwethaf, ail-neilltuwyd y cot gofal dwys yn Ysbyty Nevill Hall ar gyfer gofal dibyniaeth uchel i ganiatáu mwy o hyblygrwydd rhwng unedau yng nghymuned de-ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, mae galw sylweddol ar y gwasanaethau hyn o hyd ac mae adolygiad 2013 o'r capasiti newyddenedigol yn argymhell newid y gwasanaeth i sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ac i gyrraedd y safonau uchel iawn. Mae'r rhain yn faterion i'r byrddau iechyd lleol fwrw ymlaen â nhw yn rhan o'r gwaith ar fwrdd y rhaglen.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:05	<p><b>Jenny Rathbone</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>When does the Welsh Government expect to make a decision about whether or not children with cerebral palsy can receive selective dorsal rhizotomy on the NHS? At the moment, children in England can get this on the NHS, otherwise, it is restricted to those who can raise the money to go to the United States. I understand that it was due to have been discussed by the specialised services joint committee on 26 March, but it was postponed because it was not quorate. There are many parents who have children with this condition who are anxiously waiting to see whether they will be able to access this service, which materially improves the mobility of children.</p>	<p>Pryd mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud penderfyniad ynglŷn pa un a all plant â pharlys yr ymennydd dderbyn rhisotomi'r cefn dethol drwy'r GIG? Gall plant yn Lloegr dderbyn hyn drwy'r GIG ar hyn o bryd, fel arall mae wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n gallu codi'r arian i fynd i'r Unol Daleithiau. Rwy'n deall bod disgwyl iddo gael ei drafod gan y cydbwyllgor gwasanaethau arbenigol ar 26 Mawrth, ond cafodd ei ohirio gan nad oedd cworwm. Ceir llawer o rieni sydd â phlant â'r cyflwr hwn sy'n aros yn bryderus i weld a fyddant yn gallu cael mynediad at y gwasanaeth hwn, sy'n gwella symudedd plant yn sylweddol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:06	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is important that the treatment is appropriate, because I know that a lot of hopes are raised with that particular treatment that are not always fulfilled; it is good for some, but not for others. In terms of accessing the service in England, of course it is possible for a case to be made for that service to be provided, if it is appropriate, by the consultant who is dealing with any individual. The situation regarding that procedure is being kept under review.</p>	<p>Mae'n bwysig bod y driniaeth yn briodol, gan fy mod yn gwybod bod llawer o obeithion yn cael eu codi o ran y driniaeth benodol honno nad ydynt yn cael eu gwireddu bob amser; mae'n dda i rai, ond nid i eraill. O ran cael mynediad at y gwasanaeth yn Lloegr, wrth gwrs, mae'n bosibl dadlau y dylai'r gwasanaeth hwnnw gael ei ddarparu, os yw'n briodol, gan yr ymgynghorydd sy'n ymdrin ag unrhyw unigolyn. Mae'r sefyllfa o ran y driniaeth honno'n cael ei chadw dan adolygiad.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:07	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, many children and young people in deprived areas, such as south-east Wales, suffer from depression and poor mental health. What is the Welsh Government doing as part of its child poverty strategy to seriously reduce the numbers of children living in poverty in south-east Wales in order to improve their mental health?</p>	<p>Brif Weinidog, mae llawer o blant a phobl ifanc mewn ardaloedd o amddifadedd, fel de-ddwyrain Cymru, yn dioddef o iselder ac iechyd meddwl gwael. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn rhan o'i strategaeth tloidi plant i leihau'n sylweddol nifer y plant sy'n byw mewn tloidi yn ne-ddwyrain Cymru er mwyn gwella eu hiechyd meddwl?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:07	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>In terms of what we are doing to alleviate poverty, we have the 'Tackling Poverty Action Plan', Communities First and numerous employment and apprenticeship schemes in place. We are also taking steps to try to deal with the after effects of welfare reform, although it is right to say that we cannot deal with all the negative effects that are being imposed on the people of Wales as a result of that.</p>	<p>O ran yr hyn yr ydym ni'n ei wneud i leddfuo tloidi, mae gennym y 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tloidi', Cymunedau yn Gyntaf a nifer o gynlluniau cyflogaeth a phrentisiaeth ar waith. Rydym ni hefyd yn cymryd camau i geisio ymdrin â sgil-ffeithiau diwygio lles, er ei bod yn iawn i ddweud na allwn ymdrin â'r holl effeithiau negyddol sy'n cael eu gosod ar bobl Cymru o ganlyniad i hynny.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Trafodaethau ar Ddatganoli</b>		<b>Discussions on Devolution</b>	
14:07	<p><b>Jocelyn Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar ynghylch datganoli y mae wedi eu cael gyda Llywodraeth y DU? OAQ(4)1040(FM)</i></p>	<p><i>8. Will the First Minister make a statement on recent discussions he has had with the UK Government relating to devolution? OAQ(4)1040(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:07	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I have had many discussions over the course of the last few weeks, as has the Minister for Finance, with regard to devolution, as well as formal meetings with the Secretary of State for Wales regarding his views on devolution.</p>	<p>Rwyf i, a'r Gweinidog Cyllid, wedi cael llawer o drafodaethau ar ddatganoli yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn ogystal â chyfarfodydd ffurfiol gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ei safbwyntiau ar ddatganoli.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:08 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Last week, you urged the Chancellor not to drag his feet on devolution of tax and borrowing powers and I heard your answer to Simon Thomas earlier this afternoon. On this matter, could you clarify whether you have the full support of your Labour MPs and the Shadow Chancellor, and will this be a priority for them?
- Yr wythnos diwethaf, anogwyd y Canghellor gennych i beidio â llusgo ei draed o ran datganoli pwerau trethu a benthyca a chlywais eich ateb i Simon Thomas yn gynharach y prynhawn yma. O ran y mater hwn, a allech chi egluro a yw cefnogaeth lawn eich ASau Llafur a Changhellor yr Wrthblaid gennych, ac a fydd hyn yn flaenoriaeth iddyn nhw?
- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes. Part 1 of the Silk commission needs to be implemented in full and there needs to be an end to any opposition within the UK Government to the implementation of Silk part 1. But, as a Welsh Labour Government and a Welsh Labour Party, we fully expect to see the whole of Silk part 1 implemented.
- Bydd. Mae angen rhoi Rhan 1 comisiwn Silk ar waith yn llawn ac mae angen rhoi terfyn ar unrhyw wrthwynebiad o fewn Llywodraeth y DU i roi rhan 1 Silk ar waith. Ond, fel Llywodraeth Llafur Cymru a Phlaid Lafur Cymru, rydym yn llwyr ddisgwyl gweld holl ran 1 Silk yn cael ei roi ar waith.
- 14:08 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Does the First Minister think that the report, again, over the weekend that the Chancellor, George Osborne, is preparing to announce a new toll motorway to ease congestion on the M4 illustrates the complete lack of understanding of devolution in the Treasury?
- A yw'r Prif Weinidog yn credu bod yr adroddiad, unwaith eto, dros y penwythnos bod y Canghellor, George Osborne, yn paratoi i gyhoeddi traffordd doll newydd i leihau tagfeydd ar yr M4 yn dangos diffyg dealltwriaeth llwyr o ddatganoli yn y Trysorlys?
- 14:08 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes. I know that that report has been discredited since, but the reality is that the Treasury has no power to impose a new road or a new toll on roads in Wales; they are devolved. I understand that this was a story that appeared in one of the newspapers and it was denied by the Chancellor of the Exchequer, which begs the question as to who put it there in the first place. It clearly came from somebody inside Government. The second point is that it makes no sense in practical terms for there to be a toll on the Severn bridge and, five miles later, another toll on another road. No-one is going to pay it. We also know that the apparent attractiveness of using a new toll road to finance the building of that road does not work. The M6 toll road, as far as we are concerned, does not make any money, because so few people use it. The maintenance costs, we understand, are so high that it is not a way to make money in any event. There seems to be some confusion in the UK Government over this. Somebody planted the story in the Sunday papers; I welcome the Chancellor of the Exchequer's view that this was not something that was going to be taken forward. He said that when he came to Wales. We have been working with the UK Government in order to take forward Silk part 1, and we expect to see a decent deal with regard to the Severn bridge. It cannot be right in the future that people will be charged to come into their own country by a Government in London that can set the tolls at whatever rate it likes. That cannot possibly be right, and that is something that we will not tolerate in the future.
- Ydw. Gwn fod yr adroddiad hwnnw wedi cael ei bardduo ers hynny, ond y gwir amdani yw nad oes gan y Trysorlys unrhyw bŵer i sefydlu ffordd newydd neu doll newydd ar ffyrdd yng Nghymru; maen nhw wedi eu datganoli. Rwy'n deall mai stori a ymddangosodd yn un o'r papurau newydd oedd hon a chafodd ei gwadu gan Ganghellor y Trysorlys, sy'n codi cwestiwn am bwy roddodd hi yno yn y lle cyntaf. Mae'n amlwg ei bod wedi dod gan rywun y tu mewn i'r Llywodraeth. Yr ail bwynt yw nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr yn ymarferol cael toll ar bont Hafren a, phum milltir yn ddiweddarach, toll arall ar ffordd arall. Nid oes unrhyw un yn mynd i'w thalu. Rydym yn gwybod hefyd nad yw'r atyniad amlwg o ddefnyddio ffordd doll newydd i ariannu adeiladu'r ffordd honno yn gweithio. Nid yw ffordd doll yr M6, yn ein tyb ni, yn gwneud unrhyw arian, gan fod cyn lleied o bobl yn ei defnyddio. Rydym yn deall bod y costau cynnal a chadw mor uchel fel nad yw'n fodd o wneud arian beth bynnag. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o ddryswch am hyn yn Llywodraeth y DU. Plannwyd y stori gan rywun yn y papurau dydd Sul; rwy'n croesawu barn Canghellor y Trysorlys nad oedd hyn yn rhywbeth a oedd yn mynd i gael ei wneud. Dywedodd hynny pan ddaeth i Gymru. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn cyflwyno rhan 1 Silk, ac rydym yn disgwyl gweld bargaen ddechrau o ran pont Hafren. Ni all fod yn iawn y bydd Llywodraeth yn Llundain, sy'n gallu gosod tollau ar ba bynnag lefel y mae'n dymuno, yn gallu gorfodi pobl i dalu i ddod i mewn i'w gwlad eu hunain yn y dyfodol. Ni all hynny fod yn iawn, ac mae hynny'n rhywbeth na fyddwn yn ei oddef yn y dyfodol.

14:10	<p><b>Suzy Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, during May and June this year, the Silk commission will be holding a series of meetings about devolution with the public. What will the Welsh Government be doing to encourage people to take part in those meetings and will you be offering assistance of any kind to help people to take part in those discussions?</p>	<p>Brif Weinidog, yn ystod mis Mai a mis Mehefin eleni, bydd comisiwn Silk yn cynnal cyfres o gyfarfodydd am ddatganoli gyda'r cyhoedd. Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl i gymryd rhan yn y cyfarfodydd hynny ac a fyddwch chi'n cynnig cymorth o unrhyw fath i helpu pobl i gymryd rhan yn y trafodaethau hynny?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:10	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is not our commission; it is the UK Government's commission, so it is a matter for it to decide what kind of assistance it wants to offer to the people who come to the meetings. It is not for us to interfere in the workings of the Silk commission. What we have done is to make clear our position through a substantial body of evidence in terms of what we would like delivered through part 2.</p>	<p>Nid ein comisiwn ni yw e; comisiwn Llywodraeth y DU yw e, felly mater iddi hi yw penderfynu pa fath o gymorth y mae'n dymuno ei gynnig i bobl sy'n dod i'r cyfarfodydd. Nid ein cyfrifoldeb ni yw ymyrryd yng ngwaith comisiwn Silk. Yr hyn yr ydym ni wedi ei wneud yw gwneud ein safbwynt yn eglur trwy gryn swmp o dystiolaeth o ran yr hyn yr hoffem ei weld yn cael ei ddarparu drwy ran 2.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Kenneth Skates</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>First Minister, as a result of UK coalition Government cuts, North Wales Police faces a 20% reduction in its budget by 2015. [Interruption.] In contrast, across Wales, newly trained police community support officers are being brought on stream, with an extra 20 in the Wrexham county borough area alone. First Minister, do you agree that it is reassuring that, while we have a coalition Government in Westminster that is content to cut our crime-fighting potential, here we have a Welsh Labour Government that is committed to making our communities safer? [Interruption.]</p>	<p>Brif Weinidog, o ganlyniad i doriadau Llywodraeth glymblaid y DU, mae Heddlu Gogledd Cymru yn wynebu gostyngiad o 20% i'w gyllideb erbyn 2015. [Torri ar draws.] Mewn cyferbyniad, ledled Cymru, mae swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu sydd newydd eu hyfforddi yn cael eu cyflwyno, a cheir 20 ychwanegol yn ardal bwrdeistref sirol Wrecsam yn unig. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno ei bod yn galonogol, er bod gennym Lywodraeth glymblaid yn San Steffan sy'n fodlon lleihau ein potensial i fynd i'r afael â throseddau, bod gennym Lywodraeth Llafur Cymru yma sydd wedi ymrwymo i wneud ein cymunedau yn fwy diogel? [Torri ar draws.]</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:11	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It amuses me that the more uncomfortable the party opposite becomes, the more noise that its Members make. It is amazing. The reality is that even though policing is not devolved, we have made an investment in community safety and we have made sure that people do not have to live in fear of crime. Their party and the Liberal Democrats do not care. The reality is that they talk tough on crime, but they are easy on criminals.</p>	<p>Mae'n peri difyrwrch i mi mai'r mwyaf anghyfforddus yw'r blaidd gyferbyn, y mwyaf o swm y mae ei haelodau'n ei wneud. Mae'n anhygoel. Er nad yw plismona wedi'i ddatganoli, y gwir amdani yw ein bod wedi buddsoddi mewn diogelwch cymunedol, ac rydym wedi gwneud yn siŵr nad oes yn rhaid i bobl fyw mewn ofn o drosedd. Nid oes ots gan eu plaid nhw na'r Democratiaid Rhyddfrydol. Y gwir amdani yw bod eu geiriau'n llym ar droseddau, ond nad ydynt yn llym ar droseddwyr.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<p><b>Y Dreth Gyngor</b></p>		<p><b>Council Tax</b></p>	
14:12	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadau ar gyfer cymorth y dreth gyngor yn 2014/15?</i> OAQ(4)1031(FM)</p>	<p><i>9. Will the First Minister make a statement on arrangements for council tax support in 2014/15?</i> OAQ(4)1031(FM)</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:12	<p><b>Carwyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yn unol â'r cymal machlud y cytunodd yr holl bleidiau arno y llynedd, rydym yn ymrwymedig i adolygu'r rheoliadau a datblygu set newydd ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf erbyn diwedd y flwyddyn hon. Caiff y rheoliadau hyn eu gosod ym mis Tachwedd.</p>	<p>In line with the sunset clause agreed by all parties last year, we are committed to reviewing the regulations and bringing forward a new set for the next financial year by the end of this year. These regulations will be laid in November.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 14:12 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rwy'n gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn cytuno nad ydym am gael ein hunain yn y sefyllfa a wynebasom ym mis Rhagfyr y llynedd. Felly, pa drefniadau mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i sicrhau bod trefniadaeth fforddiadwy a thryloyw yn ei lle mewn digon o bryd i gael ei chraffu'n llawn gan y Cynulliad ar gyfer 2014-15?
- I hope that the First Minister would agree that we do not want to find ourselves in the situation that we faced in December last year. Therefore, what arrangements is the Government making to ensure that there is an affordable and transparent system in place in time to be scrutinised fully by the Assembly for 2014-15?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Bydd hynny yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth fis nesaf er mwyn deall y cynlluniau yn y pen draw. Y sefyllfa nawr yw ein bod yn rheoli'r amserlen. Nid oedd hynny'n wir y llynedd, ond mae'n wir i ddweud ein bod yng Nghymru wedi cyllido'r bwch yn gyfan gwbl. Ni fydd hynny'n digwydd yn yr Alban, lle dim ond hanner y bwch sydd wedi cael ei gyllido gan Lywodraeth yr SNP. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ystyried y pwysau ariannol a fydd ar Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd i ddod a gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau yn cael eu rhannu.
- That will be considered by the Government next month in order to understand our ultimate plans. The position at present is that we are now in control of the schedule. That was not true last year, but it is true to say that we in Wales have funded the gap completely. That will not happen in Scotland, where only half the gap has been funded by the SNP Government. However, we must consider the financial pressures that there will be on the Welsh Government in the ensuing years and work with local authorities in order to ensure that we share the burden.
- 14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on Ann Jones. Galwaf ar Ann Jones.
- 14:13 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sorry; is this question No. 9? Mae'n ddrwg gennyf; ai cwestiwn Rhif 9 yw hwn?
- 14:13 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, I am on No. 9. Ie, rydw i ar Rif 9.
- 14:13 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I beg your pardon. I was ready to do something else on No. 13. Mae'n ddrwg gennyf. Roeddwn i'n barod i wneud rhywbeth arall ar Rif 13.
- First Minister, a few weeks ago, the shadow Conservative local government portfolio holder stood here and decried council tax increases, but failed to remember that she had voted as a cabinet member in Conwy for tax rises year-on-year. However, she now claims to see the light and is looking for a Wales-wide council tax freeze. First Minister, can you remind the Member opposite that local authorities have to decide how they spend their money? The money is not as forthcoming from the UK Government as we would have liked to have seen it—
- Brif Weinidog, rai wythnosau yn ôl, safodd y sawl sy'n gyfrifol am bortffolio llywodraeth leol yr wrthblaid Geidwadol yma a difrio'r cynnydd i'r dreth gyngor, gan fethu â chofio ei bod hi wedi pleidleisio fel aelod cabinet yng Nghonwy dros drethi cynyddol flwyddyn ar ôl blwyddyn. Fodd bynnag, mae hi bellach yn honni iddi weld y golau ac mae'n gofyn am rewi'r dreth gyngor ledled Cymru. Brif Weinidog, a allwch chi atgoffa'r Aelod gyferbyn bod yn rhaid i awdurdodau lleol benderfynu sut maen nhw'n gwario eu harian? Nid oes cymaint o arian yn dod gan Lywodraeth y DU ag yr hoffem fod wedi ei weld—
- 14:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Order. Are you coming to a question? Trefn. A ydych chi ar fin gofyn cwestiwn?
- 14:14 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am coming to a question. First Minister, will you also remind the Member opposite that local authorities will have to make some difficult decisions, but we should all be working to make sure that they still deliver services for everybody, and not just the few who would benefit from the council tax freeze?
- Rwy'n dod at gwestiwn. Brif Weinidog, a wnewch chi hefyd atgoffa'r Aelod gyferbyn y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol wneud rhai penderfyniadau anodd, ond y dylai pob un ohonon fod yn gweithio i wneud yn siŵr eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau i bawb, ac nid yr ychydig rai a fyddai'n elwa o rewi'r dreth gyngor?



14:14

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is an old trick, is it not, to vote for council tax rises on the council and then to come here and vote against them? That is something that suggests that consistency does not appear among those sitting in the benches opposite. This is where they play fast and loose with facts. Now, it seems, they are against the sprinklers legislation.

They all voted for it, but now, all of a sudden, they seem to be against it. When it comes to construction, the Secretary of State apparently says that construction is suffering in Wales. However, I can tell you that, in the last three quarters of last year, construction in Wales increased by 1.5%. It went down in the UK by 13%. That shows that construction in Wales is doing well. The same applies to production. The reality is that the Secretary of State has got his figures wrong, the party opposite has got its figures wrong, and the construction and production figures for Wales show that the Welsh Government is right.

Mae'n hen dric, onid yw, i bleidleisio dros godiadau i'r dreth gyngor ar y cyngor, ac yna i ddod yma a phleidleisio yn eu herbyn? Mae hynny'n rhywbeth sy'n awgrymu nad yw cysondeb yn ymddangos ymhlith y rhai sy'n eistedd yn y meinciau gyferbyn. Dyma lle maen nhw'n chwarae bili-ffŵl gyda feithiau. Mae'n ymddangos nawr eu bod yn gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth systemau chwistrellu.

Pleidleisiodd pob un ohonynt drosti, ond erbyn hyn, yn sydyn, mae'n ymddangos eu bod yn ei gwrthwynebu. Pan ddaw i adeiladu, mae'n ymddangos bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn dweud bod gwaith adeiladu yn dioddef yng Nghymru. Fodd bynnag, gallaf ddweud wrthy, yn ystod tri chwarter olaf y flwyddyn ddiwethaf, bod adeiladu yng Nghymru wedi cynyddu 1.5%. Gostyngodd 13% yn y DU. Mae hynny'n dangos bod y diwydiant adeiladu yng Nghymru yn gwneud yn dda. Mae'r un peth yn wir am gynhyrchu. Y gwir amdani yw bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cael ei ffigurau'n anghywir, mae'r blaidd gyferbyn wedi cael ei ffigurau'n anghywir, ac mae'r ffigurau adeiladu a chynhyrchu ar gyfer Cymru yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:15

**Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, with regard to council tax support, we are aware that some £84 million in council tax has gone uncollected and unpaid across Wales, which is a rise of some £3 million over the previous year. If that money were collected, that would clearly help with the funding gap. What steps is your Government taking to ensure that local authorities do step up to the mark and enforce robust council tax collection across Wales?

Brif Weinidog, o ran cymorth y dreth gyngor, rydym yn ymwybodol bod tua £84 miliwn o dreth gyngor nad yw wedi ei chasglu a'i thalu ledled Cymru, sy'n gynydd o tua £3 miliwn o'r flwyddyn cynt. Pe bai'r arian hwnnw'n cael ei gasglu, byddai hynny'n amlwg yn helpu gyda'r bwlch cyllido. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd cyfrifoldeb trwy orfodi trefnau casglu treth gyngor cadarn ledled Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Did she do that when she was a Cabinet member in Aberconwy? I doubt it. I do not know what they were doing in Aberconwy in that case. It is up to local authorities to make sure that they raise the money. Sometimes, the money cannot be obtained. It is as simple as that. That is the nature, sometimes, of council tax. That is typical of the way that they ignore things. One of the things that I can tell the Chamber is that, on Friday, I discovered that there are 1,700 people in Bridgend waiting for one-bedroomed accommodation, and about 100 units become available every single year. That means that 1,600 people, because of the party opposite, will end up paying more money or will be evicted. That is replicated across Wales. The reality is that they do not care about council tax payers or tenants; they only care about the richest, which is why they gave the richest a tax cut, and that is why we know that they will always stand for the richest people in society, while the poorest people are of no consequence at all to them.

A wnaeth hi hynny pan oedd yn aelod o'r Cabinet yn Aberconwy? Rwy'n amau hynny. Nid wyf yn gwybod beth oedden nhw'n ei wneud yn Aberconwy felly. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau eu bod yn codi'r arian. Weithiau, ni ellir cael gafael ar yr arian. Mae mor syml â hynny. Dyna natur y dreth gyngor weithiau. Mae hynny'n nodweddiadol o'r ffordd maen nhw'n anwybyddu pethau. Un o'r pethau y gallaf ei ddweud wrth y Siambr yw fy mod wedi darganfod, ddydd Gwener, bod 1,700 o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn aros am lety un ystafell wely, ac mai tua 100 o unedau sy'n dod ar gael bob un blwyddyn. Mae hynny'n golygu bod 1,600 o bobl, oherwydd y blaidd gyferbyn, a fydd yn talu mwy o arian yn y pen draw neu'n cael eu troi allan. Mae hynny'n cael ei ailadrodd ledled Cymru. Y gwir amdani yw nad ydynt yn poeni am bobl sy'n talu treth gyngor na thenantiaid; yr unig rai y maen nhw'n poeni amdanynt yw'r cyfoethocaf, a dyna pam y rhoddwyd gostyngiad i dreth y cyfoethocaf ganddynt, a dyna pam rydym yn gwybod y byddant bob amser yn sefyll dros y bobl gyfoethocaf mewn cymdeithas, ac nad yw'r bobl dlotaf o unrhyw bwys o gwbl iddynt.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:16

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, First Minister. We are out of time.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae ein hamser ar ben.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Nid oes gennyf unrhyw newidiadau i'w hysbysu i fusnes yr wythnos hon. Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w gweld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau'n electronig.

14:17 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could you ask your colleagues for updates? First, could you ask the First Minister when he will be in a position to update us on his plans for a Welsh honours system? Secondly, could you speak to the Minister for Economy, Science and Transport and ask for an update on her work with the Welsh Co-operative and Mutuals Commission?

Weinidog, a allech chi ofyn i'ch cydweithwyr am y newyddion diweddaraf? Yn gyntaf, a allech chi ofyn i'r Prif Weinidog pryd y bydd mewn sefyllfa i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei gynlluniau ar gyfer system anrhydeddau i Gymru? Yn ail, a allech chi siarad â Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda Chomisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I heard your question about the Welsh honours system and I will ask the First Minister for an update on that. The Minister for Economy, Science and Transport will give you an update in due course.

Clywais eich cwestiwn am y system anrhydeddau i Gymru a byddaf yn gofyn i'r Prif Weinidog am y wybodaeth ddiweddaraf am hynny. Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi maes o law.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)14:18 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As was mentioned earlier, you will be aware that the all Wales medicines strategy group will be meeting tomorrow to either ratify or refuse the new medicines group's recommendation not to approve the use of Kalydeco because,

'the case for cost-effectiveness has not been proven'.

If this meeting ratifies the recommendation, will you bring a debate to the Assembly, in Government time, on the system that we use for approving first-class drugs such as Kalydeco? I know that it is utterly transformative, and many people in my area have contacted me about it. I have also initiated a statement of opinion, which I urge Assembly Members to sign. I think it is something that we really need to debate in the National Assembly, given the weight of influence that we have had from people who are really pushing for this drug to be ratified in Wales.

Fel y soniwyd yn gynharach, byddwch yn ymwybodol y bydd grŵp strategaeth feddyginiaethau Cymru gyfan yn cyfarfod yfory i gymeradwyo neu i wrthod argymhelliad y grŵp meddyginiaethau newydd i beidio â chymeradwyo'r defnydd o Kalydeco gan:

nad yw'r achos dros gost-ffeithiolrwydd wedi ei brofi.

Os bydd y cyfarfod hwn yn cadarnhau'r argymhelliad, a wnewch chi ddod â thrafodaeth gerbron y Cynulliad, yn ystod amser y Llywodraeth, ar y system yr ydym yn ei defnyddio ar gyfer cymeradwyo cyffuriau dosbarth cyntaf fel Kalydeco? Rwy'n gwybod ei fod yn newid bywydau pobl, ac mae llawer o bobl yn fy ardal i wedi cysylltu â mi amdano. Rwyf hefyd wedi cychwyn datganiad barn yr wyf yn annog Aelodau'r Cynulliad i'w lofnodi. Rwy'n credu ei fod yn rhywbeth y mae gwir angen i ni ei drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol, o ystyried maint y dylanwad yr ydym wedi ei gael gan bobl sydd wir yn gwthio i'r cyffwr hwn gael ei gymeradwyo yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As you say, the group will be looking at this tomorrow, and then will report. Obviously, the Minister for Health and Social Services will take that into consideration when bringing forward a statement to the Chamber.

Fel yr ydych chi'n dweud, bydd y grŵp yn ystyried hyn yfory, ac yna'n adrodd. Yn amlwg, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd hynny i ystyriaeth wedyn wrth gyflwyno datganiad i'r Siamber.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:19

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Would it be possible to schedule time for a debate on the findings of the NHS staff survey? You will be aware that it is the first time in six years that the survey has been held in Wales. At best, you could describe the results as a mixed picture, with a number of staff not feeling able to recommend the services for a member of their own family, a high level of stress among the workforce, and a disconnect between managers and staff. However, at the same time, there are staff who clearly demonstrate their desire to go the extra mile for the organisations that they work for. Therefore, could you arrange time for such a debate?

Secondly, could you arrange for a statement from the Minister for Economy, Science and Transport to outline the Government's approach to road safety with regard to motor cycles? Over the weekend—the first nice weekend that we have had this year—we have seen a number of very serious motor cycle accidents across Wales. In my own constituency, the A40 was closed for a number of hours at the turning at Aberbrân, and there was a fatality in north Wales. This happens every year. As soon as the good weather starts, we see a rise in the number of motor cyclists who are injured and killed and who injure other road users. I would be grateful if you could outline what the Minister's response would be, so that we can finally get to grips with this perennial problem.

A fyddai'n bosibl trefnu amser ar gyfer trafodaeth ar ganfyddiadau arolwg staff y GIG? Byddwch yn ymwybodol mai dyma'r tro cyntaf mewn chwe blynedd i'r arolwg hwn gael ei gynnal yng Nghymru. Ar y gorau, gallech ddisgrifio'r canlyniadau fel darlun cymysg, gyda nifer o aelodau staff yn teimlo na allent argymhell y gwasanaethau i aelodau o'u teuluoedd eu hunain, lefel uchel o straeu ymhlith y gweithlu, a'r diffyg cysylltiad rhwng rheolwyr ac aelodau staff. Fodd bynnag, ar yr un pryd, ceir aelodau staff sy'n dangos yn eglur eu dymuniad i fynd y tu hwnt i'w dyletswydd dros y sefydliadau y maen nhw'n gweithio iddynt. Felly, a allech chi drefnu amser ar gyfer trafodaeth o'r fath?

Yn ail, a allech chi drefnu datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i amlinellu dull y Llywodraeth o ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd yng nghyswllt beiciau modur? Dros y penwythnos—y penwythnos braf cyntaf rydym ni wedi ei gael y eleni—rydym wedi gweld nifer o ddamweiniau beic modur difrifol iawn ledled Cymru. Yn fy etholaeth fy hun, caewyd yr A40 am nifer o oriau ar y groeslon yn Aberbrân, a lladdwyd rhywun yng ngogledd Cymru. Mae hyn yn digwydd bob blwyddyn. Cyn gynted ag y bydd y tywydd braf yn dechrau, rydym yn gweld cynnydd i nifer y beicwyr modur sy'n cael eu hanafu a'u lladd ac sy'n anafu defnyddwyr eraill y ffordd. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu beth fyddai ymateb y Gweinidog, fel y gallwn fynd i'r afael â'r broblem barhaus hon o'r diwedd.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to the issue about the NHS staff survey, I am sure that the Minister will be reflecting on the outcome of that survey. It is very important in an organisation the size of the NHS in Wales, with over 80,000 employees, that we hear their views. I am sure that the Minister will make sure that what comes out of that survey is very meaningful and he will take note of it.

In relation to the issue that you raise on motor cycling, the Minister is indicating that she would be very happy to bring that forward.

O ran y mater am arolwg staff y GIG, rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn myfyrio ar ganlyniad yr arolwg hwnnw. Mae'n bwysig iawn mewn sefydliad o faint y GIG yng Nghymru, sydd â dros 80,000 o weithwyr, ein bod yn clywed eu barn. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn sicrhau bod yr hyn a amlygir gan yr arolwg hwnnw'n ystyrlon iawn ac y bydd yn cymryd sylw ohono.

O ran y mater yr ydych chi'n ei godi am feicio modur, mae'r Gweinidog yn dynodi y byddai'n hapus iawn i gyflwyno hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

**Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, twice in the last three days, I have read Government announcements in the newspapers that have not been announced to the Assembly. One relates to the additional support via the Minister for communities for Remploy workers, for which there was no written statement and an oral statement has not been scheduled. The second is in relation to the announcement of £9.5 million in support of the ambulance service. Can you confirm to the Chamber whether we are now seeing Government by press release or whether you are prepared to have proper scrutiny of your decisions?

Weinidog, ddwywaith yn ystod y tri diwrnod diwethaf, rwyf wedi darllen cyhoeddiadau'r Llywodraeth yn y papurau newydd nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi i'r Cynulliad. Mae un yn ymwneud â'r cymorth ychwanegol drwy'r Gweinidog cymunedau ar gyfer gweithwyr Remploy, nad oedd unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ar ei gyfer ac nad oes unrhyw ddatganiad llafar wedi cael ei drefnu. Mae'r ail yn ymwneud â chyhoeddi £9.5 miliwn i gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans. A allwch chi gadarnhau i'r Siambr a ydym ni'n gweld Llywodraeth trwy ddatganiad i'r wasg bellach, neu a ydych chi'n barod i gael craffu priodol ar eich penderfyniadau?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

14:21	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> We can have proper scrutiny at any time in this Chamber. I would think that everybody would welcome the extra £9.5 million for the ambulance service. We hear a lot of criticism of the ambulance service in this Chamber; we have a good news story like that, and it is not welcomed. Certainly, the statement on supporting Remploy workers is very welcome out there, whereas the UK Government has done its best—	Gallwn gael craffu priodol ar unrhyw adeg yn y Siambr hon. Byddwn yn meddwl y byddai pawb yn croesawu'r £9.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth ambiwlans. Rydym yn clywed llawer o feirniadaeth o'r gwasanaeth ambiwlans yn y Siambr hon; mae gennym stori newyddion da fel yna, ac nid yw'n cael ei chroesawu. Yn sicr, mae croeso mawr i'r datganiad ar gefnogi gweithwyr Remploy yn y byd y tu allan, tra bod Llywodraeth y DU wedi gwneud ei gorau—	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Has the policy changed?	A yw'r polisi wedi newid?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Order. Listen to what the Minister is saying.	Trefn. Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Gweinidog yn ei ddweud.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am listening.	Rwyf yn gwranddo.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:21	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Well, I am glad that you are; I could not hear.	Wel, rwy'n falch eich bod chi; nid oeddwn yn gallu clywed.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:22	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Thank you, Presiding Officer. Certainly, the UK Government has done nothing to support the Remploy workers, and I think that the Welsh Government support is very much welcomed out there.	Diolch i chi, Lywydd. Yn sicr, nid yw Llywodraeth y DU wedi gwneud unrhyw beth i gefnogi gweithwyr Remploy, ac rwy'n credu bod croeso mawr i gefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y byd y tu allan.	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:22	<b>Andrew R.T. Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I seek two statements, Minister. The first is in relation to the level of consultation that you expect local authorities to undertake with residents, particularly when they are using Welsh Government-supported grants. I refer the Minister to an issue in Penarth at the moment in relation to cycle routes. There is grave concern among many residents that the local authority there is proceeding apace with developing a cycle track that could take out a village green and damage a lot of green areas in the middle of Penarth. It has not been consulted on to date, I understand, and Welsh Government money is supporting the building of this cycle route. Therefore, as the Minister for public service delivery, could you indicate the level of consultation that you require of public bodies when bringing these schemes forward?	Gofynnaf am ddau ddatganiad, Weiniidog. Mae'r cyntaf yn ymwneud â lefel yr ymgynghori yr ydych chi'n disgwyl i awdurdodau lleol ei wneud â thrigolion, yn enwedig pan fyddant yn defnyddio grantiau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Cyfeiriaf y Gweinidog at fater ym Mhenarth ar hyn o bryd, yn ymwneud â llwybrau beicio. Mae pryder mawr ymhlith llawer o drigolion bod yr awdurdod lleol yno yn mynd rhagddi'n gyflym i ddatblygu llwybr beicio a allai gael gwared ar lawnt bentref a difrodi llawer o ardaloedd gwyrdd yng nghanol Penarth. Rwy'n deall na fu ymgynghori arno hyd yn hyn, a bod arian Llywodraeth Cymru yn cefnogi adeiladu'r llwybr beicio hwn. Felly, fel y Gweinidog dros ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a allech chi nodi lefel yr ymgynghori sydd ei angen arnoch gan gyrrff cyhoeddus wrth gyflwyno'r cynlluniau hyn?	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

Secondly, I would endorse the comments of the leader of the Liberal Democrats. In my area, South Wales Central, there was heavy congestion yesterday on the Cardiff link road and on to the M4, with some four to five miles of tailbacks. I think that it would be helpful if the Minister for transport could issue a statement on how the Welsh trunk road agency dealt with the many bottlenecks that developed over the holiday period. In particular, I am aware of some examples that are not in my area, but around Nottage in particular. Some of those were accident related, while others were down to the sheer volume of traffic. Many businesses suffered accordingly, because people could not get to their destinations. In particular, in the Vale of Glamorgan, I know of many businesses in Barry that pointed to this as affecting their turnover on what should have been a very busy bank holiday.

Yn ail, byddwn yn cefnogi sylwadau arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Yn fy ardal i, Canol De Cymru, roedd tagfeydd trwm ddoe ar ffordd gyswllt Gaerdydd ac ymlaen i'r M4, â'r traffig yn ymestyn yn ôl tua phedair i bum milltir. Rwy'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog trafniadaeth gyhoeddi datganiad ar sut y gwnaeth asiantaeth cefnffyrdd Cymru ymdrin â'r tagfeydd niferus a ddatblygodd dros gyfnod y gwyliau. Yn arbennig, rwy'n ymwybodol o rai enghreifftiau nad ydynt yn fy ardal i, ond o gwmpas Drenewydd yn Notais yn arbennig. Roedd rhai o'r rheini'n gysylltiedig â damwain, tra bod eraill oherwydd y nifer enfawr o gerbydau. Dioddefodd llawer o fusnesau o'r herwydd, gan na allai pobl gyrraedd ble roedden nhw'n mynd. Yn benodol, ym Mro Morgannwg, rwy'n gwybod am lawer o fusnesau yn y Barri a nododd bod hyn wedi effeithio ar eu trosiant ar yr hyn a ddylai fod wedi bod yn wyl banc brysur iawn.

14:23 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to local government consultation, obviously, it is very important that local government does consult as widely as possible with residents to ensure that that is what the residents want. However, local government members are responsible to their electorates, and it is up to them to decide. You will have heard in relation to the question from the leader of the Welsh Liberal Democrats that the Minister is very happy to bring forward a statement on that issue, and she will have heard what you said about the issue of the trunk roads.

O ran ymgynghori llywodraeth leol, mae'n amlwg yn bwysig iawn bod llywodraeth leol yn ymgynghori mor eang â phosibl gyda thrigolion i sicrhau mai dyna yw dymuniad y trigolion. Fodd bynnag, mae aelodau llywodraeth leol yn atebol i'w hetholwyr, a'u cyfrifoldeb nhw yw penderfynu. O ran y cwestiwn gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, byddwch wedi clywed fod y Gweinidog yn hapus iawn i gyflwyno datganiad ar y mater hwnnw, a bydd wedi clywed yr hyn a ddywedwyd gennych am fater y cefnffyrdd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:24 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, may we have a statement on the future of Newport's medieval ship project? This is a project of great historical significance that could become a major tourist attraction in Newport. The Minister for culture has indicated that no more money from the Welsh Government may be expected when current funding expires next year, which is when the lease on the ship's current home runs out. Could we please have a statement from the Minister, as it would be a great tragedy if this fantastic archaeological project failed to reach its full potential due to a lack of funding?

Weinidog, a gawn ni ddatganiad ar ddyfodol prosiect llong ganoloesol Casnewydd? Mae hwn yn brosiect o arwyddocâd hanesyddol mawr a allai fod yn atyniad mawr i dwristiaid yng Nghasnewydd. Mae'r Gweinidog diwylliant wedi nodi na ellir disgwyl dim mwy o arian gan Lywodraeth Cymru pan fydd y cyllid cyfredol yn dod i ben y flwyddyn nesaf, sef pryd y bydd y brydles ar gartref presennol y llong yn dod i ben. A gawn ni, os gwelwch yn dda, ddatganiad gan y Gweinidog, gan y byddai'n drychineb mawr pe byddai'r prosiect archeolegol gwych hwn yn methu â gwireddu ei lawn botensial oherwydd diffyg cyllid?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that this is a matter for the local authority. I met Newport City Council last week and we discussed a variety of issues. Really, it is a matter for the council now.

Rwy'n credu mai mater i'r awdurdod lleol yw hwn. Cefais gyfarfod â Chyngor Dinas Casnewydd yr wythnos diwethaf a buom yn trafod amrywiaeth o faterion. Mater i'r cyngor yw hwn nawr a dweud y gwir.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could we have an update from the Welsh Government on the implementation of site waste management plans? A number of companies in my constituency are very concerned about the form in which they are proposed at the minute—specifically, the stipulation that any domestic work over two days will require a plan. There is a concern that, while the plans are a great idea in principle, the way in which it has been set out means that cowboys will flout the new regulations while traditional, reputable traders will lose the flexibility that they need to fit in work at short notice.

A allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am weithredu cynlluniau rheoli gwastraff safle? Mae nifer o gwmnïau yn fy etholaeth i yn bryderus iawn am y ffurf y maen nhw'n cael eu cynnig ar hyn o bryd—ac yn benodol, yr amod y bydd angen cynllun ar gyfer unrhyw waith mewn cartrefi sy'n cymryd mwy na dau ddiwrnod. Er bod y cynlluniau yn syniad gwych mewn egwyddor, ceir pryder y bydd y ffordd y maen nhw wedi eu cyflwyno yn golygu y bydd y cowbois yn anwybyddu'r rheoliadau newydd tra bod masnachwyr traddodiadol sydd ag enw da yn colli'r hyblygrwydd sydd ei angen arnynt i wneud gwaith ar fyr rybudd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

14:25

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that the Minister for Natural Resources and Food and the Minister for Housing and Regeneration are due to meet to discuss that issue. I am sure that, if there is anything to report, they will bring that forward.

Rwy'n deall fod y Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd a'r Gweinidog Tai ac Adfywio yn bwriadu cyfarfod i drafod y mater hwnnw. Os bydd unrhyw beth i hysbysu amdano, rwy'n siŵr y byddant yn gwneud hynny.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:26

## Datganiad: Dyraniadau Cyfalaf

### Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Recent decisions by the UK Government have increased the capital budget available to us over the next few years, but it will still be more than 30% lower in real terms in 2014-15 than it was in 2009-10, with prospects for further reductions in the rest of this decade. Based on the latest public expenditure forecasts from the Office for Budget Responsibility by 2017-18 our capital budget will have fallen by a further 20% in real terms. We expect to have up to £4 billion less capital available over the next 10 years, from 2012-13 to 2021-22, than was available in the previous 10 years.

Today, however, I am announcing a package of over £75 million of additional capital investment to support the priorities set out in the Wales infrastructure investment plan for growth and jobs. That builds on the other additional capital allocations made over the past six months, including £232 million as part of the final budget 2013-14 package, and £91.5 million in 2012-13, which I announced in January of this year. Including the allocations I am making today, this makes a total additional investment of nearly £450 million since the publication of the Wales infrastructure investment plan in May of last year. This clearly demonstrates the Welsh Government's commitment to stimulating economic growth, creating jobs and reducing poverty in Wales.

Today, the additional allocations of £76.5 million include a £30 million package of investment to increase housing supply in 2013-14—including an additional £20 million for the social housing grant, specifically to target investment in providing housing for individuals and families that may be adversely affected as a result of the UK Government's reductions in housing benefit, and £10 million to expand the pilot of the houses into homes initiative to bring empty homes in Wales back into use. It also includes a £25 million package of investment in education to accelerate further the twenty-first century schools programme in 2013-14, and £10 million additional investment in the flood and coastal risk management programme in 2013-14 to protect our homes, businesses and communities from the risk of flooding. It includes £11.5 million—£1.2 million in 2013-14 and the remainder in future years—for a railway and station in Ebbw Vale town centre, as an initial element of a wider programme to create a more integrated transport network in south-east Wales and support the city region strategy. This investment will be a further boost to the regeneration of the local area.

## Statement: Capital Allocations

Mae penderfyniadau diweddar gan Lywodraeth y DU wedi cynyddu'r gyllideb gyfalaf sydd ar gael inni dros y blynyddoedd nesaf, ond bydd yn dal i fod dros 30% yn is mewn termau real yn 2014-15 nag yr oedd yn 2009-10, gyda rhagolygon am ostyngiadau pellach yng ngweddill y degawd hwn. Yn seiliedig ar ragolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o wariant cyhoeddus, erbyn 2017-18 bydd ein cyllideb cyfalaf wedi gostwng 20% arall mewn termau real. Rydym yn disgwyl y bydd £4 biliwn yn llai o gyfalaf ar gael inni dros y 10 mlynedd nesaf, o 2012-13 i 2021-22, nag a oedd ar gael yn y 10 mlynedd blaenorol.

Heddiw, fodd bynnag, rwyf yn cyhoeddi pecyn o dros £75 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf ychwanegol i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i hybu twf a swyddi. Mae hynny'n adeiladu ar y dyraniadau cyfalaf ychwanegol eraill a wnaethpwyd dros y chwe mis diwethaf, gan gynnwys £232 miliwn yn rhan o becyn terfynol cyllideb 2013-14, a £91.5 miliwn yn 2012-13, a gyhoeddais ym mis Ionawr eleni. Gan gynnwys y dyraniadau yr wyf yn eu gwneud heddiw, mae hyn yn gwneud cyfanswm buddsoddiad ychwanegol o bron i £450 miliwn ers y cyhoeddwyd y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ym mis Mai y llynedd. Mae hyn yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hybu twf economaidd, creu swyddi a lleihau tlodi yng Nghymru.

Heddiw, mae'r dyraniadau ychwanegol o £76.5 miliwn yn cynnwys pecyn o fuddsoddiad gwerth £30 miliwn i gynyddu'r cyflenwad tai yn 2013-14—gan gynnwys £20 miliwn ychwanegol ar gyfer y grant tai cymdeithasol, yn benodol i dargedu buddsoddiad mewn darparu tai i unigolion a theuluoedd y gallai gostyngiadau Llywodraeth y DU i fudd-dal tai gael effaith andwyol arnynt, a £10 miliwn i ehangu cynllun arbrofol y fenter troi tai'n gartrefi er mwyn ailddechrau defnyddio cartrefi gwag yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys pecyn gwerth £25 miliwn o fuddsoddiad mewn addysg i gyflymu ymhellach rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain yn 2013-14, a £10 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol yn y rhaglen rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd yn 2013-14 i amddiffyn ein cartrefi, ein busnesau a'n cymunedau rhag y perygl o lifogydd. Mae'n cynnwys £11.5 miliwn—£1.2 miliwn yn 2013-14 a'r gweddill ym mlyneddoddedd y dyfodol—ar gyfer rheiffordd a gorsaf yng nghanol tref Glynebwy, fel elfen gychwynnol o raglen ehangach i greu rhwydwaith trafniadaeth mwy integredig yn y de-ddwyrain a chefnogi'r strategaeth dinas-ranbarthau. Bydd y buddsoddiad hwn yn hwb pellach i adfywio'r ardal leol.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



The main benefits of investment are gained over the long term, but, in present circumstances, jobs created in constructing new infrastructure are vital. This latest package is expected to support around 1,400 jobs during the construction phase. Since the publication of the Wales infrastructure investment plan for growth and jobs last May, this Government has delivered additional investment of around £1.1 billion. We have achieved this both through maximising the use of our reduced capital budgets and by generating investment of around £750 million through innovative finance. This includes the two initiatives I announced in December: an extra £200 million over the next three years to accelerate delivery of the twenty-first century schools programme, and proceeding with £300 million of investment in the last two sections of the A465, using a non-dividend investment vehicle, to enable us to deliver a full dual carriageway before 2020.

At a housing finance conference in north Wales last week, I said that it was widely recognised that attracting finance through more traditional means has become a significant challenge in today's economy. Investment in housing is a high priority in the Wales infrastructure investment plan. The Welsh Government has already taken a number of successful measures to boost the supply of affordable housing, which are already delivering positive results in the current environment.

Taken together, the measures that we have taken to generate investment in the Welsh housing partnership, the housing bond, which will finance delivery of more than 1,000 affordable houses over the next four years, the social housing grant, the Houses into Homes empty homes initiative and land for housing schemes demonstrate clearly the Welsh Government's commitment to boosting the supply of affordable housing in tough times. This total extra investment of £400 million will help ensure that we meet our ambitious target of 7,500 new affordable homes over this Assembly period. These examples demonstrate that the Welsh Government is successfully taking every opportunity to maximise investment in Wales infrastructure investment plan priorities to create jobs and boost economic growth.

Finally, the UK Government's Silk commission, when it reported in November last year, set out a range of fiscal reforms, including the ability to borrow, full devolution of some smaller taxes, such as stamp duty, landfill tax and the aggregates levy, partial devolution of air passenger duty, and rate-varying powers for income tax, subject to a referendum and the ability to borrow.

In October last year, the Welsh and UK Governments also agreed a joint statement on funding reform, which included the work that we are undertaking on early access to borrowing to finance infrastructure investment projects in Wales and fair funding, where we negotiated a new mechanism to prevent further convergence between spending levels in Wales and England, which will be deployed for the first time in the forthcoming spending round.

Gwelir prif fuddion buddsoddi dros y tymor hir, ond, dan yr amgylchiadau presennol, mae swyddi a grëir wrth adeiladu seilwaith newydd yn hanfodol. Disgwylir i'r pecyn diweddaraf hwn gefnogi tua 1,400 o swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu. Ers cyhoeddi'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i hybu twf a swyddi fis Mai diwethaf, mae'r Llywodraeth hon wedi darparu buddsoddiad ychwanegol o tua £1.1 biliwn. Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud y defnydd gorau o'n cyllidebau cyfalaf is a drwy gynhyrchu buddsoddiad o tua £750 miliwn drwy gyllid arloesol. Mae hyn yn cynnwys y ddwy fenter a gyhoeddais ym mis Rhagfyr: £200 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i gyflymu'r broses o gyflwyno rhaglen ysgolion yr unfed ganrif ar hugain, a bwrw ymlaen â buddsoddiad o £300 miliwn yn y ddau ddarn olaf o'r A465, gan ddefnyddio cyfrwng buddsoddi heb ddifidenda, i'n galluogi i ddarparu ffordd ddeuol lawn cyn 2020.

Mewn cynhadledd cyllid tai yn y gogledd yr wythnos diwethaf, dywedais y cydnabyddir yn gyffredinol bod denu cyllid drwy ddulliau mwy traddodiadol wedi dod yn her sylweddol yn economi heddiw. Mae buddsoddi mewn tai yn flaenoriaeth uchel yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd nifer o gamau llwyddiannus i hybu cyflenwad tai fforddiadwy, sydd eisoes yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol yn yr amgylchedd presennol.

O'u hystyried gyda'i gilydd, mae'r camau yr ydym wedi'u cymryd i greu buddsoddiad ym mhartneriaeth tai Cymru, sef y bond tai, a fydd yn ariannu cyflenwi dros 1,000 o dai fforddiadwy yn y pedair blynedd nesaf, y grant tai cymdeithasol, menter tai gwag Troi Tai'n Gartrefi a'r cynlluniau tir ar gyfer tai yn dangos yn glir ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hybu cyflenwad tai fforddiadwy mewn cyfnod anodd. Bydd cyfanswm y buddsoddiad ychwanegol gwerth £400 miliwn hwn yn helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed uchelgeisiol o 7,500 o gartrefi fforddiadwy newydd dros gyfnod y Cynulliad hwn. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn manteisio ar bob cyfle yn llwyddiannus i sicrhau'r buddsoddiad mwyaf posibl ym mlaenoriaethau'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru i greu swyddi a hybu twf economaidd.

Yn olaf, nododd comisiwn Silk Llywodraeth y DU, pan gyflwynodd ei adroddiad ym mis Tachwedd y llynedd, ystod o ddiwygiadau cyllidol, gan gynnwys y gallu i fenthycu, datganoli rhai trethi llai yn llawn, megis treth stamp, treth tirlenwi a'r ardoll agregau, datganoli toll teithwyr awyr yn rhannol, a phwerau amrywio trethi ar gyfer treth incwm, yn amodol ar refferendwm a'r gallu i fenthycu.

Ym mis Hydref y llynedd, cytunodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd ar ddatganiad ar y cyd am ddiwygio cyllid, a oedd yn cynnwys y gwaith yr ydym yn ei wneud ar fynediad cynnar at fenthycu i ariannu prosiectau buddsoddi yn seilwaith Cymru, a chyllid teg, lle'r ydym wedi trafod mecanwaith newydd i atal cydgyfeirio pellach rhwng lefelau gwariant yng Nghymru a Lloegr, a gaiff ei ddefnyddio am y tro cyntaf yn y cylch gwariant nesaf.

The Welsh Government strongly welcomed the Silk package, and we have called for the proposals to be implemented in their entirety. To be absolutely clear on that point, and in order to avoid any possible uncertainty, let me repeat that we are seeking full implementation of the Silk proposals, via legislation in the lifetime of the current UK Parliament. That is why I was pleased that all parties in the Assembly unanimously supported a motion in November welcoming the Silk report and looking forward to its implementation. So, there is a real political consensus in Wales and I will be making further announcements on the detail of this work as it progresses.

The devolution of stamp duty land tax is an area where there are some good potential opportunities. Over the past fortnight, I met with leading home builders, businesses and other representatives of the construction and property sectors and listened to their views on the current operation of stamp duty land tax and the potential for reform. There is a widespread view that stamp duty should be devolved, that it is ripe for reform and that such reform would have real benefits for housing in Wales. I will provide further detail as this work progresses.

I will also be announcing additional capital allocations for 2014-15 and 2015-16 in October as part of the draft budget package. While it is positive that we have received this funding as a result of the UK Government's autumn statement and March budget, we are also bearing the impact of negative resource consequentials, totalling £57 million.

A significant proportion of the positive capital consequentials received is ring-fenced for financial transactions. This funding can only be used for loans and equity investments, the majority of which will need to be repaid to the Exchequer. Arrangements for when and how this repayment will be made have not yet been made and we are still working through the details with the Treasury. However, in preparation for that, I am already considering options to utilise the additional resources.

Today, I am pleased to announce additional investment in housing, education, flood protection and transport, using every Welsh pound again to deliver our infrastructure priorities and boost jobs and growth.

Roedd Llywodraeth Cymru yn croesawu'r pecyn Silk yn gryf, ac rydym wedi galw am i'r cynigion gael eu gweithredu yn eu cyfanrwydd. I fod yn hollol glir am y pwynt hwnnw, ac er mwyn osgoi unrhyw ansicrwydd posibl, gadewch i mi ailadrodd ein bod yn bwriadu gweithredu cynigion Silk yn llawn, drwy gyfrwng deddfwriaeth yn ystod oes Senedd bresennol y Deyrnas Unedig. Dyna pam yr oeddwn yn falch bod yr holl bleidiau yn y Cynulliad yn unfryd o blaid cynnig ym mis Tachwedd a oedd yn croesawu adroddiad Silk ac yn edrych ymlaen at ei roi ar waith. Felly, ceir consensws gwleidyddol go iawn yng Nghymru a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach am fanylion y gwaith hwn wrth iddo fynd yn ei flaen.

Mae datganoli treth tir y doll stamp yn faes lle ceir rhai cyfleoedd da posibl. Dros y pythefnos diwethaf, cyfarfûm â busnesau ac adeiladwyr tai blaenllaw, ac â chynrychiolwyr eraill o'r sectorau adeiladu ac eiddo, a gwrandawais ar eu barn am sut y defnyddir treth tir y doll stamp ar hyn o bryd a'r potensial i'w diwygio. Ceir barn gyffredinol y dylid datganoli'r doll stamp, ei bod yn bryd ei diwygio ac y byddai diwygiad o'r fath o fudd gwirioneddol i dai yng Nghymru. Byddaf yn rhoi mwy o fanylion wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

Byddaf hefyd yn cyhoeddi dyraniadau cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2014-15 a 2015-16 ym mis Hydref yn rhan o becyn y gyllideb ddrafft. Er ei bod yn gadarnhaol ein bod wedi cael y cyllid hwn o ganlyniad i ddatganiad Llywodraeth y DU yn yr hydref a chyllideb mis Mawrth, rydym hefyd yn teimlo effaith negyddol adnoddau canlyniadol gwerth cyfanswm o £57 miliwn.

Mae cyfran sylweddol o'r symiau canlyniadol cyfalaf cadarnhaol a dderbyniwyd wedi'i neilltuo ar gyfer trafodion ariannol. Dim ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti y gellir defnyddio'r cyllid hwn, a bydd angen ad-dalu'r rhan fwyaf ohono i'r Trysorlys. Nid yw'r trefniadau ar gyfer pryd a sut y gwneir yr ad-daliad hwn wedi eu gwneud eto ac rydym yn dal i weithio drwy'r manylion gyda'r Trysorlys. Fodd bynnag, wrth baratoi am hynny, rwyf eisoes yn ystyried opsiynau i ddefnyddio'r adnoddau ychwanegol.

Heddiw, mae'n bleser gennyf gyhoeddi buddsoddiad ychwanegol mewn tai, addysg, amddiffyn rhag llifogydd a thrafnidiaeth, gan ddefnyddio pob punt Gymreig eto i gyflawni ein blaenoriaethau seilwaith a rhoi hwb i swyddi a thwf.

14:34

## Paul Davies [Bywgraffiad Biography](#)

I thank the Minister for her statement this afternoon. As Members across the Chamber will be aware, as a result of spending decisions by the UK Government in the last budget, the Welsh Government will benefit from an additional £161 million of capital spending power. Can the Minister clarify whether this £76.5 million announced today is part of the £161 million announced by the Chancellor in his recent budget? I appreciate from the statement that this money is in addition to the capital allocation package that she announced on 15 January this year.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Fel y bydd Aelodau ar draws y Siambr yn gwybod, o ganlyniad i benderfyniadau gwario Llywodraeth y DU yn y gyllideb ddiwethaf, bydd Llywodraeth Cymru yn elwa o £161 miliwn o bŵer gwario cyfalaf ychwanegol. A all y Gweinidog egluro a yw'r £76.5 miliwn a gyhoeddwyd heddiw yn rhan o'r £161 miliwn a gyhoeddodd y Canghellor yn ei gyllideb ddiweddar? Rwyf yn deall o'r datganiad bod yr arian hwn yn ychwanegol at y pecyn dyraniad cyfalaf a gyhoeddodd hi ar 15 Ionawr eleni.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I accept that as a result of the UK-wide revenue departmental expenditure limit reductions, the Welsh Government's resource budget will be reduced by £57 million, as mentioned in the statement. However, the Welsh Government's spending power will increase by £104 million over the next two years. The impact of this RDEL reduction is more than offset by increases to the Welsh Government's funding as a result of positive consequentials, arising from budget measures. That means that the Welsh Government's spending power actually increases as a result of the budget.

In her statement, the Minister states that a significant proportion of the positive capital consequentials received is ring-fenced for financial transactions, and that the funds can only be used for loans and equity investments. She went on to say that arrangements with the Treasury, with regard to this, are still being worked through. Can she therefore tell us when she will be in a position to make further announcements on this, and could she outline what discussions she has had to date on this issue?

I note that this afternoon's statement is specific with regards to certain projects, such as the investment in a railway station in Ebbw Vale town centre. However, given this additional investment today, perhaps the Minister could commit to providing Members with further details on other specific projects that will benefit from this additional money, particularly in relation to schools and housing.

It is crucial that the Welsh Government thinks innovatively, and invests money more wisely than it has in the past. I am pleased, therefore, that the Minister is continuing with some innovative finance models, and that she is continuing to look at other innovative models. Given the current financial climate, it is even more important to consider all options when financing capital projects. That includes private investment. I accept that the private finance initiative model has proved to be hugely expensive and detrimental to the taxpayer in some cases, but there are other models of financing capital projects. I am sure that the Minister will not be shocked to hear me call for this again, but I believe that the Welsh Government needs to seriously consider public-private partnerships alongside the infrastructure investment plan. Members will know that we on this side of the Chamber are keen for the Welsh Government to establish public-private partnerships. The evidence to the Finance Committee, for example, from Scottish Futures Trust has told us of the effects that these partnerships can have in terms of financing capital projects. I accept that Gerry Holtham, in his capacity as infrastructure adviser to the Welsh Government, has told the Finance Committee that it is very much one of the things that the Government is exploring quite actively with respect to certain specific projects. In the circumstances, perhaps the Minister in her response could elaborate on what further work or analysis has been done by the Welsh Government on this particular issue.

I also wish to ask for the Minister's comments about tax increment financing, which has now been available to English local authorities for over a year. I would welcome the Minister's comments on this agenda.

Rwyf yn derbyn, o ganlyniad i'r gostyngiadau i derfynau gwariant adrannau refeniw ledled y DU, y bydd cyllideb adnoddau Llywodraeth Cymru yn gostwng £57 miliwn, fel y crybwyllwyd yn y datganiad. Fodd bynnag, bydd grym gwario Llywodraeth Cymru yn cynyddu £104 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Mae effaith y gostyngiad hwn i derfynau gwariant adrannau refeniw yn cael mwy na'i gwrthbwysu gan gynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru o ganlyniad i symiau canlyniadol cadarnhaol, yn deillio o fesurau cyllidebol. Mae hynny'n golygu bod grym gwario Llywodraeth Cymru mewn gwirionedd yn cynyddu o ganlyniad i'r gyllideb.

Yn ei datganiad, mae'r Gweinidog yn datgan bod cyfran sylweddol o'r symiau canlyniadol cyfalaf cadarnhaol a gafwyd wedi'i neilltuo ar gyfer trafodion ariannol, ac mai dim ond ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti y ceir defnyddio'r arian. Aeth yn ei blaen i ddweud bod trefniadau gyda'r Trysorlys, yn ymwneud â hyn, yn dal i gael eu trafod. A all hi, felly, ddweud wrthym pa bryd y bydd hi mewn sefyllfa i wneud cyhoeddiadau pellach am hyn, ac a allai hi amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael hyd yma ar y mater hwn?

Nodaf fod datganiad y prynhawn yma yn ymwneud yn benodol â rhai prosiectau arbennig, megis y buddsoddiad mewn gorsaf reilffordd yng nghanol tref Glynebwy. Fodd bynnag, ac ystyried y buddsoddiad ychwanegol hwn heddiw, efallai y gallai'r Gweinidog ymrwymo i roi manylion pellach i Aelodau am brosiectau penodol eraill a fydd yn elwa o'r arian ychwanegol hwn, yn enwedig o ran ysgolion a thai.

Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn meddwl yn arloesol, ac yn buddsoddi arian yn ddoethach nag a wnaeth yn y gorffennol. Rwyf yn falch, felly, bod y Gweinidog yn parhau gyda rhai modelau ariannol arloesol, a'i bod yn parhau i edrych ar fodelau arloesol eraill. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysicach fyth ystyried pob opsiwn wrth ariannu prosiectau cyfalaf. Mae hynny'n cynnwys buddsoddi preifat. Rwyf yn derbyn bod y model menter cyllid preifat wedi bod yn hynod ddrud ac yn niweidiol i'r trethdalwr mewn rhai achosion, ond mae modelau eraill o ariannu prosiectau cyfalaf yn bodoli. Rwyf yn siŵr na fydd y Gweinidog yn synnu wrth fy nghlywed yn galw am hyn eto, ond rwyf yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried o ddirif partneriaethau cyhoeddus-preifat ochr yn ochr â'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith. Bydd yr Aelodau'n gwybod ein bod ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn awyddus i Lywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyhoeddus-preifat. Mae'r dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, er enghraifft, o Scottish Futures Trust wedi dweud wrthym am yr effeithiau y gall y partneriaethau hyn eu cael o ran ariannu prosiectau cyfalaf. Rwyf yn derbyn bod Gerry Holtham, yn rhinwedd ei swydd fel cyngorydd seilwaith i Lywodraeth Cymru, wedi dweud wrth y Pwyllgor Cyllid bod hynny'n sicr yn un o'r pethau y mae'r Llywodraeth yn ei archwilio'n eithaf gweithgar o ran prosiectau penodol. Dan yr amgylchiadau, efallai y gallai'r Gweinidog, yn ei hymateb, ymhelaethu ar unrhyw waith neu ddadansoddiad pellach a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru yn y maes penodol hwn.

Hoffwn hefyd ofyn am sylwadau'r Gweinidog am ariannu drwy gynyddrannau treth, sydd bellach wedi bod ar gael i awdurdodau lleol Lloegr ers dros flwyddyn. Byddwn yn croesawu sylwadau'r Gweinidog am yr agenda hon.

During the last Welsh Government statement on capital allocations, I asked the Minister to ensure that there is a strategic fit with the infrastructure investment plan, but also that business cases for capital projects are robust and deliverable, and provide value for money. I accept that it is important to identify and prioritise nationally significant capital projects across the Welsh public sector. However, there also needs to be a serious consideration of the value for money that each project will deliver. Therefore, today, I ask for the same confirmation, given that during the current financial climate, it is more important than ever to ensure value for money for the taxpayer. I hope that that consideration is at the heart of the Welsh Government's agenda. Furthermore, I hope that the Minister will consider publishing the Welsh Government's analysis of value for money for each of these projects. Perhaps she would also be kind enough to tell us how these projects have been prioritised, namely what criteria has been used to identify the importance of these projects.

I understand that the UK Government has also made clear its commitment to continue engaging with the Welsh Government to explore options for improving the M4 in south Wales. I understand that the Minister has had a series of meetings with the Chief Secretary to the Treasury about the M4 in the last few months, which I welcome. Perhaps she can give us an update on the progress of this commitment, given the importance of this improvement to the Welsh economy.

Finally, I briefly wish to question the Minister on the Silk commission, which she mentions in her statement. I am pleased that inter-governmental talks to progress the Silk commission proposals continue at official and ministerial levels. Hopefully, these talks will also address the case for early access to the in-principle borrowing powers to finance specific infrastructure projects. Can the Minister update us on these talks in her response, given the importance of borrowing powers to support capital infrastructure projects in the future?

I thank the Minister once again for her statement this afternoon, and I hope that the Welsh Government will ensure that investments announced today will be effectively monitored so that they are successful in developing our national public infrastructure, which in turn will support the Welsh economy.

14:40

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Paul Davies for his questions on my statement today. I have welcomed the additional capital announced in the budget in my statement. It is a total of £161 million over the next two years, but there are strings attached to the capital. My announcement today is on the capital that we can now allocate according to the Wales infrastructure plan, and I will respond to your points and questions on that.

Yn ystod datganiad diwethaf Llywodraeth Cymru am ddyraniadau cyfalaf, gofynnais i'r Gweinidog sicrhau y ceir cyweddau strategol gyda'r cynllun buddsoddi mewn seilwaith, ond hefyd bod achosion busnes prosiectau cyfalaf yn gadarn ac yn ymarferol, ac yn rhoi gwerth am arian. Rwyf yn derbyn ei bod yn bwysig nodi a blaenoriaethu prosiectau cyfalaf o bwys cenedlaethol ar draws sector cyhoeddus Cymru. Fodd bynnag, mae hefyd angen ystyried yn ddifrifol faint o werth am arian y bydd pob prosiect yn ei roi. Felly, heddiw, rwyf yn gofyn am yr un cadarnhad, o gofio bod yr hinsawdd ariannol bresennol yn golygu ei bod yn bwysicach nag erioed sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr. Rwyf yn gobeithio bod yr ystyriaeth honno wrth wraidd agenda Llywodraeth Cymru. Ar ben hynny, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog ystyried cyhoeddi dadansoddiad Llywodraeth Cymru o werth am arian pob un o'r prosiectau hyn. Efallai y byddai hi hefyd cystal â dweud wrthym sut y cafodd y prosiectau hyn eu blaenoriaethu, hynny yw, pa feini prawf a ddefnyddiwyd i nodi pwysigrwydd y prosiectau hyn.

Rwyf yn deall bod Llywodraeth y DU hefyd wedi gwneud eu hymrwymiad yn glir i barhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i archwilio opsiynau i wella'r M4 yn y de. Deallaf fod y Gweinidog wedi cael cyfres o gyfarfodydd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys am yr M4 yn ystod y misoedd diwethaf, a chroesawaf hynny. Efallai y gall hi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gynnydd yr ymrwymiad hwn, o ystyried pwysigrwydd y gwelliant hwn i economi Cymru.

Yn olaf, hoffwn holi'r Gweinidog yn fyr am gomisiwn Silk; mae'n sôn am y comisiwn hwn yn ei datganiad. Rwyf yn falch bod trafodaethau rhyng-lywodraethol i fwrw ymlaen â chynigion comisiwn Silk yn parhau ar lefelau swyddogol a gweinidogol. Y gobaith yw y bydd y sgysiau hyn hefyd yn rhoi sylw i'r achos dros fynediad cynnar at y pwerau benthyca mewn egwyddor i ariannu prosiectau seilwaith penodol. A all y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y trafodaethau hyn yn ei hymateb, o gofio pwysigrwydd y pwerau benthyca i gefnogi prosiectau seilwaith cyfalaf yn y dyfodol?

Diolch i'r Gweinidog unwaith eto am ei datganiad y prynhawn yma; rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y buddsoddiadau a gyhoeddwyd heddiw yn cael eu monitro yn effeithiol fel eu bod yn llwyddo i ddatblygu ein seilwaith cyhoeddus cenedlaethol, a fydd yn ei dro yn cefnogi economi Cymru.

Diolch i Paul Davies am ei gwestiynau am fy natganiad heddiw. Rwyf wedi croesawu'r cyfalaf ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb yn fy natganiad. Mae'n gyfanswm o £161 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf, ond ceir amodau sydd ynghlwm â'r cyfalaf. Mae fy nghyhoeddiad heddiw yn ymwneud â'r cyfalaf y gallwn ei ddyrannu yn awr yn unol â chynllun seilwaith Cymru, a byddaf yn ymateb i'ch pwyntiau a'r cwestiynau am hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I want to respond in terms of the whole picture—the £161 million. There are strings attached to the capital that we will have to repay in the future. As I said, these are financial transactions, and we are considering carefully how we maximise the use of those resources. They are based on equity and loans so that they can further our goal of stimulating the Welsh economy. We need to look at this carefully. The UK Government's mortgage guarantee scheme will be available in Wales, which is a welcome boost for homebuyers and the construction industry. We are also boosting the housing sector through the increase in the allocation in terms of the social housing grant. We are looking carefully at the UK budget opportunities, and of course I will respond to colleagues and to the Senedd on that in due course.

I must also say that that capital allocation comes with a price. The revenue cuts present us with significant challenges because the UK Government has made those revenue cuts on top of those announced in the autumn statement. So, even allowing for some small revenue consequentials, today's announcement reduces our revenue budget by £26 million this financial year and £31 million for 2014-15. Since we published our spending plans in November, our total revenue is reduced by £32 million in this financial year and £81 million in 2014-15, so we also have to consider carefully how we manage these reductions in our budget.

I am very happy to give some detail about the announcements today. You will be pleased, I am sure, to hear that, in terms of the social housing grant, we particularly responded to proposals from local government and registered social landlords to support the provision of one-bedroomed and two-bedroomed properties for affordable housing across Wales, in response to the impact of welfare reform. We anticipate that over 300 new homes will be built from this funding, and there will be partnership working with the Welsh Local Government Association and Community Housing Cymru to ensure that the funding is targeted where it is most needed. Also, in relation to twenty-first century schools, there is a total allocation of £25 million. That includes—and the Minister will be announcing this in due course—all those new school developments that will benefit across Wales. I can tell you that that stretches from Denbighshire to Monmouthshire, from Swansea to Powys. So, there will be beneficiaries across Wales from that injection of funding. It is also important to support existing transitional projects in Conwy, Flintshire and Swansea.

Rwyf am ymateb o ran y darlun cyfan—y £161 miliwn. Ceir amodau sydd ynghlwm â'r cyfalaf sy'n golygu y bydd rhaid inni ad-dalu yn y dyfodol. Fel y dywedais, trafodion ariannol yw'r rhain, ac rydym yn ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau inni ddefnyddio'r adnoddau hynny. Maent yn seiliedig ar ecwiti a benthyciadau er mwyn iddynt allu hyrwyddo ein nod o ysgogi economi Cymru. Mae angen inni edrych ar hyn yn ofalus. Bydd cynllun gwarant morgais Llywodraeth y DU ar gael yng Nghymru, a chroesewir yr hwb y mae hyn yn ei olygu i brynwyr tai a'r diwydiant adeiladu. Rydym hefyd yn rhoi hwb i'r sector tai drwy gynyddu dyraniad y grant tai cymdeithasol. Rydym yn edrych yn ofalus ar gyfleoedd cyllideb y DU, ac wrth gwrs byddaf yn ymateb i gydweithwyr ac i'r Senedd am hynny maes o law.

Rhaid imi hefyd ddweud bod pris i'w dalu am y dyraniad cyfalaf. Mae'r toriadau refeniw yn cyflwyno heriau sylweddol inni gan fod Llywodraeth y DU wedi gwneud y toriadau refeniw hynny ar ben y rhai a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref. Felly, hyd yn oed gan ystyried rhai symiau refeniw canlyniadol bach, mae cyhoeddiad heddiw yn lleihau £26 miliwn ar ein cyllideb refeniw yn y flwyddyn ariannol hon a £31 miliwn yn 2014-15. Ers inni gyhoeddi ein cynlluniau gwariant ym mis Tachwedd, mae cyfanswm ein refeniw wedi'i ostwng £32 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon ac £81 miliwn yn 2014-15, felly mae'n rhaid inni hefyd ystyried yn ofalus sut yr ydym yn rheoli'r gostyngiadau hyn yn ein cyllideb.

Rwyf yn hapus iawn i roi rhywfaint o fanylion am y cyhoeddiadau heddiw. Byddwch yn falch o glywed, rwyf yn siŵr, ein bod, o ran y grant tai cymdeithasol, wedi ymateb yn arbennig i gynigion gan lywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gefnogi darpariaeth eiddo un ystafell wely a dwy ystafell wely ar gyfer tai fforddiadwy ledled Cymru, mewn ymateb i effaith diwygio lles. Rydym yn rhagweld y bydd dros 300 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu o ganlyniad i'r cyllid hwn, ac y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â Cartrefi Cymunedol Cymru i sicrhau bod y cyllid yn cael ei dargedu lle mae ei angen fwyaf. Hefyd, o ran ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ceir cyfanswm dyraniad o £25 miliwn. Mae hynny'n cynnwys—a bydd y Gweinidog yn cyhoeddi hyn maes o law—yr holl ddatblygiadau ysgolion newydd hynny a fydd o fudd i bob rhan o Gymru. Gallaf ddweud wrthyhch fod hynny'n ymestyn o Sir Ddinbych i Sir Fynwy, o Abertawe i Bowys. Felly, bydd buddiolwyr ledled Cymru o'r dyraniad cyllid hwnnw. Mae hefyd yn bwysig cefnogi prosiectau trosiannol sy'n bodoli eisoes yng Nghonwy, sir y Fflint ac Abertawe.

It is most important that flood and coastal erosion risk management schemes are being funded today. Those include schemes in Conwy, Flintshire and Ceredigion. In Pembrokeshire, at a constituency level, Little Haven is one of those beneficiaries. These are all schemes that have been put forward in terms of proposals and priorities for consideration by the investment panel that steers the Wales infrastructure investment plan. This is about driving value for money from our reduced capital budget—which will be 24% lower in real terms by 2014-15—and it helps us find new ways to boost investment in infrastructure in challenging economic times. It is about being clear about our priorities in terms of infrastructure, how we pay for infrastructure investment through more efficient use of existing resources, and our policy and approach to developing and delivering proposals.

I am glad that you referred to our innovative investment programme because, as you know, this is about taking forward new opportunities in terms of non-dividend investment vehicles, which are supporting delivering sections 5 and 6 of the A465. The local government borrowing initiative, which is taking forward our twenty-first century schools extension, is currently funding our highways improvement schemes. It is about using innovative investment and finance to assist us in meeting our infrastructure needs as well as our ambitions to boost jobs and growth, particularly as a result of the capital funding cuts that we are now having to handle.

Is it important, when we look at the new innovative investment programme, that we remember that it is about a £0.5 billion investment in twenty-first century schools and the A465, but that we are also looking at ways in which we can take this forward. I will report back to the Senedd on this in due course.

In terms of tax increment financing, we have looked at that and are considering it. It is one option in a range of innovative finance solutions. We have to be clear that it works right across Wales and that it is appropriate. We are looking at examples where TIF is being used. The business rates task and finish group recommended that the Welsh Government monitors the progress of the implementation of tax increment financing in England and Scotland, and I intend to do that.

Finally, to respond to the points made by the Member in relation to the Silk commission, we are having continuing discussions on funding for improvements to the M4 in south Wales. We are discussing options for funding improvements to the M4 alongside an assessment of the Silk commission recommendation in relation to early access to borrowing for infrastructure investment. Those discussions are ongoing. We look forward to the UK Government's response on the Silk 1 proposals.

Mae'n hynod bwysig bod cynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael eu hariannu heddiw. Mae'r rheini'n cynnwys cynlluniau yng Nghonwy, sir y Fflint a Cheredigion. Yn sir Benfro, ar lefel etholaethbod, mae Aber Bach yn un o'r buddiolwyr hynny. Mae'r rhain i gyd yn gynlluniau sydd wedi eu cyflwyno fel cynigion a blaenoriaethau i'w hystyried gan y panel buddsoddi sy'n llywio'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Mae'n fater o sbarduno gwerth am arian o'n cyllideb gyfalaf llai—a fydd 24% yn is mewn termau real erbyn 2014-15—ac mae'n ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o hybu buddsoddiad mewn seilwaith ar adeg economaidd anodd. Mae'n fater o fod yn glir ynghylch ein blaenoriaethau o ran seilwaith, sut yr ydym yn talu am fuddsoddiad mewn seilwaith trwy ddefnyddio ein hadnoddau presennol yn fwy effeithlon, a'n polisi a'n dulliau ar gyfer datblygu cynigion a'u cyflawni.

Rwyf yn falch eich bod wedi cyfeirio at ein rhaglen fuddsoddi arloesol oherwydd, fel y gwychod, mae hyn yn fater o ddatblygu cyfleoedd newydd o ran cyfryngau buddsoddi heb ddifidendau, sy'n cefnogi cyflenwi rhannau 5 a 6 yr A465. Mae'r fenter benthyca llywodraeth leol, sydd yn bwrw ymlaen â'n hestyniad ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, ar hyn o bryd yn ariannu ein cynlluniau gwella priffyrdd. Mae'n fater o ddefnyddio cyllid a buddsoddiad arloesol i'n helpu i ddiwallu ein hanghenion o ran seilwaith yn ogystal â'n huchelgais i roi hwb i swyddi a thwf, yn arbennig o ganlyniad i'r toriadau i gyllid cyfalaf yr ydym nawr yn gorfod ymdrin â hwy.

Mae'n bwysig, pan edrychwn ar y rhaglen fuddsoddi arloesol newydd, ein bod yn cofio ei bod yn ymwneud â buddsoddiad o £0.5 biliwn mewn ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a'r A465, ond ein bod hefyd yn edrych ar ffyrdd y gallwn fwrw ymlaen â hyn. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Senedd am hyn maes o law.

O ran ariannu drwy gynyddrannau treth, rydym wedi edrych ar hynny ac rydym yn ei ystyried. Mae'n un opsiwn mewn ystod o ddatrysiadau ariannol arloesol. Rhaid inni fod yn glir ei fod yn gweithio ledled Cymru a'i fod yn briodol. Rydym yn edrych ar enghreifftiau lle mae TIF yn cael ei ddefnyddio. Mae'r grŵp gorchwyl a gorffen ardrethi busnes wedi argymhell bod Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd o ran ariannu drwy gynyddrannau treth yn Lloegr a'r Alban, ac rwyf yn bwriadu gwneud hynny.

Yn olaf, i ymateb i'r pwyntiau a wnaeth yr Aelod am gomisiwn Silk, rydym yn cael trafodaethau parhaus am gyllid ar gyfer gwella'r M4 yn y de. Rydym yn trafod opsiynau i ariannu gwelliannau i'r M4 ochr yn ochr ag asesiad o argymhelliad comisiwn Silk am fynediad cynnar at fenthyca i fuddsoddi mewn seilwaith. Mae'r trafodaethau hynny'n parhau. Rydym yn edrych ymlaen at ymateb Llywodraeth y DU i gynigion Silk 1.

14:47

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad Biography](#)

The Minister made a very detailed statement at the beginning, but I do not expect any other Member to speak for longer than a minute. We have used up 22 minutes and we have only 30 minutes allocated for this. I have another four speakers, so please be succinct with your questions, and perhaps the Minister can be succinct with her answers.

Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad manwl iawn ar y dechrau, ond nid wyf yn disgwyl i unrhyw Aelod arall i siarad am fwy na munud. Rydym wedi defnyddio 22 munud a dim ond 30 munud sydd wedi'i neilltuo ar gyfer hyn. Mae gennyf bedwar siaradwr arall, felly byddwch yn gryno gyda'ch cwestiynau os gwelwch yn dda, ac efallai y gall y Gweinidog eu hateb yn gryno.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



14:47

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I welcome the statement. It shows, again, that Labour knows the importance of capital spending to the people of Wales. Housing, education, flood defence and transportation show Labour's commitment and priorities, which will help to boost employment and help the economy. I welcome the innovative methods of capital expenditure being looked at by the Minister, but does the Minister agree that what we really need is borrowing powers? The Treasury could do that by altering its rules. It would not need to do anything else, and we could have borrowing powers very quickly. If it was prepared to do that, it would give us far greater powers. Does the Minister feel that that is what should happen and should happen now?

Rwyf yn croesawu'r datganiad. Mae'n dangos, unwaith eto, bod Llafur yn gwybod pa mor bwysig yw gwariant cyfalaf i bobl Cymru. Mae tai, addysg, amddiffyn rhag llifogydd a thrafnidiaeth yn dangos ymrwymiad a blaenoriaethau Llafur, a fydd yn helpu i hybu cyflogaeth a helpu'r economi. Rwyf yn croesawu'r dulliau gwariant cyfalaf arloesol y mae'r Gweinidog yn eu hystyried, ond a yw'r Gweinidog yn cytuno mai pwerau benthyca yw'r hyn sydd ei angen arnom mewn gwirionedd? Gallai'r Trysorlys wneud hynny trwy newid y rheolau. Ni fyddai'n rhaid iddynt wneud dim byd arall, a gallem gael pwerau benthyca yn gyflym iawn. Pe byddent yn fodlon gwneud hynny, byddai'n rhoi llawer mwy o bwerau inni. A yw'r Gweinidog yn teimlo mai dyna beth ddylai ddigwydd ac y dylai ddigwydd nawr?

14:48

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I am grateful to Mike Hedges for that question. He always answers the question quite clearly as well. As the First Minister said in his responses, of course we can progress with borrowing powers. In terms of the UK Government's opportunity to respond, it only requires an exchange of letters, but it may then progress into a finance Bill in due course. However, borrowing powers is what the Welsh Government needs and wants and is ready to take responsibility for.

Rwyf yn ddiolchgar i Mike Hedges am y cwestiwn yna. Mae bob amser yn ateb y cwestiwn yn eithaf dir hefyd. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei atebion, wrth gwrs, gallwn symud ymlaen â phwerau benthyca. O ran cyfle Llywodraeth y DU i ymateb, dim ond cyfnewid llythyrau sydd ei angen, ond gall wedyn droi'n Fil cyllid maes o law. Fodd bynnag, pwerau benthyca yw'r hyn sydd ei angen, a'i eisiau, ar Lywodraeth Cymru, ac rydym yn barod i gymryd cyfrifoldeb am hynny.

14:48

**Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Minister, it will come as no surprise to you that Plaid Cymru welcomes this statement, as we recognise the impact that capital spend can have on the economy, and perhaps you will outline how you intend to ensure that all parts of Wales will benefit. I am especially pleased to see the use of novel finance mechanisms along the lines of the Build for Wales initiative. Minister, can you tell us how you decided which projects to support with the additional capital?

Weinidog, ni fydd yn syndod ichi fod Plaid Cymru yn croesawu'r datganiad hwn, gan ein bod yn cydnabod yr effaith y gall gwariant cyfalaf ei chael ar yr economi, ac efallai y gwnewch amlinellu sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd pob rhan o Gymru yn elwa. Rwyf yn arbennig o falch o weld defnyddio mecanweithiau cyllid newydd tebyg i fenter Adeiladu ar gyfer Cymru. Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym sut y gwnaethoch benderfynu pa brosiectau i'w cefnogi gyda'r cyfalaf ychwanegol?

I also have a number of very brief specific questions on your statement. In relation to affordable housing, it is very good news that, of this £30 million package, you say that £20 million is specifically targeted at those who will lose out on housing benefit. Obviously, this is not a revenue budget, so you cannot help with the rent. Can you tell us how you will target the housing benefit losers and will that be available right across Wales?

Mae gennyf hefyd nifer o gwestiynau penodol byr iawn am eich datganiad. O ran tai fforddiadwy, mae'n newyddion da iawn eich bod yn dweud y bydd £20 miliwn o'r pecyn gwerth £30 miliwn hwn yn cael ei dargedu'n benodol at y rhai a fydd ar eu colled ar fudd-dal tai. Yn amlwg, nid cyllideb refeniw yw hon, felly ni allwch helpu gyda'r rhent. A allwch chi ddweud wrthym sut y byddwch yn targedu'r bobl sydd ar eu colled ar fudd-dal tai ac a fydd hynny ar gael ledled Cymru?

You mentioned Houses into Homes, and we know from the previous Minister that it is not restricted to affordable housing. Perhaps you will confirm that this funding might not be spent on affordable housing and how you intend to separate that from others.

Soniasoch am Troi Tai'n Gartrefi, a chawsom wybod gan y Gweinidog blaenorol nad yw wedi'i gyfyngu i dai fforddiadwy. Efallai y gwnewch chi gadarnhau na fydd yr arian hwn o reidrydd yn cael ei wario ar dai fforddiadwy a sut yr ydych yn bwriadu gwahanu hynny oddi wrth bethau eraill.

There is a package of £25 million for the twenty-first century schools programme, which is very welcome. Perhaps you would tell us how many schools that that amount represents. You mentioned that this funding will be spread right across Wales. You seem to be able to stretch £25 million a very long way.

Mae pecyn gwerth £25 miliwn ar gael ar gyfer y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, sydd i'w groesawu'n fawr. Efallai y gwnewch chi ddweud wrthym faint o ysgolion y mae'r swm hwnnw'n eu cynrychioli. Soniasoch y caiff y cyllid hwn ei rannu ledled Cymru. Mae'n ymddangos eich bod yn gallu ymestyn £25 miliwn yn bell iawn.

I very much welcome your announcement in relation to the railway station at Ebbw Vale, which I assume will service The Works. Perhaps you would confirm that this station might be in preparation for the future metro system that we would all like to see.

I notice that there is no additional money for Arbed and other energy efficiency schemes. Perhaps you would tell us whether there will be any funding for those schemes in the foreseeable future.

I am very pleased to see the statement that the Welsh Government strongly welcomes the Silk package, because unlocking borrowing powers, air passenger duty and other taxes will be very welcome. In your statement, you mention that there is a real consensus in Wales. Earlier, the First Minister said that Welsh Labour supports these proposals. I wonder whether you would confirm that the Labour party at Westminster is also supportive of the proposals. Will it be calling for the full implementation of the Silk package in this week's Queen's Speech, without half measures and without any watering down?

Rwyf yn croesawu'n fawr iawn eich cyhoeddiad am yr orsaf reilffordd yng Nglynebwy; rwyf yn tybio y bydd yn gwasanaethu'r Gweithfeydd. Efallai y gwnewch chi gadarnhau y gallai'r orsaf hon fod yn rhan o'r gwaith paratol ar gyfer y system metro y byddem i gyd yn hoffi ei gweld yn y dyfodol.

Rwyf yn sylwi nad oes dim arian ychwanegol ar gyfer Arbed a chynlluniau effeithlonrwydd ynni eraill. Efallai y gwnewch chi ddweud wrthym a fydd unrhyw gyllid ar gael ar gyfer y cynlluniau hynny yn y dyfodol agos.

Rwyf yn falch iawn o weld y datganiad bod Llywodraeth Cymru yn croesawu pecyn Silk yn gryf, oherwydd bydd croeso mawr i ddatgloi pwerau benthycia, toll teithwyr awyr a threthi eraill. Yn eich datganiad, rydych yn dweud bod consensws go iawn yng Nghymru. Yn gynharach, dywedodd y Prif Weinidog fod Llafur Cymru o blaid y cynigion hyn. Tybed a fydddech chi'n cadarnhau bod y blaid Lafur yn San Steffan hefyd o blaid y cynigion. A fyddant yn galw am weithredu pecyn Silk yn llawn yn Araith y Frenhines yr wythnos hon, heb gyfaddawdu a heb eu gwanhau?

14:51

### Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you to Jocelyn Davies, who is, of course, Chair of the Finance Committee, which produced a very useful report on innovative finance routes to boost our capital budget and the Wales infrastructure investment plan. I assure the Member that the housing allocation is pan-Wales, as are all of the schemes mentioned in the announcement, including the twenty-first century schools programme. Eleven schools will benefit from that programme, and I will leave it to the Minister for Education and Skills to announce those in due course.

In terms of the £20 million for housing schemes, I said that the Welsh Local Government Association and Community Housing Cymru have come to us to present a proposal so that they can build smaller one and two-bedroomed houses and flats. We know that, as a result of the bedroom tax, people cannot move because there are not enough one and two-bedroomed houses in the affordable social housing sector. This is the first step that we are taking to respond to that in terms of being able to lever in funding to build those one and two-bedroomed houses and flats. It is anticipated that 300 units will be built with the £20 million.

There will be £10 million for Houses into Homes, which has been a very successful empty-property initiative. Staff are looking at lessons learnt from the first phase as regards recyclable loans. This scheme is also operated in partnership, and there are six regional collaborations across Wales. I know that the Minister for Housing and Regeneration will want to pick this up, in terms of responding in more detail to your questions.

Diolch i Jocelyn Davies, sef Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, wrth gwrs, a luniodd adroddiad defnyddiol iawn am lwybrau cyllid arloesol i roi hwb i'n cyllideb gyfalaf a'r cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru. Gallaf sicrhau'r Aelod bod y dyraniad tai ar gyfer Cymru gyfan, fel pob un o'r cynlluniau a grybwyllir yn y cyhoeddiad, gan gynnwys y rhaglen ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Bydd un ar ddeg o ysgolion yn elwa o'r rhaglen honno, a byddaf yn gadael i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau gyhoeddi'r rheini maes o law.

O ran yr £20 miliwn ar gyfer cynlluniau tai, dywedais fod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Cartrefi Cymunedol Cymru wedi dod atom i gyflwyno cynnig fel eu bod yn gallu adeiladu tai a fflatiau llai ag un a dwy ystafell wely. Rydym yn gwybod, o ganlyniad i'r dreth ystafell wely, bod pobl yn methu â symud gan nad oes digon o dai un a dwy ystafell wely yn y sector tai cymdeithasol fforddiadwy. Hwn yw'r cam cyntaf yr ydym yn ei gymryd i ymateb i hynny o ran gallu defnyddio cyllid i adeiladu'r tai a fflatiau un a dwy ystafell wely hynny. Rhagwelir y caiff 300 o unedau eu hadeiladu gyda'r £20 miliwn.

Bydd £10 miliwn ar gyfer Troi Tai'n Gartrefi, sydd wedi bod yn fenter lwyddiannus iawn ar gyfer eiddo gwag. Mae staff yn edrych ar wersi a ddysgwyd o'r cam cyntaf o ran benthyciadau ailgylchadwy. Mae'r cynllun hwn hefyd yn cael ei gynnal mewn partneriaeth, a cheir chwech o gydweithfeydd rhanbarthol ledled Cymru. Gwn yr hoffai'r Gweinidog Tai ac Adfywio gymryd yr awenau yn hyn o beth ac ymateb yn fanylach i'ch cwestiynau.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The investment of £11.5 million in rail infrastructure does include The Works. I visited the site recently, and I could see a fantastic development there. The link to the town centre and the station is now going to be addressed with this investment. In my statement, I said that this is the start of a more integrated transport network in south-east Wales, and that it will support the city regions strategy. I am sure that the metro is all part of that.

We have already allocated funding for Arbed in this financial year, so the Minister's priority was for flood protection. The allocation for that is on an all-Wales basis, and he will be able to announce the specific schemes. There will be some funding for Natural Resources Wales because it has its own priorities in terms of needing to make allocations.

I do not think that I need to add anything more to the First Minister's robust response on Welsh Labour's support for the Silk package in its entirety. However, in terms of innovative finance, because we did not go down the traditional private finance initiative route, we now have more leeway and room, as acknowledged in part 1 of the Silk commission's report, to use innovative finance in terms of revenue-invested support.

14:55

## **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement from the Minister today. I note that, at the start of the statement, you once more set out the situation with regard to the Welsh Government's capital budget. Once again, I say to the Minister that we are grateful that we are not working to Alistair Darling's plans, which would have cut our capital allocations more quickly and more deeply.

I welcome the extra money for the social housing grants that the Minister has announced. In particular, I would like to ask about the Houses into Homes initiative and the extra £10 million that she has announced for that in order to convert empty homes so that people can occupy them. As the Minister will be aware, with regard to the way in which that scheme works, there is a limited incentive to convert empty properties into affordable homes. Will she be talking to her colleagues in order to tweak the scheme to make sure that the majority of that £10 million produces affordable homes as opposed to the mix that it currently produces? It is important, if we are going to bring houses back into use, which we need to do, that we do everything we can to make sure that those new homes are affordable.

In relation to the housing bond, can the Minister say when the first homes funded by that innovative capital scheme will be built? I very much welcome that money, but I am anxious to understand when that money will come on line and be available to housing associations to invest in new homes.

Mae'r buddsoddiad £11.5 miliwn yn y seilwaith rheilffyrdd yn cynnwys Y Gweithfeydd. Ymwelais â'r safle yn ddiweddar, a gallwn weld datblygiad gwych yno. Bydd y buddsoddiad hwn yn creu'r cysylltiad â chanol y dref a'r orsaf. Yn fy natganiad, dywedais fod hyn yn cynrychioli cychwyn i rwydwaith trafnidiaeth mwy integredig yn y de-ddwyrain, ac y bydd yn cefnogi'r strategaeth dinas-ranbarthau. Rwyf yn siŵr bod y metro i gyd yn rhan o hynny.

Rydym eisoes wedi dyrannu cyllid i Arbed yn y flwyddyn ariannol hon, felly amddiffyn rhag llifogydd oedd blaenoriaeth y Gweinidog. Mae'r dyraniad i hynny ar sail Cymru gyfan, a bydd ef yn gallu cyhoeddi'r cynlluniau penodol. Bydd rhywfaint o gyllid i Adnoddau Naturiol Cymru gan fod ganddynt eu blaenoriaethau eu hunain o ran yr angen i wneud dyraniadau.

Nid wyf yn meddwl bod angen imi ychwanegu dim byd arall at ymateb cadarn y Prif Weinidog am gefnogaeth Llafur Cymru i becyn Silk yn ei gyfanrwydd. Fodd bynnag, o ran cyllid arloesol, gan nad aethom i lawr y llwybr mentrau cyllid preifat traddodiadol, mae gennym bellach fwy o hyblygrwydd a lle, fel y cydnabyddir yn rhan 1 o adroddiad comisiwn Silk, i ddefnyddio cyllid arloesol o ran cefnogaeth buddsoddi refeniw.

Rwyf yn croesawu'r datganiad gan y Gweinidog heddiw. Rwyf yn sylwi, ar ddechrau'r datganiad, eich bod unwaith eto wedi nodi'r sefyllfa o ran cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, rwyf yn dweud wrth y Gweinidog ein bod yn ddiolchgar nad ydym yn gweithio yn unol â chynlluniau Alistair Darling, a fyddai wedi torri ein dyraniadau cyfalaf yn gyflymach ac yn ddyfnach.

Rwyf yn croesawu'r arian ychwanegol ar gyfer y grantiau tai cymdeithasol y mae'r Gweinidog wedi ei gyhoeddi. Yn benodol, hoffwn ofyn am y fenter Troi Tai'n Gartrefi a'r £10 miliwn ychwanegol y mae hi wedi'i gyhoeddi ar gyfer hynny er mwyn gweddnewid cartrefi gwag fel y gall pobl fyw ynddynt. Fel y bydd y Gweinidog yn gwybod, o ran y ffordd y mae'r cynllun hwnnw'n gweithio, nid oes llawer o gymhelliant i droi eiddo gwag yn gartrefi fforddiadwy. A fydd hi'n siarad â'i chydweithwyr i wneud mân newidiadau i'r cynllun i wneud yn siŵr bod y rhan fwyaf o'r £10 miliwn hwnnw yn cynhyrchu tai fforddiadwy yn hytrach na'r cymysgedd y mae'n ei gynhyrchu ar hyn o bryd? Mae'n bwysig, os ydym yn mynd i aildechrau defnyddio tai—ac mae angen inni wneud hynny—ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y cartrefi newydd hynny'n fforddiadwy.

O ran y bond tai, a all y Gweinidog ddweud pryd y bydd y cartrefi cyntaf a ariennir gan y cynllun cyfalaf arloesol hwnnw'n cael eu hadeiladu? Rwyf yn croesawu'r arian yn fawr iawn, ond rwyf yn awyddus i ddeall pryd y bydd yr arian ar-lein ac ar gael i gymdeithasau tai i fuddsoddi mewn cartrefi newydd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

With regard to stamp duty, I have had representations from builders who are concerned about changes to stamp duty and, in particular, about the fact that Wales's situation is different to that of the south-east of England, which is where most of these stamp duty changes are directed. It is very important that we get control over that as soon as possible. Perhaps the Minister could say what discussions she has had with the UK Government with regard to a transfer of powers in relation to stamp duty so that we can go our own way on that.

Finally, Minister, in the statement that you made on the Silk commission, you said that you are seeking the full implementation of the Silk proposals via legislation in the lifetime of the current UK Parliament. A cynic might suggest that this is because you do not trust a future Labour Government to implement them. However, I will take your words at face value and ask you to confirm that that statement has the full support of Labour MPs in the House of Commons and that you will be pressing in unison with the shadow Secretary of State for Wales to get that into place as soon as possible.

14:57

## Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

Certainly, in terms of your welcome for the social housing grant, I know that you will appreciate, Peter Black, that we are taking this forward very regretfully, in the sense that we have to allocate funding to ameliorate and address the adverse impact of a bedroom tax that the UK Government is taking forward. We have debated on many occasions in the Chamber the adverse impact that it will have and that it is having already on families and households in Wales. However, we are a Government that is prepared to face up to trying to support those families and households and, indeed, those social housing providers, by allocating that funding for those one and two-bedroomed houses. However, we know that we need hundreds of one and two-bedroomed flats and houses if this bedroom tax has the adverse impact that it is expected to have. We are doing that, and I know that the Minister for Housing and Regeneration will take into account the points made by both you and Jocelyn Davies regarding the Houses into Homes scheme in ensuring that we make these homes available and affordable to families and households in Wales.

It is very important that we have moved forward on a new mechanism for delivering affordable homes with the housing bond. We are committing £4 million a year for 30 years to support over £100 million of investment in a new housing mechanism. That will finance more than 1,000 affordable homes over the next four years. At a housing finance conference in Wrexham on Friday, this was widely welcomed across the public and private sectors. It will provide a huge boost for the construction sector. We are working very closely with our registered social landlords and lenders to ensure that the scheme is delivered as efficiently and effectively as possible. Once again, the Welsh Government is leading the way in terms of innovation due to the impact of the capital cuts that the UK Government is imposing upon us.

O ran treth stamp, rwyf wedi cael sylwadau gan adeiladwyr sy'n pryderu am newidiadau i'r dreth stamp ac, yn benodol, am y ffaith fod sefyllfa Cymru yn wahanol i sefyllfa deddwyrain Lloegr, sef yr ardal lle mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau hyn i'r dreth stamp wedi'u cyfeirio ati. Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael rheolaeth dros hynny cyn gynted ag y bo modd. Efallai y gallai'r Gweinidog ddweud pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am drosglwyddo pwerau ym maes treth stamp fel y gallwn ddewis ein cyfeiriad ein hunain yn hynny o beth.

Yn olaf, Weinidog, yn y datganiad a wnaethoch am gomisiwn Silk, dywedasoch eich bod yn gobeithio y caiff cynigion Silk eu rhoi ar waith yn llawn drwy gyfrwng deddfwriaeth yn ystod oes Senedd bresennol y Deyrnas Unedig. Gallai sinig awgrymu mai'r rheswm am hyn yw nad oes gennych ffydd y bydd Llywodraeth Lafur yn y dyfodol eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, byddaf yn derbyn eich geiriau ar eu golwg ac yn gofyn i chi gadarnhau bod gan y datganiad gefnogaeth lawn ASau Llafur yn Nhŷ'r Cyffredin ac y byddwch yn pwyso ar y cyd ag Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Gymru i gael hynny wedi'i weithredu cyn gynted ag y bo modd.

Yn sicr, o ran eich croeso i'r grant tai cymdeithasol, rwyf yn gwybod y byddwch yn gwerthfawrogi, Peter Black, ein bod yn edifeiriol iawn wrth fwrw ymlaen â hyn, oherwydd bod yn rhaid inni ddyrannu cyllid i liniaru ac ymdrin ag effaith andwyol treth ystafell wely y mae Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â hi. Rydym wedi trafod droeon yn y Siambwr yr effaith andwyol y bydd yn ei chael, ac y mae eisoes yn ei chael, ar deuluoedd ac aelwydydd yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn Llywodraeth sy'n barod i wynebu ceisio cefnogi'r teuluoedd a'r aelwydydd hynny ac, yn wir, y darparwyr tai cymdeithasol hynny, drwy ddyrannu'r cyllid hwnnw ar gyfer y tai un a dwy ystafell wely hynny. Fodd bynnag, gwyddom y bydd arnom angen cannoedd o fflatiau a thai un a dwy ystafell wely os caiff y dreth ystafell wely hon yr effaith andwyol y disgwylir iddi ei chael. Rydym yn gwneud hynny, a gwn y bydd y Gweinidog Tai ac Adfywio yn ystyried y pwyntiau a wnaethoch chi a Jocelyn Davies ynglŷn â'r cynllun Troi Tai'n Gartrefi i wneud yn siwr ein bod yn sicrhau bod y cartrefi hyn ar gael ac yn fforddiadwy i deuluoedd ac aelwydydd yng Nghymru.

Mae'n bwysig iawn ein bod wedi symud ymlaen â mecanwaith newydd i ddarparu tai fforddiadwy gyda'r bond tai. Rydym yn ymrwymo £4 miliwn y flwyddyn am 30 mlynedd i gefnogi dros £100 miliwn o fuddsoddiad mewn mecanwaith tai newydd. Bydd hynny'n ariannu mwy na 1,000 o gartrefi fforddiadwy dros y pedair blynedd nesaf. Mewn cynhadledd cyllid tai yn Wrexham ddydd Gwener, cafodd hyn groeso mawr ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat. Bydd yn rhoi hwb enfawr i'r sector adeiladu. Rydym yn cydweithio'n agos iawn â'n landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a benthycwyr i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Unwaith eto, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y ffordd o ran arloesi oherwydd effaith y toriadau cyfalaf y mae Llywodraeth y DU yn eu gorfodi arnom.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I have had some very useful and constructive discussions with housebuilders about stamp duty land tax and the way forward. We have looked at the Scottish Bill that is being considered, because Scotland now has the powers that we want on stamp duty land tax and what it means for Wales. All the house builders at the discussions clearly saw this link to policy and the link to powers for a purpose that could deliver fairer and more equitable stamp duty land tax arrangements in Wales. I am happy to share the findings of that consultation in due course.

Finally, I have, of course, discussed this with the Chief Secretary to the Treasury and I have shared with him the outcome of these discussions on stamp duty land tax, to ensure that the UK Government knows that the Welsh Government is serious about not only acquiring the powers to support the housing and construction sectors, but also about using those powers effectively and responsibly in partnership and collaboration with the private sector. I do not think that we could give any more indication of this Government's commitment to the implementation as soon as possible of Silk 1.

Rwyf wedi cael trafodaethau defnyddiol ac adeiladol iawn gydag adeiladwyr tai am dreth tir y doll stamp a'r ffordd ymlaen. Rydym wedi edrych ar y Bil sy'n cael ei ystyried yn yr Alban, oherwydd mae gan yr Alban y pwerau nawr yr hoffem ni eu cael o ran treth tir y doll stamp, a beth y mae'n ei olygu i Gymru. Roedd pob un o'r adeiladwyr tai yn y trafodaethau yn gweld yn glir y cysylltiad hwn â pholisi a'r cysylltiad â phwerau at ddiben a allai ddarparu trefniadau tecach a mwy cyfartal ar gyfer treth tir y doll stamp yng Nghymru. Byddaf yn hapus i rannu canfyddiadau'r ymgynghoriad hwnnw maes o law.

Yn olaf, rwyf, wrth gwrs, wedi trafod hyn gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac rwyf wedi rhannu canlyniad y trafodaethau hyn am dreth tir y doll stamp gydag ef, er mwyn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn gwybod bod Llywodraeth Cymru o ddirif, nid yn unig o ran cael y pwerau i gefnogi'r sectorau tai ac adeiladu, ond hefyd o ran defnyddio'r pwerau hynny yn effeithiol ac yn gyfrifol mewn partneriaeth â'r sector preifat a thrwy gydweithio â'r sector preifat. Nid wyf yn credu y gallem wneud dim mwy i ddangos ymrwymiad y Llywodraeth hon i roi Silk 1 ar waith cyn gynted â phosibl.

15:01 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I welcome your commitment to expanding the rail link between Waunlwyd and the centre of Ebbw Vale. It is much needed. Within the £10.3 million over from that, will the capital allocation go towards the much promised and greatly wanted Ebbw Vale link to Newport?

Weinidog, rwyf yn croesawu eich ymrwymiad i ehangu'r cyswllt rheilffordd rhwng Waunlwyd a chanol Glynebwy. Mae ei angen yn fawr. O fewn y £10.3 miliwn sydd dros ben o hynny, a fydd y dyraniad cyfalaf yn mynd tuag at y cyswllt rhwng Glynebwy a Chasnewydd a addawyd ers talwm ac y mae ei eisiau'n fawr?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:01 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I know that, across the Chamber, the announcement about the £11.2 million for the Ebbw Vale railway station and links to the works has been welcomed. The details of that will be announced by the Minister for transport and, of course, your call will have been heard.

Rwyf yn gwybod, ar draws y Siambr, bod y cyhoeddiad am yr £11.2 miliwn ar gyfer gorsaf reilffordd Glyn Ebwy a chysylltiadau â'r gweithfeydd wedi ei groesawu. Bydd y Gweinidog trafnidiaeth yn cyhoeddi manylion hynny ac, wrth gwrs, bydd eich galwad wedi ei glywed.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:02 **Datganiad: Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol**

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

In the current financial climate, protecting and growing our economy is a major challenge. Employment and economic growth remain top Welsh Government priorities. How we use our annual £4.3 billion of public procurement expenditure continues to have a profound impact on Welsh jobs, both in the public and private sector. We need to protect public sector jobs and front-line services; we also need to strengthen the contract opportunities that we give Welsh businesses. Welsh jobs help to grow our economy, which is essential for wellbeing in Wales. We know that the future for public expenditure is very challenging. Success will depend on the Welsh public sector's capacity to do things differently. We must transform how public services are delivered, and this includes how procurement is carried out.

**Statement: National Procurement Service**

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae diogelu a thyfu ein heconomi yn her fawr. Mae cyflogaeth a thwf economaidd yn dal i fod yn brif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yr ydym yn defnyddio ein £4.3 biliwn o wariant caffael cyhoeddus blynyddol yn dal i gael effaith fawr ar swyddi yng Nghymru, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae angen inni warchod swyddi yn y sector cyhoeddus a gwasanaethau rheng flaen; mae angen inni hefyd gryfhau'r cyfleoedd contract a roddwn i fusnesau Cymru. Mae swyddi yng Nghymru yn helpu ein heconomi i dyfu, sy'n hanfodol er lles Cymru. Rydym yn gwybod bod dyfodol gwariant cyhoeddus yn heriol iawn. Bydd llwyddiant yn dibynnu ar allu sector cyhoeddus Cymru i wneud pethau'n wahanol. Rhaid inni weddnewid y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu, ac mae hynny'n cynnwys y ffordd y mae caffael yn digwydd.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

On 12 March, the Minister for local government and I jointly announced the decision to create a national procurement service for Wales. Through our invest-to-save scheme, I have provided some £5.9 million to support its first three years of operation. During this time, it will develop a self-funding model. The national procurement service is a major public service innovation that will be delivered across the whole Welsh public sector. Its creation will fulfil the commitment expressed through the 'Buying Smarter in Tougher Times' report, endorsed by the McClelland review, of a strategic collaborative vehicle to buy common and repetitive spend once for Wales. The decision to proceed is fully supported by the Welsh public sector. Over 75 public sector organisations have agreed to join, including all 22 local authorities, all eight local health boards and trusts, eight universities, 17 colleges, four fire authorities, three police authorities, the Welsh Government itself and 12 other bodies. It makes an important contribution to the work of the public service leadership group, chaired by the Minister for Local Government and Government Business.

The national procurement service is a significant development that is meeting a programme for government commitment. These are challenging times and innovative service delivery through collaboration is crucial. Later this afternoon, the Minister for local government will be outlining the wider public service reform agenda driven forward through pivotal and executive leadership across public services in Wales. Projects like this service are making a real difference. When it goes live in November, the service will become a vehicle that not only secures efficiencies, but is part of a Wales procurement policy statement, exploring all possible options to develop local supply chains. Hosted in my department within Welsh Government, the national procurement service will be advised by a stakeholder board and the public service leadership group. The service will cover some 20% to 30% of the total Welsh public sector annual spend. It will set up and manage contracts for those common items that it makes sense to manage at an all-Wales level. This will include areas such as ICT, fleet, advertising and office supplies, as well as some professional and technical services. Once mature, it expects to save approximately £25 million a year through challenging and influencing what we buy and through buying it better. The savings that it makes will enable re-investment in strengthening our front-line services.

The McClelland review provided clear evidence of the correlation between investment in professional procurement and the amount spent in Wales. Strategic management of spend categories makes it possible to develop opportunities that result in Welsh jobs. It means taking a sensible approach—understanding which opportunities can be won by smaller, more local suppliers, where we will want to split requirements down to more local suppliers to encourage those businesses, and those which require us to bring demand together to increase our leverage with larger businesses. The solution is not one-size-fits-all; it is about having well thought-out, intelligent strategies for Wales.

Ar 12 Mawrth, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth leol a minnau ar y cyd benderfyniad i greu gwasanaeth caffael cenedlaethol i Gymru. Drwy ein cynllun buddsoddi i arbed, rwyf wedi darparu tua £5.9 miliwn i gefnogi gwaith tair blynedd gyntaf y gwasanaeth. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn datblygu model hunan-ariannu. Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn gynllun arloesol pwysig ym maes gwasanaethau cyhoeddus a gaiff ei gyflwyno ar draws yr holl sector cyhoeddus yng Nghymru. Drwy greu'r gwasanaeth hwn, cyflawnir yr ymrwymiad a fynegwyd yn yr adroddiad 'Buying Smarter in Tougher Times', a gymeradwywyd gan adolygiad McClelland, o gyfrwng cydweithredol strategol i brynu gwariant cyffredin ac ailadroddus unwaith i Gymru. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n llwyr gefnogi'r penderfyniad i fwrw ymlaen. Mae dros 75 o sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi cytuno i ymuno, gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol, pob un o'r wyth bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd lleol, wyth o brifysgolion, 17 o golegau, pedwar awdurdod tân, tri awdurdod heddlu, Llywodraeth Cymru ei hun a 12 o gyrff eraill. Mae'n gwneud cyfraniad pwysig i waith grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.

Mae'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ddatblygiad arwyddocaol sy'n cyflawni ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu. Mae hwn yn gyfnod heriol ac mae'n hanfodol darparu gwasanaethau'n arloesol drwy gydweithio. Yn ddiweddarach y prynhawn yma, bydd y Gweinidog Llywodraeth leol yn amlinellu'r agenda ehangach ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei sbarduno drwy arweinyddiaeth ganolog a gweithredol ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae prosiectau fel y gwasanaeth hwn yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Pan gaiff ei roi ar waith ym mis Tachwedd, bydd y gwasanaeth yn dod yn gyfrwng sydd nid yn unig yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd, ond sydd hefyd yn rhan o ddatganiad polisi caffael Cymru, ac yn archwilio'r holl opsiynau posibl i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol. Bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn rhan o'm hadran i yn Llywodraeth Cymru, a bydd yn cael cyngor gan fwrdd rhanddeiliaid a grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y gwasanaeth yn cwmpasu 20% i 30% o gyfanswm gwariant blynyddol sector cyhoeddus Cymru. Bydd yn sefydlu ac yn rheoli contractau ar gyfer yr eitemau cyffredin hynny y mae'n gwneud synnwyr eu rheoli ar lefel Cymru gyfan. Bydd hyn yn cynnwys meysydd megis TGCh, fflyd, hysbysebu a chyflenwadau swyddfa, yn ogystal â rhai gwasanaethau proffesiynol a thechnegol. Wedi iddo aeddfedu, mae'n disgwyl arbed tua £25 miliwn y flwyddyn drwy herio a dylanwadu ar yr hyn yr ydym yn ei brynu, a'i brynu'n well. Drwy'r arbedion a wneir, bydd modd ail-fuddsoddi i gryfhau ein gwasanaethau rheng flaen.

Rhoddodd adolygiad McClelland dystiolaeth glir o'r gydberthynas rhwng buddsoddi mewn caffael proffesiynol a'r swm sy'n cael ei wario yng Nghymru. Mae rheoli categorïau gwariant yn strategol yn ei gwneud yn bosibl datblygu cyfleoedd sy'n creu swyddi yng Nghymru. Mae'n golygu defnyddio ymagwedd synhwyrol—deall pa gyfleoedd y gall cyflenwyr llai, mwy lleol, eu hennill, lle y byddwn am rannu gofynion i lawr i gyflenwyr mwy lleol i annog y busnesau hynny, a'r rhai hynny sy'n golygu bod yn rhaid inni ddod â'r galw ynghyd i roi mwy o ddylanwad inni â busnesau mwy. Nid yw'n fater o ddod o hyd i un ateb sy'n addas i bawb; mae'n fater o lunio strategaethau deallus sydd wedi'u cynllunio'n dda ar gyfer Cymru.



The national procurement service will ensure that the community benefits approach that I have driven forward is integral. The first 18 projects to take this approach have reported 82% of the expenditure being re-invested in Wales, and 384 disadvantaged people being given 12,500 weeks of training.

Last year, I issued data that showed the amount currently spent in Wales by each local authority. There was considerable variation between the highest at 60% to 70% and the lowest at 35% to 40%. For the part of this expenditure that will come under the new service, only 15% is currently spent in Wales. That includes spend on commodities such as utilities, the manufacturing of ICT hardware and global software licenses. However, it also includes categories such as office furniture and professional services, where there should be opportunities for Welsh companies. Economic analysis is under way to identify where the main opportunities might be.

For these reasons, an economic impact assessment group, led by the Federation of Small Businesses, concluded that the new service represented an opportunity for Welsh businesses, and it has supported the creation of the new service to improve the quality of the procurement process for SMEs in Wales.

We know that collaborative procurement can deliver. Over the last six years, Value Wales ICT framework contracts have saved £50 million and, at the same time, have led to increased turnover for a number of Wales-based companies. The framework agreement for community equipment not only saved 26%, but also improved the quality of products prescribed. This has just been retendered, and the imminent award indicates that significant further savings will be realised and that a number of Wales-based businesses will be successful. The new service will build on this approach that drives efficiencies, but which also finds ways to support our economy.

The creation of the national procurement service is part of the Welsh Government's overall strategy to develop Welsh public procurement. Our work on policy and capability and e-procurement is equally important. The new service supports this bigger picture; it will not only deliver direct benefits, but will also make a significant contribution to how the public sector makes use of scarce skills. Significantly, it will act as a UK exemplar in the adoption of best practice procurement.

We have had a number of debates in this Chamber on the gaps in professional procurement capability. With common spend dealt with centrally, public sector organisations can stop duplication, and instead focus their own teams on improving the commissioning and procurement of the remaining 80% of expenditure, which includes service areas such as construction and transport.

Bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn sicrhau bod dull y manteision cymunedol yr wyf wedi bwrw ymlaen ag ef yn rhan annatod o hyn. Mae'r 18 prosiect cyntaf i ddefnyddio'r dull hwn wedi adrodd bod 82% o'r gwariant yn cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru, a 384 o bobl dan anfantaes wedi cael 12,500 wythnos o hyfforddiant.

Y llynedd, cyhoeddais ddata a oedd yn dangos y swm y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru'n ei wario ar hyn o bryd. Roedd cryn amrywiaeth rhwng yr uchaf, tua 60% i 70%, a'r isaf, sef tua 35% i 40%. O ran cyfran y gwariant hwn a fydd yn dod o dan y gwasanaeth newydd, dim ond 15% sy'n cael ei wario yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae hynny'n cynnwys gwariant ar nwyddau megis cyfleustodau, gweithgynhyrchu caledwedd TGCh a thrwyddedau meddalwedd byd-eang. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys categorïau megis dodrefn swyddfa a gwasanaethau proffesiynol, lle y dylai fod cyfleoedd i gwmnïau o Gymru. Mae dadansoddiad economaidd ar y gweill i nodi ymhle y gallai'r cyfleoedd pennaf fod.

Am y rhesymau hyn, daeth grŵp asesu effaith economaidd, dan arweiniad Ffederasiwn y Busnesau Bach, i'r casgliad bod y gwasanaeth newydd yn cynnig cyfle i fusnesau Cymru, ac mae wedi cefnogi creu'r gwasanaeth newydd i wella ansawdd y broses gaffael i fusnesau bach a chanolog yng Nghymru.

Rydym yn gwybod y gall caffael ar y cyd weithio. Dros y chwe blynedd diwethaf, mae contractau fframwaith TGCh Gwerth Cymru wedi arbed £50 miliwn ac, ar yr un pryd, wedi arwain at gynnydd yn nhrosiant nifer o gwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Mae'r cytundeb fframwaith ar gyfer cyfarpar cymunedol nid yn unig wedi arbed 26%, ond mae hefyd wedi gwella ansawdd y cynnyrch a ragnodir. Mae hyn newydd gael ei ail-dendro, ac mae'r dyfarniad sydd ar droed yn awgrymu y bydd modd gwneud arbedion sylweddol pellach ac y bydd nifer o fusnesau yng Nghymru yn llwyddiannus. Bydd y gwasanaeth newydd yn adeiladu ar y dull hwn sy'n sbarduno arbedion effeithlonrwydd, ond sydd hefyd yn dod o hyd i ffyrdd o gefnogi ein heconomi.

Mae creu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn rhan o strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru i ddatblygu caffael cyhoeddus yng Nghymru. Mae ein gwaith ar bolisi a gallu ac e-gaffael yr un mor bwysig. Mae'r gwasanaeth newydd yn cefnogi'r darlun ehangach hwn; bydd nid yn unig yn sicrhau manteision uniongyrchol, ond bydd hefyd yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i'r ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn defnyddio sgiliau prin. Yn bwysig, bydd yn esiampl yn y DU o ran mabwysiadu'r arferion caffael gorau.

Rydym wedi cael nifer o ddadleuon yn y Siambr hon am y bylchau o ran gallu caffael proffesiynol. Drwy ymdrin â gwariant cyffredin yn ganolog, gall sefydliadau'r sector cyhoeddus atal dyblygu, ac yn hytrach ganolbwyntio gwaith eu timau eu hunain ar wella prosesau comisiynu a chaffael yr 80% o'u gwariant sy'n weddill, sy'n cynnwys meysydd gwasanaeth megis adeiladu a thrafnidiaeth.

I have said before that I do not consider adoption of the Wales procurement policy statement to be optional. All local authorities and local health boards wrote to me last May confirming their intention to adopt our key policies, including the SQuID supplier pre-qualification approach and community benefits, which are part of the local government compact. Through the procurement fitness check programme that starts this summer, I will be looking closely at how these principles are being adopted in practice. I have made my position clear: if necessary, I will seek to legislate to deliver on our procurement policies.

Improving public procurement is essential in order to make the most of the Welsh pound and to direct resources to the front line. The creation of a national procurement service for Wales is an important development. It demonstrates that, in Wales, we can develop innovative approaches through a public sector that is prepared to work collaboratively across organisational boundaries for the greater good.

15:10

**Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for her statement this afternoon. As she is already aware, we on this side of the Chamber are largely supportive of the Welsh Government's efforts in relation to procurement and we welcome any attempt by the Welsh Government to secure efficiencies in this area.

I understand that funding for the national procurement service has been found from the invest-to-save fund over a period of three years and that, thereafter, it will move to a self-funding model. Perhaps the Minister could give us further details on this; is she confident that it will, indeed, become self-funding after three years and how will this then work?

The McClelland review made it clear that local authorities must ensure greater investment in professional procurement skills, which the Minister touched upon in her statement. Could the Minister tell us how the establishment of the national procurement service will work with local authorities and all public sector organisations, to ensure that they have the appropriate skills in place? She mentioned that the national procurement service will act as an exemplar in the adoption of best practice, but how will the new service make use of the skills that are required in procurement?

I note that in the Minister's procurement policy statement last December, she was going to publish a competency framework and provide routes to training and development, but it would be beneficial to know when the Welsh Government expects to publish this framework.

Rwyf wedi dweud o'r blaen nad wyf o'r farn bod mabwysiadu datganiad polisi caffael Cymru yn fater o ddewis. Ysgrifennodd yr holl awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol ataf fis Mai diwethaf yn cadarnhau eu bwriad i fabwysiadu ein polisiâu allweddol, gan gynnwys dull cyn-gymhwyso cyflenwyr SQuID a manteision cymunedol, sy'n rhan o'r compact llywodraeth leol. Drwy'r rhaglen gwirio ffitrwydd caffael sy'n dechrau yr haf yma, byddaf yn edrych yn ofalus ar sut y mae'r egwyddorion hyn yn cael eu mabwysiadu'n ymarferol. Rwyf wedi gwneud fy safbwynt yn glir: os bydd angen, byddaf yn ceisio deddfu i gyflawni ein polisiâu caffael.

Mae'n hollbwysig gwella caffael cyhoeddus er mwyn gwneud y gorau o'r bunt Gymreig, ac er mwyn cyfeirio adnoddau i'r rheng flaen. Mae creu gwasanaeth caffael cenedlaethol i Gymru yn ddatblygiad pwysig. Mae'n dangos y gallwn, yng Nghymru, ddatblygu dulliau arloesol drwy sector cyhoeddus sy'n barod i weithio ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol er budd cyffredinol.

Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Fel y mae eisoes yn gwybod, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn gefnogol i raddau helaeth i ymdrechion Llywodraeth Cymru ym maes caffael ac yn croesawu unrhyw ymgais gan Lywodraeth Cymru i sicrhau arbedion effeithlonrwydd yn y maes hwn.

Rwyf ar ddeall bod cyllid i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol wedi dod o'r gronfa buddsoddi i arbed dros gyfnod o dair blynedd ac y bydd, wedi hynny, yn symud i fodel hunan-ariannu. Efallai y gall y Gweinidog roi mwy o fanylion inni am hyn; a yw'n hyderus y bydd y gwasanaeth, mewn gwirionedd, yn ei ariannu ei hun ar ôl tair blynedd a sut y bydd hyn wedyn yn gweithio?

Nododd adolygiad McClelland yn glir fod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau mwy o fuddsoddi mewn sgiliau caffael proffesiynol, a soniodd y Gweinidog am hynny yn ei datganiad. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym sut y bydd sefydlu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn gweithio gydag awdurdodau lleol a holl sefydliadau'r sector cyhoeddus i sicrhau bod y sgiliau priodol ganddynt? Soniodd y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn esiampl o ran mabwysiadu arfer gorau, ond sut y bydd y gwasanaeth newydd yn defnyddio'r sgiliau sydd eu hangen wrth gaffael?

Sylwaf fod datganiad polisi caffael y Gweinidog fis Rhagfyr diwethaf yn dweud ei bod yn mynd i gyhoeddi fframwaith cymwyseddau a darparu llwybrau at hyfforddi a datblygu, ond byddai'n fuddiol gwybod pryd y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl cyhoeddi'r fframwaith hwn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Government's procurement policy statement comes in the wake of the McClelland review, which also recommended that instead of implementing new policy, the implementation of public procurement policy should be regarded as a duty rather than an option. In the spirit of this recommendation, I accept that, in the statement before Christmas, the Government stated that there are no reasons or excuses why all organisations cannot fully adopt them, and there must be no delay in doing so. I also note that the Government has not ruled out legislating in this area. Perhaps in her response the Minister could expand a little more on what work, if any, is being undertaken by her officials in this area?

I am sure that the Minister will be aware of the recent Wales Audit Office report into the procurement and management of consultancy services. That report argued that Welsh public bodies are spending less on consultants, but cannot demonstrate value for money in how they plan, obtain and manage consultancy services. It also, incidentally, identified potential efficiency savings of more than £23 million if all public bodies were to follow good practice, but unfortunately, few public bodies routinely collect and analyse data to assist in obtaining and using consultancy services more efficiently. The data on expenditure are often unreliable. In light of this new report, could the Minister tell us how the national procurement service will work with public bodies to ensure that good practice is followed and that efficiency savings are actually achieved?

I would also be grateful if the Minister would commit today to providing welcome updates on the work of the national procurement service to learn lessons and to assess implementation and progress.

It is good to see that the Welsh Government will be developing the SQuID approach to supplier selection, which I believe results in greater standardisation of the selection stage, while allowing for the tailoring of questions to meet the specific requirements of the procurement. It also creates an open, fair and transparent process for all, which results in improved opportunities for SMEs and local businesses to compete on an equal footing. SMEs generally have lower administrative overheads and management costs than larger firms and, depending on the nature of the procurement, this can result in SMEs being more competitive in tendering for contracts.

I am sure that the Minister will agree with me that it is important that local authorities still have the flexibility to work with SMEs when considering contracts, and I am pleased that she confirms in the statement that the national procurement service is not a one-size-fits-all solution. It is also important that local authorities are more aware of what they spend and how they spend it to maximise the benefits to the communities that they represent. Therefore, what steps will the national procurement service take to measure procurement by the size of firms, and how will that new service work with SMEs in particular to ensure that it works in their interests and takes their needs into account?

Daw datganiad polisi caffael Llywodraeth Cymru yn sgil adolygiad McClelland, a oedd hefyd yn argymhell y dylid, yn hytrach na rhoi polisi newydd ar waith, ystyried rhoi'r polisi caffael cyhoeddus ar waith yn ddyletswydd yn hytrach nag yn opsiwn. Yn ysbryd yr argymhelliad hwn, rwyf yn derbyn i'r Llywodraeth ddweud, yn y datganiad cyn y Nadolig, nad oes dim rhesymau nac esgusodion pam na all pob sefydliad eu mabwysiadu'n llawn, ac na ddylid oedi dim cyn gwneud hynny. Nodaf hefyd nad yw'r Llywodraeth wedi diystyru deddfu yn y maes hwn. Efallai y gallai'r Gweinidog, yn ei hymateb, ymhelaethu ychydig yn fwy am ba waith sy'n cael ei wneud, os oes gwaith o gwbl, gan ei swyddogion yn y maes hwn?

Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn ymwybodol o adroddiad diweddar Swyddfa Archwilio Cymru am brosesau caffael a rheoli gwasanaethau ymgynghori. Roedd yr adroddiad hwnnw'n dadlau bod cyrff cyhoeddus Cymru'n gwario llai ar ymgynghorwyr, ond na allant ddangos gwerth am arian yn y ffordd y maent yn cynllunio, yn cael ac yn rheoli gwasanaethau ymgynghori. Roedd hefyd, gyda llaw, yn nodi arbedion effeithlonrwydd posibl o dros £23 miliwn pe bai pob corff cyhoeddus yn dilyn arfer da, ond yn anffodus, ychydig o gyrff cyhoeddus sy'n casglu ac yn dadansoddi data fel mater o drefn i helpu i gael gaffael ar wasanaethau ymgynghori a'u defnyddio'n fwy effeithlon. Mae'r data am wariant yn aml yn annibynadwy. Yng ngoleuni'r adroddiad newydd hwn, a all y Gweinidog ddweud wrthym sut y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn cydweithio â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod arfer da yn cael ei ddilyn a bod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu cyflawni mewn gwirionedd?

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn ymrwymo heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y gwasanaeth caffael cenedlaethol i ddysgu gwersi ac i asesu gweithrediad a chynnydd.

Mae'n dda gweld y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu'r dull SQuID o ddewis cyflenwyr; credaf fod hynny'n arwain at fwy o safoni yn y cam dethol, ac ar yr un pryd yn caniatáu teilwra cwestiynau i fodloni gofynion penodol y broses gaffael. Mae hefyd yn creu proses agored, teg a thryloyw i bawb, sy'n ei gwneud yn haws i fusnesau bach a chanolig a busnesau lleol gystadlu ar sail gyfartal. Yn gyffredinol, mae gan fusnesau bach a chanolig orbenion gweinyddol a chostau rheoli is na chwmnïau mwy, ac, yn dibynnu ar natur y broses gaffael, gall hyn olygu bod busnesau bach a chanolig yn fwy cystadleuol wrth dendro am gcontractau.

Rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn cadw'r hyblygrwydd i weithio â busnesau bach a chanolig wrth ystyried contractau, ac rwyf yn falch ei bod yn cadarnhau yn y datganiad nad yw'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yn ceisio darparu un ateb sy'n addas i bawb. Mae hefyd yn bwysig bod awdurdodau lleol yn fwy ymwybodol o faint y maent yn ei wario a sut y maent yn ei wario i sicrhau'r budd mwyaf i'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli. Felly, pa gamau y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn eu cymryd i fesur caffael yn ôl maint cwmnïau, a sut y bydd y gwasanaeth newydd hwnnw'n gweithio gyda busnesau bach a chanolig yn benodol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio er eu lles ac yn ystyried eu hanghenion?

I would also like to add the importance of continuing engagement with the Welsh business community with regard to procurement policy. It is essential that the Welsh Government communicates effectively with businesses, so that it is crystal clear about how the Welsh procurement system operates.

In closing, Presiding Officer, I thank the Minister for her statement this afternoon, and I hope that this new national procurement service will result in improving the processes and procedures around procurement, so that all businesses in Wales will benefit.

15:15

## Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the opposition finance spokesperson for that positive response. In terms of his first question, we have invested £5.9 million through invest-to-save to cover the first three years of running costs, after which time it will become fully self-funding. Those savings, estimated at £25 million a year, that the operation can realise will be used to support front-line services. We looked at all possible funding models. We took the decision to show that we were serious by funding the initial operation and removing any excuses for not joining. New contracts will have a small percentage rebate charged by contracted suppliers, and by year three this will have built up to enable the process to fund the NPS operation on an ongoing basis. That was carefully looked at.

You talked about the scarce skills, which we have debated in the Chamber, and we need to have the right staff in the national procurement service. We do not want to draw all the skills into the centre, but through the creation of the home-grown talent project, we have 24 additional procurement professionals in Wales. We will advertise externally to ensure that we recruit the appropriate individuals with procurement and category expertise, and our Value Wales expert officials will take on board roles. I have made it clear that adoption is not optional, and we are looking closely at the delivery and implementation of the Wales procurement policy statement, and adherence through the national procurement service to the delivery, but we will move to legislate, as I said, if necessary.

We will review the way that the signed-up organisations are using the NPS contracts. They will be asked to commit to use contracts for five years, otherwise they will have to justify that to the board. We will ensure that the contracts awarded are the best in class, avoiding a situation in which there will be an exception to the rule in terms of the sign-up to the NPS. It is clear that engagement will drive this forward in terms of collaborative procurement.

Hoffwn hefyd sôn am bwysigrwydd parhau i ymgysylltu â'r gymuned fusnes yng Nghymru ynglŷn â'r polisi caffael. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru'n cyfathrebu'n effeithiol â busnesau, er mwyn sicrhau ei bod yn gwbl glir ynghylch y ffordd y mae system gaffael Cymru'n gweithredu.

I gloi, Lywydd, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma, ac rwyf yn gobeithio y bydd y gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd yn arwain at wella'r prosesau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chaffael, er mwyn i bob busnes yng Nghymru allu elwa.

Diolch i lefarydd cyllid yr wrthblaid am yr ymateb cadarnhaol hwnnw. O ran ei gwestiwn cyntaf, rydym wedi buddsoddi £5.9 miliwn drwy fuddsoddi i arbed i dalu costau cynnal y gwasanaeth am y tair blynedd gyntaf, ac wedi hynny bydd yn ei ariannu ei hun yn gyfan gwbl. Bydd yr arbedion hynny y gall eu gwneud, ac amcangyfrifir y byddant yn £25 miliwn y flwyddyn, yn cael eu defnyddio i gefnogi gwasanaethau rheng flaen. Buom yn edrych ar bob model ariannu posibl. Penderfynasom ddangos ein bod o ddifrif drwy ariannu'r gweithrediadau cychwynnol a chael gwared ar unrhyw esgusodion dros beidio ag ymuno. Bydd cyflenwyr dan gontract yn codi ad-daliad canrannol bach ar gontractau newydd, ac erbyn y drydedd flwyddyn, bydd hyn wedi cynyddu i alluogi'r broses i ariannu gwaith y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn barhaus. Rydym wedi edrych yn ofalus ar hynny.

Soniasoch am sgiliau prin, yr ydym wedi eu trafod yn y Siambr, ac mae angen sicrhau bod gan y gwasanaeth caffael cenedlaethol y staff iawn. Nid ydym am dynnu'r holl sgiliau i mewn i'r canol, ond drwy greu prosiect doniau Cymru, mae gennym 24 o weithwyr caffael proffesiynol ychwanegol yng Nghymru. Byddwn yn hysbysebu'n allanol i sicrhau ein bod yn recriwtio'r unigolion priodol a chanddynt arbenigedd ym maes caffael a chategoriâu, a bydd ein swyddogion arbenigol Gwerth Cymru yn ymgymryd â rolau bwrdd. Rwyf wedi ei gwneud yn glir nad yw mabwysiadu hyn yn fater o ddewis, ac rydym yn edrych yn ofalus ar gyflwyno a gweithredu datganiad polisi caffael Cymru, ac ar lynu wrth ei gyflwyno drwy'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, ond byddwn yn deddfu, fel y dywedais, os bydd angen.

Byddwn yn adolygu'r ffordd y mae'r cyrff sydd wedi ymrwymo i hyn yn defnyddio contractau'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Bydd gofyn iddynt ymrwymo i ddefnyddio contractau am bum mlynedd, neu bydd rhaid iddynt gyfiawnhau hynny i'r bwrdd. Byddwn yn sicrhau mai'r contractau a ddyfernir yw'r rhai gorau yn eu dosbarth, er mwyn osgoi sefyllfa lle ceir eithriad i'r rheol o ran ymrwymo i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Mae'n amlwg mai ymgysylltu fydd yn sbarduno hyn o ran caffael ar y cyd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

It is important that we look at the impact of this on SMEs. The service will be asked to actively seek opportunities for Wales-based suppliers and to closely track the outcomes. Not everything will be bought in Wales; that clearly will not be possible, but we need Welsh businesses to win contracts both here and wider afield, because they are the best. It will be about the savings made and tracking the economic impact. That is what will be important, and I know that you will scrutinise me on that. We need to track and publish the economic benefits that are captured through not only the community benefits measurement tool, but through the supply base, in terms of the benefits validated ultimately by me as the Minister and by the NPS board.

Finally, the council for economic renewal, which brings the key players in business and, particularly, the representatives of SMEs to the table with Ministers, will also engage with us on procurement policy and influence the development so far.

Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar effaith hyn ar fusnesau bach a chanolig. Bydd gofyn i'r gwasanaeth fynd ati i chwilio am gyfleoedd i gyflenwyr yng Nghymru ac olrhain y canlyniadau yn ofalus. Ni fydd popeth yn cael ei brynu yng Nghymru; yn amlwg, ni fydd hynny'n bosibl, ond mae angen i fusnesau Cymru ennill contractau yng Nghymru a thu hwnt, am mai hwy yw'r gorau. Yr hyn fydd yn bwysig fydd yr arbedion a wneir, ac olrhain yr effaith economaidd, ac rwyf yn gwybod y byddwch yn craffu arnaf yn hynny o beth. Mae angen inni olrhain a chyhoeddi'r manteision cymunedol, nid yn unig drwy'r offeryn mesur manteision cymunedol, ond drwy'r sylfaen gyflenwi, o ran y manteision a ddilytir yn y pen draw gennyf fi fel y Gweinidog a chan fwrdd y gwasanaeth caffael cenedlaethol.

Yn olaf, bydd cyngor adnewyddu'r economi, sy'n dod â chwaraewyr allweddol y byd busnes ac, yn benodol, gynrychiolwyr busnesau bach a chanolig, at y bwrdd gyda Gweinidogion, hefyd yn ymgysylltu â ni ynghylch polisi caffael ac yn dylanwadu ar ddatblygiadau hyd yma.

15:18

## Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch am y datganiad hwn heddiw, Weinidog. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn awyddus i weld y corff hwn yn gweithio, ac yn gweithio yn effeithiol, ond mater o amser yw hynny. O safbwynt eich datganiad ynglŷn â deddfu, os yw'r mater hwn mor bwysig â hynny—ac mae'n fater pwysig nid yn unig i'r cyrff cyhoeddus ond hefyd i economi Cymru—byddem yn eich annog i ddeddfu yn y maes hwn cyn gynted â phosibl.

Prif bwrpas sefydlu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol yw arbed arian, ac rydych wedi cyfeirio at swm o £25 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn debyg o arwain at ganoli cytundebau. Dyna sut fydddech yn disgwyl arbed arian yn y meysydd yr ydych wedi cyfeirio atynt. Mae canoli yn golygu y bydd llai o gytundebau yn debygol o fynd i gwmnïau lleol neu ranbarthol. Sut fyddwch yn gwarchod buddiannau'r cwmnïau hynny o Gymru—y cwmnïau llai hynny—sy'n debygol o fethu cystadlu am y contractau mwy hynny?

Rhai blynyddoedd yn ôl, edrychais ar gytundebau'r Cynulliad—sy'n wahanol i'r Llywodraeth; rwy'n derbyn hynny—yn y maes argraffu. Roedd rhestr o gwmnïau argraffu gan y Cynulliad y bydddech yn gallu troi atynt am waith. Dim ond un o'r cwmnïau hynny a oedd y tu allan i'r de-ddwyrain a doedd dim un ohonynt yn y gogledd. Ni allaf ddweud beth yw'r sefyllfa heddiw. Ond, fe welwch nad oedd pob rhan o Gymru yn elwa hyd yn oed o wariant uniongyrchol y Cynulliad hwn ar ei waith ei hun. Felly, unwaith eto, beth fydd y Llywodraeth yn ei wneud i ofalu bod pob rhan o Gymru yn gallu elwa o'r prosesau newydd a fydd yn digwydd o dan y gwasanaeth hwn?

Gan gyfeirio at y £25 miliwn o arbedion y flwyddyn yr ydych yn amcanu tuag atynt, a allwch roi rhyw syniad i ni beth yw hynny fel canran o'r gwariant presennol yn y meysydd a fydd yn gyfrifoldeb i'r gwasanaeth newydd? Beth yw £25 miliwn yng nghyd-destun y gwariant a fydd o dan ofal y gwasanaeth newydd hwn?

Thank you for this statement today, Minister. I am sure that we are all eager to see this body working, and working effectively, but that is a matter of time. In terms of your statement on legislation, if this issue is so important—and it is an important issue, not only for public bodies, but also for the Welsh economy—we would encourage you to legislate in this area as soon as possible.

The main aim of establishing the national procurement service is to save money, and you have referred to a figure of £25 million per annum. This is likely to lead to centralising contracts. That is how you would expect to make savings in the areas that you have referred to. Centralising means that fewer contracts are likely to be awarded to local or regional companies. How will you safeguard the interests of those Welsh companies—those smaller companies—that are likely to fail to be able to compete for those larger contracts?

Some years ago, I looked at the contracts of the Assembly—which is different to the Government; I accept that—in the printing sector. The Assembly had a list of printing companies to which you could turn to. Only one of those companies was based outside the south-east, and not one of them was in north Wales. I cannot tell you what the situation is today. However, you will see that not all parts of Wales were benefiting even from direct expenditure by the Assembly in carrying out its own functions. So, once again, what will the Government do to ensure that all parts of Wales can benefit from the new processes that will be established under this new service?

With reference to the £25 million savings per annum that you are aiming for, can you give us an idea of what that is as a percentage of current expenditure in the areas that will be covered by the new service? What is £25 million in the context of the expenditure that will be covered by this new service?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Rydych hefyd yn cyfeirio yn eich datganiad at ddynesiad neu agwedd y gwasanaeth newydd at fanteision cymunedol, gan gyfeirio at 18 prosiect sydd eisoes wedi eu dynodi o dan y drefn newydd, gan ddweud bod 82% o'r gwariant yn cael ei ail-fuddsoddi yng Nghymru. Nid wyf yn siŵr iawn beth yw ystyr hynny. Ydy hynny gyfystyr â dweud mai cwmnïau o Gymru sydd wedi ennill y cytundebau, neu beth? A wnech chi ryddhau manylion y cytundebau hynny—nid y manylion mewnol ynglŷn â'r cytundebau, ond gwybodaeth ynglŷn â pha gwmnïau sydd wedi eu hennill nhw ac ym mha feysydd y maen nhw er mwyn i ni geisio asesu'r llwyddiant hyd yma? Mae hwnnw'n ffigur eithriadol o dda ac yn un y byddwn yn dymuno ei weld yn digwydd ym mhob man.

Yn olaf, o ran y gwasanaeth caffael cenedlaethol, rwy'n credu ei fod yn hanfodol ein bod yn gallu mesur ei lwyddiant. I wneud hynny, bydd rhaid i ni gael manylion y sefyllfa fel y mae hi—pa feysydd yn union sy'n rhan o gyfrifoldeb y gwasanaeth a beth yw gwerth a nifer y cytundebau presennol sy'n dod i gwmnïau o Gymru, fel ein bod yn gwybod o le yr ydym yn cychwyn. Rydych chi'n dweud mai 15% yn unig o'r cytundebau yn y meysydd hyn sy'n cael eu hennill gan gwmnïau o Gymru ar hyn o bryd. Yn amlwg, rydych eisiau gweld y canran hwnnw yn cynyddu. Heb i ni gael dadansoddiad o'r sefyllfa fel y mae hi, mi fydd yn amhosibl i ni y tu allan i'r Llywodraeth i fesur llywyddiant y gwasanaeth newydd hwn. Felly, buaswn yn gofyn i chi hefyd i ryddhau'r manylion sydd gennyhch ynglŷn â'r sefyllfa ar hyn o bryd yn y meysydd a fydd yn dod o dan gyfrifoldeb y gwasanaeth caffael cenedlaethol.

You also refer in your statement to the approach of the new service to community benefits, referring to 18 projects that have already been identified under the new system, saying that 82% of expenditure is reinvested in Wales. I am not sure what that actually means. Is that the same as saying that it is Welsh companies that have won those contracts, or not? Will you release the details of those contracts—not the nitty-gritty, but information on which companies have been awarded those contracts, and in which areas, so that we can try to assess the success to date? That is an exceptionally positive figure, and one that I would want to see replicated everywhere.

Finally, in terms of the national procurement service, I believe that it is crucial that we should be able to measure the success of this service. In order to do so, we need the details of the situation as it currently stands—which areas are covered by the service, and what is the value and number of the current contracts that are awarded to companies in Wales, so that we know what the baseline is. You say that only 15% of the contracts in these areas are currently awarded to companies from Wales. Obviously, you want to see that increasing. However, unless we have an analysis of the situation as it currently exists, it will be impossible for us outwith Government to assess the success of this new service. Therefore, I would also ask you to release the details that you have about the current situation in the areas that will be covered by the national procurement service.

15:23

### **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Alun Ffred Jones for his questions, and also for the support that he is offering to the new national procurement service, based on the delivery and the outcomes that we expect in terms of the questions and issues that he raises.

I recognise clearly that this is a matter of how we can address the shortfall in the lack of collaboration in terms of procurement, particularly around the opportunities for Wales-based business. I will go back to look at the economic impact assessment that was carried out to look at the ways in which we can develop this, and in developing the national procurement service. As I said earlier, currently, only around 15% of the public procurement expenditure that will be covered by the NPS goes to Wales-based businesses. So, there are real opportunities. I gave the examples in my statement about the requirement to break down into lots, and to encourage smaller and local suppliers to bid. There are other instances where significant savings can be made, by awarding larger single-supplier contracts, particularly if we want to attract inward investment. The adoption of the community benefits approach increases the supply chain opportunities for businesses in Wales.

Diolch i Alun Ffred Jones am ei gwestiynau, a diolch hefyd am y gefnogaeth y mae'n ei chynnig i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol newydd, yn seiliedig ar gyflawni a'r canlyniadau yr ydym yn eu disgwyl o ran y cwestiynau a'r materion y mae'n eu codi.

Rwyf yn cydnabod wrth gwrs fod hwn yn fater o sut y gallwn fynd i'r afael â phroblem y diffyg cydweithredu o ran caffael, yn enwedig o ran y cyfleoedd i fusnesau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Byddaf yn mynd yn ôl i edrych ar yr asesiad o effaith economaidd a gynhaliwyd i weld sut y gallwn ddatblygu hyn, a datblygu'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Fel y dywedais yn gynharach, ar hyn o bryd, dim ond tua 15% o'r gwariant caffael cyhoeddus y bydd y gwasanaeth caffael cyhoeddus yn ei gwmpasu sy'n mynd i fusnesau yng Nghymru. Felly, mae cyfleoedd gwirioneddol yma. Rhoddais enghreifftiau yn fy natganiad o ran y gofyniad i rannu'n lotiau, ac i annog cyflenwyr llai a chyflenwyr lleol i gynnig. Mae enghreifftiau eraill lle gellir gwneud arbedion sylweddol, drwy ddyfarnu contractau mawr i un cyflenwr, yn enwedig os ydym am ddenu mewnfuddsoddiad. Mae mabwysiadu'r dull manteision cymunedol yn creu mwy o gyfleoedd o ran y gadwyn gyflenwi i fusnesau yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



So, there has already been close contact and work with officials in the Department for Business, Enterprise, Technology and Science and we have been communicating with suppliers across Wales. We have a forward work programme, which will be published in late summer, and I will certainly want that to be available to Members. There will be supplier briefing events and opportunities to take forward the planning of the work programme. That does allow for the supplier base to be developed so that it is fit to bid for contracts coming from the NPS. This is also linked closely to the regional development programme that is being run by local authorities across Wales. I would certainly be happy to publish in detail the outcome of the community benefits of those companies that have already taken this on board, and I am sure that will be valuable for Members in terms of evidencing the impact of community benefits.

The overall economic impact will be tracked through regular dialogue with the supplier base, and will be validated by the NPS board. In terms of the way forward, we must look at the pipeline of projects that are already being developed in terms of contracts currently managed by Value Wales. Category teams will develop a strategy for their area, and clearly this will now take us forward in terms of a whole new approach, which should have clear benefits for business, as well as delivering that £25 million—at a minimum—of efficiency savings per annum.

Felly, gwnaed peth gwaith a bu cysylltiad agos eisoes â swyddogion yn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, ac rydym wedi bod yn cyfathrebu â chyflenwyr ledled Cymru. Mae gennym flaenraglen waith, a gaiff ei chyhoeddi ar ddiwedd yr haf, a byddaf yn sicr am iddi fod ar gael i'r Aelodau. Bydd digwyddiadau briffio cyflenwyr a chyfleoedd i fwrw ymlaen â gwaith cynllunio'r rhaglen waith. Mae hynny'n caniatáu datblygu sylfaen y cyflenwyr fel ei bod yn addas i wneud cais am gontractau a ddaw o'r gwasanaeth caffael cyhoeddus. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng hyn a'r rhaglen datblygu rhanbarthol sy'n cael ei chynnal gan awdurdodau lleol ledled Cymru. Byddwn yn sicr yn fwy na bodlon cyhoeddi canlyniadau manwl manteision cymunedol y cwmnïau hynny sydd eisoes yn bwrw ymlaen â hyn, ac rwyf yn siŵr y bydd hynny'n werthfawr i'r Aelodau o ran dangos effaith y manteision cymunedol.

Caiff yr effaith economaidd gyffredinol ei holrhain trwy ddeialog reolaidd â sylfaen y cyflenwyr, a chaiff ei dilysu gan fwrdd y gwasanaeth caffael cenedlaethol. O ran y ffordd ymlaen, rhaid inni edrych ar y biblinell o brosiectau sy'n cael eu datblygu eisoes o ran contractau a reolir ar hyn o bryd gan Gwerth Cymru. Bydd timau categorïau'n datblygu strategaeth ar gyfer eu hardal, ac mae'n amlwg y bydd hyn yn ein symud ymlaen o ran dull hollol newydd, a ddylai ddod â manteision clir i fusnesau, yn ogystal â darparu'r £25 miliwn hwnnw—o leiaf—o arbedion effeithlonrwydd bob blwyddyn.

15:26

## **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I, too, thank the Minister and welcome the investment and the focus on making sure that our procurement spend is most appropriately targeted. However, in terms of appropriateness, there is the question of whether or not we are trying to get the cheapest possible contract or the one that offers the best value to the Welsh taxpayer; the two are not necessarily the same thing.

The development of a national service offers wonderful opportunities in terms of efficiency savings and the opportunity to improve the profession's esteem and status in public services more generally. However, I echo Alun Ffred's concerns that taking decisions centrally has risks in terms of economic localism. How those competing demands will be balanced in practice is the critical question here.

In terms of how we measure whether or not Welsh businesses are benefiting from our procurement spend, one key question that has not been answered previously is how we define 'Welsh'. Previously, when I have asked for lists of Welsh companies that have been successful in different kinds of funding and contract bids, I have been given a list that included the Cardiff office of big multinational companies. We need to be very careful that we understand what we mean when we say the words 'Welsh business' and we need to understand whether or not that business truly is an indigenous business with its headquarters based here in Wales, or whether it is just a branch office that will hive out its economic benefits elsewhere.

Hoffwn innau hefyd ddiolch i'r Gweinidog a chroesawu'r buddsoddiad a'r ffocws ar sicrhau bod ein gwario ar gaffael wedi'i dargedu yn y ffordd fwyaf priodol. Fodd bynnag, o ran priodoldeb, rhaid gofyn a ydym yn ceisio cael y contract rhataf posibl ynteu'r un sy'n cynnig y gwerth gorau i drethdalwyr Cymru; nid yw'r ddau o reidrwydd yn gyfystyr.

Mae datblygu gwasanaeth cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd gwyb o ran arbedion effeithlonrwydd a chyfle i wella parch a statws y proffesiwn yn y gwasanaethau cyhoeddus yn fwy cyffredinol. Fodd bynnag, rwyf yn ategu pryderon Alun Ffred fod gwneud penderfyniadau'n ganolog yn peri risgiau o ran lleoliaeth economaidd. Y cwestiwn allweddol yma yw sut y caiff y galwadau hyn, a fydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd, eu cydbwysu'n ymarferol.

O ran sut yr ydym yn mesur a yw busnesau Cymru yn elwa ar ein gwariant caffael ai peidio, un cwestiwn allweddol nad yw wedi ei ateb eto yw sut yr ydym yn diffinio 'busnes o Gymru'. Yn y gorffennol, pan wyf wedi gofyn am restrau o gwmnïau o Gymru sydd wedi gwneud gwahanol fathau o gynigion am gyllid a chontractau'n llwyddiannus, rwyf wedi cael rhestr sy'n cynnwys swyddfeydd cwmnïau mawr rhyngwladol yng Nghaerdydd. Mae angen inni fod yn ofalus iawn ein bod yn deall yr hyn yr ydym yn ei olygu pan ddywedwn y geiriau 'busnesau o Gymru' ac mae angen inni ddeall a yw'r busnes yn fusnes gwirioneddol frodorol a'i bencadlys yma yng Nghymru, ynteu ai dim ond swyddfa gangen ydyw a fydd yn anfon y budd economaidd i fannau eraill.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

In terms of the cost of the service—£5.9 million over three years—can you tell us how much that represents as a percentage of the spend that it will be managing? You say that it is 20% to 30% of public sector spending in Wales. Alun Ffred asked what the ballpark figure was there and it may be difficult to be exact, but it would be interesting to know what the cost per million is.

I also want to consider the impact that this national service will have on the in-house procurement services in those local authorities that are taking part in this. Is it replacing any of those in-house functions immediately? Is there likely to be an impact on those staff? Also, will there be opportunities to second those staff across to the new national service?

We have talked about it here, and you say in your statement that there is this issue surrounding the recruitment of expert staff, as you mentioned in response to the Member opposite. Not only is it an opportunity to recruit the best staff to your new national service, Minister, but would you not agree that it is another fantastic opportunity for us to train a new generation of procurement professionals to the highest possible standards? Do you also agree that there is an opportunity here to lead rather than follow and take expertise from elsewhere? What steps have you taken towards setting up apprenticeship schemes and graduate training placements to make the most of the potential community benefits that this investment represents?

Finally, I echo the concern about national services bundling at national level, meaning that bigger contracts are likely to be created. With regard to the economic impact assessment group that has already started looking at this question, will it continue its work to monitor the success of the new service in terms of making sure that economic localism is not damaged by the national service?

O ran cost y gwasanaeth—£5.9 miliwn dros dair blynedd—a allwch ddweud wrthym faint yw hynny fel canran o'r gwariant y bydd yn ei reoli? Rydych yn dweud ei fod yn 20% i 30% o wariant y sector cyhoeddus yng Nghymru. Gofynnodd Alun Ffred am ffigur bras, a gallai fod yn anodd bod yn fanwl gywir, ond byddai'n ddiddorol gwybod beth yw'r gost fesul miliwn.

Hoffwn hefyd ystyried yr effaith a gaiff y gwasanaeth cenedlaethol hwn ar wasanaethau caffael mewnol yr awdurdodau lleol hynny sy'n cymryd rhan yn hyn. A yw'n disodli unrhyw un o'r swyddogaethau mewnol hynny ar unwaith? A yw'n debygol y bydd effaith ar y staff hynny? Hefyd, a fydd cyfleoedd i secondio'r staff hynny draw i'r gwasanaeth cenedlaethol newydd?

Rydym wedi siarad am hyn yma, a dywedwch yn eich datganiad fod ystyriaethau o ran recriwtio staff arbenigol, fel y soniasoch wrth ateb yr Aelod gyferbyn. Yn ogystal â bod yn gyfle i recriwtio'r staff gorau i'ch gwasanaeth cenedlaethol newydd, Weinidog, oni fydddech yn cytuno bod hwn yn gyfle gwych arall inni i hyfforddi cenedlaeth newydd o weithwyr caffael proffesiynol at y safonau uchaf posibl? A ydych hefyd yn cytuno bod hwn yn gyfle i arwain yn hytrach na dilyn a chymryd arbenigedd o rywle arall? Pa gamau ydych chi wedi'u cymryd tuag at sefydlu cynlluniau prentisiaeth a lleoliadau hyfforddi graddedigion i wneud yn fawr o'r manteision cymunedol posibl y mae'r buddsoddiad hwn yn ei gynnig?

Yn olaf, hoffwn ategu'r pryder am fwndelu gwasanaethau cenedlaethol ar lefel genedlaethol, sy'n golygu ei bod yn debygol y caiff contractau mwy eu creu. O ran y grŵp asesu effaith economaidd sydd eisoes wedi dechrau edrych ar y mater hwn, a fydd yn parhau â'i waith i fonitro llwyddiant y gwasanaeth newydd o ran gwneud yn siŵr nad yw'r gwasanaeth cenedlaethol yn niweidio lleoliaeth economaidd?

15:30

**Jane Hutt** [Bywgraffiad Biography](#)

I like the way that she expressed the wonderful opportunities that are available, but also the dangers in terms of economic localism. That is always the tension, is it not? That is why governance and accountability must be very strong. We have looked carefully at that in terms of the governance, because we need to ensure that this is owned nationally and locally, and owned by all the members. Having all the local authorities on board, as well as other public sector organisations, is important.

Rwyf yn hoff o'r ffordd y cyfeiriodd at y cyfleoedd gwych sydd ar gael, ond hefyd y peryglon o ran lleoliaeth economaidd. Dyna yw'r tensiwn bob amser, yntê? Dyna pam y mae'n rhaid i lywodraethu ac atebolrwydd fod yn gryf iawn. Rydym wedi edrych yn ofalus ar hyn o ran llywodraethu, oherwydd mae angen inni sicrhau perchenogaeth genedlaethol a lleol ar hyn, a pherchenogaeth yr holl aelodau. Mae'n bwysig bod yr holl awdurdodau lleol yn cytuno â hyn, yn ogystal â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I will give Eluned Parrott a quick response on governance. The NPS board will be responsible for approving the strategies that will be adopted; it is chaired by a local authority chief executive, Jon House of Cardiff Council. That board is made up of senior leaders from across the public sector, and includes councillor representation. The work on the terms of reference for the board will clarify which decisions it can take, in terms of operational activity, and which are executive decisions in terms of decisions for ministers or Welsh Government officials. However, the issue about recruiting the right staff into the NPS is vital. We do not want to draw all the skills into the centre. I will not repeat myself on the fact that we hope that the home-grown talent project is training professionals across the board in Wales. We need them locally, but we also need to have those core staff at the centre, in terms of delivery.

We will continue to look at the economic impact, and I think that the FSB engagement was very valuable in terms of the economic impact assessment. It also brought together other players in terms of economic development officials, and the Wales Centre for Voluntary Action in terms of the third sector. They can also play their part in terms of response and the review in terms of the impact of the NPS. Therefore, without repeating my answers to the other questions that have been put to me this afternoon, we are at the beginning of a very exciting development. However, as Eluned Parrott said, it will be very clearly about how we can balance the national collaboration and efficiency gains that we will get to the best value for the Welsh pound, while, at the same time, ensuring that our Welsh-based businesses benefit as a result of the collaborative procurement on these repetitive spend areas.

Rhoddaf ateb cyflym i Eluned Parrott am lywodraethu. Bwrdd y gwasanaeth caffael cenedlaethol fydd yn gyfrifol am gymeradwyo'r strategaethau a fabwysiadir; prif weithredwr awdurdod lleol, Jon House o Gyngor Caerdydd, fydd yn cadeirio'r bwrdd. Mae'n cynnwys arweinwyr uwch o bob rhan o'r sector cyhoeddus, a chynrychiolaeth o blith cynghorwyr. Bydd y gwaith ar gyloch gorchwyl y bwrdd yn egluro pa benderfyniadau y gall eu gwneud, o ran gweithgareddau gweithrediadol, a pha rai sy'n benderfyniadau gweithredol i weinidogion neu swyddogion Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n hollbwysig recriwtio'r staff cywir i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol. Nid ydym am dynnu'r holl sgiliau i mewn i'r canol. Nid wyf am fy ailadrodd fy hun ynghylch y ffaith ein bod yn gobeithio bod prosiect doniau Cymru yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol ym mhob maes yng Nghymru. Mae arnom eu hangen yn lleol, ond mae angen inni hefyd fod â'r staff craidd hynny yn y canol, o safbwynt cyflawni.

Byddwn yn parhau i edrych ar yr effaith economaidd, ac rwyf yn meddwl bod ymgysylltu â Ffederasiwn y Busnesau Bach wedi bod yn werthfawr iawn o ran yr asesiad o effaith economaidd. Bu hefyd yn fodd o ddwyn ynghyd chwaraewyr eraill o ran swyddogion datblygu economaidd, a Chanolfan Gweithredu Gwirfoddol Cymru o safbwynt y trydydd sector. Gallant hwythau hefyd chwarae eu rhan o ran ymateb a'r adolygiad o ran effaith y gwasanaeth caffael cenedlaethol. Felly, heb ailadrodd fy atebion i'r cwestiynau eraill a ofynnwyd imi y prynhawn yma, rydym ar drothwy datblygiad cyffrous iawn. Fodd bynnag, fel y dywedodd Eluned Parrott, bydd yn amlwg iawn yn fater o sut y gallwn gydbwysu'r cydweithio cenedlaethol a'r enillion effeithlonrwydd a gawn er mwyn rhoi'r gwerth gorau am y bunt Gymreig, a sicrhau ar yr un pryd fod ein busnesau o Gymru'n elwa ar gaffael ar y cyd yn y meysydd gwariant ailadroddus hyn.

15:32

**Julie James** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I also very much welcome this statement, which is a really excellent example of an innovative approach by the Welsh Government, which we know has been an exemplar across the UK. Therefore, I very much congratulate you on that. I welcome many of the responses that you have made to other Members, so I will not repeat the same points, although I wish to add my voice to some of them.

However, I wish to make a few other points. Developing that issue about the national and the local, and their various economic impacts, you made another statement in the Chamber today, which was very welcome, about infrastructure investment, for example. Do you have a mechanism, or will you develop a mechanism, for moving services in and out of the national procurement service, depending on what you see coming through the pipeline, if you like? So, if you had a national infrastructure investment on social housing, would you be looking at a strategy for some of the social housing inclusion in a national service, or leaving that local, and so on?

Weinidog, rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad hwn yn fawr iawn; mae'n enghraifft wirioneddol ragorol o ddull arloesol gan Lywodraeth Cymru, sydd, fel y gwyddom, wedi bod yn esiampl ar draws y DU. Felly, rwyf yn eich llongyfarch yn fawr iawn ar hynny. Rwyf yn croesawu llawer o'r atebion yr ydych wedi'u rhoi i Aelodau eraill, felly nid wyf am ailadrodd yr un pwyntiau, er fy mod yn dymuno ychwanegu fy llais at rai ohonynt.

Fodd bynnag, hoffwn wneud ambell i bwynt arall. O ran y cenedlaethol a'r lleol, a'r amrywiol effeithiau economaidd, gwnaethoch ddatganiad arall yn y Siambr heddiw, a gafodd ei groesawu'n fawr, ynghylch buddsoddi mewn seilwaith, er enghraifft. A oes gennych fecanwaith, neu a fyddwch yn datblygu mecanwaith, i symud gwasanaethau i mewn ac allan o'r gwasanaeth caffael cenedlaethol, yn dibynnu ar yr hyn a welwch yn dod drwy'r biblinell, fel petai? Felly, pe bai buddsoddiad seilwaith cenedlaethol wedi bod mewn tai cymdeithasol, a fydddech yn edrych ar strategaeth i gynnwys rhai o'r tai cymdeithasol mewn gwasanaeth cenedlaethol, neu'n eu cadw'n lleol, ac yn y blaen?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

To develop that a little more, some of the very good outcomes that you get from national procurement services come from looking at the whole procurement process from the very beginning, at the point inside the public sector organisation where it is starting to specify the sorts of service that it wants to procure, before it brings it to the procurement service to be looked at. You can make a huge difference to whether something is locally or nationally sourced depending on how you specify it. Therefore, will the procurement service be looking at that end of things, as well as at the point of contract procurement?

Finally, will you have some mechanism to be able to look at innovation as well? For example, at lunchtime today, I hosted a session by Swansea University about innovation in manufacturing processes, which included a lot of medical software and systems for sterilisation of single-use instruments, for example. Those cannot possibly be part of the national procurement service at present, because they are innovative. However, some mechanism for getting them there once they become viable service options would also be a good thing.

15:34

## Jane Hutt [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Julie James, and very much bow to her expertise, as, I am sure, we all do in this Chamber. As it is a new service, it will be very valuable for me to be held to account for its delivery, as well to learn from further scrutiny with regard to the issues raised this afternoon. Just in terms of looking at collaborative procurement, the record so far and how this has been built, best practice tools have been used, including sustainability risk assessment, as well as the supplier qualification information database and the community-benefits approach. That has been about good engagement with Wales-based suppliers. Of course, those outcomes speak for themselves in terms of computer consumables, print framework and vehicle hire, to give just a few examples.

On the links to infrastructure and whether we can have in-and-out for common and repetitive spend, we need to look at that, and we certainly have to break the ground in terms of innovation and look at the future scope and operating assumptions of the national procurement service very much along the lines that Julie James identifies.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.36 p.m.*

## Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, amendment 3 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 4, 5 and 6 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5229 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

I ddatblygu hynny ychydig ymhellach, mae rhai o'r canlyniadau da iawn a gewch o'r gwasanaethau caffael cenedlaethol yn dod o edrych ar y broses gaffael gyfan o'r cychwyn cyntaf, o'r adeg pan fydd sefydliad yn y sector cyhoeddus yn dechrau pennu'r math o wasanaeth y mae am ei gaffael, cyn ei gyflwyno i'r gwasanaeth caffael gael edrych arno. Gallwch wneud gwahaniaeth enfawr o ran cael gafael ar rywbeth yn lleol ynteu'n genedlaethol, yn dibynnu ar sut yr ydych yn nodi hynny. Felly, a fydd y gwasanaeth caffael yn edrych ar yr agwedd honno, yn ogystal ag ar ochr caffael contractau?

Yn olaf, a fydd gennych ryw fath o fecanwaith i allu edrych ar arloesi hefyd? Er enghraifft, amser cinio heddiw, cynhaliais sesiwn gan Brifysgol Abertawe am arloesi ym maes prosesau gweithgynhyrchu, a oedd yn cynnwys llawer o feddalwedd a systemau meddygol i ddiheintio offer a ddefnyddir unwaith, er enghraifft. Nid yw'n bosibl i'r rhain fod yn rhan o'r gwasanaeth caffael cenedlaethol ar hyn o bryd, oherwydd eu bod yn arloesol. Fodd bynnag, byddai'n dda o beth hefyd petai rhyw fecanwaith i'w cael nhw yno wedi iddynt ddod yn ddewisiadau gwasanaeth dichonadwy.

Diolch i Julie James; rwyf yn edmygu ei harbenigedd yn fawr, fel y mae pob un ohonom yn y Siambr hon, rwyf yn siŵr. Gan ei fod yn wasanaeth newydd, bydd yn werthfawr iawn i mi gael fy nwyn i gyfrif am ei ddarparu, yn ogystal â dysgu o graffu pellach o ran y materion a godwyd y prynhawn yma. Ac edrych ar gaffael ar y cyd, yr hanes hyd yma a'r ffordd y cafodd hyn ei ddatblygu, defnyddiwyd dulliau arfer gorau, gan gynnwys asesu risg cynaliadwyedd, yn ogystal â'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr a'r dull manteision cymunedol. Mae hynny wedi bod yn fater o ymgysylltu'n dda â chyflenwyr o Gymru. Wrth gwrs, mae'r canlyniadau hynny'n siarad drostynt eu hunain o ran nwyddau traul cyfrifiadurol, fframwaith argraffu a llogi cerbydau, i roi dim ond rhai enghreifftiau.

O ran y cysylltiadau â seilwaith ac a allwn gael trefn 'i mewn ac allan' ar gyfer gwariant cyffredin ac ailadroddus, mae angen inni edrych ar hynny, ac yn sicr mae'n rhaid inni dorri cwys newydd o ran arloesi ac edrych ar gwmpas y gwasanaeth caffael cenedlaethol yn y dyfodol a'i dybiaethau gweithredu, yn debyg iawn i'r hyn a nododd Julie James.

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.56 p.m.*

## Public Service Reform

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, gwelliant 3 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw William Graham.*

Cynnig NDM5229 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

15:36

**Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

The difference that good public services can make to the lives of people in Wales cannot be overstated. Public services often protect the most vulnerable in society: they look after us when we fall ill or are in need, they keep us safe, and they make our communities places where we want to live. Our programme for government sets out our aim to support the delivery of effective and efficient services that meet the needs of the people of Wales. This means strong local democracy and accountability, services that are always seeking to improve, using funding effectively, and public services that work effectively together. The Welsh public sector faces significant challenges. The funding cuts announced by the UK Government in March, on top of those announced in last year's autumn statement, mean smaller budgets at a time when our public services face greater demands. Put simply, we must do much more with much less.

Ni ellir gorbwysleisio'r gwahaniaeth y gall gwasanaethau cyhoeddus da ei wneud i fywydau pobl yng Nghymru. Mae gwasanaethau cyhoeddus yn aml yn amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas: maent yn gofalu amdanom pan fyddwn yn mynd yn sâl neu pan fyddwn mewn angen, maent yn ein cadw'n ddiogel, ac maent yn gwneud ein cymunedau yn fannau lle rydym yn dymuno byw. Mae ein rhaglen lywodraethu'n nodi ein bwriad i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n diwallu anghenion pobl Cymru. Mae hynny'n golygu democratiaeth ac atebolrwydd lleol cryf, gwasanaethau sydd bob amser yn ceisio gwella, gan ddefnyddio cyllid yn effeithiol, a gwasanaethau cyhoeddus sy'n gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n wynebu heriau sylweddol. Mae'r toriadau ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mawrth, ar ben y rhai a gyhoeddwyd yn natganiad yr hydref y llynedd, yn golygu cyllidebau llai ar adeg pan fo mwy o bwysau ar ein gwasanaethau cyhoeddus. Yn syml, mae'n rhaid inni wneud mwy o lawer gyda llawer yn llai.

Strong local democracy is essential to improving local services, providing good local leadership and demonstrating robust accountability to people and communities. Openness, accountability and transparency are values that I place at the heart of public services, and we have an extensive programme of work in place to promote local democracy. Everyone working in the public sector needs to take responsibility to ensure that the service they provide is as good as it can be. We all know that there are variations in services, and those need to be addressed. I am putting in place a new support and intervention protocol that will use the widest range of evidence to identify weaknesses and potential failure in local authorities at an early stage, and then provide targeted assistance. I will also continue to provide bespoke support and intervention for individual authorities where necessary. The transformation that we have seen in Anglesey is evidence of the remarkable progress that can be made when this kind of support is given, and where local authorities respond positively to it.

Mae democratiaeth leol gref yn hanfodol i wella gwasanaethau lleol, i roi arweiniad da'n lleol ac i ddangos atebolrwydd cadarn i bobl a chymunedau. Mae bod yn agored, yn atebol ac yn dryloyw yn werthoedd yr wyf yn eu rhoi wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus, ac mae gennym raglen waith helaeth i hyrwyddo democratiaeth leol. Mae angen i bawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu cystal ag y gall fod. Rydym i gyd yn gwybod bod amrywiadau mewn gwasanaethau, ac mae angen rhoi sylw i hynny. Rwyf yn sefydlu protocol cymorth ac ymyrraeth newydd a fydd yn defnyddio'r ystod ehangaf o dystiolaeth i nodi gwendidau a methiannau posibl mewn awdurdodau lleol yn gynnar, ac yna'n darparu cymorth wedi'i dargedu. Byddaf hefyd yn parhau i ddarparu cymorth ac ymyrraeth bwrpasol i awdurdodau unigol lle bo angen. Mae'r gweddnewidiad yr ydym wedi'i weld yn Ynys Môn yn dystiolaeth o'r cynnydd aruthrol y gellir ei wneud pan fydd y math hwn o gymorth yn cael ei roi, a phan fo awdurdodau lleol yn ymateb yn gadarnhaol iddo.

Our funding for local government increased over the current spending review period, while support in England fell. However, the future will bring tough decisions. In this environment, collaboration between partners is essential. Even if we had no funding pressures, our goal should be to ensure that people receive services that make sense to them personally, not to those providing the services. Local service boards are bringing public services together to identify and act on priorities in their areas. Single integrated plans focus efforts on delivering better services for communities, rather than tick-box bureaucratic processes. I am working with political and executive leadership across Wales, through the partnership council for Wales and my public service leadership group, to give clear direction and authorisation for the delivery of services at the most appropriate level. The WLGA will have a key role to play in this, in supporting good practice to spread and in encouraging improvement.

Examples of success include ensuring that public money delivers the best value for our communities through the establishment of a national procurement service, which the Minister for Finance has just spoken about. Over 70 organisations have already indicated their commitment, and we expect the NPS to deliver savings in the region of £25 million a year. I have approved 15 regional collaboration fund projects, totalling £6.5 million. They include a project in Cwm Taf to transform education provision through the innovative use of ICT, a project to integrate access to health and social care services in north Wales, and the development of an emergency alcohol treatment centre in Cardiff and the Vale to reduce pressure on accident and emergency departments.

I was delighted to help launch the Gwent missing children project recently. The project represents collaboration at its very best: public services coming together to improve the way that we respond to and support the most vulnerable people in our society. Working across organisational boundaries, as those in Gwent are doing, is the only way to tackle issues such as these. Therefore, while I welcome the announcement on the commission on public service governance and delivery by the First Minister, it must not be used as an excuse for stopping current change programmes or service improvements. We cannot afford to wait to make changes that we already know need to be made. This is an agenda for the whole public service, complementing key reforms under way in other areas, such as health, social care and education. All parts of the public service must work together, whether devolved or not.

Cynyddodd ein cyllid i lywodraeth leol dros gyfnod yr adolygiad cyfredol o wariant, ond gostwng a wnaeth y cymorth yn Lloegr. Fodd bynnag, bydd penderfyniadau anodd i'w gwneud yn y dyfodol. Yn yr amgylchedd hwn, mae'n hollbwysig bod partneriaid yn cydweithio. Hyd yn oed pe na byddai pwysau ariannol arnom, dylem fod yn ceisio sicrhau bod pobl yn cael gwasanaethau sy'n gwneud synnwyr iddynt hwy'n bersonol, nid i'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau. Mae byrddau gwasanaeth lleol yn dod â gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd i nodi'r blaenoriaethau yn eu hardaloedd a gweithredu arnynt. Mae cynlluniau integredig sengl yn canolbwyntio ymdrechion ar ddarparu gwell gwasanaethau i gymunedau, yn hytrach na phrosesau biwrocraidd sy'n ticio blychau. Rwyf yn gweithio gydag arweinwyr gwleidyddol a gweithredol ledled Cymru, drwy gyngor partneriaeth Cymru a'm grŵp arwain y gwasanaethau cyhoeddus, i roi cyfeiriad clir ac awdurdod i ddarparu gwasanaethau ar y lefel fwyaf priodol. Bydd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru rôl allweddol i'w chwarae yn hyn, o ran cefnogi arfer da er mwyn lledaenu ac annog gwelliant.

Ymhlith y llwyddiannau mae sicrhau bod arian cyhoeddus yn darparu'r gwerth gorau i'n cymunedau drwy sefydlu gwasanaeth caffael cenedlaethol, y mae'r Gweinidog Cyllid newydd sôn amdano. Mae dros 70 o sefydliadau eisoes wedi nodi eu hymrwymiad, ac rydym yn disgwyl i'r gwasanaeth caffael cenedlaethol gyflawni arbedion o tua £25 miliwn y flwyddyn. Rwyf wedi cymeradwyo 15 o brosiectau'r gronfa cydweithio rhanbarthol, sy'n werth cyfanswm o £6.5 miliwn. Maent yn cynnwys prosiect yng Nghwm Taf i weddnewid darpariaeth addysg drwy ddefnydd arloesol o TGCh, prosiect i integreiddio mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gogledd, a datblygu canolfan driniaeth alcohol frys yng Nghaerdydd a'r Fro i leihau'r pwysau ar adrannau damweiniau ac achosion brys.

Roeddwn yn falch iawn o helpu i lansio prosiect plant coll Gwent yn ddiweddar. Mae'r prosiect yn enghraifft o gydweithio ar ei orau: gwasanaethau cyhoeddus yn dod at ei gilydd i wella'r ffordd yr ydym yn ymateb i'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac yn eu cefnogi. Dim ond trwy weithio ar draws ffiniau sefydliadol, fel y mae'r rhai yng Ngwent yn ei wneud, y gellir mynd i'r afael â materion fel y rhain. Felly, er fy mod yn croesawu'r cyhoeddiad ar y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus gan y Prif Weinidog, rhaid iddo beidio â bod yn esgus dros roi'r gorau i raglenni newid neu welliannau i wasanaethau sydd ar y gweill. Ni allwn fforddio aros i wneud newidiadau yr ydym eisoes yn gwybod bod angen eu gwneud. Mae hon yn agenda ar gyfer y gwasanaeth cyhoeddus cyfan, sy'n ategu diwygiadau allweddol sydd ar y gweill mewn meysydd eraill, megis iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Rhaid i bob rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd, boed y rheiny'n ddatganoledig ai peidio.



The police and fire and rescue services play a crucial role, not just in their response to emergencies, but in their preventative work as partners in improving community safety. Crime prevention and reduction is no longer a matter for the police, courts, prisons and probation service alone. In Wales, they work in close partnership with many statutory and voluntary agencies. The Welsh Government has provided over £40 million over three years to fund an additional 500 community support officers throughout Wales, 430 of whom are already in post. The public services that we aspire to could not exist without the dedicated public service workforce that we have and we are committed to developing and supporting them. Last week, I chaired the workforce partnership council and we discussed how employee engagement can support our agenda. An engaged and supportive workforce is central to our vision of a world-class public service.

Looking ahead, there are areas on which I want to focus: the openness and transparency of our councils; encouraging the sharing of best practice; and tackling head-on the perceived barriers to improvement. The involvement and interest of the public in local democracy is vital for holding authorities to account and I will talk more about that in the debate on promoting local democracy next week. Best practice is sometimes a poor traveller but, in a country of our size, it should be a swift and short journey. Too often, opportunities to work together and improve services are missed because they are put in the 'too hard' box.

Before I finish, I would like to deal with the tabled amendments. I am happy to support all the amendments. On amendment 3, I agree with Plaid Cymru that openness and accountability should be at the heart of the planning and delivery of public services. The Local Government (Wales) Measure 2011 ensures that this is the case. On amendment 4, I agree with the Welsh Conservatives that public services needs to work with a wide range of partners across services and sectors to deliver good public services. On amendment 5, I also agree that community involvement is very important and, as part of producing their single integrated plans, all local service boards are required to engage and consult widely. On amendment 6, the Welsh Government supports reporting and accountability at both national and local levels. On amendment 1, the Welsh Government has already endorsed a set of national principles for public engagement in Wales, which offers a consistent approach to public engagement. Finally, on amendment 2, the Welsh Government has made it clear that co-ordinated and integrated health and social services are required and are expected to be put in place. I look forward to hearing colleagues' comments during the debate.

Mae'r heddlu a'r gwasanaethau achub a thân yn hollbwysig, nid yn unig o ran eu hymateb i argyfyngau, ond o ran eu gwaith ataliol fel partneriaid sy'n gwella diogelwch cymunedol. Nid mater i'r heddlu, y llysoedd, y carchardai a'r gwasanaethau prawf yn unig yw atal a lleihau troseddu mwyach. Yng Nghymru, maent yn gweithio mewn partneriaeth agos â nifer o asiantaethau statudol a gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £40 miliwn dros dair blynedd i ariannu 500 o swyddogion cymorth cymunedol ychwanegol ledled Cymru, ac mae 430 ohonynt eisoes yn eu swyddi. Ni allai'r gwasanaethau cyhoeddus yr ydym yn dyheu amdanynt fodoli heb weithlu ymroddedig y gwasanaethau cyhoeddus, ac rydym wedi ymrwymo i'w datblygu a'u cefnogi. Yr wythnos diwethaf, bûm yn cadeirio cyngor partneriaeth y gweithlu a buom yn trafod sut y gall ymgysylltu â'r gweithwyr gefnogi ein hagenda. Mae gweithlu sydd wedi ymgysylltu ac sy'n gefnogol yn ganolog i'n gweledigaeth o gael gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf.

Wrth edrych ymlaen, mae meysydd yr wyf am ganolbwyntio arnynt: pa mor agored a thryloyw yw ein cyngorau; annog rhannu arfer gorau; a mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r rhwystrau ymddangosiadol i welliant. Mae'n hanfodol cynnwys y cyhoedd mewn democratiaeth leol ac ennyn eu diddordeb er mwyn dal awdurdodau i gyfrif a byddaf yn siarad mwy am hynny yn y ddadl ar hyrwyddo democratiaeth leol yr wythnos nesaf. Mae arfer gorau weithiau'n deithiwr gwael, ond, mewn gwlad o'n maint ni, dylai fod yn daith gyflym a byr. Yn rhy aml, collir cyfleoedd i gydweithio a gwella gwasanaethau oherwydd eu bod yn cael eu rhoi yn y blwch 'rhy anodd'.

Cyn imi orffen, hoffwn ymdrin â'r gwelliannau a gyflwynwyd. Rwyf yn hapus i gefnogi'r holl welliannau. O ran gwelliant 3, rwyf yn cytuno â Phlaid Cymru y dylai bod yn agored ac yn atebol fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn sicrhau bod hyn yn digwydd. O ran gwelliant 4, rwyf yn cytuno â'r Ceidwadwyr Cymreig fod angen i wasanaethau cyhoeddus gydweithio ag ystod eang o bartneriaid ar draws gwasanaethau a sectorau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus da. O ran gwelliant 5, rwyf hefyd yn cytuno bod cynnwys y gymuned yn bwysig iawn, ac wrth iddynt gynhyrchu eu cynlluniau integredig sengl, mae'n ofynnol i bob bwrdd gwasanaeth lleol ymgysylltu ac ymgynghori'n eang. O ran gwelliant 6, mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi adrodd ac atebolrwydd ar lefel genedlaethol a lleol. O ran gwelliant 1, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo cyfres o egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru, sy'n cynnig dull cyson o ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn olaf, o ran gwelliant 2, mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn glir bod yn rhaid wrth wasanaethau iechyd a chymdeithasol cydgyssylltiedig ac integredig, a bod disgwyl iddynt gael eu rhoi ar waith. Edrychaf ymlaen at glywed sylwadau fy nghyd-weithwyr yn ystod y ddadl.

15:44

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have selected the six amendments to the motion and I call on Peter Black to move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig a galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

*Amendment 1—Aled Roberts*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Yn credu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan hanfodol o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres o safonau cenedlaethol ar arfer gorau o ran ymgysylltu rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus.*

Gwelliant 2—Aled Roberts

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddechrau'r cynnig:*

*Yn credu bod yn rhaid i unrhyw ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus hwyluso'r broses bontio rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y gallwn integreiddio'r gwasanaethau hynny yn well o fewn strwythur cyflenwi democrataidd ac atebol.*

*Add as new point at start of motion:*

*Believes that public engagement is an essential part of the reform of public services and calls on the Welsh Government to develop a set of national standards for best practice in engagement between communities and public bodies.*

Amendment 2—Aled Roberts

*Add as new point at start of motion:*

*Believes that any public service reform must make the transition between health care and social care easier and calls on the Welsh Government to look at how we can better integrate those services within a democratic and accountable delivery structure.*

15:44

**Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

The challenge for public services in Wales in a time of contracting resources is that they remain focused and relevant, that they achieve clear and measurable outcomes, and that those delivering them are accountable and transparent, as well as delivering value for money. That involves a level of engagement referred to in the Participation Cymru report but rarely achieved anywhere in Wales. Amendment 1 tabled by the Welsh Liberal Democrats focuses on the importance of that public engagement in the reform of public services. Involving users in shaping services through constructive participation and engagement will create stronger services of a higher quality and with greater democratic accountability.

The way to do this is to set standards that can be used by all those involved in shaping services, to improve the quality and process of consultation and engagement. In Wales, we have a set of national principles for public engagement, which were developed in March 2011 and set out some guidance for public service organisations. Despite this, according to a Wales Audit Office report released in June last year on public engagement and local government, there is no comprehensive national strategy for public engagement in Wales. The report concludes that

'Public engagement activity frequently lacks strategic direction and co-ordination; feedback is rarely provided to the public and monitoring and evaluation of the effectiveness of the public engagement are weak.'

Cynigiad welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

Yr her i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn cyfnod pan fo adnoddau'n crebachu yw parhau i fod yn benodol ac yn berthnasol, cyflawni canlyniadau clir a mesuradwy, a sicrhau bod y rhai sy'n eu darparu yn atebol ac yn dryloyw, yn ogystal â darparu gwerth am arian. Mae hynny'n golygu lefel o ymgysylltu y cyfeirir ati yn adroddiad Cyfranogaeth Cymru ond na chaiff ei chyflawni ond yn anaml iawn yn unman yng Nghymru. Mae gwelliant 1 a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn canolbwyntio ar bwysigrwydd cynnwys y cyhoedd wrth ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Bydd cynnwys defnyddwyr wrth lunio gwasanaethau drwy gyfranogi ac ymgysylltu adeiladol yn creu gwasanaethau cryfach, o ansawdd uwch, a chanddynt fwy o atebolrwydd democrataidd.

Gwneir hynny drwy osod safonau y gall pawb sy'n gysylltiedig â llunio gwasanaethau eu defnyddio, er mwyn gwella ansawdd a phroses yr ymgynghori a'r ymgysylltu. Yng Nghymru, mae gennym set o egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, a ddatblygwyd ym mis Mawrth 2011 ac sy'n rhoi rhai canllawiau i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Er gwaethaf hyn, yn ôl adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin y llynedd ar ymgysylltu â'r cyhoedd a llywodraeth leol, nid oes strategaeth genedlaethol gynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod

diffyg cyfeiriad strategol a chyd-drefnu'n aml wrth ymgysylltu â'r cyhoedd; anaml y rhoddir adborth i'r cyhoedd ac mae monitro a gwerthuso effeithiolrwydd yr ymgysylltu â'r cyhoedd yn wan.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We need to transform the principles that have been developed by Participation Cymru into that set of national standards for best practice in engagement between communities and public bodies. I notice that the Minister says that she will accept this amendment. However, I am not sure that she fully understands that we are talking about standards as opposed to principles here, and that we need to be changing those principles into a set of measurable standards.

In Scotland, national standards for community engagement were developed in 2005, using the experience of communities and agencies and with the extensive participation of over 500 community and agency representatives. There are 10 standards, ranging from involvement, support and planning to feedback, monitoring and evaluation. Each standard has measurable indicators that can be used to achieve the highest quality process and results. Those indicators set out measurable characteristics that demonstrate high quality community engagement.

In the Welsh guidance on engagement, one principle is to learn and share lessons to improve the process of engagement. There are three points of guidance for this principle. First, that it is about the process of engagement itself and its effectiveness, but not the topic of the engagement directly and the results; secondly, that the results of the issue will also need monitoring and evaluating as part of the usual planning action and review cycle; and, thirdly, that the evaluation should be made available to participants in an accessible and appropriate format. That is all very well, but the contrast is that one of the 10 Scottish standards is on monitoring and evaluation, and that contains 10 specific indicators, which include the following: participants agreeing what information needs to be collected and how, when and by whom; appropriate participants collecting and recording this information; presenting information accurately and in ways that are easy to use; participants agreeing on the lessons to be drawn from the evidence of the results and changes that occur; participants acting on the lessons learned and celebrating progress. Those are far more specific than what we have in Wales. I would like to see an evolution, if you like, of what we have in Wales towards that more specific and focused Scottish practice. The level of detail in the Scottish standards aids in ensuring that the shared process of those involved in the consultation is achieved and helps to tackle any barriers that communities may face in engaging effectively to have their voice heard.

On amendment 2, in November last year, in announcing invest-to-save funding, the Minister for Finance, Jane Hutt, stated that

'By joining-up we can ensure that everyone has access to efficient, high-quality services while at the same time using limited public funding in the most effective way.'

Mae angen inni drawsnewid yr egwyddorion sydd wedi eu datblygu gan Cyfranogaeth Cymru yn set o safonau cenedlaethol ar gyfer arfer gorau o ran ymgysylltu rhwng cymunedau a chyrff cyhoeddus. Sylwaf fod y Gweinidog yn dweud y bydd yn derbyn y gwelliant hwn. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr ei bod yn deall yn llwyr ein bod yn sôn am safonau yn hytrach nag egwyddorion yma, a bod angen inni newid yr egwyddorion hynny yn set o safonau mesuradwy.

Yn yr Alban, datblygwyd safonau cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned yn 2005, gan ddefnyddio profiad cymunedau ac asiantaethau a chyda dros 500 o gynrychiolwyr cymunedau ac asiantaethau'n cymryd rhan yn helaeth. Mae 10 safon, yn amrywio o gymryd rhan, cefnogi a chynllunio i roi adborth, monitro a gwerthuso. Mae gan bob safon ddangosyddion mesuradwy y gellir eu defnyddio i gyflawni proses a chanlyniadau o'r ansawdd uchaf. Mae'r dangosyddion hynny'n cynnwys nodweddion mesuradwy sy'n dangos ymgysylltu o ansawdd uchel a'r cyhoedd.

Yng nghanllawiau Cymru ar ymgysylltu, mae dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu yn un o'r egwyddorion. Mae tri phwynt o arweiniad ar gyfer yr egwyddor hon. Yn gyntaf, ei bod yn ymwneud â'r broses o ymgysylltu ei hun a'i heffeithiolrwydd, ond nid â'r ymgysylltu'n uniongyrchol a'r canlyniadau; yn ail, y bydd angen i ganlyniadau'r mater hefyd gael eu monitro a'u gwerthuso fel rhan o'r camau cynllunio a'r cylch adolygu arferol; ac yn drydydd, y dylai'r gwerthusiad fod ar gael i'r rhai a gymerodd ran ar ffurf hygyrch a phriodol. Popeth yn iawn, ond mewn cyferbyniad â hynny mae un o 10 safon yr Alban yn ymwneud â monitro a gwerthuso, ac mae hynny'n cynnwys 10 o ddangosyddion penodol, sy'n cynnwys y canlynol: bod cyfranogwyr yn cytuno pa wybodaeth y mae angen ei chasglu a sut, pryd a chan bwy; bod cyfranogwyr priodol yn casglu ac yn cofnodi'r wybodaeth hon; bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n gywir ac mewn ffyrdd sy'n hawdd i'w defnyddio; bod cyfranogwyr yn cytuno ar y gwersi sydd i'w dysgu o dystiolaeth y canlyniadau a newidiadau sy'n digwydd; bod cyfranogwyr yn gweithredu ar y gwersi a ddysgwyd ac yn dathlu cynnydd. Mae'r rhain yn llawer mwy penodol na'r hyn sydd gennym yng Nghymru. Hoffwn weld yr hyn sydd gennym yng Nghymru'n esblygu, os mynnwch chi, tuag at arfer mwy penodol a phendant yr Alban. Mae manylder safonau'r Alban yn helpu i sicrhau bod y broses a rennir gan y rhai sy'n cymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn cael ei chyflawni ac yn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau y gall cymunedau eu hwynebu o ran ymgysylltu'n effeithiol i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed.

O ran gwelliant 2, ym mis Tachwedd y llynedd, wrth gyhoeddi'r cyllid buddsoddi i arbed, dywedodd y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt,

'Drwy gyfuno gallwn sicrhau bod gwasanaethau effeithlon, uchel eu safon ar gael i bawb, a defnyddio cyllid cyhoeddus prin yn y ffordd fwyaf effeithiol ar yr un pryd.'

In my view, this is never more true than with our largest public services, namely health and social care, which the Minister name-checked earlier. Any public service reform must make the transition between health and social care easier. I would urge the Welsh Government to look at how we can better integrate those services within a democratic and accountable delivery structure.

Minister, the principles in the Welsh programme for public service delivery are fine and good, but we need to make them more focused, more specific and more deliverable, and we need to be able to measure them.

Yn fy marn i, mae hynny'n fwy gwir nag erioed am ein gwasanaethau cyhoeddus mwyaf, sef iechyd a gofal cymdeithasol, y cyfeiriodd y Gweinidog atynt yn gynharach. Rhaid i unrhyw ddiwygio ar wasanaethau cyhoeddus wneud y pontio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn haws. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i edrych ar ffyrdd o integreiddio'r gwasanaethau hynny'n well o fewn strwythur darparu democrataidd ac atebol.

Weinidog, mae'r egwyddorion yn rhaglen Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yn iawn ac yn dda, ond mae angen inni eu gwneud yn fwy penodol, yn fwy neilltuoel ac yn haws eu cyflawni, ac mae angen inni allu eu mesur.

15:49 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Rhodri Glyn Thomas to move amendment 3, tabled in the name of Jocelyn Davies.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies.

*Gwelliant 3—Jocelyn Davies*

*Amendment 3—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn agored ac yn atebol am ddiwygio'r gwasanaeth sifil a'i berfformiad o ran datblygu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.*

*Expects the Welsh Government to be open and accountable for civil service reform and performance in the development and delivery of public services.*

15:49 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau welliant 3 yn enw Jocelyn Davies.

I move amendment 3 in the name of Jocelyn Davies.

Mae'r cysyniad hwn o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn un eang iawn. Yn ei datganiad, mae'r Gweinidog wedi cyfeirio at hynny mewn ffordd eang, ac at brosiectau penodedig mewn gwahanol fannau yng Nghymru ac at bolisi caffael y Llywodraeth. Fodd bynnag, y mae'r term 'agenda' yn derm penodol iawn. Os oes gennych agenda, mae gennych gynllun penodol ar gyfer mynd i'r afael â diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Felly, y cwestiwn yw hyn: ble mae'r ddogfen sy'n cefnogi'r datganiad cyffredinol hwn yr ydym wedi ei gael y prynhawn yma? Nid oes dogfen o'r fath. Mae datganiad wedi cael ei wneud gan y Prif Weinidog sy'n dweud y caiff comisiwn ei sefydlu i edrych ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a sut y gellir eu cyflenwi. Rydym fel plaid wedi croesawu'r datganiad hwnnw yn fawr iawn, ond eto i gyd, mae cylch gorchwyl y comisiwn hwnnw yn annelwig ar hyn o bryd. Mae cyfeiriadau cyffredinol ynglŷn â beth ddylai'r comisiwn ei wneud, ond nid oes cyfeiriad penodol at hynny.

This concept of public service reform in Wales is a very broad one. In her statement, the Minister referred to it in a broad way, and at specific projects in different parts of Wales and the Government's procurement policy. However, the term 'agenda' is a very specific one. If you have an agenda, you have a specific plan for tackling public service reform in Wales. Therefore, the question is this: where is the document that supports the general statement that we have had this afternoon? There is no such document. The statement was made by the First Minister to say that a commission is going to be established to look at public services in Wales and how they can be delivered. We as a party have very much welcomed that statement, but then again, the terms of reference of that commission are vague at present. There are general references to what the commission should be doing, but there is no specific reference to that.

Dyweddodd y Gweinidog yn y datganiad nad oedd hi am weld y comisiwn yn oedi'r broses o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ond eto i gyd, rydym yn dod yn ôl at y cwestiwn hwn: beth yn union yw bwriadau Llywodraeth Cymru yn y cyfamser? Mae'r Prif Weinidog wedi dweud wrthym nad yw cael 22 o awdurdodau lleol gyda'r ffiniau presennol yn ffordd gynaliadwy o gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Os felly, sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â hynny?

The Minister in her statement said that she did not want to see the commission delaying the process of reforming public services in Wales, but then again, we come back to this question: what exactly is the Welsh Government's intention in the meantime? The First Minister has told us that having 22 local authorities with their current boundaries is not a sustainable way of delivering public services. If so, how is the Government planning to tackle that?

Mae ein gwelliant 3 yn galw ar y Llywodraeth i fod yn dryloyw ac yn atebol yng nghyd-destun y gwasanaeth sifil wrth fynd i'r afael â'r angen i ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am fod yn barod i dderbyn y gwelliant hwnnw. O ran y gwelliannau eraill, rydym yn hapus iawn i dderbyn ac i gefnogi pob un ohonynt heblaw gwelliant 4, sef gwelliant William Graham, sy'n sôn am y gwahanol sectorau yng Nghymru ac am y sector 'annibynnol'. Rwy'n tybio mai cyfeirio at y sector breifat y mae'r Ceidwadwyr yma, ac os mai dyna yw eu bwriad, pam nad ydynt wedi nodi 'y sector breifat' yn y gwelliant hwn? Felly, gan fod y gwelliant fel y saif yn anodd iawn i'w ddeall, byddwn yn ymatal yn y bleidlais ar y gwelliant hwnnw.

O ran y cysyniad cyffredinol, rydym i gyd yn cytuno bod angen diwygio'r modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflenwi a'u cyflawni yng Nghymru, ond mae'n rhaid i'r Llywodraeth fod yn atebol yn hyn o beth, ac mae'n gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i ddweud wrthym sut yn union y mae'n bwriadu gwneud hyn. Roedd rhagflaenydd y Gweinidog yn benodol ac yn bendant iawn ynglŷn â'r angen i awdurdodau lleol gydweithredu wrth gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, ond ni ddywedodd erioed wrthynt sut yn union yr oedd ef am iddynt wneud hynny. Roedd yn barod iawn i feirniadu awdurdodau lleol—heblaw yr awdurdodau a oedd yn cael eu rhedeg gan y Blaid Lafur—a'u condemnio am nad oeddent yn cyflenwi'r gwasanaethau hynny yn effeithiol. Fodd bynnag, ni chwasmou'n datganiad ynglŷn â bwriadau'r Llywodraeth o ran diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus hynny, ac rydym yn yr un sefyllfa y prynhawn yma gyda'ch datganiad chi, Weinidog.

Felly, o ran y cysyniad cyffredinol, rydym yn derbyn bod angen diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, y term rydych yn ei ddefnyddio yw 'agenda', ond, hyd y gwelaf i, nid oes gennych chi agenda—os nad yw'n rhywbeth cuddiedig nad ydych wedi ei rannu â ni hyd yn hyn. Gan hynny, byddwn yn ymatal ein pleidlais ar y cynnig, hyd yn oed os ydyw wedi ei ddiwygio, a hynny gan nad oes agenda na dogfen sy'n amlinellu'ch bwriadu fel Llywodraeth.

Our amendment 3 calls on the Government to be transparent and accountable in the context of the civil service in tackling the need to reform public services in Wales. I am very grateful to the Minister for being prepared to accept that amendment. In terms of the other amendments, we are very happy to accept and support all of the amendments, apart from amendment 4, William Graham's amendment, which talks about the different sectors in Wales and the 'independent' sector. I suspect that the Conservatives are referring to the private sector here, and if that is their intention, why did they not say 'the private sector' in this amendment? So, given that the amendment as it stands is very difficult to understand, we will be abstaining from the vote on that amendment.

In terms of the general concept, we all agree that there is a need to reform the way that public services are delivered in Wales, but the Government has to be accountable in this sense, and it is a responsibility of the Welsh Government to tell us how exactly it intends to do that. The Minister's predecessor was very specific and definite about the need for local authorities to collaborate in delivering public services, but he never told them how exactly he wanted them to do that. He was very ready to criticise local authorities—except the ones that were run by the Labour Party—and to condemn them because they were not delivering those services effectively. However, we did not have one statement about the Government's intentions in terms of reforming those public services, and we are in the same situation this afternoon with your statement, Minister.

So, in terms of the general concept, we accept that we need to reform public services in Wales. However, the term that you use is 'agenda', but, as far as I can see, you do not have an agenda—unless it is something that has been hidden that you have not shared with us yet. As a result, we will be abstaining from the vote on the motion, even if it is amended, because there is no agenda and no document that outlines your intentions as a Government.

15:54

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I call on Janet Finch-Saunders to move amendments 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

Galwaf ar Janet Finch-Saunders i gynnig gwelliannau 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

*Gwelliant 4—William Graham*

*Amendment 4—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio effeithiol rhwng y sector annibynnol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.*

*Recognises the importance of effective collaboration between the independent, public and third sector in designing and delivering public services in Wales.*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pwysigrwydd gwybodaeth leol a chynnwys y gymuned o ran datblygu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a phriodol.*

Gwelliant 6—William Graham

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn monitro cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol ac yn darparu'r canllawiau priodol ac amserol i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.*

*Notes the significance of local knowledge and community involvement in developing efficient and appropriate public services.*

Amendment 6—William Graham

*Add as new point at end of motion:*

*Calls on the Welsh Government to ensure they effectively monitor public service delivery in Wales and provide the appropriate and timely guidance to public, private and third sectors.*

15:54

## **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 4, 5 and 6 in the name of William Graham.

These amendments recognise the importance of effective collaboration between the independent, public and third sectors in designing and delivering public services in Wales. We note the significance of local knowledge and community involvement in developing efficient and appropriate public services, and we call on the Welsh Government to ensure that it effectively monitors public service delivery in Wales to provide appropriate and timely guidance to the public, private and third sectors. It is fair to say that now is an ideal time for us to engage in a grown-up discussion, as we have seen today, about implementing real and far-reaching public service reform in Wales. We welcome the announcement on the commission on public service reform, but, as was mentioned earlier, we too are concerned about its reach and remit. We therefore look forward to a paper on what exactly are the terms of reference for this group.

I am not the only Member here who has stood for election, has been elected, and who is committed to working to ensure that our public services are of an exceptional standard and are value for money. On this side of the Chamber, we want to work with the Government so as to implement practical and sustainable reforms. Apart from the independent aspect of this, this has had cross-party support in the main. It is therefore disappointing that Plaid Cymru will, today, not support the initiatives to move forward as we welcome public service reform in this way.

It is important that we look to scrutinise ways in which local authorities procure services such as information technology and even furnishings. There are areas where there has previously been a haemorrhaging of taxpayers' money and that must be addressed. We want to see our public services run in an intelligent and efficient way to make the necessary savings through smarter working, not unnecessary redundancies. The amendments forwarded by our group reflect that desire. We want to see public services run well for the benefit of all taxpayers, service users and our employees who do a sterling job working in many of our public sectors across Wales.

Cynigiad welliannau 4, 5 a 6 yn enw William Graham.

Mae'r gwelliannau hyn yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio effeithiol rhwng y sector annibynnol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn nodi arwyddocâd gwybodaeth leol a chynnwys y gymuned wrth ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a phriodol, ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn monitro darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n effeithiol i roi arweiniad priodol ac amserol i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'n deg dweud mai nawr yw'r amser delfrydol inni gymryd rhan mewn trafodaeth aeddfed, fel yr ydym wedi gweld heddiw, am roi ar waith ddiwygiadau gwirioneddol a phellgyrhaeddol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad ar y comisiwn ar ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, ond, fel y soniwyd yn gynharach, rydym ninnau hefyd yn pryderu am ei gwmpas a'i gylch gwaith. Felly, rydym yn edrych ymlaen at bapur ar union gylch gorchwyl y grŵp hwn.

Nid fi yw'r unig Aelod yma sydd wedi sefyll etholiad, sydd wedi ei hethol, ac sydd wedi ymrwymo i weithio i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus o safon eithriadol ac yn cynnig gwerth am arian. Ar yr ochr hon i'r Siambr, rydym am weithio gyda'r Llywodraeth er mwyn rhoi ar waith ddiwygiadau ymarferol a chynaliadwy. Ar wahân i'r agwedd annibynnol ar hyn, cafodd hyn gefnogaeth drawsbleidiol at ei gilydd. Felly, mae'n siomedig na fydd Plaid Cymru, heddiw, yn cefnogi'r mentrau i symud ymlaen wrth inni groesawu diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yn y modd hwn.

Mae'n bwysig ein bod yn ceisio craffu ar y ffyrdd y mae awdurdodau lleol yn caffael gwasanaethau megis technoleg gwybodaeth a hyd yn oed ddodrefn. Mae meysydd lle gwelwyd arian y trethdalwyr yn cael ei golli yn y gorffennol ac mae'n rhaid rhoi sylw i hynny. Rydym am weld ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg mewn modd deallus ac effeithlon er mwyn gwneud yr arbedion angenrheidiol drwy weithio'n ddoethach, nid drwy ddiswyddiadau diangen. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gan ein grŵp yn adlewyrchu'r dymuniad hwnnw. Rydym am weld gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg yn dda er lles yr holl drethdalwyr, defnyddwyr y gwasanaethau a'n gweithwyr sy'n gwneud gwaith gwych mewn nifer o'n sectorau cyhoeddus ledled Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



We welcome the consensus around public service agencies running more efficiently and intelligently. Last autumn, I was pleased to read the 'Delivery of Planning Services in Statutory Designated Landscapes in Wales' report, because it acknowledged the need for more partnership working between, for instance, the planning and socio-economic functions of national park authorities. I hope that the Minister will look at how our national park authorities work as part of public service reform.

We support the idea of making services provide a high quality service and run on a financially stable basis. Recent research by Policy Exchange indicates that the majority of people now want more choice and control over their services. Also, they believe in competition between providers. That is especially true when considering some of the poor services that are on offer out there.

There are a few examples where reform has been an organic process, whereby the employees of a public service have reinvigorated it to operate more efficiently. The most obvious example of this is over the border: the Cleveland fire and rescue authority. While being much maligned in the press as heralding the start of privatising fire services, it is actually an example of a bottom-up reform of a public service. It is the firefighters in that service who have expert knowledge on what works for them, not civil servants in a building piling up more red tape. Now that they have a stake in how their business is run, they are more motivated to continuously improve it.

We were pleased that it was stated in the written statement announcing the commission that this would focus on the needs of individuals, families and communities, because, quite often, the services delivered can be quite complex. We really do need a good range of services delivered through the different sectors, be it the independent, statutory or third sector. They can each bring their own different specialisms. This is not a starting pistol for the privatisation of our public services; rather, we highlight the importance—

Rydym yn croesawu'r consensws ynghylch rhedeg asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus yn fwy effeithlon a deallus. Yr hydref diwethaf, roeddwn yn falch o ddarllen yr adroddiad 'Delivery of Planning Services in Statutory Designated Landscapes in Wales', oherwydd roedd yn cydnabod yr angen am fwy o weithio mewn partneriaeth, er enghraifft rhwng swyddogaethau cynllunio ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau'r parciau cenedlaethol. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn edrych ar y ffordd y mae awdurdodau ein parciau cenedlaethol yn gweithio fel rhan o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn cefnogi'r syniad o wneud i wasanaethau ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a gweithio ar sail ariannol sefydlog. Mae ymchwil diweddar gan y Gyfnewidfa Bolisi yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl bellach am gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu gwasanaethau. Hefyd, maent yn credu mewn cystadleuaeth rhwng darparwyr. Mae hynny'n arbennig o wir wrth ystyried rhai o'r gwasanaethau gwael sydd ar gael.

Mae rhai enghreifftiau lle mae diwygio wedi bod yn broses organig, lle mae gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus wedi rhoi ail wynt iddo weithredu'n fwy effeithlon. Mae'r enghraifft fwyaf amlwg o hyn dros y ffin yn awdurdod tân ac achub Cleveland. Er i'r wasg ddirfrio hyn fel arwydd o ddechrau preifateiddio'r gwasanaethau tân, mewn gwirionedd mae'n enghraifft o ddiwygio gwasanaeth cyhoeddus o'r gwaelod i fyny. Y diffoddwyr tân yn y gwasanaeth hwnnw sydd â gwybodaeth arbenigol am yr hyn sy'n gweithio iddynt hwy, nid gweision sifil mewn adeilad sy'n cronni rhagor o fiwrocratiaeth. A hwythau bellach yn rhanddeiliaid yn y ffordd y mae eu busnes yn cael ei redeg, maent yn fwy brwd dros ei wella'n barhaus.

Roeddem yn falch bod y datganiad ysgrifenedig yn cyhoeddi sefydlu'r comisiwn yn nodi y byddai hyn yn canolbwyntio ar anghenion unigolion, teuluoedd a chymunedau, oherwydd, yn aml, gall y gwasanaethau a ddarperir fod yn eithaf cymhleth. Mae angen ystod dda o wasanaethau arnom sy'n cael eu darparu drwy'r gwahanol sectorau, boed hynny yn y sector annibynnol, y sector statudol neu'r trydydd sector. Gall pob un ddod â'u gwahanol arbenigeddau eu hunain. Nid cychwyn ar breifateiddio ein gwasanaethau cyhoeddus mo hyn; yn hytrach, rydym yn tynnu sylw at bwysigrwydd—

- 15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Conclude now, please. Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.
- 15:59 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
We highlight, in this time of ever tightening budgets, the collaborative working between these agencies. All of these approaches— Rydym yn tynnu sylw, yn y cyfnod hwn lle mae cyllidebau'n mynd yn fwyfwy tyn, at y cydweithio rhwng yr asiantaethau hyn. Mae pob un o'r dulliau—
- 15:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
Thank you. I call Mike Hedges. Diolch. Galwaf Mike Hedges.

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We all want good public services; we are all users. I support quality services provided by highly skilled and capable staff. We do not all agree on how to achieve that, but we are all in agreement about the end result: we want high quality services for the benefit of the people of Wales. The key word here is 'quality'. A strong, efficient and accessible public sector is absolutely essential to the wellbeing of Wales and its people. It is important that spending priorities and work to improve services reflect the needs and priorities of the people of Wales. We need continual improvement. That must be the mantra—things must continue to get better.

Public services support our citizens—our people—when they are sick or vulnerable. They ensure that our young people have the skills to live prosperous and fulfilling lives; they create opportunities for businesses to sustain the infrastructure that a strong economy needs; they ensure that our communities are vibrant and safe, our environment is protected and sustainable and our national heritage is preserved and enhanced. In fact, public services are the key to making Britain and Wales what they are today.

Almost everyone in Wales today will have accessed public services and will have used publicly funded infrastructure—almost everybody in this room will have used publicly funded infrastructure. Most of the services that will have been used, such as refuse—

*Rhodri Glyn Thomas a gododd—*

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will give way to Rhodri Glyn Thomas.

**Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It is very difficult to oppose anything that you have just said; everything that you said would be perfectly acceptable to everybody. However, do you not think that, after 14 years, the people of Wales expect a little more than the Government of Wales saying that things must get better?

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that the Government of Wales is committed to continual improvement—I am committed to continual improvement, as is the Labour Party.

Most of the services that will have been used, such as refuse collection, local roads, libraries, schools and social services, will have been provided by local councils. A commitment to co-operation and collaboration, rather than competition, in the provision of public services has driven the Welsh Labour Government's agenda for public service delivery and reform in Wales.

Rydym i gyd am gael gwasanaethau cyhoeddus da; rydym i gyd yn ddefnyddwyr. Rwyf yn cefnogi gwasanaethau o ansawdd a ddarperir gan staff medrus a galluog. Nid ydym i gyd yn cytuno ar sut i gyflawni hynny, ond rydym i gyd yn cytuno ar y canlyniad yn y pen draw: rydym am weld gwasanaethau o ansawdd uchel er budd pobl Cymru. Y gair allweddol yma yw 'ansawdd'. Mae sector cyhoeddus cryf, effeithlon a hygyrch yn gwbl hanfodol i les Cymru a'i phobl. Mae'n bwysig bod blaenoriaethau gwario a gwaith i wella gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau pobl Cymru. Mae'n rhaid i bethau wella'n barhaus. Rhaid i hynny fod yn fantra inni—rhaid i bethau barhau i wella.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn cefnogi ein dinasyddion—ein pobl—pan fyddant yn sâl neu'n agored i niwed. Maent yn sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau i fyw bywydau ffyniannus sy'n rhoi boddhad iddynt; maent yn creu cyfleoedd i fusnesau i gynnal y seilwaith sydd ei angen ar economi gref; maent yn sicrhau bod ein cymunedau'n fywiog ac yn ddiogel, bod ein hamgylchedd yn cael ei ddiogelu a'i fod yn gynaliadwy a bod ein treftadaeth genedlaethol yn cael ei chadw a'i gwella. Yn wir, y gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi llunio Prydain a Chymru heddiw.

Bydd bron pawb yng Nghymru heddiw wedi defnyddio gwasanaethau cyhoeddus ac wedi defnyddio seilwaith a ariennir yn gyhoeddus—bydd bron pawb yn yr ystafell hon wedi defnyddio seilwaith a ariennir yn gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a fydd wedi eu defnyddio, megis sbwriel—

*Rhodri Glyn Thomas rose—*

Ildiaf i Rhodri Glyn Thomas.

Mae'n anodd iawn gwrthwynebu dim yr ydych newydd ei ddweud; byddai popeth a ddywedasocho yn berffaith dderbyniol i bawb. Fodd bynnag, onid ydych yn credu, ar ôl 14 mlynedd, fod pobl Cymru yn disgwyl ychydig yn fwy na chlywed Llywodraeth Cymru'n dweud bod yn rhaid i bethau wella?

Credaf fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i welliant parhaus—rwyf fi wedi ymrwymo i welliant parhaus, fel y mae'r Blaid Lafur.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a fydd wedi eu defnyddio, megis casglu sbwriel, ffyrdd lleol, llyfrgelloedd, ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol, yn cael eu darparu gan gynghorau lleol. Mae ymrwymiad i gydweithio a chydweithredu, yn hytrach na chystadlu, wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus wedi sbarduno agenda Llywodraeth Lafur Cymru ar gyfer darparu a diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Thankfully, we have not seen in Wales the rush to privatise public services and create artificial competition. The mantra 'private good, public bad' has never caught on in Wales. I was interested to note that Janet Finch-Saunders described the fire service as a business. I consider the fire service a public service for protecting the people of Wales, not something that is a business.

The Welsh Labour investment in high-quality public services remains, in spite of the drastic cuts imposed by the UK Government. Welsh Labour believes that huge cuts in public expenditure hit the vulnerable hardest, and that is why it has consistently taken decisions to protect the budget of key public services, such as education and social services, as well as providing a fair funding settlement for local government that is 1.4% higher than the settlement for English local authorities.

Public services interact, which is why cutting local government expenditure—the policy that all of the opposition parties put forward last year, to increase expenditure on health et cetera—would be counterproductive, as the discharge of patients would slow down due to social services being unable to manage and pay for the necessary care packages as quickly as needed to free up beds. The whole of the public sector is interrelated—we need to remember that.

Finally, I turn to the structure of local government. If you think that the answer is a wholesale reorganisation of local government into a smaller number of councils, you do not have the right question. For over a century, most of Britain and Wales had a mainly two-tier local government system, with county boroughs acting as unitary authorities in the large conurbations; England has this structure now.

We have 22 unitary authorities in Wales. In the 1990s, the decision was made for the number of local authorities to be midway between 37 districts and eight counties, which is 22.5; they could not have half an authority, so we ended up with 22 authorities. Today's political consensus appears to be for fewer, larger authorities. While the problem of creating 22 fire authorities was addressed by the creation of a joint board, no other service was treated in the same way. Keeping the fire service under democratic control, but stopping its fragmentation, was key. I was very pleased to see that that is what happened then.

Unfortunately, the same solution was not found for education and social services. There is now an opportunity to do so, keeping the former district council functions in a smaller authority, where they can respond to local need, while creating an organisation of a size necessary to provide education and social services. For those still convinced that we need reorganisation of local government, I ask them to address the following: council tax variations, with some big winners and losers; and information and communications technology systems. Just consider the recent merger to create Natural Resources Wales.

Nid ydym yng Nghymru, a diolch am hynny, wedi gweld y rhuthro i breifateiddio gwasanaethau cyhoeddus a chreu cystadleuaeth artiffisial. Nid yw'r mantra 'preifat da, cyhoeddus gwael' erioed wedi gafael yng Nghymru. Roedd yn ddiddorol nodi bod Janet Finch-Saunders wedi disgrifio'r gwasanaeth tân fel busnes. Rwyf yn ystyried y gwasanaeth tân yn wasanaeth cyhoeddus i ddiogelu pobl Cymru, nid yn rhywbeth sy'n fusnes.

Mae buddsoddiad Llafur Cymru mewn gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel yn parhau, er gwaetha'r toriadau llym gan Lywodraeth y DU. Mae Llafur Cymru yn credu bod toriadau enfawr mewn gwariant cyhoeddus yn taro'r rhai agored i niwed galetaf, a dyna pam y mae'n gyson wedi penderfynu gwarchod cyllidebau gwasanaethau cyhoeddus allweddol, megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â darparu setliad ariannu teg i lywodraeth leol sydd 1.4% yn uwch na'r setliad i awdurdodau lleol Lloegr.

Mae gwasanaethau cyhoeddus yn rhyngweithio, a dyna pam y byddai torri gwariant llywodraeth leol—y polisi a gyflwynodd pob un o'r gwrthbleidiau y llynedd, er mwyn cynyddu gwariant ar iechyd ac ati—yn wrthgynhyrchol, gan y byddai cleifion yn cael eu rhyddhau'n arafach oherwydd na fyddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn gallu rheoli a thalu am y pecynnau gofal angenrheidiol mor gyflym ag y byddai angen iddynt ei wneud er mwyn rhyddhau gwelyau. Mae'r sector cyhoeddus cyfan yn rhyng-gysylltiedig—mae angen inni gofio hynny.

Yn olaf, trof at strwythur llywodraeth leol. Os ydych yn credu mai'r ateb yw ad-drefnu llywodraeth leol yn llwyr a chreu nifer llai o gynghorau, nid yw'r cwestiwn cywir gennyh. Am dros ganrif, roedd gan y rhan fwyaf o Brydain a Chymru system lywodraeth leol ddwy haen yn bennaf, gyda bwrdeistrefi sirol yn gweithredu fel awdurdodau unedol yn y cytrefi mawr; dyna'r strwythur sydd yn Lloegr yn awr.

Mae gennym 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru. Yn y 1990au, penderfynwyd y dylai nifer yr awdurdodau lleol fod hanner ffordd rhwng 37 o ardaloedd ac wyth sir, sef 22.5; ni allent gael hanner awdurdod, felly cawsom 22 awdurdod. Ymddengys fod consensus gwleidyddol heddiu o blaid llai o awdurdodau, ond rhai mwy o faint. Er bod problem creu 22 o awdurdodau tân wedi ei datrys drwy greu bwrdd ar y cyd, ni chafodd yr un gwasanaeth arall ei drin yn yr un ffordd. Roedd cadw'r gwasanaeth tân o dan reolaeth ddemocrataidd, ond ei atal rhag ymrannu, yn allweddol. Rwyf yn falch iawn mai dyna a ddigwyddodd.

Yn anffodus, ni chafwyd yr un ateb ar gyfer addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Bellach mae cyfle i wneud hynny, a chadw hen swyddogaethau'r cynghorau dosbarth mewn awdurdod llai, lle gallant ymateb i anghenion lleol, a chreu sefydliad o faint sy'n angenrheidiol i ddarparu addysg a gwasanaethau cymdeithasol. O ran y rhai sy'n dal yn argyhoeddedig bod angen ad-drefnu llywodraeth leol, gofynnaf iddynt ymdrin â'r canlynol: amrywiadau'r dreth gyngor, gyda rhai enillwyr a chollwyr mawr, a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Ystyriwch yr uno diweddar i greu Adnoddau Naturiol Cymru.

We deserve good public services in Wales. It is important that the quality of our services continues to improve. I believe that this Welsh Labour Government is committed to improving public services, and that it will improve those services.

Rydym yn haeddu gwasanaethau cyhoeddus da yng Nghymru. Mae'n bwysig bod ansawdd ein gwasanaethau yn parhau i wella. Credaf fod Llywodraeth Lafur Cymru wedi ymrwmo i wella gwasanaethau cyhoeddus, ac y bydd yn gwella'r gwasanaethau hynny.

16:04

**Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for the chance to speak in this debate. I think that it begins an important national discussion about what we understand to be public services, let alone who is responsible for how they look, how they are delivered and how they are paid for.

Mass state ownership and control of services has had a significant, and maybe necessary, part in shaping our infrastructure and identity as a welfare state. However, it took Britons only two, or maybe three, generations to vote against that monolithic structure, preferring some sense of control over the services that they were paying for. Now, we see nationalisation more as an emergency step; a temporary measure as with the banks and, as I hope, with Cardiff Airport. However, neither have we wholly embraced the free market. Our share certificates give us no real control over utilities companies. None of us seeks a position where the state's only role is to dispense justice, keep order and defend us from our enemies. This debate will not inform progress if we confine it to stale arguments about caricature capitalism, privatisation and the market monster. It concerns me that the First Minister's recent statements focus so pejoratively on the role of the market, without corresponding comment on the equally unhelpful domination of public services by government. Even a Labour Government has sought help from the private sector, such as when the NHS waiting lists were out of control. So, if we can agree to approach this most important of subjects with an open mind, let us do that, and let us not waste the opportunities that devolution offers and understand that the people of Wales want both stability and a say in their services.

It is hard to even scratch the surface in a short contribution like this, but I would like to make two points on the issue of having our say in services. The Lib Dem amendment about standards of engagement draws our attention to a frustration that everyone of us in this Chamber will have felt as regards our constituency or region. Our services spend a fortune on public consultation, but they still have not cracked the public perception that it is all a con: only one proposal is available for consideration and even that is a done deal. People understand that money is tight and that sometimes it needs to be spent differently. They also know that while their evidence may not carry the day in the face of stronger arguments, they sometimes have a better chance of getting it right than public officials. They do not want to just object; they want to help get it right.

Diolch am y cyfle i siarad yn y ddadl hon. Credaf ei bod yn dechrau trafodaeth genedlaethol bwysig am yr hyn yr ydym yn eu hystyried yn wasanaethau cyhoeddus, heb sôn am bwy sy'n gyfrifol am y ffordd y maent yn edrych, y ffordd y cânt eu darparu a'r ffordd y telir amdanynt.

Mae perchnogaeth a rheolaeth dorfol y wladwriaeth ar wasanaethau wedi chwarae rhan arwyddocaol, ac angenrheidiol efallai, wrth lunio ein seilwaith a'n hunaniaeth fel gwladwriaeth les. Fodd bynnag, dim ond dwy, neu efallai dair cenhedlaeth a gymerodd i Brydeinwyr bleidleisio yn erbyn y strwythur monolithig hwnnw, a dewis rhyw ymdeimlad o reolaeth dros y gwasanaethau yr oeddent yn talu amdanynt. Nawr, rydym yn gweld gwladoli yn fwy o gam argyfwng; mesur dros dro fel yn achos y banciau ac, fel yr wyf yn gobeithio, yn achos Maes Awyr Caerdydd. Fodd bynnag, nid ydym ychwaith wedi cofleidio'r farchnad rydd yn gyfan gwbl. Nid yw ein tystysgrifau cyfranddaliadau yn rhoi unrhyw reolaeth wirioneddol inni dros gwmnïau cyfleustodau. Nid oes yr un ohonom am weld sefyllfa lle mai unig rôl y wladwriaeth yw gweinyddu cyfiawnder, cadw trefn a'n hamddiffyn rhag ein gelynyon. Ni fydd y ddadl hon yn llywio cynnydd os bydd wedi'i chyfyngu i hen ddadleuon am gyfalafiaeth gartŵn, preifateiddio ac anghenfil y farchnad. Mae'n peri pryder i mi fod datganiadau diweddar y Prif Weinidog yn canolbwyntio mor ddirifol ar rôl y farchnad, heb sylwadau cyfatebol ar ddylanwad yr un mor ddi-fudd y llywodraeth ar wasanaethau cyhoeddus. Mae hyd yn oed Llywodraeth Lafur wedi ceisio cymorth gan y sector preifat, megis pan aeth rhestrau aros y GIG y tu hwnt i reolaeth. Felly, os gallwn gytuno i ymdrin â'r pwnc pwysig iawn hwn gyda meddwl agored, gadewch inni wneud hynny, a gadewch inni beidio â gwastraffu'r cyfleoedd y mae datganoli'n eu cynnig, a deall bod ar bobl Cymru eisiau sefydlogrwydd a llais yn eu gwasanaethau.

Mae'n anodd hyd yn oed crafu'r wyneb mewn cyfraniad byr fel hwn, ond hoffwn wneud dau bwynt ynghylch cael llais yn y gwasanaethau. Mae gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol am safonau ymgysylltu yn tynnu sylw at rwystredigaeth y bydd pawb ohonom yn y Siambr hon wedi'i theimlo o ran ein hetholaeth neu'n rhanbarth. Mae ein gwasanaethau'n gwario ffortiwn ar ymgynghori â'r cyhoedd, ond nid ydynt eto wedi llwyddo i dolcio canfyddiad y cyhoedd mai twyll yw'r cyfan: un cynnig yn unig sydd i'w ystyried ac mae'r fargen honno wedi'i tharo'n barod. Mae pobl yn deall bod arian yn brin a bod angen ei wario'n wahanol weithiau. Maent hefyd yn gwybod, er efallai na fydd eu tystiolaeth yn drech na dadleuon cryfach, fod ganddynt well siawns weithiau o gael pethau'n iawn na swyddogion cyhoeddus. Nid ydynt am wneud dim ond gwrthwynebu; maent am helpu i gael pethau'n iawn.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That leads me to my second point. I have spoken before in this Chamber about individuals, community groups and people outside the traditional public or private sectors designing services as well as delivering them. I have given examples of co-operatives running health services, schools and social care, and they do not do it in accordance with some government template. They do it to meet the needs of individuals in a way that fits with their particular community. I say to Mike Hedges that they can and do meet quality standards. Local authorities seek them out as partners, and I note the Minister's earlier support for the amendments that reflect this. Some, like Labour's Lambeth council, have taken this to a whole new level. It would be an interesting case study for the new commission. However, none of these is just a Government department in disguise. They work on the basis of mutual vested interest, but not selfishness; pragmatism rather than dogma. They work on the basis of knowledge and experience, not just the official handbook. They work on the basis of collectivism through choice, not censure. In short, they work. Co-ops are not scared of profits or dividends or of trying new ideas as long as it is to achieve an agreed, measurable objective. They understand that to provide services, you need wealth creators, and I see great potential for a civil economy to grow from our civil society.

The question is whether the Welsh Government and this Assembly can take the mental leap, not just take up the label. The presentation of plans for a co-op running our railways, for example, seems very attractive at first sight, but it is still, ultimately, a Government-appointed delivery agent, not the freedom of the civil economy. The Government's commission on co-operatives is promising, but one of its aims is to set out a vision for the co-operative and mutual economy in Wales. The Government does not want a vision for that; co-ops, mutuals, credit unions, social enterprises, trusts, robust community organisations and a whole host of other big society players—yes, there you are; I have said it—already have the vision. By all means support them and agree the strategic direction with them, and most definitely evaluate them, but above all, value them for what they can do without instruction from government and understand that localism or local empowerment, or whatever you call it, is there to free up central government to deliver those parts of our public services that perhaps do benefit from central control.

A dyma ddod at fy ail bwynt. Rwyf wedi siarad o'r blaen yn y Siambr hon am unigolion, grwpiau cymunedol a phobl y tu allan i'r sectorau cyhoeddus neu breifat traddodiadol yn cynllunio gwasanaethau yn ogystal â'u darparu. Rwyf wedi rhoi enghreifftiau o gwmnïau cydweithredol sy'n rhedeg gwasanaethau iechyd, ysgolion a gofal cymdeithasol, ac nid ydynt yn gwneud hynny'n unol â rhyw dempled gan y llywodraeth. Maent yn ei wneud i fodloni anghenion unigolion mewn ffordd sy'n gydnaws â'u cymuned benodol. Dywedaf wrth Mike Hedges y gallant fodloni safonau ansawdd, a'u bod yn llwyddo i wneud hynny. Mae awdurdodau lleol yn gofyn iddynt fod yn bartneriaid iddynt, a nodaf gefnogaeth y Gweinidog yn gynharach i'r gwelliannau sy'n adlewyrchu hyn. Mae rhai, fel cyngor Llafur Lambeth, wedi mynd â hyn i lefel hollol newydd. Byddai'n astudiaeth achos ddiddorol i'r comisiwn newydd. Fodd bynnag, nid adrannau'r Llywodraeth mewn cuddwisg mo'r rhain. Maent yn gweithio ar sail buddiant cydfuddiannol, ond nid hunanoldeb; pragmatiaeth yn hytrach na dogma. Maent yn gweithio ar sail gwybodaeth a phrofiad, nid dim ond y llawlyfr swyddogol. Maent yn gweithio ar sail cyfunoliaeth trwy ddewis, nid cerydd. Yn fyr, maent yn gweithio. Nid yw cwmnïau cydweithredol yn ofni elw neu ddifidendau na rhoi cynnig ar syniadau newydd cyhyd ag y bo hynny er mwyn cyflawni amcan mesuradwy y cytunwyd arno. Maent yn deall bod yn rhaid creu cyfoeth er mwyn darparu gwasanaethau, a gwelaf botensial mawr i economi sifil dyfu o'n cymdeithas sifil.

Y cwestiwn yw a all Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad hwn gymryd y naid feddyliol, nid dim ond defnyddio'r label. Mae cyflwyno cynlluniau i gwmni cydweithredol redeg ein rheilffyrdd, er enghraifft, yn ymddangos yn ddeniadol iawn ar yr olwg gyntaf, ond mae'n dal i fod, yn y pen draw, yn asiant darparu a benodir gan y Llywodraeth, nid yn rhyddid yr economi sifil. Mae comisiwn y Llywodraeth ar gwmnïau cydweithredol yn addawol, ond un o'i nodau yw amlinellu gweledigaeth ar gyfer yr economi gydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Nid oes eisiau gweledigaeth ar gyfer hynny ar y Llywodraeth; mae'r weledigaeth eisoes gan gwmnïau cydweithredol a chydfuddiannol, undebau credyd, mentrau cymdeithasol, ymddiriedolaethau, sefydliadau cymunedol cadarn a llu o chwaraewyr eraill y gymdeithas fawr—dyna chi; rwyf wedi ei ddweud. Ar bob cyfrif cefnogwch hwy a chytunwch ar y cyfeiriad strategol gyda hwy, ac yn bendant gwerthuswch hwy, ond yn anad dim, gwerthfawrogwch hwy am yr hyn y gallant ei wneud heb gyfarwyddyd gan y llywodraeth a deallwch mai diben lleoliaeth neu rymuso lleol, neu beth bynnag yr ydych yn ei alw, yw rhyddhau llywodraeth ganolog i ddarparu'r rhannau hynny o'n gwasanaethau cyhoeddus sydd efallai'n elwa ar reolaeth ganolog.

16:09

## Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

Effective public service reform in the twenty-first century means giving power to the people. As cultural historian Peter Stead has said, we need to completely redefine the nature of public life in Wales so that people are doing things other than administering the lives of others or, as is more often the case, recommending ways in which lives should be administered'

Mae diwygio gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol yn yr unfed ganrif ar hugain yn golygu rhoi grym i'r bobl. Fel y dywedodd yr hanesydd diwylliannol Peter Stead, mae angen inni aiddiffinio natur bywyd cyhoeddus yng Nghymru yn llwyr fel bod pobl yn gwneud pethau ar wahân i weinyddu bywydau pobl eraill, neu, fel sy'n fwy amlyng yn wir, argymhell ffyrdd y dylai bywydau gael eu gweinyddu.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

As Dan Boucher states in his book 'The Big Society in a Small Country: Wales, Social Capital, Mutualism and Self-help,' given that perhaps the most important feature of the big society is an approach to problem solving that is bottom-up and rooted in the local community, rather than top-down and dependant on the state, the most striking cultural point of connection between Wales and the big society is the nation's long-term identification of itself as a community of communities—even if this does present a challenge to Wales's current political leaders. Transferring power from Government to those individuals, enterprises and charities in our communities that are better placed to tackle many of the problems our nation faces can help us to provide better services more efficiently, benefitting the most vulnerable by turning the power thing upside down.

I am a director of the Wales participatory budgeting unit, which is a social enterprise that gives people choice, bringing real community participation and ensuring that limited funds go where they are most needed. When the Wales participatory budgeting unit ran workshops for the Social Services Improvement Agency in Wales on the potential for participatory budgeting to devolve portions of respite care budgets, staff from 14 local authorities in Wales recognised that solutions identified by carers themselves could really work and were relatively inexpensive in comparison with larger council-introduced services.

When I attended a round table meeting with the Wales Council for Voluntary Action and partner organisations, the professionals present highlighted the need to involve the voluntary sector in the development of primary care services across Wales. They championed co-design and co-delivery in public services, bringing together the independent third sector and the public sector, reducing demand on other services by developing a whole-service approach that puts people in communities, rather than service deliverers, at the centre. They recognised that the move to community care would be more expensive but that it need not be if we changed the way we do things—unleashing third sector expertise that the state sector does not have and allowing it a real strategic partnership with Government. Transition networks are starting to take root across Wales—not least in Holywell—and are connecting, supporting and training communities as they self-organise and rebuild resilience, with neighbours working together to make their communities stronger and happier through local projects.

Fel y dywed Dan Boucher yn ei lyfr 'The Big Society in a Small Country: Wales, Social Capital, Mutualism and Self-help,' o ystyried efallai mai nodwedd bwysicaf y gymdeithas fawr yw dull o ddatrys problemau o'r gwaelod i fyny sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned leol, yn hytrach nag o'r brig i lawr ac yn ddibynnol ar y wladwriaeth, y cysylltiad diwylliannol mwyaf trawiadol rhwng Cymru a'r gymdeithas fawr yw'r ffaith bod y genedl wedi'i hystyried ei hun cyhyd fel cymuned o gymunedau—hyd yn oed os yw hynny'n her i arweinwyr gwleidyddol Cymru ar hyn o bryd. Gall trosglwyddo grym o'r Llywodraeth i'r unigolion, y mentrau a'r elusennau hynny yn ein cymunedau sydd mewn gwel sefyllfa i fynd i'r afael â llawer o'r problemau y mae ein cenedl yn eu hwynebu ein helpu i ddarparu gwel gwasanaethau yn fwy effeithlon, er budd y rhai mwyaf agored i niwed drwy droi'r elfen bŵer wyneb i waered.

Rwyf yn gyfarwyddwr ar uned cyllidebu cyfranogol Cymru, sef menter gymdeithasol sy'n rhoi dewis i bobl, yn rhoi cyfle gwirioneddol i'r gymuned gymryd rhan ac yn sicrhau bod cyllid cyfyngedig yn mynd lle mae ei angen fwyaf. Pan oedd uned cyllidebu cyfranogol Cymru yn cynnal gweithdai i'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru ar y potensial i gyllidebu cyfranogol ddatganoli rhannau o gyllidebau gofal seibiant, roedd staff o 14 o awdurdodau lleol yng Nghymru'n cydnabod y gallai atebion a ganfuwyd gan ofalwyr eu hunain weithio mewn gwirionedd a'u bod yn gymharol rad o'u cymharu â gwasanaethau mwy a gyflwynir gan gynghorau.

Pan euthum i gyfarfod bord gron â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a sefydliadau sy'n bartneriaid, tynnodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn bresennol sylw at yr angen i gynnwys y sector gwirfoddol yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gofal sylfaenol ledled Cymru. Roeddent yn hyrwyddo cydgyllunio a chyd-ddarparu ym maes gwasanaethau cyhoeddus, gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus, a lleihau'r galw ar wasanaethau eraill drwy ddatblygu ymagwedd gwasanaeth cyfan sy'n rhoi pobl mewn cymunedau, yn hytrach na darparwyr gwasanaethau, yn y canol. Roeddent yn cydnabod y byddai symud i ofal yn y gymuned yn fwy costus ond na fyddai'n rhaid iddo fod pe byddem yn newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau—manteisio ar arbenigedd y trydydd sector nad yw ar gael yn sector y wladwriaeth a chaniatáu iddo weithio mewn partneriaeth strategol wirioneddol â'r Llywodraeth. Mae rhwydweithiau pontio yn dechrau ymwreiddio ar draws Cymru—ac yn Nhrefynnnon yn arbennig—ac maent yn cysylltu, yn cefnogi ac yn hyfforddi cymunedau wrth iddynt eu trefnu eu hunain ac ailadeiladu gwytnwch, gyda chymdogion yn gweithio gyda'i gilydd i wneud eu cymunedau'n gryfach ac yn hapusach drwy brosiectau lleol.



Personal budgets were rolled out in England in 2008 under Labour, and Scotland's Social Care (Self-directed Support) (Scotland) Act 2013 places a requirement on local authorities to offer individuals four choices on how they can obtain social care: direct payment, the person can direct the available support or the local authority arranges the support, or a mix of these, and there is a requirement to point people towards available advice and support. However, as the MS Society Cymru has stated, the requirement for local authorities in Wales to offer direct payments as one option for social care is limited as it does not offer the freedom that personal budgets in self-directed support could do.

Despite this Welsh Government, local area co-ordination and asset-based community development are working in Wales to restore power in respect of social welfare to individuals, families and communities, with Swansea hosting its next study group. Despite this Welsh Government, Welsh credit unions serving their communities are signing up to the UK Government's credit union expansion project to deliver sustainability. The WCVA called for real community ownership in the future of Communities First, but new cluster arrangements fail to ensure that the community is involved by right in decisions that affect it. Our charitable hospices can help the Welsh NHS to deliver more, but are struggling to get more than one year's service level agreement, and some have none. Despite pretence otherwise, public services are commissioned from the private sector in Wales, but the lack of smart commissioning, because of denial, means that they cost the public purse a lot more.

So much good is happening in Wales that, despite a big-state Welsh Government ideologically opposed to real cross-sector partnership, great work is going on. As the former Archbishop of Canterbury said, community must push back against managerial and functional approaches, preparing people to understand themselves and the society they inhabit, not to be cogs in the wheel. Let us end the cogs and let us liberate the people.

Cafodd cyllidebau personol eu cyflwyno yn Lloegr yn 2008 dan y Blaid Lafur, ac mae Deddf Gofal Cymdeithasol yr Alban (Cymorth Hunangyfeiriedig) (Yr Alban) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig pedwar dewis i unigolion o ran cael gafael ar ofal cymdeithasol: taliad uniongyrchol, gall y person gyfeirio'r cymorth sydd ar gael neu mae'r awdurdod lleol yn trefnu cymorth, neu gymysgedd o'r rhain, ac mae'n ofynnol cyfeirio pobl tuag at y cyngor a'r gefnogaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, fel y mae Cymdeithas MS Cymru wedi dweud, mae'r gofyniad i awdurdodau lleol yng Nghymru gynnig taliadau uniongyrchol fel un opsiwn ar gyfer gofal cymdeithasol yn gyfyngedig gan nad yw'n cynnig y rhyddid y gallai cyllidebau personol mewn cymorth hunangyfeiriedig ei gynnig.

Er gwaethaf Llywodraeth Cymru, mae cydlynau ardal leol a datblygu cymunedol seiliedig ar asedau yn gweithio yng Nghymru i adfer grym o ran lles cymdeithasol i unigolion, teuluoedd a chymunedau, ac yn Abertawe y cynhelir ei grŵp astudio nesaf. Er gwaethaf Llywodraeth Cymru, mae undebau credyd Cymru sy'n gwasanaethu eu cymunedau yn ymrwmo i brosiect ehangu undebau credyd Llywodraeth y DU i sicrhau cynaliadwyedd. Galwodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am berchnogaeth gymunedol go iawn yn nyfodol Cymunedau yn Gyntaf, ond mae trefniadau clystru newydd yn methu â sicrhau y caiff y gymuned ei chynnwys yn unol â'i hawl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arni. Gall ein hosbisau elusennol helpu GIG Cymru i ddarparu mwy, ond maent yn ei chael yn anodd cael cytundeb lefel gwasanaeth am fwy na blwyddyn, ac mae rhai heb yr un. Er honni nad yw hynny'n digwydd, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu comisiynu o'r sector preifat yng Nghymru, ond mae'r diffyg comisiynu doeth, oherwydd y gwadu hwnnw, yn golygu eu bod yn costio llawer mwy i'r pwrs cyhoeddus.

Mae cymaint o bethau da yn digwydd yng Nghymru fel bod gwaith gwych yma, er gwaethaf 'gwladwriaeth fawr' Llywodraeth Cymru sy'n gwrthwynebu'n ideolegol bartneriaeth go iawn ar draws sectorau. Fel y dywedodd cyn Archesgob Caergaint, mae'n rhaid i'r gymuned wthio'n ôl yn erbyn dulliau rheoli a swyddogaethol, a pharatoi pobl i ddeall eu hunain a'r gymdeithas y maent yn byw ynddi, ac nid i fod yn gogiau yn yr olwyn. Gadewch inni roi terfyn ar y cogiau a gadewch inni ryddhau'r bobl.

16:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:14 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I thank all Members for a very interesting debate. These are very challenging times, but I think that they are very exciting times. We have the opportunity now to transform the way in which public services work for us. The action that we are taking and that we continue to take, both locally and regionally—and, I suppose, nationally as well—ensures that public services are in the best position to meet the needs of the people of Wales.

Diolch i'r holl Aelodau am ddadl ddiddorol iawn. Mae hwn yn gyfnod heriol iawn, ond yn fy marn i mae hefyd yn gyfnod cyffrous iawn. Mae gennym gyfle yn awr i weddnewid y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio inni. Mae'r camau yr ydym yn eu cymryd, ac yr ydym yn parhau i'w cymryd, yn lleol ac yn rhanbarthol—ac mae'n debyg, yn genedlaethol hefyd—yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Turning to some of the points raised by Members, Peter Black talked about standards as opposed to principles. You mentioned Scotland; I am happy to look at Scotland and best practice to see what we can take forward. You also talked about invest to save and health and social care. The health service has led the way within invest to save and I do not think that local government has stepped up to the plate as well as it could have done. That is something that I have been discussing with local authorities as I have been going around. However, we need to see better integration of health and social care. It needs to be much more focused in its delivery.

Rhodri Glyn Thomas referred to whether I had an agenda. I was thinking about this and what was my priority coming into this portfolio. It is to ensure that we strengthen local democracy and have continuous improvement, and that our funding supports stronger and much more effective service delivery. You spoke about collaboration and referred to my predecessor. I think that you were a bit disingenuous about him. He did a great deal of work in relation to collaboration with local authorities. He introduced the regional collaboration fund. I mentioned in my opening remarks that I had just signed off some excellent examples of collaboration to try to take the agenda forward. I am pleased that local authorities seem to have grasped the need for collaboration as we go forward. You also referred to 22 local authorities not being sustainable. The First Minister has said that. We have to accept that expertise is stretched across 22 local authorities, as well as some services.

Janet Finch-Saunders referred to the fact that we all want to see public services run well. Of course, I recognise the need to use the independent sector. You only need to look at social care to see how reliant we are on the independent sector and what wonderful services so many people in that sector provide.

Several Members referred to the commission on public service governance and delivery that the First Minister announced. I am not going to speculate on what the commission might recommend. I think that it is timely, but I do not think that it means that collaboration has failed. I heard some noise around that. As I mentioned in my response to Rhodri Glyn Thomas, I think that there are some very good examples of organisations working together. Just last week, in Llandrindod Wells, I opened a joint building between the fire and rescue service, the police and the courts. It is great to see that level of collaboration. However, some significant opportunities to work together have been missed. I want to ensure that there is much more of a focus on that.

A throi at rai o'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, siaradodd Peter Black am safonau yn hytrach nag egwyddorion. Soniasoch am yr Alban; rwyf yn hapus i edrych ar yr Alban ac arfer gorau i weld beth y gallwn fwrw ymlaen ag ef. Soniasoch hefyd am fuddsoddi i arbed ac iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwasanaeth iechyd wedi arwain y ffordd o ran buddsoddi i arbed, ac nid wyf yn credu bod llywodraeth leol wedi derbyn y cyfrifoldeb cystal ag y gallai fod wedi ei wneud. Mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi bod yn ei drafod ag awdurdodau lleol wrth imi fynd o gwmpas. Fodd bynnag, mae angen integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Mae angen i'r ddarpariaeth fod yn fwy penodol o lawer.

Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas a oes gennyf agenda. Bùm yn meddwl am hyn, a beth oedd fy mlaenoriaeth wrth ddod i'r portffolio hwn. Fy mlaenoriaeth yw sicrhau ein bod yn cryfhau democratiaeth leol ac yn sicrhau gwelliant parhaus, a bod ein cyllid yn helpu i ddarparu gwasanaethau'n gryfach ac yn fwy effeithiol o lawer. Soniasoch am gydweithio a chyfeiriasoch at fy rhagflaenydd. Credaf ichi fod braidd yn ffuantus amdano. Gwnaeth lawer iawn o waith ar gydweithio ag awdurdodau lleol. Cyflwynodd y gronfa cydweithio rhanbarthol. Soniais yn fy sylwadau agoriadol fy mod newydd roi sêl bendith i rai enghreifftiau ardderchog o gydweithio i geisio symud yr agenda yn ei blaen. Rwyf yn falch bod awdurdodau lleol fel petaent wedi deall yr angen i gydweithio wrth inni symud ymlaen. Dywedasoch hefyd nad yw'n gynaliadwy cael 22 o awdurdodau lleol. Mae'r Prif Weinidog wedi dweud hynny. Mae'n rhaid inni dderbyn bod arbenigedd wedi ei estyn ar draws 22 o awdurdodau lleol, yn ogystal â rhai gwasanaethau.

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y ffaith ein bod i gyd am weld gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu rhedeg yn dda. Wrth gwrs, rwyf yn cydnabod yr angen i ddefnyddio'r sector annibynnol. Does ond angen ichi edrych ar ofal cymdeithasol i weld pa mor ddibynnol yr ydym ar y sector annibynnol a gwasanaethau mor wych y mae cynifer o bobl yn y sector hwnnw'n eu darparu.

Cyfeiriodd sawl Aelod at y comisiwn ar lywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog. Nid wyf yn mynd i ddyfalu ynghylch yr hyn y gallai'r comisiwn ei argymhell. Credaf ei fod yn amserol, ond nid wyf yn credu ei fod yn golygu bod cydweithio wedi methu. Clywais rywfaint o sŵn ynghylch hynny. Fel y soniais yn fy ateb i Rhodri Glyn Thomas, credaf fod rhai enghreifftiau da iawn o sefydliadau'n cydweithio. Yr wythnos diwethaf, yn Llandrindod, agorais adeilad ar y cyd rhwng y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu a'r llysoedd. Mae'n wych gweld y lefel honno o gydweithredu. Fodd bynnag, collwyd rhai cyfleoedd arwyddocaol i gydweithio. Rwyf am sicrhau bod llawer mwy o ganolbwyntio ar hynny.

Mike Hedges stated that we all used public services and that there was a need for 'continual' improvement. That is the word. We can never just sit back. Suzy Davies referred to better public engagement. You are absolutely right about consultation. We do not want people to be cynical about it. Consultation has to be meaningful if we are to take the public with us. We have signed up to the principles of public engagement, as have nearly 70 other organisations that have endorsed them. We also need to make it much easier for people to engage. It should be jargon-free. We all use acronyms, but local government seems to use more acronyms than any other sector I have come across, even health. However, it is really important that we make it as plain and simple as possible, so that people feel that they can engage. Mark Isherwood referred to third sector involvement. The third sector has a vital role in this agenda.

Dyweddodd Mike Hedges ein bod i gyd yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a bod angen gwelliant 'parhaus'. Dyna'r gair. Ni allwn ddim ond eistedd yn ôl. Cyfeiriodd Suzy Davies at well ymgysylltu â'r cyhoedd. Rydych yn llygad eich lle ynghylch ymgynghori. Nid ydym am i bobl fod yn sinigaidd ynghylch hyn. Rhaid i'r ymgynghori fod yn ystyrion os ydym am i'r cyhoedd fod gyda ni. Rydym wedi ymrwymo i egwyddorion ymgysylltu â'r cyhoedd, fel y mae bron i 70 o sefydliadau eraill sydd wedi'u cymeradwyo. Mae angen inni ei gwneud yn haws o lawer i bobl ymgysylltu. Dylai fod yn rhydd o jargon. Rydym i gyd yn defnyddio acronymau, ond mae llywodraeth leol fel petai'n defnyddio mwy o acronymau nag unrhyw sector arall yr wyf wedi dod ar ei draws, hyd yn oed iechyd. Fodd bynnag, mae'n bwysig iawn ein bod yn ei gwneud mor glir ac mor syml ag y bo modd, fel bod pobl yn teimlo y gallant gymryd rhan. Cyfeiriodd Mark Isherwood at gyfranogiad y trydydd sector. Mae rhan hanfodol i'r trydydd sector yn yr agenda hon.

Finally, a word of warning. We all recognise the financial climate that we are in. The public sector pot of money is ever-stretched, and I think that it was Suzy Davies who said that the public recognises the financial constraints that we are working in. Obviously, that will have a big impact on the reform agenda.

Yn olaf, gair o rybudd. Rydym i gyd yn cydnabod yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Mae pot arian y sector cyhoeddus yn cael ei estyn yn gyson, ac rwyf yn meddwl mai Suzy Davies a ddywedodd fod y cyhoedd yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol yr ydym yn gweithio ynddynt. Yn amlwg, bydd hynny'n effeithio'n fawr ar yr agenda ddiwygio.

16:19

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 1 agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, rwyf yn datgan bod gwelliant 1 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*

*Amendment 2 agreed.*

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 2 agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, rwyf yn datgan bod gwelliant 2 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 is agreed.*

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that there are no objections. In accordance with Standing Order No. 12.36, I therefore declare amendment 3 agreed.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36, felly, rwyf yn datgan bod gwelliant 3 wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*

*Amendment 3 is agreed.*

### **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree amendment 4. Are there any objections? I see that there are. Therefore, I defer all further voting on this item until voting time.

Y cynnig yw y dylid derbyn gwelliant 4. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, rwyf yn gohirio pob pleidlais bellach ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Adolygiad yr Athro McClelland o Wasanaethau Ambiwylans Cymru

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 3 a 9 yn enw Aled Roberts, gwelliant 4 yn enw Jocelyn Davies, a gwelliannau 2, 5, 6, 7 ac 8 yn enw William Graham.*

Cynnig NDM5230 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Adolygiad yr Athro Siobhan McClelland o Wasanaethau Ambiwylans Cymru wedi'i gyhoeddi;
2. Yn nodi'r 12 argymhelliad a gynigir gan yr Athro McClelland;
3. Yn cydnabod bod angen:
  - a) cytuno ar weledigaeth glinigol ar gyfer Gwasanaethau Ambiwylans Cymru;
  - b) rhoi amser i unrhyw fodel ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ambiwlans yn y dyfodol aeddfedu.

## The Professor McClelland Review of Welsh Ambulance Services

*The following amendments have been selected: amendments 1, 3 and 9 in the name of Aled Roberts, amendment 4 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 2, 5, 6, 7 and 8 in the name of William Graham.*

Cynnig NDM5230 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes the publication of Professor Siobhan McClelland's Review of Welsh Ambulance Services;
2. Notes the 12 recommendations proposed by Professor McClelland;
3. Recognises the need to:
  - a) agree a clinical vision for Welsh Ambulance Services;
  - b) give time for any future model of ambulance service delivery to mature.

16:19

### Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Cynigiad y cynnig.

I move the motion.

Hoffwn agor y ddatl hon drwy roi teyrnged i'r bobl sy'n gweithio i'n gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. Mae'n rhaid canmol eu hymroddiad a'u hymrwymiad i ddarparu gofal i gleifion yn ystod cyfnodau o bwysau sylweddol.

I would like to open this debate by paying tribute to those who work in Wales's ambulance service. Their devotion and commitment to providing patient care during periods of significant pressure is to be commended.

Mae'n wir bod y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn wynebu heriau mawr a bod angen gwella perfformiad. Dyna pam rydym wedi comisiynu'r adolygiad o dan yr Athro Siobhan McClelland. Ar gyfartaledd, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn derbyn un alwad 999 y funud, ddydd a nos, ac rwy'n credu bod hyn yn dangos y pwysau sydd ar y gwasanaeth. O ddechrau'r ddatl hon tan ei diwedd, bydd y gwasanaeth ambiwlans yn derbyn tua 60 o alwadau 999, gyda bywyd mewn perygl mewn unrhyw un o'r achosion hyn.

It is true that the ambulance service in Wales is facing great challenges and that performance needs to improve. That is why we commissioned Professor Siobhan McClelland to conduct a review. On average, the ambulance service receives one 999 call every minute, day and night, which I believe illustrates the pressure faced by the service. Between now and the end of this debate, the ambulance service will receive about 60 999 calls, and any one of those calls could represent a life in danger.

That is why, before we go on to focus inevitably on some of the difficulties of the ambulance service, I want to put on record my appreciation of ambulance service staff. We need their invaluable support, skills and professionalism to make the required improvements during a very difficult period.

Dyna pam, cyn i ni symud ymlaen i ganolbwyntio'n anochel ar rai o anawsterau'r gwasanaeth ambiwlans, rwyf am gofnodi fy ngwerthfawrogiad o staff y gwasanaeth ambiwlans. Mae angen eu cefnogaeth, eu sgiliau a'u proffesiynoldeb amhrisiadwy i wneud y gwelliannau angenrheidiol yn ystod cyfnod anodd iawn.

My main ambition this afternoon as Minister is to listen to the views of Assembly Members, and to learn from the thought that all political parties will have given to the report's analysis and conclusions. As far as it is practically possible, I would like to base the decisions that I have to make on the widest possible consensus about the way forward. Of course, the decisions in the end must be made by the Minister, but I want every Member in this Chamber who has a constructive contribution to make to know that these contributions will be carefully heard and properly considered.

In opening the debate, therefore, instead of providing a set of detailed, already-decided responses, I hope to set out a series of core propositions that I think the report contains and that will need to be reflected in reaching those final decisions.

The first proposition is that the future of the ambulance service lies in it being a clinical service, rather than being seen or judged simply as an emergency transport service. The report says that it needs to be at the centre of the NHS and embedded into wider unscheduled care services. The amendment tabled by Plaid Cymru to the motion specifically draws attention to this principle as the basis for decisions that need to be made, and I am very pleased to support that amendment.

A second basic proposition of the report is that, whatever future structure is agreed, the key requirement is to ensure that responsibility and accountability for ambulance performance is clear and understood. Professor McClland told me when I met her to discuss the review that achieving clarity about responsibility for ambulance service performance was one of her most fundamental conclusions underpinning improvement for the future. As a subset of this principle, the review goes on to recommend that funding arrangements must also be clarified and simplified in order to achieve better alignment between what is expected of the service and delivering on those expectations.

A third proposition of the review arises from those first examples, namely that the tests that we apply to judge whether the service is succeeding are tests that ought to reflect clinically agreed measures or standards for patients. As this is such an important point, the Government will accept amendment 9 in the name of the Liberal Democrats, even though it rather muddles the issue by reference to the Welsh Ambulance Services NHS Trust executive scorecard—a matter which the review does not address. However, the amendment gets the fundamental principle right, that new targets must focus on patient experience and outcomes.

Fy mhrif uchelgais y prynhawn yma fel Gweinidog yw gwrandao ar farn Aelodau'r Cynulliad, a dysgu oddi wrth ystyriaeth y bydd yr holl bleidiau gwleidyddol wedi'i rhoi i ddadansoddiad a chasgliadau'r adroddiad. Cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol bosibl, hoffwn seilio'r penderfyniadau y mae'n rhaid imi eu gwneud ar y consensws ehangaf posibl ynghylch y ffordd ymlaen. Wrth gwrs, mae'n rhaid i'r penderfyniadau yn y pen draw gael eu gwneud gan y Gweinidog, ond rwyf am i bob Aelod yn y Siambr hon sydd â chyfraniad adeiladol i'w wneud, wybod y bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu clywed yn ofalus a'u hystyried yn briodol.

Wrth agor y ddadl felly, yn hytrach na darparu set o ymatebion manwl wedi'u penderfynu'n barod, rwyf yn gobeithio nodi cyfres o gynigion craidd y credaf y mae'r adroddiad yn eu cynnwys, ac y bydd angen eu hadlewyrchu wrth wneud y penderfyniadau terfynol.

Y cynnig cyntaf yw mai gwasanaeth clinigol ddylai'r gwasanaeth ambiwlans fod yn y dyfodol, yn hytrach na chael ei weld neu ei farnu yn syml fel gwasanaeth cludiant brys. Mae'r adroddiad yn dweud bod angen iddo fod yng nghanol y GIG ac wedi'i wreiddio yn y gwasanaethau ehangach sy'n darparu gofal heb ei drefnu. Mae'r gwelliant a gyflwynwyd gan Blaid Cymru i'r cynnig yn tynnu sylw yn benodol at yr egwyddor hon fel sail ar gyfer penderfyniadau y mae angen eu gwneud, ac rwyf yn falch iawn o gefnogi'r gwelliant hwnnw.

Ail gynnig sylfaenol yr adroddiad yw mai'r gofyniad allweddol, pa bynnag strwythur y cytunir arno yn y dyfodol, yw sicrhau bod y cyfrifoldeb a'r atebolrwydd am berfformiad y gwasanaeth ambiwlans yn glir ac yn ddealladwy. Dywedodd yr Athro McClland wrthyf, pan gwrddais â hi i drafod yr adolygiad, mai un o'i chasgliadau mwyaf sylfaenol fel sail i wella'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer y dyfodol yw y dylid sicrhau bod cyfrifoldeb am berfformiad y gwasanaeth yn eglur. Fel is-set i'r egwyddor hon, mae'r adolygiad yn mynd ymlaen i argymhell y dylai trefniadau ariannu hefyd gael eu symleiddio a'u gwneud yn fwy eglur er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddisgwyllir gan y gwasanaeth yn cael ei gyflawni'n well.

Mae trydydd cynnig yr adolygiad yn codi o'r enghreifftiau cyntaf hynny, sef bod y profion a ddefnyddiwn i farnu a yw'r gwasanaeth yn llwyddo yn brofion a ddylai adlewyrchu mesurau neu safonau y cytunwyd arnynt yn glinigol i gleifion. Gan fod hwn yn bwynt mor bwysig, bydd y Llywodraeth yn derbyn gwelliant 9 yn enw'r Democratiaid Rhyddfrydol, er ei fod yn drysu'r mater braidd drwy gyfeirio at gerdyn sgorio gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru—mater nad yw'r adolygiad yn mynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, mae'r egwyddor sylfaenol yn iawn yn y gwelliant, bod yn rhaid i dargedau newydd ganolbwyntio ar brofiad a chanlyniadau i gleifion.

A fourth key proposition that flows from that is that, if we are to have an ambulance service focused on a clinical model of unscheduled care and judged by its success in providing such a service, this is bound to have implications for those functions currently undertaken by the trust, which do not lie at that side of its work. If the trust is to be able to focus on those things, which are most important for it to provide, it may be necessary to clarify its remit in order to allow it to focus in that way.

If that remit is to be successfully delivered, the fifth proposition is that its workforce will need to have the right skills, qualifications and experience to make the right decisions with greater confidence, and to deliver the right level of care, at the right place and at the right time. The ambulance service model will support these decisions and empower the professionals to make them.

A sixth proposition is that while there must be rapid improvement in some areas, whatever structure and remit we decide upon, the new system must be allowed time to mature. As this is such an important idea, the Government will reject amendment 2, in the name of William Graham, which is the only amendment that we will not support, because it seeks to delete the recognition of the need for maturity, which is contained in the original motion. We will accept amendment 3, which makes the same point about the need for a clear timetable, but does so in addition to recognising the need for a new system to have time to mature, rather than instead of it.

Dirprwy Lywydd, the final proposition that I wish to highlight from the report is that, whatever changes lie ahead, we have to attend to the continued viability of the ambulance service in the here and now. That is why I was pleased to be able to give the go-ahead for the £9.5 million capital investment in new ambulance vehicles today. It is also why I believe that the move from principles outlined today to decisions based on them has to be rapid.

My intention is to arrange a series of meetings with key individuals and groups. I will see the chair of the Welsh Ambulance Services NHS Trust this week, for example—

Pedwerydd cynnig allweddol sy'n deillio o hynny yw ei bod yn anorfod y ceir goblygiadau i'r swyddogaethau y mae'r ymddiriedolaeth yn eu cyflawni ar hyn o bryd nad ydynt yn ymwneud â'r maes clinigol, os ydym am gael gwasanaeth ambiwlans sy'n canolbwyntio ar fodel clinigol o ofal heb ei drefnu ac sy'n cael ei farnu yn ôl ei lwyddiant mewn darparu gwasanaeth o'r fath. Efallai y bydd angen i gylch gwaith yr ymddiriedolaeth fod yn fwy eglur er mwyn iddo allu canolbwyntio ar y pethau hynny y mae'n fwyaf pwysig iddo eu darparu.

Os yw'r cylch gwaith hwnnw i gael ei gyflawni'n llwyddiannus, y pumed cynnig yw y bydd angen i'w weithlu feddu ar y sgiliau, y cymwysterau a'r profiad cywir i wneud y penderfyniadau iawn gyda mwy o hyder, ac i ddarparu gofal ar y lefel gywir, yn y lle iawn ac ar yr adeg iawn. Bydd model y gwasanaeth ambiwlans yn cefnogi'r penderfyniadau hyn ac yn grymuso gweithwyr proffesiynol i'w gwneud.

Chweched cynnig yw bod yn rhaid i rai meysydd wella'n gyflym, ond bod yn rhaid i'r system newydd gael amser i aeddfedu pa bynnag strwythur a chylch gwaith y byddwn yn penderfynu arnynt. Gan fod hwn yn syniad mor bwysig, bydd y Llywodraeth yn gwrthod gwelliant 2, yn enw William Graham, sef yr unig welliant na fyddwn yn ei gefnogi, gan ei fod yn ceisio dileu'r gydnabyddiaeth yn y cynnig gwreiddiol o'r angen am aeddfedrwedd. Byddwn yn derbyn gwelliant 3, sy'n gwneud yr un pwynt am yr angen am amserlen glir, ond sy'n gwneud hynny yn ychwanegol at gydnabod yr angen i system newydd gael amser i aeddfedu, yn hytrach nag yn lle hynny.

Dirprwy Lywydd, y cynnig olaf y dymunaf dynnu sylw ato o'r adroddiad yw bod yn rhaid i ni roi sylw i hyfywedd parhaus y gwasanaeth ambiwlans ar yr adeg hon, pa bynnag newidiadau sydd o'n blaenau. Dyna pam yr oedwn yn falch o allu rhoi sêl bendith i'r buddsoddiad cyfalaf o £9.5 miliwn mewn cerbydau ambiwlans newydd heddiw. Dyna hefyd pam yr wyf yn credu bod rhaid symud yn gyflym oddi wrth yr egwyddorion a amlinellir heddiw i benderfyniadau yn seiliedig arnynt.

Fy mwriad yw trefnu cyfres o gyfarfodydd gydag unigolion a grwpiau allweddol. Byddaf yn gweld cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yr wythnos hon, er enghraifft—

16:27

## Nick Ramsay [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you for giving way. You said that you will not be accepting our amendment 2, but do you not accept that the way in which the Government originally phrased it—'time to mature'—does not really give an indication to the people of Wales of when things will get better? Is it not better to have a clear timetable for action, so that people will know that the ambulance service will be better at a given point?

Diolch am ildio. Rydych yn dweud na fyddwch yn derbyn ein gwelliant 2, ond onid ydych yn derbyn nad yw'r ffordd yr oedd y Llywodraeth yn ei eirio'n wreiddiol—'amser i aeddfedu'—mewn gwirionedd yn rhoi syniad i bobl Cymru pryd y bydd pethau'n gwella? Onid yw'n well cael amserlen glir ar gyfer gweithredu, er mwyn i bobl wybod y bydd y gwasanaeth ambiwlans yn well erbyn rhyw bwynt penodol?

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)



I think that in accepting amendment 3, Nick, the Government will do both things. Amendment 3 calls for a clear timetable; I agree with that and with your point, but I did not want to lose the point that the report makes and on which it puts emphasis, that whatever changes we make, we have to give them a chance to bed in and do the job that we want them to do. I did not want to lose that point from the motion this afternoon.

In thinking of a timetable, as I said, I intend to arrange meetings with key individuals and groups before making first determinations before half term. In that context, I thank other parties in the Chamber for their engagement in the review process so far, and I would be very pleased to offer opposition health spokespeople individual meetings with my senior officials to continue that dialogue, as we move to decision making.

While we need to move quickly, we have to move realistically, as well. Some of the recommendations in the review will produce complexity in implementation. In making any announcements, therefore, I will accompany any decisions with a programme outlining processes and timetables.

Dirprwy Lywydd, I hope that in today's debate, as much as possible, we will be able to look forward rather than rehearse the well-known challenges that the ambulance service faces. If we do that, today's debate will be an important milestone in a discussion that is of huge significance to the NHS in Wales. I look forward very much to listening carefully to Members' contributions.

#### *Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

*Yn nodi â phryder:*

*a) er gwaethaf cynnal naw adolygiad mewn chwe blynedd, Cymru sydd â'r amseroedd ymateb isaf yn y DU o hyd;*

*b) nid yw'r targed o wyth munud ar gyfer Cymru gyfan wedi'i gyrraedd am y deg mis diwethaf;*

*c) mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod ambiwlansys Cymru, ym mhob ardal awdurdod lleol, wedi methu cyrraedd targedau amseroedd ymateb cenedlaethol ar gyfer galwadau lle y mae bywyd yn y fantol;*

*d) nid yw'r targed o 95% ar gyfer derbyn, trosglwyddo neu rhyddhau cleifion newydd mewn cyfleusterau gofal brys o fewn pedair awr iddynt gyrraedd erioed wedi'i gyflawni;*

Rwyf yn credu, Nick, y bydd y Llywodraeth yn gwneud y ddau beth drwy dderbyn gwelliant 3. Mae gwelliant 3 yn galw am amserlen glir; rwyf yn cytuno â hynny a gyda'ch pwynt, ond nid oeddwn i eisiau colli'r pwynt y mae'r adroddiad yn ei wneud ac y mae'n rhoi pwyslais arno, sef bod yn rhaid inni roi cyfle i ba bynnag newidiadau a wnawn ymwreiddio a gwneud y gwaith yr ydym am iddynt ei wneud. Nid oeddwn eisiau colli'r pwynt hwnnw o'r cynnig y prynhawn yma.

Wrth feddwl am amserlen, fel y dywedais, rwyf yn bwriadu trefnu cyfarfodydd gydag unigolion a grwpiau allweddol cyn gwneud penderfyniadau cyntaf cyn hanner tymor. Yn y cyd-destun hwnnw, rwyf yn diolch i'r pleidiau eraill yn y Siambr am gymryd rhan yn y broses adolygu hyd yn hyn, a byddwn yn falch iawn o gynnig cyfarfodydd unigol i lefarwyr iechyd y gwrthbleidiau gyda'm huwch swyddogion i barhau â'r ddeialog, wrth i ni symud at wneud penderfyniadau.

Er bod angen inni symud yn gyflym, mae'n rhaid i ni symud yn realistig, yn ogystal. Bydd rhai o'r argymhellion yn yr adolygiad yn creu cymhlethdod wrth eu gweithredu. Wrth wneud unrhyw gyhoeddiadau, felly, byddaf yn cyflwyno rhaglen yn amlinellu prosesau ac amserlenni ochr yn ochr ag unrhyw benderfyniadau.

Dirprwy Lywydd, rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu edrych ymlaen yn y ddadl heddiw, gymaint ag y bo modd, yn hytrach nag ailadrodd yr heriau adnabyddus sy'n wynebu'r gwasanaeth ambiwlans. Os byddwn yn gwneud hynny, bydd y ddadl heddiw yn garreg filltir bwysig mewn trafodaeth sydd o bwys mawr i'r GIG yng Nghymru. Rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at wrando'n ofalus ar gyfraniadau Aelodau.

#### *Amendment 1—Aled Roberts*

*Add as new point 1 and renumber accordingly:*

*Notes with concern that:*

*a) despite holding nine reviews in six years, Wales still has the lowest response times in the UK;*

*b) the all-Wales eight minute target has not been achieved for the past ten months;*

*c) latest statistics show Wales' ambulances have failed to meet national response time targets for life-threatening calls in every local authority area;*

*d) the 95% target for the admission, transfer or discharge of new patients in emergency care facilities within four hours of arrival has never been met;*

e) mae ambiwlansys wedi treulio bron 55,000 awr yn aros y tu allan i ysbytai Cymru yn y chwe mis diwethaf;

f) mae adroddiad perfformiad diweddaraf Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn dangos iddi gyflawni 56.9% yn unig o ran trosglwyddo cleifion o fewn 15 munud, yn erbyn y targed cenedlaethol o 95%.

Gwelliant 3—Aled Roberts

Ychwanegu fel is-pwynt 3b) newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

sefydlu amserlen glir ar gyfer cytuno ar fodel newydd o gyflenwi gwasanaethau ambiwlans a'i weithredu;

Gwelliant 9—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu targedau ychwanegol sy'n canolbwyntio fwy ar brofiad y cleifion a'r canlyniadau iddynt a chyhoeddi adroddiad perfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cynnwys cerdyn sgorio perfformiad allweddol misol y weithrediaeth.

e) ambulances have spent almost 55,000 hours waiting outside Welsh hospitals in the last six months;

f) the Welsh Ambulance Service Trust's latest performance report shows it only achieved 56.9% of patient handovers within 15 minutes, against the national target of 95%.

Amendment 3—Aled Roberts

Add as new sub-point 3b) and renumber accordingly:

establish a clear timetable for the agreement and implementation of a new model of ambulance service delivery;

Amendment 9—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to develop additional targets with a greater focus on patient experience and outcomes and to publish the Welsh Ambulance Trust performance report including the monthly executive key performance scorecard.

16:29

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1, 3 and 9 in the name of Aled Roberts.

In moving these amendments, I draw attention to the first one, which encapsulates the urgency of the need to make improvements in the service. Nine reviews later, and we still have the worst response times in the UK. The Government's targets have not been met for the last 10 months. Last month, not a single local authority in Wales was able to meet the Government's response-time targets of eight minutes. The four-hour transfer times have never been met since that target was agreed, and, in the last six months, 55,000 hours have been lost to the Welsh ambulance trust as its crews and ambulances have stood outside our A&E departments. The ambulance trust's targets are routinely missed; its dashboard is a sea of red.

For me, the McClelland report made for very depressing reading. The problems of the ambulance service were well documented and had been rehearsed in all the reports that had been previously commissioned by the Government, the ambulance trust and by the Auditor General for Wales. The problems were well rehearsed and well identified. Solutions had been offered and route maps had been planned for improvement, but there was a depressing lack of follow-through on any of those reports. We cannot let this opportunity pass us by and let that happen again to this opportunity to transform how we provide ambulance services in Wales.

Cynigiad welliannau 1, 3 a 9 yn enw Aled Roberts.

Wrth gynig y gwelliannau hyn, rwyf yn tynnu sylw at yr un cyntaf, sy'n crynhoi'r ffaith bod angen gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth ar frys. Naw adolygiad yn ddiweddarach, ac rydym yn dal i fod â'r amseroedd ymateb gwaethaf yn y DU. Nid yw targedau'r Llywodraeth wedi cael eu bodloni am y 10 mis diwethaf. Y mis diwethaf, nid oedd yr un awdurdod lleol unigol yng Nghymru yn gallu cyrraedd targedau amser ymateb y Llywodraeth o wyth munud. Nid yw'r amserau trosglwyddo o bedair awr wedi cael eu bodloni ers cytuno ar y targed hwnnw, ac, yn y chwe mis diwethaf, mae ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru wedi colli 55,000 o oriau wrth i'w chriwiau a'i hambiwlansys sefyll y tu allan i'n hadrannau damweiniau ac achosion brys. Mae'r ymddiriedolaeth ambiwlans yn methu â chyrraedd ei thargedau fel mater o drefn; mae ei dangosfwrdd yn fôr o goch.

I mi, roedd adroddiad McClelland yn ddigalon iawn i'w ddarllen. Roedd problemau'r gwasanaeth ambiwlans wedi eu cofnodi'n drylwyr ac wedi cael eu trafod yn yr holl adroddiadau a gomisiynwyd yn flaenorol gan y Llywodraeth, yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac Archwilydd Cyffredinol Cymru. Roedd y problemau wedi'u trafod yn dda ac wedi'u nodi'n dda. Roedd atebion wedi cael eu cynnig a mapiau wedi cael eu cynllunio ar gyfer gwelliant, ond roedd y diffyg gwaith dilynol ar unrhyw un o'r adroddiadau hynny yn ddigalon. Ni allwn adael i'r cyfle hwn fynd heibio a gadael i hynny ddigwydd eto i'r cyfle hwn i drawsnewid sut yr ydym yn darparu gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Let me make clear that the Welsh Liberal Democrats fully sign up to the principle of a clinically led service. That is what we want the Welsh ambulance service to be. However, we have to identify that that has been stated before and we have to identify why it has not developed in the way that, I think, there is universal agreement that it should. What are the barriers to that? I think that the Government's targets have worked against the ability of that organisation to become a clinically led service. After all, if what the Welsh Government manages you on is simply that eight-minute response time, that is what managers will try to work towards delivering. I would question whether we have had clinical leadership at all the right levels to drive through this principle.

If we are to move, and the Minister acknowledged this, to that clinical service that we all aspire to, it will mean a step change in how we treat our staff, how we train our paramedics and how we look after them once they have trained. What can we do to ensure that some of the innovative work that happened years ago at Swansea University on the advanced practitioner role can be built upon? What do we need to do within the organisation to convince more of our existing staff to qualify at a higher level? We should aspire to have an advanced practitioner on every single ambulance in Wales in the future. That is what we should aspire to deliver.

However, once they are qualified, we have to give them care pathways. I hate the word 'protocols' outlined in recommendation 7. Protocols are orders. If we are to have a clinical service, we have to train our paramedics appropriately and then we have to give them guidelines to work to, not orders. Protocols simply confine what they are able to do, so we need to give them care pathways and guidelines against which they can be accountable for their interventions and they can practice their skills.

Having done that, they need 24-hour services to refer to. It is all very well empowering paramedics and training them to be able to make a referral to a minor injuries unit, to a falls team or to another service, but what if that service is not there for them to refer to? If we are to make it a clinical service, we have to develop other services alongside it.

Targets need to be revised, and we need to move towards a system in which patients' experiences and outcomes for patients are what counts. Therefore, I have considerable difficulty with recommendation 10, which talks about the consideration of the implementation of incentive-based targets. A clinical-based service, based on well-trained individuals, cannot work with incentive-based targets. There will always be a push for people not to refer patients on to a hospital, when it may be completely appropriate to do so. I could not agree with the Minister more: it is about people with the right skills treating people in the right place at the right time, rather than incentives necessarily.

Gadewch imi ei gwneud yn glir bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn llwyr ymrwymo i'r egwyddor o gael gwasanaeth dan arweiniad clinigol. Dyna'r hyn yr ydym am i wasanaeth ambiwlans Cymru fod. Fodd bynnag, rhaid nodi bod hynny wedi cael ei ddweud o'r blaen ac mae'n rhaid i ni ganfod pam nad yw wedi datblygu yn y ffordd, rwyf yn meddwl, y mae pawb yn cytuno y dylai. Beth yw'r rhwystrau i hynny? Credaf fod targedau'r Llywodraeth wedi gweithio yn erbyn gallu'r sefydliad hwnnw i ddatblygu'n wasanaeth dan arweiniad clinigol. Wedi'r cyfan, os mai'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn eich rheoli chi arno yw'r amser ymateb o wyth munud yn unig, dyna beth fydd rheolwyr yn ceisio gweithio tuag at ei ddarparu. Mae'n gwestiwn gen' i a ydym wedi cael arweinyddiaeth glinigol ar yr holl lefelau cywir i fwrw ymlaen â'r egwyddor hon.

Os ydym am symud i'r gwasanaeth clinigol yr ydym i gyd yn anelu ato, fel y cydnabu'r Gweinidog, bydd yn golygu newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn trin ein staff, sut yr ydym yn hyfforddi ein parafeddygon a sut yr ydym yn gofalu amdanynt ar ôl iddynt hyfforddi. Beth allwn ni ei wneud i sicrhau y gellir adeiladu ar rywfaint o'r gwaith arloesol a ddigwyddodd flynyddoedd yn ôl ym Mhrifysgol Abertawe ar rôl uwch ymarferwyr? Beth sydd angen i ni ei wneud o fewn y sefydliad i argyhoeddi mwy o'n staff presennol i gymhwyso ar lefel uwch? Dylem anelu at gael uwch ymarferydd ar bob un ambiwlans yng Nghymru yn y dyfodol. Dyna'r hyn y dylem anelu at ei gyflawni.

Fodd bynnag, ar ôl iddynt gael eu cymwysterau, mae'n rhaid i ni roi llwybrau gofal iddynt. Mae'n gas gen' i'r gair 'protocolau' a amlinellir yn argymhelliaid 7. Gorchymynion yw protocolau. Os ydym am gael gwasanaeth clinigol, mae'n rhaid inni hyfforddi ein parafeddygon yn briodol, ac yna mae'n rhaid i ni roi canllawiau iddynt eu dilyn, nid gorchymynion. Nid yw protocolau ond yn cyfyngu'r hyn y maent yn gallu ei wneud, felly mae angen inni roi llwybrau gofal a chanllawiau iddynt lle gallant fod yn atebol am eu hymyriadau ac ymarfer eu sgiliau.

Ar ôl gwneud hynny, mae angen gwasanaethau 24 awr i atgyfeirio atynt. Un peth yw grymuso parafeddygon a'u hyfforddi i allu gwneud atgyfeiriad i uned mân anafiadau, i dîm cwympiadau neu wasanaeth arall, ond beth os nad yw'r gwasanaeth yno iddynt atgyfeirio ato? Os ydym am ei wneud yn wasanaeth clinigol, mae'n rhaid i ni ddatblygu gwasanaethau eraill ochr yn ochr ag ef.

Mae angen diwygio targedau, ac mae angen i ni symud tuag at system lle mai profiadau cleifion a chanlyniadau ar gyfer cleifion yw'r hyn sy'n cyfrif. Felly, rwyf yn cael anhawster sylweddol ag argymhelliaid 10, sy'n sôn am ystyried gweithredu targedau ar sail cymhellion. Ni all gwasanaeth clinigol, seiliedig ar unigolion sydd wedi'u hyfforddi'n dda, weithio gyda thargedau ar sail cymhellion. Bydd pobl bob amser yn cael eu gwthio i beidio ag atgyfeirio cleifion i ysbyty, pan allai fod yn gwbl briodol gwneud hynny. Ni allwn gytuno mwy â'r Gweinidog: mae'n ymwneud â phobl â'r sgiliau cywir yn trin pobl yn y lle iawn ar yr adeg iawn, yn hytrach na chymhellion o reidrydd.

There is a lot to be said about splitting off patient transport services and emergency medical services, but that has consequences for the stability of the organisation, as does any wholesale governance and structural change. In the time allowed, I cannot go into the arguments about the three systems or the three options that are outlined. I suspect that there are other options that are not included in that report, and I welcome the opportunity to discuss that with the Minister and his officials further.

Mae llawer i'w ddweud dros wahanu gwasanaethau cludiant cleifion a gwasanaethau meddygol brys, ond mae gan hynny ganlyniadau ar gyfer sefydlogrwydd y sefydliad, fel y mae gan unrhyw newid sylweddol i'r strwythur a'r drefn o lywodraethu. Yn yr amser a ganiateir, ni allaf fynd i mewn i'r dadleuon am y tair system neu'r tri opsiwn a amlinellir. Rwyf yn amau bod opsiynau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwnnw, ac rwyf yn croesawu'r cyfle i drafod hynny gyda'r Gweinidog a'i swyddogion ymhellach.

16:34

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on Darren Millar to move amendments 2, 5, 6, 7 and 8, tabled in the name of William Graham.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 2, 5, 6, 7 ac 8, a gyflwynwyd yn enw William Graham.

*Gwelliant 2—William Graham*

*Amendment 2—William Graham*

*Dileu is-bwynt 3b) a rhoi'r canlynol yn ei le:*

*Delete sub-point 3b) and replace with:*

*'b) cyhoeddi amserlen glir ar gyfer sicrhau gwelliannau i Wasanaethau Ambiwylans Cymru.'*

*'b) publish a clear timetable for the delivery of improvements to the Welsh Ambulance Service.'*

*Gwelliant 5—William Graham*

*Amendment 5—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi ym mis Mawrth 2013 mai 53% yn unig o alwadau Categori A a gafodd ymateb o fewn wyth munud, y ffigur isaf ers mis Rhagfyr 2010 ac nad yw targed Llywodraeth Cymru o 65% ar gyfer galwadau Categori A wedi'i gyrraedd am ddeg mis yn olynol.*

*Notes that in March 2013, only 53% of Category A calls received a response within 8 minutes, the lowest figure since December 2010 and that the Welsh Government's 65% target for Category A calls has not been hit for ten successive months.*

*Gwelliant 6—William Graham*

*Amendment 6—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi y cafwyd o leiaf 13 o adolygiadau neu archwiliadau i'r gwasanaethau a gyflenwir gan Wasanaethau Ambiwylans Cymru ers 2006 ac yn gresynu nad yw canlyniad yr adolygiadau hyn wedi'u gweithredu'n llawn.*

*Notes that there have been at least 13 reviews or audits into the delivery of services by the Welsh Ambulance Service since 2006 and regrets that the outcome of these reviews have not been fully implemented.*

*Gwelliant 7—William Graham*

*Amendment 7—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau cyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad a sicrhau bod unrhyw fodel o'r gwasanaethau ambiwlans yn y dyfodol yn cael ei strwythuro er budd cleifion a staff.*

*Calls on the Welsh Government to take swift action to address the issues raised in the review and ensure any future model of the ambulance service is structured in the best interests of patients and staff.*

*Gwelliant 8—William Graham*

*Amendment 8—William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaethau Ambiwylans Cymru yn cael cyllid priodol i sicrhau gwasanaethau ambiwlans effeithlon a chadarn.*

*Calls on the Welsh Government to ensure the Welsh Ambulance Service receives appropriate funding to ensure an efficient and robust ambulance service.*

I move amendments 2, 5, 6, 7 and 8 in the name of William Graham.

Cynigiad welliannau 2, 5, 6, 7 ac 8 yn enw William Graham.

I take this opportunity to thank Siobhan McClelland for an excellent report. It was not an easy thing to do to pick up this issue after so many other reviews had already taken place. However, an excellent piece of work has been done in a short period of time that, I think, gives us the basis for some action going forward. I welcome the tone of the response from the Minister, acknowledging the failures that there have been in the quality of service for patients, and indeed wanting to roll his sleeves up and get to grips, once and for all, with this issue so that we can put it right in the future. He was quite right, of course, to pay tribute to the staff delivering our ambulance service across the country, day in day out. They do a tireless job. Lots of people complain and are distressed when an ambulance turns up late, which obviously has an impact on staff morale, as the outcomes of the survey—which were published last week—confirm, with ambulance technicians, paramedics and ambulance control staff being at the top of the tree as far as work-related stress was concerned. Therefore, we must get to grips with this—for the sake of patients, but also for the sake of the staff who work within the service.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i Siobhan McClelland am adroddiad ardderchog. Nid oedd yn beth hawdd i'w wneud i godi'r mater hwn ar ôl i gynifer o adolygiadau eraill gael eu cynnal eisoes. Fodd bynnag, mae darn rhagorol o waith wedi cael ei wneud mewn cyfnod byr o amser sydd, rwyf yn meddwl, yn rhoi sail ar gyfer rhai camau yn y dyfodol i ni. Rwyf yn croesawu tŷn yr ymateb gan y Gweinidog, sy'n cydnabod y methiannau a fu yn ansawdd y gwasanaeth i gleifion, ac yn wir eisiau torchi ei lewys a mynd i'r afael, unwaith ac am byth, â'r mater hwn er mwyn i ni ei unioni yn y dyfodol. Roedd yn hollol iawn, wrth gwrs, i dalu teyrnged i'r staff sy'n darparu ein gwasanaeth ambiwlans ar draws y wlad, o ddydd i ddydd. Maent yn gwneud gwaith diflino. Mae llawer o bobl yn cwyno ac yn ofidus pan fydd ambiwlans yn cyrraedd yn hwyr, sy'n amlwg yn cael effaith ar forâl y staff. Mae canlyniadau'r arolwg—a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf—yn cadarnhau hynny, gyda thechnegwyr ambiwlans, parafeddygon a staff rheoli ambiwlansys ar frig y goeden o ran straen sy'n gysylltiedig â gwaith. Felly, mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â hyn—er mwyn y cleifion, ond hefyd er lles y staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth.

We tabled a number of amendments to this motion, many of which highlight the poor performance in the ambulance service, but will also—we hope—contribute to shaping the service going forward.

Rydym wedi cyflwyno nifer o welliannau i'r cynnig hwn. Mae llawer ohonynt yn tynnu sylw at y perfformiad gwael yn y gwasanaeth ambiwlans, ond byddant hefyd yn rydym yn gobeithio—yn cyfrannu at lunio'r gwasanaeth yn y dyfodol.

I welcome the core propositions that the Minister has outlined. It is a useful basis on which to start a discussion going forward, and I am also pleased to hear you tell Members today that you are hoping to make some initial decisions prior to the half-term recess. It is important that we get decisions made quickly in order that we can deliver the improvements that everyone wants to see in this service.

Rwyf yn croesawu'r cynigion craidd y mae'r Gweinidog wedi'u hamlinellu. Mae'n sail ddefnyddiol ar gyfer dechrau trafodaeth wrth fynd ymlaen, ac rwyf hefyd yn falch eich clywed yn dweud wrth Aelodau heddiw eich bod yn gobeithio gwneud rhai penderfyniadau cychwynnol cyn y toriad hanner-tymor. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud penderfyniadau'n gyflym er mwyn cyflawni'r gwelliannau y mae pawb am eu gweld yn y gwasanaeth hwn.

We support—and are on record for doing so in previous debates on the ambulance service—the split, if you like, between the emergency medical services and the patient transport service, which is currently provided by the ambulance service. We feel that there is always a tension and a distraction, if you like, in terms of the emergency medical services because of the focus on patient transport services that the current arrangements have to fulfil. Therefore, we would support any moves to clarify that the focus needs to be on those emergency medical services. We already know that there are patient transport services that are not currently provided by the ambulance service across Wales. There is no reason to suggest that they would not be able to provide a proficient service in the future if they were taken away, if you like, and expanded as a result of the ambulance service not providing its own service. Therefore, we support that principle very much indeed.

Rydym yn cefnogi—a chofnodwyd ein bod yn gwneud hynny mewn dadleuon blaenorol ar y gwasanaeth ambiwlans—y rhaniad, os hoffwch chi, rhwng y gwasanaethau meddygol brys a'r gwasanaeth cludo cleifion, a ddarperir ar hyn o bryd gan y gwasanaeth ambiwlans. Rydym yn teimlo bod tensiwn bob amser a thynnu sylw, os mynnwch chi, oddi wrth y gwasanaethau meddygol brys oherwydd y pwyslais ar wasanaethau cludo cleifion y mae'n rhaid i'r trefniadau presennol eu cyflawni. Felly, byddem yn cefnogi unrhyw gamau i egluro bod angen i'r pwyslais fod ar y gwasanaethau meddygol brys. Rydym eisoes yn gwybod y ceir gwasanaethau cludo cleifion ar draws Cymru nad ydynt yn cael eu darparu ar hyn o bryd gan y gwasanaeth ambiwlans. Nid oes unrhyw reswm i awgrymu na fyddent yn gallu darparu gwasanaeth cymwys yn y dyfodol pe byddent yn cael eu cymryd i ffordd, os mynnwch chi, a'u hehangu oherwydd i'r gwasanaeth ambiwlans roi'r gorau i ddarparu ei wasanaeth ei hun. Felly, rydym yn cefnogi'r egwyddor honno'n fawr iawn yn wir.

I will also touch on the funding arrangements. We know that there was this huge problem at the tail end of last year, when the ambulance service did not have its final budget signed off because of the disagreements between the health boards that commission their services. Therefore, we very much support the principle of the need for a change in the arrangements for funding for the ambulance service, and for it to be funded directly from the Welsh Government. I look forward to working with you, Minister, going forward, on how that might be best achieved, and what the vehicle for that being achieved might be. However, the current arrangements are certainly not working; they are handcuffing the ambulance service and preventing it from making the decisions that it needs to make to plan ahead for improvements to its service, and we must make sure that they are changed.

I was pleased to see the Plaid Cymru amendment recognising that this is an unscheduled-care system problem rather than just an ambulance service problem. We know that the knock-on effect of the lack of in-patient beds in our hospitals causes a bottleneck in our A&E departments, and that that then causes dozens of ambulances, sometimes, to stack up outside hospital front doors. It is important, going forward, that we deal with this in a systematic and system-wide way rather than one that focuses purely on the ambulance service in itself.

In closing, I will touch briefly on the data and performance issues. Kirsty Williams is quite right; we cannot simply use this eight-minute target as the target in future. We must be able to compare performance here with performance in other parts of the UK and beyond, in terms of the quality of services.

*Kirsty Williams a gododd—*

Byddaf hefyd yn cyffwrdd ar y trefniadau ariannu. Rydym yn gwybod y cafwyd problem enfawr ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, pan na chytunwyd ar gyllideb derfynol y gwasanaeth ambiwlans oherwydd yr anghytundeb rhwng y byrddau iechyd sy'n comisiynu ei wasanaethau. Felly, rydym yn cefnogi'n fawr iawn yr egwyddor bod angen newid y trefniadau ar gyfer cyllido'r gwasanaeth ambiwlans, ac iddo gael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda chi, Weinidog, wrth symud ymlaen, ar sut y gellid cyflawni hynny orau, a beth allai'r cyfrwng fod ar gyfer cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'n sicr nad yw'r trefniadau presennol yn gweithio; maent yn rhoi gefynnau ar y gwasanaeth ambiwlans ac yn ei atal rhag gwneud y penderfyniadau y mae angen eu gwneud i gynllunio ymlaen llaw ar gyfer gwella'r gwasanaeth, a rhaid inni sicrhau eu bod yn cael eu newid.

Rwyf yn falch o weld gwelliant Plaid Cymru yn cydnabod bod hon yn broblem o ran y system gofal heb ei drefnu, yn hytrach na phroblem sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ambiwlans yn unig. Rydym yn gwybod bod y diffyg gwelyau i gleifion mewnol yn ein hysbytai yn achosi tagfa yn ein hadrannau damweiniau ac achosion brys, a bod hynny wedyn yn achosi i ddwsinau o ambiwlansys, weithiau, bentyrru y tu allan i ddrwsau'r ystyby. Mae'n bwysig, wrth symud ymlaen, ein bod yn ymdrin â hyn mewn ffordd systematig ac ar draws y system yn hytrach nag mewn ffordd sy'n canolbwytio'n llwyr ar y gwasanaeth ambiwlans ynddo'i hun.

Wrth gloi, soniaf yn fyr am y materion data a pherfformiad. Mae Kirsty Williams yn llygad ei lle; ni allwn ddefnyddio'r targed o wyth munud fel y targed yn y dyfodol. Mae'n rhaid i ni allu cymharu perfformiad yma â pherfformiad mewn rhannau eraill o'r DU a thu hwnt, o ran ansawdd y gwasanaethau

*Kirsty Williams rose—*

16:39 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not have time to take an intervention, but I will say that while we support the need to move to a more intelligent suite of targets, we have to make sure that we can compare apples with apples, sometimes, in other parts of the country.

Nid oes gennyf amser i dderbyn ymyriad, ond byddaf yn dweud ein bod yn cefnogi'r angen i symud i gyfres fwy deallus o dargedau, ond bod yn rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn gallu cymharu afalau ag afalau, weithiau, mewn rhannau eraill o'r wlad.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:40 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish, please. I call on Elin Jones to move amendment 4, tabled in the name of Jocelyn Davies.

Gorffennwch, os gwelwch yn dda. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Gwelliant 4—Jocelyn Davies*

*Amendment 4—Jocelyn Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod bod y methiannau systematig o ran gofal heb ei drefnu yn cael effaith sylweddol ar berfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac felly'n effeithio'n andwyol ar ganlyniadau i gleifion.*

*Recognises that the systematic failings in unscheduled care significantly impacts on the performance of the WAST and therefore adversely effects outcomes for patients.*

16:40 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Cynigiaf welliant 4 yn enw Jocelyn Davies.

I move amendment 4 in the name of Jocelyn Davies.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)



Bydd Plaid Cymru yn cefnogi pob gwelliant arall ond un. Yn wir, mae gwelliannau'r Toriaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn hynod debyg heddiw—mae'n amlwg eu bod yn meddwl yn debyg iawn erbyn hyn.

Mae'r gwasanaeth ambiwlans wedi datblygu i fod yn embaras misol i'r Llywodraeth, gan fethu â chyrraedd y targed wyth munud cydnabyddedig ym mhob un o awdurdodau lleol Cymru erbyn hyn. Mae'r pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans yn ddifrifol, ac mae adroddiad McClelland yn dangos cynnydd o 68% yn nifer y galwadau dros 10 mlynedd. Yn y misoedd diwethaf, mae'r toriadau i welyau ysbytai wedi cael effaith uniongyrchol ar allu'r ysbytai i dderbyn cleifion i'r wardiau, gyda'r canlyniad bod adrannau 'A&E' yn llawn yn aml, a'r ambiwlansys yn sownd ger drysau ffrynt yr ysbytai. Ni fyddai'r cyfan o argymhellion adroddiad McClelland gyda'i gilydd yn tacio rhai o'r problemau hyn, gan eu bod yn broblemau sy'n deillio o'r gwasanaeth iechyd yn ei gyfanrwydd, ac nid o fewn y gwasanaeth ambiwlans yn unig.

Gan droi at rai o argymhellion adroddiad McClelland sy'n gymharol hawdd eu derbyn, y cyntaf ohonynt i mi yw ei bod yn hen bryd creu dwy gyfundrefn ambiwlans ar wahân: y naill i gludo cleifion at apwyntiadau arferol yn yr ysbyty, a'r llall yn wasanaeth sy'n cludo mewn sefyllfa argyfwng. Mae'n glir i mi taw cyfrifoldeb y bwrdd iechyd y dylai'r gwasanaeth cludo cleifion fod, ac fe ddylid edrych ar symud at hyn yn weddol gyflym.

Yn ail, mae hefyd yn amlwg bod angen cynllunio a datblygu'r gweithlu o barafeddygon yn fwy effeithiol, gan ganiatáu iddynt gyrraedd sgiliau lefel uwch fel y gallant drin cleifion a chymryd penderfyniadau clinigol drostynt eu hunain heb orfod mynd â'r claf i'r ysbyty lleol am asesiad clinigol bob tro. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi £9 miliwn ychwanegol heddiw ar gyfer fflyd o ambiwlansys newydd, ac mae hynny i'w groesawu, ond mae'n bwysig cofio taw'r parafeddygon sy'n delifro'r gwasanaeth, nid y cerbydau ambiwlans eu hunain. Felly, rwy'n gobeithio clywed maes o law gan y Gweinidog am fuddsoddiad pellach yn hyfforddi'r gweithlu o barafeddygon a darparu sgiliau iddynt.

Plaid Cymru will support all but one of the other amendments. Indeed, the Tory and Liberal Democrat amendments are very similar today—it is clear that they think along the same lines by now.

The ambulance service has developed into a monthly embarrassment for the Government, as it misses the acknowledged eight-minute target in each of Wales's local authority areas. The pressure on the ambulance service is very grave, and the McClelland report shows an increase of 68% in the number of calls received in a period of 10 years. Over the past few months, the cuts in the number of hospital beds have had a direct impact on the ability of hospitals to take patients onto wards, with the knock-on effect that A&E departments are often full and ambulances are stuck at hospitals' front doors. All the recommendations of the McClelland report together would not tackle some of these problems, because they are problems that emerge from the health service as a whole, and not simply from issues affecting the ambulance service.

Turning to some of the recommendations in the McClelland report that are relatively easy to accept, the first of these for me is that it is about time that we created two separate ambulance systems: one carrying patients to run-of-the-mill appointments at hospitals and the other taking patients in emergencies. It is clear to me that the patient transport service should be the responsibility of the health board, and we should look to move in that direction relatively swiftly.

Secondly, it is also clear that there needs to be more effective planning and development of the paramedic workforce, allowing them to achieve a higher level of skills so that they can treat patients and take clinical decisions themselves without always having to take that patient to a local hospital for a clinical assessment. The Minister has announced an additional £9 million today for the new ambulance fleet, and that is to be welcomed, but it is important to bear in mind that it is the paramedics who deliver the service, not the ambulances themselves. Therefore, I hope to hear from the Minister about further investment in training the paramedic workforce and the provision of skills for paramedics.

Rwyf am droi yn awr at yr argymhellion a'r opsiynau o ran newidiadau i strwythur y gwasanaeth ambiwlans. Mae'n amlwg o brofiad hydref y llynedd fod y gyfundrefn ariannol bresennol yn annerbyniol ac yn aneffeithiol, a bod yn rhaid ariannu'n uniongyrchol, nid drwy law trydydd parti. Nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliadau pendant ai gwasanaeth lleol neu wasanaeth cenedlaethol y dylai'r gwasanaeth ambiwlans fod. Yn reddfodol, rwy'n credu bod manteision i integreiddio'r gwasanaeth ambiwlans yn llawn i'r gwasanaeth iechyd yn lleol, gan y byddai gwneud hynny'n sicrhau bod newidiadau i wasanaethau lleol yn yr ysbysai ac yn y blaen yn gorffodol ystyried yn llawn y goblygiadau i'r gwasanaeth ambiwlans. Ond, fy nghonsyrn mwyaf am y posibilrwydd o symud i integreiddio â'r byrddau iechyd lleol yw bod saith bwrdd iechyd, ac rwy'n teimlo y byddai rhannu'r gwasanaeth rhwng saith yn ei gwneud yn rhy ddarniog ac y byddai perygl y byddai ffiniau gweinyddol yn datblygu'n ffiniau ymarferol i'r gwasanaeth ambiwlans. Yn fy marn i, efallai gellid edrych ar fodel mwy rhanbarthol a rhannu'r ffiniau â'r awdurdodau tân. Rwy'n credu ei bod yn wendid yn yr adroddiad gan Siobhan McClelland nad edrychodd yn fwy manwl ar y cydweithio a'r cydlynw rhwng y gwasanaethau argyfwng yn fwy cyffredinol, yn enwedig y ddau sydd wedi eu datganoli, sef y frigâd dân a'r gwasanaeth ambiwlans.

Byddwn hefyd wedi leicio gweld mwy o ddadansoddi o'r rhyngberthynas rhwng y gwasanaeth ambiwlans argyfwng a'r gwasanaeth meddygon 'out of hours' a sut y gellid integreiddio'r gwasanaethau hyn yn fwy cydlynus drwy'r nos a thros y penwythnos—rydym yn gwybod bod hynny'n broblem o ran cludo cleifion i'r ysbysai. I gyfeirio yn ôl at y targed wyth munud: oes, mae angen targed sy'n asesu nid yn unig cyflymder y gwasanaeth ond pa mor effeithiol ydyw, ond, wrth symud i dargedau ehangach, rwy'n gobeithio y byddwn yn gallu edrych ar ddadansoddi a chario targedau a data hanesyddol ymlaen er mwyn eu cyhharu â'r hyn yr ydym yn gobeithio ei weld yn y dyfodol.

I will now turn to the recommendations and the options in terms of changes to the structure of the ambulance service. It is clear from the experience of autumn of last year that the current financial system is unacceptable and ineffective and that we must fund the service directly rather than through a third party. The report does not come to specific conclusions as to whether the ambulance service should be a local or a national service. Instinctively, I believe that there are benefits to integrating the ambulance service fully with the health service at a local level, as that would ensure that changes to local services in hospitals and so on would have to take full account of the implications for the ambulance service. However, my major concern about the possibility of a move towards integration with the local health boards is that there are seven boards, and I feel that splitting the service seven ways would be too piecemeal and that there would be a danger that administrative boundaries would become practical boundaries for the ambulance service. In my opinion, perhaps we could look at a more regionalised model and share the boundaries of the fire authorities. I think that it is a weakness in the Siobhan McClelland report that she did not look in greater detail at collaboration and co-ordination between the emergency services more generally, and particularly the two that are devolved, namely the fire brigade and the ambulance service.

I would also have liked to have seen a greater analysis of the interrelationship between the emergency ambulance service and the out-of-hours medical service, and how those services could be integrated in a more co-ordinated way through the night and over the weekend—we know that that is a problem in terms of transporting patients to hospital. To refer back to the eight-minute target: yes, we need a target that assesses not just the speed of the service but its effectiveness, but, in moving to broader targets, I hope that we will be able to look at analysing and carrying forward targets and historic data in order to be able to compare them with what we hope to see in future.

16:45

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I agree with Elin Jones, in that I, too, would have liked to have seen more information about the co-ordination of the fire and ambulance services in the McClelland report. One of my constituents had a heart attack recently and, although he got early paramedic attention, he had to wait half an hour for an ambulance to arrive, which is quite a long wait both for the patient who has had a heart attack and the relative with them. What concerns me most about this incident is that, after the half-hour wait, not just one ambulance, but two ambulances, turned up. I am still puzzled as to how that could have happened. Why is it that the ambulance service's communications system is not good enough to know where its vehicles are and which is the best one to deploy to urgent incidents? While the extra £9.5 million for upgrading ambulance vehicles announced by the Government today is very welcome, I am concerned that these new ambulances may be bolted on to an out-of-date communications system, which prevents Welsh ambulance resources from being deployed effectively.

Rwyf yn cytuno ag Elin Jones, yn y ffaith y byddwn innau, hefyd, wedi hoffi gweld mwy o wybodaeth am gydlynw'r gwasanaethau tân ac ambiwlans yn adroddiad McClelland. Cafodd un o'm hetholwyr drawiad ar y galon yn ddiweddar ac, er ei fod wedi cael sylw buan gan y parafeddygon, bu'n rhaid iddo aros hanner awr i ambiwlans gyrraedd, sy'n gyfnod eithaf hir i glaf sydd wedi cael trawiad ar y galon a'r berthynas oedd gyda nhw. Yr hyn sy'n achosi'r pryder mwyaf i mi am y digwyddiad hwn yw bod dau ambiwlans, nid un, wedi cyrraedd ar ôl yr hanner awr o aros. Rwy'n dal i fethu â deall sut y gallai fod wedi digwydd. Pam nad yw system gyfathrebu'r gwasanaeth ambiwlans yn ddigon da i wybod lle mae'r cerbydau a pha un yw'r un gorau i'w ddefnyddio ar gyfer digwyddiadau brys? Er bod croeso mawr i'r £9.5 miliwn ychwanegol ar gyfer uwchraddio cerbydau ambiwlans a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth heddiw, rwyf yn pryderu y gall yr ambiwlansys newydd hyn gael eu bolltio ar system gyfathrebu hen ffaswn, sy'n atal adnoddau ambiwlans Cymru rhag cael eu defnyddio'n effeithiol.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The ambulance service's information, communication and technology strategy for 2009 to 2014 states that, in 2009, the trust did not have mobile data, automatic vehicle location systems or satellite navigation systems across all three regions. Satellite navigation was fitted to some vehicles, but that was a stand-alone capacity within the south-east region. That was in 2009. Elsewhere, I have managed to glean that a trial of giving satellite navigation systems to first responders in north Wales was deemed to be very successful that same year. Four years later, has this technology—which is available to and used by a large number of the general public—not been rolled out across the Welsh ambulance service? That would be really useful to know.

The McClelland report that we have before us mentions the Lightfoot review, also published in 2009, which suggested that the majority of ambulance services in England had already implemented, or were planning to implement, modern, computer-aided dispatch systems known as automatic vehicle location systems. However, the Welsh Ambulance Services NHS Trust was operating an out-dated system. From this report, I surmise that there has been no progress on this crucial capital development since the Lightfoot review was published. If so, why is that? What the Lightfoot review highlighted was that the absence of a suitable radio system in Wales has prevented the introduction of automatic location vehicle systems, which means that it is only possible to identify where a vehicle is by contacting the crew by phone and asking the crew to confirm its location. As the performance of emergency ambulance services is counted in seconds, rather than minutes, the delays involved in implementing automatic vehicle location systems over the last four years are highly significant. As I understand that the fire service has an automatic vehicle location system, presumably the absence of a suitable radio system in Wales has been resolved—or has it? If so, what does that mean for implementing an automatic vehicle location system across the ambulance service?

I also wonder why category 1 responders, including the fire service, are not all using the same communications system. Leaving aside civil emergencies, when individuals face an emergency, they all call the same number: 999. So, I would want to ensure that there was an integrated system, because that is the way that the public sees it. While I see that many other causes for concern are highlighted in the McClelland review—confused commissioning arrangements, a lack of transparency and accountability and some significant operational performance management issues—I feel that getting the communications right is vital to ensure that the resources that we have are deployed effectively and save as many lives as possible. The delays involved in my constituent's case could have cost him his life. Happily, they did not, but suffice it to say that, on arrival at hospital, he was whizzed straight into the operating theatre, so he was saved by the skill and professionalism of NHS staff, including the ambulance service. However, delays in making strategic decisions of this kind could lead to a less happy outcome for the next person. I would therefore very much welcome some clarification from the Minister on the state of play of our communications system and whether it is up to speed with the English system.

Mae strategaeth gwybodaeth, cyfathrebu a thechnoleg y gwasanaeth ambiwlans, ar gyfer 2009-2014 yn nodi nad oedd gan yr ymddiriedolaeth, yn 2009, ddata symudol, systemau awtomatig ar gyfer lleoli cerbydau na systemau llywio lloeren ar draws y tri rhanbarth. Roedd systemau llywio â lloeren wedi'u gosod ar rai cerbydau, ond gallu annibynnol oedd hynny o fewn rhanbarth y de-ddwyrain. Roedd hynny yn 2009. Mewn man arall, rwyf wedi llwyddo i gasglu bod prawf lle y rhoddwyd systemau llywio lloeren i ymatebwyr cyntaf yng ngogledd Cymru wedi'i farnu'n llwyddiant mawr yn yr un flwyddyn. Bedair blynedd yn ddiweddarach, a yw'r dechnoleg hon—sydd ar gael ac yn cael ei defnyddio gan nifer fawr o'r cyhoedd yn gyffredinol—wedi ei chyflwyno ar draws gwasanaeth ambiwlans Cymru? Byddai'n ddefnyddiol iawn gwybod hynny.

Mae adroddiad McClelland sydd gennym ger ein bron yn sôn am adolygiad Lightfoot, a gyhoeddwyd hefyd yn 2009. Roedd hwnnw'n awgrymu bod y rhan fwyaf o wasanaethau ambiwlans yn Lloegr eisoes wedi gweithredu, neu'n bwriadu gweithredu, systemau anfon modern, cyfrifiadurol a elwir yn systemau lleoli cerbydau awtomatig. Fodd bynnag, roedd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn gweithredu system hen ffaswn. O'r adroddiad hwn, rwyf yn dod i'r casgliad na symudwyd ymlaen â'r datblygiad cyfalaf allweddol hwn ers i adolygiad Lightfoot gael ei gyhoeddi. Os felly, pam hynny? Yr hyn a amlygodd adolygiad Lightfoot oedd na fu modd cyflwyno systemau awtomatig ar gyfer lleoli cerbydau oherwydd diffyg system radio addas yng Nghymru. Mae hyn yn golygu mai'r unig ffordd o nodi lle mae cerbyd yw trwy gysylltu â'r criw dros y ffôn a gofyn i'r criw gadarnhau ei leoliad. Gan fod perfformiad gwasanaethau ambiwlans brys yn cael ei gyfrif mewn eiliadau, yn hytrach na munudau, mae'r oedi cyn gweithredu systemau awtomatig ar gyfer lleoli cerbydau dros y pedair blynedd diwethaf yn arwyddocaol iawn. Gan fy mod yn deall bod gan y gwasanaeth tân system awtomatig ar gyfer lleoli cerbydau, mae'n debyg bod diffyg system radio addas yng Nghymru wedi cael ei ddatrys—neu a ydyw? Os felly, beth mae hynny'n ei olygu ar gyfer gweithredu system awtomatig ar gyfer lleoli cerbydau ar draws y gwasanaeth ambiwlans?

Rwyf hefyd yn meddwl tybed pam nad yw ymatebwyr categori 1, gan gynnwys y gwasanaeth tân, i gyd yn defnyddio'r un system gyfathrebu. Ar wahân i argyfyngau sifil, pan fydd unigolion yn wynebu argyfwng, maent i gyd yn ffonio'r un rhif: 999. Felly, byddwn am sicrhau y ceir system integredig, oherwydd mai dyna sut y mae'r cyhoedd yn ei gweld. Er fy mod yn gweld bod llawer o achosion pryder eraill yn cael eu hamlygu yn adolygiad McClelland—trefniadau comisiynu drystlyd, diffyg tryloywder ac atebolrwydd a rhai materion arwyddocaol o ran rheoli perfformiad gweithredol—rwyf yn teimlo ei bod yn hanfodol cael trefniadau cyfathrebu cywir er mwyn sicrhau bod yr adnoddau sydd gennym yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn arbed cymaint o fywydau â phosibl. Gallai'r oedi yn achos fy etholwr fod wedi costio ei fywyd iddo. Yn ffordus, ni ddigwyddodd hynny, ond digon yw dweud y cafodd ei ruthro yn syth i mewn i'r theatr lawdriniaeth ar ôl cyrraedd yr ysbyty, felly cafodd ei achub gan sgiliau a phroffesiynoldeb staff y GIG, gan gynnwys y gwasanaeth ambiwlans. Fodd bynnag, gallai oedi wrth wneud penderfyniadau strategol o'r math hwn arwain at ganlyniad llai hapus i'r person nesaf. Byddwn felly yn croesawu'n fawr cael rhywfaint o eglurhad gan y Gweinidog ynglŷn â sefyllfa ein system gyfathrebu ac a yw yr un mor ddiweddar â system Lloegr.

16:50

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I start by joining the Minister in his tributes to the staff. Many of the key elements of Professor McClelland's review have already been highlighted by speakers, so I wish to focus on two that I feel are critical to the service's future: recommendations 6 and 7—or, perhaps more likely, proposition 5 within the Minister's comments. I feel that these two central elements are intimately connected.

Turning first to workforce planning in recommendation 6, we all recognise that the paramedics on the front line are our most important assets. They are the ones who, day in, day out, make some of the most critical life or death decisions. It is vital that, as we recognise their value as highly qualified individuals, we invest in improving existing skills and build on their expertise on the ground. Kirsty Williams has already mentioned that point. In this time of change, with the reconfiguration of NHS services, I agree with Professor McClelland that, as she emphasises, such changes must be planned as part of a whole-system vision for unscheduled care services. Consequently, the paramedics responding to emergency calls must be part of that planning, and consideration should be given to their having the appropriate higher-level clinical skills to stabilise patients quickly and convey them to the nearest facility.

We are seeing that to some extent today with the use of advanced paramedic practitioners. Again, Kirsty Williams has already mentioned that. Four of them are in post in my area after acute medical intake was withdrawn at Neath Port Talbot Hospital, and changes had to be addressed. Those paramedics are making decisions now.

Dechreuaf drwy ymuno â'r Gweinidog yn ei deyrngedau i'r staff. Mae llawer o elfennau allweddol adolygiad yr Athro McClelland eisoes wedi cael eu hamlygu gan siaradwyr, felly rwyf am ganolbwyntio ar ddau y teimlaf sy'n hollbwysig i ddyfodol y gwasanaeth: argymhellion 6 a 7—neu, yn fwy tebygol o bosibl, cynnig 5 o fewn sylwadau'r Gweinidog. Rwyf yn teimlo bod cysylltiad agos rhwng y ddwy elfen ganolog hyn.

Gan droi yn gyntaf at gynllunio gweithlu yn argymhelliad 6, rydym i gyd yn cydnabod mai'r parafeddygon ar y rheng flaen yw ein hasedau mwyaf pwysig. Nhw yw'r rhai sydd, ddydd ar ôl dydd, yn gwneud rhai o'r penderfyniadau byw neu farw mwyaf critigol. Mae'n hanfodol, wrth inni gydnabod eu gwerth fel unigolion â chymwysterau uchel, ein bod yn buddsoddi mewn gwella sgiliau presennol ac adeiladu ar eu harbenigedd ar lawr gwlad. Mae Kirsty Williams eisoes wedi sôn am y pwynt hwnnw. Yn y cyfnod hwn o newid, gyda gwasanaethau'r GIG yn cael eu had-drefnu, rwyf yn cytuno â'r Athro McClelland, fel y mae hi'n pwysleisio, bod yn rhaid i newidiadau o'r fath gael eu cynllunio fel rhan o weledigaeth system-gyfan ar gyfer gwasanaethau gofal heb ei drefnu. O ganlyniad, mae'n rhaid i barafeddygon sy'n ymateb i alwadau brys fod yn rhan o'r cynllunio hwnnw, a dylid ystyried yr angen iddynt feddu ar y sgiliau clinigol priodol ar lefel uwch i sefydlogi cleifion yn gyflym a'u cludo i'r cyfleuster agosaf.

Rydym yn gweld hynny i ryw raddau heddiw gyda'r defnydd o ymarferwyr parafeddygol uwch. Eto, mae Kirsty Williams eisoes wedi sôn am hynny. Mae pedwar ohonynt mewn swydd yn fy ardal i ar ôl rhoi'r gorau i dderbyn achosion meddygol aciwt yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, a gorfod mynd i'r afael â newidiadau. Mae'r parafeddygon hynny'n gwneud penderfyniadau yn awr.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:52

**Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I appreciate what you are saying about the new provision that has been put in in our area, but do you not agree that removing those acute medical services is why we now have those queues at Morriston Hospital, and is why we need to put more investment into the ambulance service? We simply cannot go on as we are at the moment.

Rwyf yn sylweddoli'r hyn yr ydych yn ei ddweud am y ddarpariaeth newydd sydd wedi cael ei chyflwyno yn ein hardal ni, ond onid ydych yn cytuno mai'r ffaith y cafwyd gwared ar y gwasanaethau meddygol aciwt hynny yw'r rheswm pam fod gennym bellach giwiau yn Ysbyty Treforys, ac mai dyna pam mae angen i ni fuddsoddi mwy yn y gwasanaeth ambiwlans? Ni allwn barhau fel yr ydym ar hyn o bryd.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

16:52

**David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Partly; I do not think what you said is the full answer; it is the easy answer. It is a lot more complicated than that, as 85% of the patients were going to Morriston previously, with a smaller proportion going to Neath Port Talbot. So, it is only 'partly'.

Yn rhannol; nid wyf yn credu mai'r hyn a ddywedwch yw'r ateb llawn; dyna'r ateb hawdd. Mae'n llawer mwy cymhleth na hynny, gan fod 85% o'r cleifion yn mynd i Dreforys yn flaenorol, gyda chyfran lai yn mynd i Gastell-nedd Port Talbot. Felly, dim ond 'yn rhannol'.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

We must also remember that for some patients with complex, life-threatening conditions, it may well be the case that the best treatment available is not located at the nearest medical centre. The case of Fabrice Muamba is a clear example—he bypassed two hospitals to get to a heart-specialist hospital. There are clearly considerations there, where we need to focus on stabilising patients in order to move them to a specialist area. In those situations, paramedics need the right level of clinical skills and judgment to provide the right treatment at the scene, stabilising patients to achieve the best outcome for them. That is what we need to focus on. Achieving that will take time. For example, upskilling a small percentage of paramedics to advanced level could, depending on their educational starting point, take years. That lead-in time needs to be recognised, costed and financed—something that I believe has not been considered properly in the past.

At the same time, the implication for staffing levels must be assessed to ensure that cover is maintained while training is undertaken, without over-burdening paramedics. To provide a more complete service the rest of the paramedic workforce will then need upskilling to assess-and-review level, to enable them to use the available pathways appropriately. Similar costing and timing issues will apply here. There is a long lead-in time.

This approach will place emphasis upon finding the most appropriate care pathway. That is recommendation 7, so you can see how they are linked. This may not always involve a journey to an accident and emergency department. We should be looking to capitalise on the primary care services provided by general practitioners and community pharmacies, which are already situated in communities, alongside NHS Direct, appropriate out-of-hours provision, and social care services provided by local authorities. It is important to raise public awareness of this issue—I think that is where we all, as politicians, fail—to ensure that individuals are aware of the most appropriate pathways. However, patients' use of such alternatives depends on those services being available easily and readily. We need to provide a wider range of options to alleviate the stress on other emergency services.

Rhaid inni gofio hefyd ei bod yn bosibl iawn nad yw'r driniaeth orau sydd ar gael wedi ei lleoli yn y ganolfan feddygol agosaf at rai cleifion â chyflyrau cymhleth, sy'n bygwth bywyd. Mae achos Fabrice Muamba yn enghraifft eglur—aeth heibio i ddau ysbyty i fynd i ysbyty calon arbenigol. Mae'n amlwg bod ystyriaethau yno, lle y mae angen i ni ganolbwyntio ar sefydlogi cleifion er mwyn eu symud i fan arbenigol. Yn y sefyllfaoedd hynny, mae ar barafeddygon angen y lefel gywir o sgiliau clinigol a doethineb barn i ddarparu'r driniaeth gywir yn y fan a'r lle, gan sefydlogi cleifion i sicrhau'r canlyniad gorau ar eu cyfer. Dyna'r hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno. Bydd yn cymryd amser i gyflawni hynny. Er enghraifft, gallai gymryd blynyddoedd i uwchsgilio canran fechan o barafeddygon i lefel uwch, yn dibynnu ar eu man cychwyn addysgol. Mae angen i'r amser arweiniol hwn gael ei gydnabod, ei gostio a'i gyllido—rhywbeth nad yw wedi cael ei ystyried yn briodol yn y gorffennol, rwyf yn credu.

Ar yr un pryd, mae'n rhaid i'r goblygiadau ar gyfer lefelau staffio gael eu hasesu i sicrhau bod digon o bobl ar gael i ymdopi â'r gwaith tra bod hyfforddiant yn cael ei ddilyn, heb roi gormod o faich ar barafeddygon. Wedi hynny, er mwyn darparu gwasanaeth mwy cyflawn, bydd angen uwchsgilio gweddill y gweithlu parafeddygon at lefel asesu ac adolygu, i'w galluogi i ddefnyddio'r llwybrau sydd ar gael yn briodol. Bydd materion costio ac amseru tebyg yn berthnasol yma. Mae'r amser arweiniol yn hir.

Bydd y dull hwn yn rhoi pwyslais ar ddod o hyd i'r llwybr gofal mwyaf priodol. Dyna yw argymhelliad 7, felly gallwch weld sut y maent yn gysylltiedig. Efallai na fydd hyn bob amser yn cynnwys siwrnai i adran damweiniau ac achosion brys. Dylem fod yn ceisio manteisio ar y gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan feddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol, sydd eisoes wedi'u lleoli mewn cymunedau, ochr yn ochr â Galw Iechyd Cymru, darpariaeth briodol y tu allan i oriau arferol, a gwasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan awdurdodau lleol. Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater hwn—credaf mai dyna lle'r ydym i gyd, fel gwleidyddion, yn methu—i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o'r llwybrau mwyaf priodol. Fodd bynnag, mae angen i'r gwasanaethau hynny fod ar gael yn rhwydd er mwyn i gleifion eu defnyddio. Mae angen i ni ddarparu ystod ehangach o opsiynau i leddfur straeon ar y gwasanaethau brys eraill.

16:54

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad Biography](#)

The report makes a recommendation with regard to the implementation of the 111 number. Would you agree that there is very little evidence to suggest that telephone triaging does anything other than increase the number of calls on ambulance resources, rather than decreasing them, and that we should really look at whether other forms of triage are more appropriate?

Mae'r adroddiad yn gwneud argymhelliad o ran rhoi'r rhif 111 ar waith. A fydddech yn cytuno mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd i awgrymu nad yw brysbennu ar y ffôn yn gwneud dim mwy na chynyddu nifer y galwadau ar adnoddau ambiwlans, yn hytrach na'u gostwng, ac y dylem yn wir edrych a yw mathau eraill o frysbennu yn fwy priodol?

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

16:55

**David Rees** [Bywgraffiad Biography](#)

Clearly, we have seen problems in England with the 111 number. Having clinicians to answer 111 calls might be a better solution, but then there is the question of resource in providing those clinicians.

Yn amlwg, rydym wedi gweld problemau yn Lloegr gyda'r rhif 111. Fe allai fod yn ateb gwell i gael clinigwyr i ateb galwadau 111, ond yna mae'r cwestiwn yn codi ynglŷn ag adnoddau i ddarparu'r clinigwyr hynny.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

There is a point to be made here. Remember, if you are upskilling, please involve the Health and Care Professions Council, because it needs to give its approval to ensure that the competencies are at the correct levels.

To conclude, my final point concerns the review's recommendations on developing appropriate targets. In particular, I think that the eight-minute target is inappropriate, and that we should look more closely at outcomes than response times, and they should be included in the analysis. Response times can be part of the analysis of the outcome, but it is the outcome that is critical. At the moment, if an ambulance arrives within seven minutes and the patient does not survive, it is a success. However, if it arrives within nine minutes and the patient survives, it is a fail. Surely that is not right. We need to address patient outcomes as the critical aspect. However, the reasons behind the consistent failure to hit the existing targets are also vital.

Minister, I appreciate the statement you made two weeks ago and the appointment of Dr Chris Jones to look at emergency care provision within Wales—

Mae pwynt i'w wneud yma. Cofiwch, os ydych yn uwchsgilio, cynhwyswch y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal os gwelwch yn dda, oherwydd bod angen iddo roi ei gymeradwyaeth i sicrhau bod y cymwyseddau ar y lefelau cywir.

I gloi, mae fy mhwynt olaf yn ymwneud ag argymhellion yr adolygiad ar ddatblygu targedau priodol. Yn benodol, rwyf yn credu bod y targed o wyth munud yn amhriodol, ac y dylem edrych yn agosach ar ganlyniadau nag amseroedd ymateb, ac y dylid cynnwys y rhain yn y dadansoddiad. Gall amseroedd ymateb fod yn rhan o'r dadansoddiad o'r canlyniad, ond y canlyniad sy'n bwysig. Ar hyn o bryd, os bydd ambiwlans yn cyrraedd o fewn saith munud ac nad yw'r claf yn byw, mae'n llwyddiant. Fodd bynnag, os bydd yn cyrraedd o fewn naw munud a bod y claf yn byw, mae'n fethiant. Siawns nad yw hynny'n iawn. Mae angen i ni fynd i'r afael â chanlyniadau i gleifion fel yr agwedd hollbwysig. Fodd bynnag, mae'r rhesymau y tu ôl i'r methiant cyson i gyrraedd y targedau presennol yn hanfodol hefyd.

Weinidog, rwyf yn gwerthfawrogi'r datganiad a wnaethoch bythefnos yn ôl a phenodiad Dr Chris Jones i edrych ar y ddarpariaeth gofal brys yng Nghymru—

16:56

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finish now. I have given you injury time.

Gorffennwch yn awr. Rwyf wedi rhoi amser anafiadau i chi.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

16:56

## **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel pawb arall, rwy'n croesawu'n fawr iawn yr adroddiad hwn, yn croesawu'r ffordd y mae'r Gweinidog wedi ceisio bod yn gynhwysfawr wrth ymateb i'r adroddiad ac yn croesawu'r cyfraniadau gan y pleidiau eraill.

Like everyone else, I very much welcome this report, the way in which the Minister has tried to be comprehensive in responding to the report, and the contributions from the other parties.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Fodd bynnag, fel rhywun sydd wedi bod yma am 14 mlynedd, rwyf wedi clywed yr hyn rwyf wedi'i glywed yn y ddaol y prynhawn yma dro ar ôl tro. Bùm yn rhan o adolygiad pan oeddwn ar y pwyllgor iechyd fel llefarydd Plaid Cymru ac yna fel Cadeirydd. Mae rhywun fel Kirsty Williams, sydd wedi bod ar y pwyllgor iechyd am 14 mlynedd, wedi bod drwy'r broses hon dro ar ôl tro.

However, as someone who has been here for 14 years, I have heard what I have heard in this debate this afternoon time after time. I was part of a review when I was on the health committee as the Plaid Cymru spokesperson and then as Chair. Someone like Kirsty Williams, who has been on the health committee for 14 years, has been through process time after time.

Mae hi'n annerbyniol ein bod yn canfod ein hunain, unwaith eto, yn y sefyllfa hon. Sylwais ar un paragraff yn yr adroddiad lle mae'r Athro McClelland yn sôn am y gwasanaeth ambiwlans yn darparu'r gwasanaeth hwn â phartneriaid. Mae'n cyfeirio at y drefniadaeth honno fel trefniadaeth sylfaenol wallus—'fundamentally flawed' yw'r geiriau y mae hi'n ei ddefnyddio.

It is unacceptable that we find ourselves, once again, in this situation. I noted one paragraph in the report where Professor McClelland talks about the ambulance service providing this service with partners. She refers to that arrangement as one that is 'fundamentally flawed'—those are the words that she uses.

Dywedodd y Gweinidog wrth gyflwyno'r ddaol ei bod yn bwysig gweld y gwasanaeth ambiwlans fel gwasanaeth clinigol yn hytrach na gwasanaeth cludiant. Rwy'n tybio ei fod yn golygu 'ac nid fel gwasanaeth cludiant yn unig', gan ei fod yn wasanaeth cludiant hynod o bwysig. Cododd Bethan Jenkins bwynt ynglŷn â pholisi'r Llywodraeth o ganoli gwasanaethau. Nid wyf yn mynd i fynegi barn ar hynny, ond, os ydych yn canoli gwasanaethau, yr ydych, o reidrwydd, yn gorfod cludo pobl ymhellach, bydd llai o adrannau damweiniau ac achosion brys i fynd iddynt, a bydd problemau'n codi yn sgîl hynny.

The Minister said in opening this debate that it is important to see the ambulance service as a clinical service rather than a transport service. I assume that he means 'and not as a transport service alone', because it is a very important transport service. Bethan Jenkins raised a point about the Government's policy of centralising services. I am not going to express an opinion on that, but, if you are centralising services, then, necessarily, you are going to transport people further, there will be fewer accident and emergency departments to go to, and problems will arise in the wake of that.



Mae gennyf, fel pob Aelod yma, nifer o achosion yn fy etholaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Nid oes yr un ohonom yn beirniadu'r staff. Mae'r staff yn gweithio'n eithriadol o galed i geisio cyflawni'r gwasanaeth, ond mae eu gwaith yn cael ei dansellio gan y drefniadaeth. Roedd yr ombwdsmon yn hynod feirniadol ynghylch un achos, a oedd yn ymwneud â marwolaeth tad un o'm hetholwyr.

Ychydig wythnosau'n ôl, cefais etholwr arall yn cyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd i'w fam 96 oed. Roedd y meddyg wedi ffonio am ambiwlans—roedd y penderfyniad clinigol wedi'i wneud gan y meddyg i alw am wasanaeth brys gan ambiwlans—ond bu'n rhaid aros am oriau maith i'r ambiwlans gyraedd ac yna gludo'r claf 25 milltir yn unig i Ysbyty Glangwili. Yna, yn y fan honno, bu'n rhaid aros am oriau eto. Yn yr ysbyty, roedd cleifion yn aros yn yr adran frys am rhwng pedair awr a chwe awr. Roedd hynny'n golygu bod nifer helaeth o gerbydau ambiwlans yn aros am yr un cyfnod yn y fan honno, ac yn methu â mynd allan i ymateb i alwadau eraill.

Mae'n rhaid inni gael cydbwysedd rhwng y gwasanaeth clinigol a'r gwasanaeth cludiant. Yn y lle cyntaf, rhaid sicrhau bod cerbydau ar gael i gludo cleifion. Yna, rhaid i'r cleifion gael asesiad clinigol iawn ac, ar ôl iddynt gael eu cludo i'r ysbyty, rhaid i'r ambiwlans gael ei ryddhau fel ei fod yn gallu mynd allan ac ateb galwadau pellach. Un enghraifft yr wyf wedi'i rhoi i chi y prynhawn yma, Weinidog, ond gallaf roi enghreifftiau eraill; gall Aelodau eraill o'r Cynulliad roi enghreifftiau eraill i chi lle mae'r gwasanaeth wedi bod yn araf, a hyd yn oed wedi i'r gwasanaeth gyrraedd bod oedi am gyfnod hir yn yr ysbyty.

Rydym yn croesawu'r adroddiad hwn. Rydym yn croesawu'r ffaith eich bod yn derbyn y cyfrifoldeb ac yn ymateb yn gadarnhaol iddo. Fodd bynnag, mae'n rhaid mai hwn yw'r tro olaf yr ydym yn mynd yn ôl at y broblem sylfaenol hon. Mae'n rhaid inni gael atebion sylfaenol i'r broblem sy'n wynebu'r gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru, er mwyn y cleifion sy'n dibynnu arno ac er mwyn y staff. Rwyf i, fel Aelodau eraill siŵr o fod, yn wynebu staff sydd â seithugrwydd llwyr oherwydd eu bod yn methu â darparu'r gwasanaeth y maent am ei gynnig.

Like every other Member here, I have a number of constituency cases involving the service. Not one of us here is criticising the staff. The staff work exceptionally hard to try to deliver the service, but their work is being undermined by the arrangements. The ombudsman was very critical in relation to one case, which involved the death of the father of one of my constituents.

A few weeks ago, I had another constituent referring to what had happened to his 96-year-old mother. The doctor had phoned for an ambulance—the clinical decision had been taken by the doctor to call for an emergency service via an ambulance—but they had to wait many hours for the ambulance to arrive and then to transport the patient 25 miles only to Glangwili Hospital. There, again, they had to wait for hours. In the hospital, patients were waiting in the emergency department for between four and six hours. That meant that there was a great number of ambulance vehicles waiting for the same period there, unable to go out to respond to other calls.

We have to have a balance between the clinical service and the transport service. In the first place, we must ensure that vehicles are available to transport patients. Then, those patients must have a proper clinical assessment and, having been transported to hospital, the ambulance must be released so that it can respond to further calls. I have given you one example this afternoon, Minister, but I could give further examples; other Assembly Members could give you further examples of where the service has been slow and, even when the service has arrived, of cases where there have been long delays in the hospital.

We welcome this report. We welcome the fact that you accept the responsibility and respond positively to it. However, this must be the last time that we revisit this fundamental problem. We must have fundamental answers to the problem facing the ambulance service in Wales, for the benefit of the patients who depend on it and for the staff. Along with other Members, I am sure, I have to face staff who are totally frustrated at being unable to provide the service that they want to offer.

17:01

## **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I, too, welcome the report and your particular approach to the issues relating to the ambulance service. As I said in a previous debate, we are moving to the last-chance saloon, and we cannot continue with review after review. We must now resolve some of the ingrained institutional and organisational failings in the ambulance service.

My particular concern has been the consistent poor performance in my constituency and, in fact, most of the Valleys areas. These are some of the poorest areas in Wales, which have the greatest dependence on our health and ambulance services.

The report identifies a number of structural failings. Of considerable importance is the conclusion that there is a fundamental problem with the current accountability and governance arrangements for the service in Wales, which the review describes as being multiple, complex and lacking in clarity and transparency.

Weinidog, rwyf innau, hefyd, yn croesawu'r adroddiad a'ch agwedd benodol tuag at y materion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ambiwlans. Fel y dywedais mewn dadl flaenorol, rydym yn symud at y cyfle olaf, ac ni allwn barhau i gael adolygiad ar ôl yr adolygiad. Mae'n rhaid i ni bellach ddatrys rhai o'r methiannau sefydliadol a threfniadol sy'n rhan gynhenid o'r gwasanaeth ambiwlans.

Fy mhryder penodol fu'r perfformiad gwael cyson yn fy etholaeth i ac, yn wir, yn y rhan fwyaf o ardaloedd y Cymoedd. Mae'r rhain yn rhai o'r ardaloedd tlotaf yng Nghymru, sy'n dibynnu fwyaf ar ein gwasanaethau ambiwlans ac iechyd.

Mae'r adroddiad yn nodi nifer o fethiannau strwythurol. O bwys sylweddol yw'r casgliad bod problem sylfaenol gyda'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu presennol ar gyfer y gwasanaeth yng Nghymru. Mae'r adolygiad yn eu disgrifio fel rhai lluosog a chymhleth nad ydynt yn ddigon eglur na thryloyw.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Over the past couple of months, I have met with quite a number of staff in the Welsh Ambulance Services NHS Trust at management and paramedic levels. The consistent message is that the issue is not money, but organisation, leadership and working in partnership. What has shocked me is the apparent culture of bullying and fear in the service. It has been obvious to me that some staff are afraid to talk about the service, or if they do talk about it, it is under the strictest conditions of confidentiality. It is clear that any organisational business that does not, in practice, value its most important resource—its staff—is bound to fail. Partnership working has clearly failed, but it is essential that it is rebuilt, because this has to be the basis of the future progress of the service.

The report also identifies another issue that has become clear to me during my discussions, namely the effective use of resources. The report concludes that it is

‘difficult to establish whether current funding is sufficient or used as effectively and efficiently as it might be.’

It is of considerable concern that, in her report, Professor McClelland is unable to make more sense of the efficiency and effectiveness of the service’s resources and finance. This takes us back to the issue of governance and transparency, and is an area where there is a clear need for further review, analysis and action.

The recommendation that the emergency service should be organised and treated as a clinical service, and that non-emergency services should be transferred to local health boards would appear to be a natural development, particularly in the light of NHS configuration reviews that are currently under way. The need for robust workforce planning and greater levels of autonomy and clinical decision making goes hand in hand with this. In particular, I welcome the recommendation of a more intelligent use of targets and data, and the need for upskilling. I wonder, Minister, if you would give further thought to some of the comments and information in the McClelland report, particularly referring to the Scottish example. Do you envisage there being the possibility of a national ambulance academy and the development of a Bachelor of Science degree, or some similar qualification, in paramedic practice? Do you think that there are benefits to the creation of our own Welsh ambulance academy and qualifications?

It is also, in my view, essential that we—[Interruption.]

Dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi cwrdd â chryn nifer o staff yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, yn rheolwyr a pharafeddygon. Y neges gyson yw mai trefniadaeth, arweiniad a gwaith partneriaeth, yn hytrach nag arian, yw'r broblem. Yr hyn sydd wedi fy synnu yw'r diwylliant amlwg o fwlio ac ofn yn y gwasanaeth. Mae wedi bod yn amlwg i mi fod rhai staff yn ofni siarad am y gwasanaeth, neu os ydynt yn siarad am y peth, maent yn gwneud hynny dan yr amodau cyfrinachedd llymaf. Mae'n amlwg y bydd unrhyw fusnes sefydliadol nad yw, yn ymarferol, yn gwerthfawrogi ei adnoddau mwyaf pwysig—ei staff—yn sicr o fethu. Mae gweithio mewn partneriaeth yn amlwg wedi methu, ond mae'n hanfodol ei fod yn cael ei ail-adeiladu, gan fod yn rhaid seilio datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol ar hynny.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi mater arall sydd wedi dod yn amlwg i mi yn ystod fy nhrafodaethau, sef y defnydd effeithiol o adnoddau. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad ei bod yn

anodd sefydlu a yw'r cyllid presennol yn ddigonol neu'n cael ei ddefnyddio mor effeithiol ac effeithlon ag y gallai fod.

Mae'n destun pryder sylweddol nad yw'r Athro McClelland, yn ei hadroddiad, yn gallu gwneud mwy o synnwyr o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd adnoddau a chyllid y gwasanaeth. Mae hyn yn mynd â ni'n ôl at y mater o lywodraethu a thryloywder, ac mae'n faes lle mae angen clir am ragor o adolygu, dadansoddi a gweithredu.

Byddai'r argymhelliad y dylai'r gwasanaeth brys gael ei drefnu a'i drin fel gwasanaeth clinigol, ac y dylai gwasanaethau nad ydynt yn rhai argyfwng gael eu trosglwyddo i fyrdau iechyd lleol yn ymddangos yn ddatblygiad naturiol, yn enwedig yng ngoleuni'r adolygiadau sydd ar waith ar hyn o bryd ynglŷn ag ad-drefnu'r GIG. Mae'r angen am broses gadarn o gynllunio'r gweithlu a lefelau uwch o ymreolaeth a gallu i wneud penderfyniadau clinigol yn mynd law yn llaw â hyn. Yn benodol, rwyf yn croesawu'r argymhelliad ynglŷn â gwneud defnydd mwy deallus o dargedau a data, a'r angen i uwchsgilio. Tybed, Weinidog, a fydddech yn rhoi rhagor o ystyriaeth i rai o'r sylwadau a'r wybodaeth yn adroddiad McClelland, gan gyfeirio'n arbennig at enghraifft yr Alban. A ydych yn rhagweld y bydd posibilrwydd o sefydlu academi ambiwlans cenedlaethol a datblygu gradd Baglor mewn Gwyddoniaeth, neu ryw gymhwyster tebyg, mewn arfer parafeddygol? A ydych yn credu bod manteision i greu ein hacademi ambiwlans Cymru a'n cymwysterau ein hunain?

Mae hefyd, yn fy marn i, yn hanfodol ein bod yn—[Torri ar draws.]

17:04

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful to you for taking the intervention. I appreciate what you say about the suggestion that there could be an academy. However, do you think that it is important that we have training centres in north and south Wales, so that people who want to train in this work in different parts of the country are not disadvantaged in furthering their careers?

Rwyf yn ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad. Rwyf yn gwerthfawrogi'r hyn a ddywedwch am yr awgrym y gellid cael academi. Fodd bynnag, a ydych yn credu ei bod yn bwysig bod gennym ganolfannau hyfforddi yng ngogledd a de Cymru, fel nad yw pobl sydd am hyfforddi yn y gwaith hwn mewn gwahanol rannau o'r wlad o dan anfantais o ran hybu eu gyrfaoedd?

17:05

**Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I think that if the idea of an academy is practical and would deal with the upskilling issues, it does not matter where it is located. However, it has to be accessible, and it would need to have a clear programme and clear skills objectives to develop the ambulance service as a clinical service. What I am asking is for the Minister's views on that, because it is clearly something that needs much further thought, but it was an interesting part of the report.

Os yw'r syniad o academi yn ymarferol ac yn ymdrin â'r materion uwchsgilio, nid oes gwahaniaeth lle mae wedi'i lleoli yn fy marn i. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi fod yn hygyrch, a byddai angen iddi gael rhaglen glir ac amcanion clir o ran sgiliau i ddatblygu'r gwasanaeth ambiwlans fel gwasanaeth clinigol. Yr hyn yr wyf yn gofyn amdano yw barn y Gweinidog ar hynny, oherwydd ei fod yn amlwg yn rhywbeth sydd angen mwy o feddwl, ond yr oedd yn rhan ddiddorol o'r adroddiad.

The more intelligent use of targets and data go hand in hand with that, with the upskilling, and with the increasing autonomy and independence of the workforce itself. It is clear that Professor McClelland does not believe that there is a magic bullet; nor is there one. Minister, the importance of this debate is that it goes hand in hand with the success of the reconfiguration that is taking place. Clearly, you have only scratched the surface—as does the report—given that what is going to be important over the coming months is the analysis from the report and the developments that you will be announcing to the Assembly.

Mae'r defnydd mwy deallus o dargedau a data yn mynd law yn llaw â hynny, gyda'r uwchsgilio, a gydag ymreolaeth ac annibyniaeth cynyddol y gweithlu ei hun. Mae'n amlwg nad yw'r Athro McClelland yn credu bod bwled hud; ac nid oes un. Weinidog, pwysigrwydd y ddadl hon yw ei bod yn mynd law yn llaw â llwyddiant yr ad-drefnu sy'n digwydd. Yn amlwg, nid ydych ond wedi crafu'r wyneb—fel y mae'r adroddiad—o ystyried mai'r hyn sy'n mynd i fod yn bwysig yn ystod y misoedd sydd i ddod yw'r dadansoddiad o'r adroddiad a'r datblygiadau y byddwch yn eu cyhoeddi i'r Cynulliad.

17:06

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister for Health and Social Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ymateb i'r ddadl.

17:06

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Between 1 April 2012 and March 2013, even in a long and difficult winter, 101,253 patients in Wales received a response from the Welsh ambulance service within eight minutes. That was 31,000 more than in 2006-07; a 44% increase. That figure of 101,253 people receiving a response within eight minutes represents a higher percentage of the total number of ambulance journeys than the 70,000 people who received such a response back in 2006-07. So, we do not want to get the idea that, somehow, the Welsh ambulance service has made no progress of any sort in the last 14 years. The problem that faces the ambulance service is that it has been running very hard even to stand still against a hill of rising demand. This debate has been helpful in identifying some emerging areas of consensus for the future so that we can go on helping the ambulance service to do better still in the future.

Rhwng 1 Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013, hyd yn oed mewn gaeaf hir ac anodd, derbyniodd 101,253 o gleifion yng Nghymru ymateb gan wasanaeth ambiwlans Cymru o fewn wyth munud. Roedd hynny 31,000 yn fwy nag yn 2006-07; cynnydd o 44%. Mae'r ffigur o 101,253 o bobl a dderbyniodd ymateb o fewn wyth munud yn cynrychioli canran uwch o gyfanswm y siwrneiau ambiwlansys na'r 70,000 o bobl a dderbyniodd ymateb o'r fath yn ôl yn 2006-07. Felly, ni ddylid cael y syniad, rhywsut, nad yw gwasanaeth ambiwlans Cymru wedi symud ymlaen o gwbl yn y 14 mlynedd diwethaf. Y broblem sy'n wynebu'r gwasanaeth ambiwlans yw ei fod wedi gorfod rhedeg yn galed iawn hyd yn oed i sefyll yn llonydd yn wyneb llethr o alw cynyddol. Mae'r ddadl hon wedi bod yn ddefnyddiol o ran nodi rhai meysydd o gonsensws sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyfodol, fel y gallwn barhau i helpu'r gwasanaeth ambiwlans i wneud yn well fyth yn y dyfodol.

Darren Millar began by expressing strong support for a focus on the ambulance service as an emergency clinical service deliberately planned as part of the wider unscheduled care agenda, which is closely linked, as David Rees went on to say, not only to primary but secondary care services as well.

Dechreuodd Darren Millar drwy fynegi cefnogaeth gref dros ganolbwyntio ar y gwasanaeth ambiwlans fel gwasanaeth clinigol brys a gynlluniwyd yn friadol fel rhan o'r agenda ehangach gofal heb ei drefnu, sydd â chyswllt agos, fel yr aeth David Rees ymlaen i ddweud, nid yn unig â gwasanaethau gofal sylfaenol ond â gofal eilaidd yn ogystal.

17:07

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gan gyfeirio'n ôl at y ffaith bod yna well ymateb ond bod y galw yn cynyddu, a allwch chi esbonio pam mae'r galw yn cynyddu mor aruthrol o flwyddyn i flwyddyn?

Going back to the fact that there is improved response but that demand is increasing, can you explain why the demand is increasing so dramatically from year to year?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:08

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n anodd esbonio pam mae'r twf wedi bod. Nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio ar y pwynt hwnnw. Mae nifer o resymau y mae pobl yn gallu eu defnyddio i geisio ei esbonio ond, i ddweud y gwir, nid oes digon o amser gennyf i fynd trwyddynt yn awr. Mae'r pwynt yn un pwysig; mae'n anodd deall y darlun i gyd.

It is difficult to explain the increase. The report does not focus on that point. People can use a number of reasons to try to explain it, but, to be honest, I do not have the time to go through them all now. The point is important; it is difficult to understand the whole picture.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

So, the point that I was making was about the need for the service to be linked to primary and secondary care and, as Rhodri Glyn Thomas and a number of other contributors also mentioned, to make close links with patterns of service reform that are currently being carried out within the NHS. Kirsty Williams identified a number of important points in the report and in the response that we need to make to it. We heard her views about clinical leadership, about staff and the need to invest in staff—whether it be via an academy, and the need to make sure that such an academy is accessible to people in all parts of Wales. The report says that there is difficulty in persuading people to come forward to be trained for the higher levels of paramedic skills. That is partly to do with the culture that there has been in the ambulance service. We have to address that, so that when those people have the skills, we need to give them the authority to exercise them.

Felly, roedd y pwynt yr oeddwn yn ei wneud yn ymwneud â'r angen i'r gwasanaeth fod yn gysylltiedig â gofal sylfaenol ac eilaidd, ac fel y soniodd Rhodri Glyn Thomas a nifer o gyfranwyr eraill hefyd, i wneud cysylltiadau agos â phatrymau'r diwygiadau sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflwyno i wasanaethau o fewn y GIG. Nododd Kirsty Williams nifer o bwyntiau pwysig yn yr adroddiad ac yn yr ymateb y mae angen inni ei wneud iddo. Rydym wedi clywed ei barn am arweinyddiaeth glinigol, am staff a'r angen i fuddsoddi mewn staff—boed hynny drwy academi, a'r angen i wneud yn siŵr bod academi o'r fath yn hygyrch i bobl ym mhob rhan o Gymru. Mae'r adroddiad yn dweud ei bod yn anodd darbwyllo pobl i ddod ymlaen i gael eu hyfforddi ar gyfer sgiliau parafeddygol ar lefelau uwch. Mae hynny'n ymwneud yn rhannol â'r diwylliant sydd wedi bod yn y gwasanaeth ambiwlans. Mae'n rhaid i ni roi sylw i hynny, a phan fydd y sgiliau gan y bobl hynny, mae angen i ni roi'r awdurdod iddynt i'w hyrmarfer.

I am grateful for what people have said about targets and the need to have intelligent, clinically driven targets in the future, while making sure that there is comparability across place and time. It has been useful to see that there is a broad area of agreement around the future need to separate patient transport—important though it is—from emergency clinical work. I listened carefully to what Elin Jones said about structures and options. However, the report does not come to a clear conclusion. Any one of those options has pluses as well as minuses to be said for them and I hope that we will be able to carry on discussing some of that over the next few weeks.

Rwyf yn ddiolchgar am yr hyn y mae pobl wedi'i ddweud am dargedau a'r angen i gael targedau deallus, sy'n cael eu sbarduno gan ofynion clinigol yn y dyfodol, gan wneud yn siŵr bod modd cymharu ar draws gwahanol leoedd ac amseroedd. Mae wedi bod yn ddefnyddiol gweld bod cytundeb eang ynghylch yr angen i wahanu trafniadaeth cleifion—er mor bwysig yw hynny—oddi wrth waith clinigol brys yn y dyfodol. Gwrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Elin Jones am strwythurau ac opsiynau. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad yn dod i gasgliad clir. Mae gan unrhyw un o'r opsiynau hynny bwyntiau cadarnhaol yn ogystal â negyddol y gellir eu dweud amdanynt ac rwyf yn gobeithio y byddwn yn gallu parhau i drafod rhywfaint ar hynny yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

Even when we know what we want to achieve, implementing decisions will involve practical and legal complexity, which will have a shaping impact on decision making. Those complexities will have to be navigated against the compelling need to sustain our ambulance service through what will inevitably be a difficult process of change. That is the phase on which we have now embarked, and I am very grateful to all of those whose contributions to this debate this afternoon will have helped to make that happen.

Hyd yn oed pan fyddwn yn gwybod beth yr ydym am ei gyflawni, bydd cymhlethdodau ymarferol a chyfreithiol ynghlwm wrth weithredu'r penderfyniadau hyn, a chaiff hynny effaith sy'n llywio'r penderfyniadau a wneir. Bydd yn rhaid ymdrin â'r cymhlethdodau hynny ochr yn ochr â'r angen dybryd i gynnal ein gwasanaeth ambiwlans drwy'r hyn a fydd yn anochel yn broses anodd o newid. Dyna'r cam yr ydym bellach wedi dechrau arno, ac rwyf yn ddiolchgar iawn i bob un y bydd eu cyfraniadau at y ddadl y prynhawn yma yn helpu i wneud i hynny ddigwydd.

17:10

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant.*

*Amendment agreed.*

17:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that there is objection. Therefore, I will defer all further voting on this item until voting time.

Y cynnig yw a ddylid derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, byddaf yn gohirio pob pleidlais arall ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Before I proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn inni symud ymlaen â'r pleidleisiau, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i NDM5229.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i NDM5229.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i NDM5229.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

Cynnig NDM5229 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu bod yn rhaid i unrhyw ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus hwyluso'r broses bontio rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych ar sut y gallwn integreiddio'r gwasanaethau hynny yn well o fewn strwythur cyflenwi democrataidd ac atebol.

2. Yn credu bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn rhan hanfodol o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfres o safonau cenedlaethol ar arfer gorau o ran ymgysylltu rhwng cymunedau a chyrrff cyhoeddus.

3. Yn nodi'r Agenda Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

4. Yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn agored ac yn atebol am ddiwygio'r gwasanaeth sifil a'i berfformiad o ran datblygu a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

## Voting Time

[Result of the vote on amendment 4 to NDM5229.](#)

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 9.*

[Result of the vote on amendment 5 to NDM5229.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 6 to NDM5229.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

Motion NDM5229 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Believes that any public service reform must make the transition between health care and social care easier and calls on the Welsh Government to look at how we can better integrate those services within a democratic and accountable delivery structure.

2. Believes that public engagement is an essential part of the reform of public services and calls on the Welsh Government to develop a set of national standards for best practice in engagement between communities and public bodies.

3. Notes the Public Service Reform Agenda in Wales.

4. Expects the Welsh Government to be open and accountable for civil service reform and performance in the development and delivery of public services.

5. Yn cydnabod pwysigrwydd cydweithio effeithiol rhwng y sector annibynnol, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

6. Yn nodi pwysigrwydd gwybodaeth leol a chynnwys y gymuned o ran datblygu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon a phriodol.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau ei bod yn monitro cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn effeithiol ac yn darparu'r canllawiau priodol ac amserol i'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5229 fel y'i diwygiwyd:](#)

*Derbyniwyd cynnig NDM5229 fel y'i diwygiwyd: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnis NDM5230.](#)

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 22, Yn erbyn 28, Ymatal 5.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

[Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnis NDM5230.](#)

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 46, Yn erbyn 0, Ymatal 9.*

Cynnig NDM5230 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi â phryder:

5. Recognises the importance of effective collaboration between the independent, public and third sector in designing and delivering public services in Wales.

6. Notes the significance of local knowledge and community involvement in developing efficient and appropriate public services.

7. Calls on the Welsh Government to ensure they effectively monitor public service delivery in Wales and provide the appropriate and timely guidance to public, private and third sectors.

[Result of the vote on NDM5229 as amended:](#)

*Motion NDM5229 as amended agreed: For 46, Against 0, Abstain 9.*

[Result of the vote on amendment 2 to NDM5230.](#)

*Amendment not agreed: For 22, Against 28, Abstain 5.*

[Result of the vote on amendment 3 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 4 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 5 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 6 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 7 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 8 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

[Result of the vote on amendment 9 to NDM5230.](#)

*Amendment agreed: For 46, Against 0, Abstain 9.*

Motion NDM5230 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Notes with concern that:



- a) er gwaethaf cynnal naw adolygiad mewn chwe blynedd, Cymru sydd â'r amseroedd ymateb isaf yn y DU o hyd;
- a) despite holding nine reviews in six years, Wales still has the lowest response times in the UK;
- b) nid yw'r targed o wyth munud ar gyfer Cymru gyfan wedi'i gyrraedd am y deg mis diwethaf;
- b) the all-Wales eight minute target has not been achieved for the past ten months;
- c) mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod ambiwlansys Cymru, ym mhob ardal awdurdod lleol, wedi methu cyrraedd targedau amseroedd ymateb cenedlaethol ar gyfer galwadau lle y mae bywyd yn y fantol;
- c) latest statistics show Wales' ambulances have failed to meet national response time targets for life-threatening calls in every local authority area;
- d) nid yw'r targed o 95% ar gyfer derbyn, trosglwyddo neu rhyddhau cleifion newydd mewn cyfleusterau gofal brys o fewn pedair awr iddynt gyrraedd erioed wedi'i gyflawni;
- d) the 95% target for the admission, transfer or discharge of new patients in emergency care facilities within four hours of arrival has never been met;
- e) mae ambiwlansys wedi treulio bron 55,000 awr yn aros y tu allan i ysbytai Cymru yn y chwe mis diwethaf;
- e) ambulances have spent almost 55,000 hours waiting outside Welsh hospitals in the last six months;
- f) mae adroddiad perfformiad diweddaraf Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn dangos iddi gyflawni 56.9% yn unig o ran trosglwyddo cleifion o fewn 15 munud, yn erbyn y targed cenedlaethol o 95%.
- f) the Welsh Ambulance Service Trust's latest performance report shows it only achieved 56.9% of patient handovers within 15 minutes, against the national target of 95%.
2. Yn nodi bod Adolygiad yr Athro Siobhan McClelland o Wasanaethau Ambiwllans Cymru wedi'i gyhoeddi;
2. Notes the publication of Professor Siobhan McClelland's Review of Welsh Ambulance Services;
3. Yn nodi'r 12 argymhelliad a gynigir gan yr Athro McClelland;
3. Notes the 12 recommendations proposed by Professor McClelland;
4. Yn cydnabod bod angen:
4. Recognises the need to:
- a) cytuno ar weledigaeth glinigol ar gyfer Gwasanaethau Ambiwllans Cymru;
- a) agree a clinical vision for Welsh Ambulance Services;
- b) sefydlu amserlen glir ar gyfer cytuno ar fodel newydd o gyflenwi gwasanaethau ambiwlans a'i weithredu;
- b) establish a clear timetable for the agreement and implementation of a new model of ambulance service delivery;
- c) rhoi amser i unrhyw fodel ar gyfer cyflenwi gwasanaethau ambiwlans yn y dyfodol aeddfedu.
- c) give time for any future model of ambulance service delivery to mature.
5. Yn cydnabod bod y methiannau systematig o ran gofal heb ei drefnu yn cael effaith sylweddol ar berfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru ac felly'n effeithio'n andwyol ar ganlyniadau i gleifion.
5. Recognises that the systematic failings in unscheduled care significantly impacts on the performance of the WAST and therefore adversely effects outcomes for patients.
6. Yn nodi ym mis Mawrth 2013 mai 53% yn unig o alwadau Categori A a gafodd ymateb o fewn wyth munud, y ffigur isaf ers mis Rhagfyr 2010 ac nad yw targed Llywodraeth Cymru o 65% ar gyfer galwadau Categori A wedi'i gyrraedd am ddeg mis yn olynol.
6. Notes that in March 2013, only 53% of Category A calls received a response within 8 minutes, the lowest figure since December 2010 and that the Welsh Government's 65% target for Category A calls has not been hit for ten successive months.
7. Yn nodi y cafwyd o leiaf 13 o adolygiadau neu archwiliadau i'r gwasanaethau a gyflenwir gan Wasanaethau Ambiwllans Cymru ers 2006 ac yn gresynu nad yw canlyniad yr adolygiadau hyn wedi'u gweithredu'n llawn.
7. Notes that there have been at least 13 reviews or audits into the delivery of services by the Welsh Ambulance Service since 2006 and regrets that the outcome of these reviews have not been fully implemented.

8. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau cyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adolygiad a sicrhau bod unrhyw fodel o'r gwasanaethau ambiwlans yn y dyfodol yn cael ei strwythuro er budd cleifion a staff.

8. Calls on the Welsh Government to take swift action to address the issues raised in the review and ensure any future model of the ambulance service is structured in the best interests of patients and staff.

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn cael cyllid priodol i sicrhau gwasanaethau ambiwlans effeithlon a chadarn.

9. Calls on the Welsh Government to ensure the Welsh Ambulance Service receives appropriate funding to ensure an efficient and robust ambulance service.

10. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu targedau ychwanegol sy'n canolbwyntio fwy ar brofiad y cleifion a'r canlyniadau iddynt a chyhoeddi adroddiad perfformiad Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn cynnwys cerdyn sgorio perfformiad allweddol misol y weithrediaeth.

10. Calls on the Welsh Government to develop additional targets with a greater focus on patient experience and outcomes and to publish the Welsh Ambulance Trust performance report including the monthly executive key performance scorecard.

[Canlyniad y bleidlais ar NDM5230 fel y'i diwygiwyd:](#)

[Result of the vote on NDM5230 as amended:](#)

*Derbyniwyd cynnig NDM5230 fel y'i diwygiwyd: O blaid 55, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5230 as amended agreed: For 55, Against 0, Abstain 0.*

17:15

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd ein trafodion heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 p.m.

The meeting ended at 5.15 p.m.